

# RHAGYMDRODD

## ‘Best of a bad bunch’?

Bardd, yn anad dim arall, oedd Iwan Llwyd.

Disgrifiwyd Iwan mewn amryw o wahanol ffyrdd dros y blynyddoedd. Cafodd y teitl ‘bardd mawr ei genhedlaeth’ gan Robert Rhys mewn adolygiad yn 1998,<sup>1</sup> a’i ddyrchafu drachefn gan Dafydd Morgan Lewis a ddywedodd nad oedd ei bumed gyfrol, *Be ‘di blwyddyn rhwng ffrindia?*, ‘ond yn cadarnhau safle Iwan Llwyd fel pennaf fardd ei genhedlaeth yng Nghymru’.<sup>2</sup> Disgrifiwyd ef gan Llion Jones yn ‘fardd *sans frontière*’,<sup>3</sup> a chan Alan Llwyd fel ‘Bardd Aflonydd y Lonydd’;<sup>4</sup> i Peredur Lynch, ef oedd ‘bardd yr is-destun parhaus’.<sup>5</sup> Ond nid mor ddyrchafol oedd pob disgrifiad ohono chwaith, ac Alan Llwyd wedi ei fedyddio ‘best of a bad bunch’, gan gyfeirio at y to o feirdd ‘Answyddogol’ a oedd yn codi yn ystod y 1980au.<sup>6</sup> Cofia Emyr Lewis ef yn digio o gael ei alw yn ‘honedig brifardd’ ac yn mynnu, ‘Dwi yn brifardd [...] Mae gen i goron i brofi hynny’.<sup>7</sup>

Dywedodd Tudur Dylan yn wylaidd un tro fod ‘rhywbeth ymhonus [sic] iawn mewn galw dy hun yn fardd’,<sup>8</sup> ond nid felly y gwelai Iwan bethau, fel y tystia Emyr Lewis:

Roedd Iwan yn fardd, doedd dim amau hynny. Ac mi roedd yn falch o hynny. Ni pherthynai iddo’r duedd i fod yn ddiymhongar am y ffaith hon, yr alwedigaeth hon. Cyhoeddai hynny’n llafar, a thaerai hynny hefyd am y rhai a gadwai gwmni iddo: “Dan ni’n feirdd’ byddai ei sylw ar bob math o achlysuron.”<sup>9</sup>

---

<sup>1</sup> Robert Rhys, ‘Bardd mawr ei genhedlaeth’, *Barn*, 419-20 (Ionawr 1998), t. 72.

<sup>2</sup> Dafydd Morgan Lewis, ‘Bardd ei genhedlaeth’, *Barn*, 484 (Mai 2003), t. 46.

<sup>3</sup> Llion Jones, ‘Bardd Sans *Frontière*’, *Taliesin*, 102 (Haf 1998), t. 113.

<sup>4</sup> Alan Llwyd, ‘Bardd Aflonydd y Lonydd’, *Barddas*, 246 (Mai/Mehefin 1998), t. 37.

<sup>5</sup> Peredur Lynch, ‘Y Beirdd Gwâr a Blin’, *Barn*, 360-1 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 91.

<sup>6</sup> Dyfynnwyd gan Meirion MacIntyre Huws mewn clip sain ar y wefan [http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_8710000/newsid\\_8712500/8712543.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_8710000/newsid_8712500/8712543.stm) (Cyrchwyd: 7/2/16), a chan Alan Llwyd ei hun mewn cyfweiliad ar y rhaglen deledu *Iwan Llwyd, rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul* (Teleg, Darlledwyd: 9/3/14). Mae’n debyg mai mewn sgwrs â Robert Rhys y dywedodd Alan Llwyd y geiriau hyn, ac i’r geiriau gyrraedd clust Iwan.

<sup>7</sup> Emyr Lewis, ‘Gŵr ifanc yw Tjuringa’, *Iwan, ar Daith*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2010), t. 57.

<sup>8</sup> ‘Y Bardd Anfodlon’, *Golwg* (24 Awst 1995), t. 17.

<sup>9</sup> Emyr Lewis, ‘Gŵr ifanc yw Tjuringa’, t. 57.

Ond er mai dyna ei brif alwedigaeth, roedd o'n llawer mwy na hynny hefyd. Roedd yn golofnydd, yn ddramodydd, yn addysgwr, yn chwaraewr gitâr fas, yn deithiwr ac yn ddiddanwr. Dathliad o gyfraniad Iwan i'r diwylliant Cymraeg ac i barhad y diwylliant hwnnw a geir yn yr astudiaeth hon o'i waith.

Roedd galw Iwan yn 'fardd ei genhedlaeth' yn dipyn o ddweud ac yntau'n perthyn i do mor ddisglair o feirdd, a rhai fel Myrddin ap Dafydd a Twm Morys yn eu plith, ond ni wadodd neb ddilysrwydd y datganiad. Yn hytrach, ailadroddwyd y sylw mor aml – ac ategodd rhai fel Guto Dafydd y dyrchafiad gan honni mai 'Iwan Llwyd yw prif athrylith barddol ei genhedlaeth'<sup>10</sup> – nes i'r disgrifiad gael ei hoelio wrth enw Iwan a neb arall. Beth oedd yn gwneud Iwan yn wahanol i weddill y beirdd, felly? Beth a'i gwnaeth yn fardd ei genhedlaeth? Roedd yn sicr yn fardd toreithiog ac wyth cyfrol o farddoniaeth dan ei het, heb sôn am y cyfrolau eraill y cyfrannodd atynt, fel *Eldorado*, y gyfrol a gyhoeddodd ar y cyd â Twm Morys, *Bol a Chyfri Banc*, *Syched am Sycharth* a chyfrolau'r *Cywyddau Cyhoeddus*. Ond rhaid wrth fwy na nifer o gyfrolau er mwyn haeddu'r fath enw.

Cafodd Iwan benrhyddid i fyw bywyd bardd, i deithio fel y mynnai, i ysgrifennu fel y mynnai, ac i wneud bywoliaeth fel bardd llawn amser yn cynnal gweithdai a nosweithiau ac yn ysgrifennu colofnau i amryw gylchgronau. Roedd barddoniaeth yn fwy na diddordeb ganddo; roedd yn ffordd o fyw, fel ag yr oedd i'r Cywyddwyr ar eu teithiau clera. A dyna ddod at elfen arall a gododd Iwan uwchlaw rhai o'i gymheiriaid, sef yr ymwybyddiaeth ddofn o'r traddodiad barddol a oedd mor bwysig iddo. Roedd yn hyddysg iawn yng ngwaith y Cywyddwyr, a threiddiodd delwedd, swyddogaethau a cherddi'r Cywyddwyr i'w fêr nes dod yn rhan naturiol o'i gymeriad. Gwelai debygrwydd mewn manau rhwng dyletswyddau Beirdd yr Uchelwyr a beirdd heddiw: rhaid oedd teithio a chyrchu cynulleidfa, roedd cofnodi digwyddiadau o bwys yn bwysig, a rhaid oedd ysgrifennu yn ôl gofynion y cyfnod.

Roedd y ffaith iddo sylwi ar ddyletswyddau bardd, a sôn cymaint am ei weledigaeth ar gyfer barddoniaeth Gymraeg mewn gwahanol ysgrifau hefyd yn ei ddyrchafu uwchlaw'r

---

<sup>10</sup> Guto Dafydd, 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 41.

rhelyw. Nid siarad gwag oedd yr holl sôn am syniadau a swyddogaethau; âi Iwan ati'n ymarferol i gyflawni ei rôl fel bardd. Credai fod i farddoniaeth rym, ond cyn i gerddi allu cael unrhyw effaith roedd yn rhaid llusgo barddoniaeth i ganol cymdeithas a'i gwneud yn beth perthnasol, cyfoes a deniadol i bobl, ac roedd Iwan yn rhan ganolog o'r ymdrech i boblogeiddio barddoniaeth ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Coleddai syniadau pendant ynghylch gwleidyddiaeth a diwylliant Cymru hefyd, a chredai fod gan farddoniaeth y gallu i gynorthwyo, a'r cyfrifoldeb i adlewyrchu, unrhyw ddatblygiadau yn y meysydd hynny. Yr hyn y gwelwn Iwan yn ei wneud ar hyd ei yrfa farddol yw canu Cymru newydd i fodolaeth, ac unwaith i'r Gymru newydd honno sadio yn ystod y 1990au dechreuodd fyw bywyd Cymro a oedd yn ymbaratoi ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae fel petai'n ymlacio rhywfaint, yn 'diosg bathodynau / a byw'.<sup>11</sup>

Gellir ystyried Iwan yn fardd ei genhedlaeth hefyd yn yr ystyr fod ei gyfeiriadaeth a'i bynciau yn rhai cyfoes a pherthnasol i'w genhedlaeth ei hun. Ar gychwyn ei yrfa farddol, daliodd naws cyfnod o wasgfa economaidd, lle roedd prinder swyddi yn beth cyfarwydd i raddedigion o'r un oed ag ef, a lle roedd delfrydau am Gymru ddatganoledig wedi pylu. Aeth yn ei flaen i gofnodi'r frwydr drwy dwnnel tywyll y 1980au, a dod allan yn y pen arall yn ysgafnach wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bron nad yw darllen barddoniaeth Iwan fel darllen cydymaith i lyfr hanes; yn hytrach na nodi ffeithiau, dyddiadau a ffigyrau, mae'n crisialu naws cyfnod o safbwynt y lleiafrif dioddefus. Mae'r gyfeiriadaeth yng ngherddi Iwan hefyd yn aml yn adlewyrchiad o gyfnod penodol; mae'n lled-ddyfynnu Bob Dylan, Bruce Springsteen, a Dylan Thomas, ac mae ôl ffilmiau Americanaidd, ffilmiau cowbois a'r *road movies* ar rai o'i gerddi. Trafododd Twm Morys rywfaint ar y gyfeiriadaeth ym marddoniaeth Iwan, a'r cyfeiriadau at y diwylliant Americanaidd yn arbennig, ond nid dyna'r unig fath o gyfeiriadaeth sy'n ymguddio ynddi:

... Robert Leroy Johnson yn 'Yn gawdel mewn glas' ac 'Ar y groesffordd'; Dylan Thomas yn 'Talacharn,' 'Marwnad' a 'Richard Jenkins'; Ceiriog yn 'Soar y Mynydd'; y Beibl ym mhob man ... Mae barddoniaeth Iwan, i'r sawl sydd â thrydedd glust, fel

---

<sup>11</sup> Iwan Llwyd, 'Best of a bad bunch', *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), t. 124.

petai, i glywed, fel llond coed yn canu o adar. Ond y pwynt pwysig ydi hyn: hyd yn oed i'r sawl nad ydi o'n clywed yr adar i gyd, mae'r coed yn ogoneddus.<sup>12</sup>

Y gorgyffwrdd a'r tyndra rhwng gwahanol draddodiadau a diwylliannau, rhwng yr hen a'r newydd, rhwng y Cymreig a'r anghymreig, a wnaeth Iwan yn fardd mor nodedig. Archwilio'r tyndra, y dylanwadau, a datblygiad ei themâu a wneir yn y penodau sydd i ddilyn.

Un o'r dylanwadau cyson hynny sy'n dod i'r amlwg bob hyn a hyn yw dylanwad T. H. Parry-Williams ar Iwan, ac mae hynny'n arwyddocaol o gofio am Parry-Williams fel un o'r rhai prin a gofleidiodd foderniaeth yng Nghymru yn nechrau'r ugeinfed ganrif. Fel Iwan, roedd Parry-Williams yn flaengar ei agwedd tuag at lenyddiaeth Gymraeg, ac am iddi symud yn ei blaen gyda'r oes. O'r cyfnod cynharaf pan ddechreuodd Iwan ymhél â barddoniaeth yn Ysgol Uwchradd Friars ym Mangor tan gyfnod ei farddoniaeth aeddfetach, ei deithiau i America a'i gyfrol olaf o sonedau, mae ôl T. H. Parry-Williams i'w weld. Ym Medi 2003, bu Iwan ac Elwyn Williams yn gyfrifol am noson gerddorol a oedd yn cylchdroi o amgylch cerddi'r bardd o Ryd-ddu fel rhan o benwythnos T. H. Parry-Williams a gynhaliwyd gan yr Academi Gymreig.<sup>13</sup> Ac yn 2009, bu Iwan a Twm Elias yn arwain taith gerdded ar gyfer gŵyl a ddathlai fro a bywyd T. H. Parry-Williams a'i gefnder, R. Williams Parry.<sup>14</sup> Bardd arall a fu'n ddylanwad ar Iwan, fel y gwelwn yn y bennod gyntaf, oedd Waldo, ac mae'n ddifyr iddo gyfeirio at Waldo a Parry-Williams yn yr un gwynt wrth iddo sôn am y syniad o orgyffwrdd rhwng gwahanol gyflyrau, syniad yr oedd ef ei hun mor hoff ohono:

Mae'r elfen yma o ddeuoliaeth, o fynd i un cyfeiriad ac yna camu'n ôl i gyfeiriad arall, yn amlwg iawn yng ngwaith T. H. Parry-Williams, yr arch-amheuwyr, ac yn y gerdd a drafodwyd o waith Waldo, 'O Bridd', unwaith eto ceir dau gyflwr yn gyfochrog â'i gilydd, y pridd budr, clwyfedig, a rhew pur, dilychwin Kerguelen. Y tywyllwch a'r goleuni wedyn yng ngwaith John Meirion Morris, y ffin denau honno rhwng dagrau a llawenydd.<sup>15</sup>

---

<sup>12</sup> Twm Morys, 'Felly Iwan: rhai agweddau ar gyfeiriadaeth, delwedd a gair mwys ym marddoniaeth Iwan Llwyd', *Awen Iwan*, tt. 88-9.

<sup>13</sup> [http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_3100000/newsid\\_3100800/3100810.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3100000/newsid_3100800/3100810.stm) (Cyrchwyd: 5/2/16).

<sup>14</sup> [http://news.bbc.co.uk/local/northwestwales/hi/people\\_and\\_places/arts\\_and\\_culture/newsid\\_8333000/8333700.stm](http://news.bbc.co.uk/local/northwestwales/hi/people_and_places/arts_and_culture/newsid_8333000/8333700.stm) (Cyrchwyd: 5/2/16).

<sup>15</sup> Iwan Llwyd, 'Penwythnos yn Annwfn', *Barddas*, 291 (Chwefror/Mawrth 2007), t. 46.

Daw'r ddeuliaeth y sonnir amdani uchod yn arbennig o amlwg yn y bennod olaf lle trafodir ei gerddi taith, sy'n ffrwyth teithiau i wledydd tramor ac o amgylch Cymru. Mae'n dotio at fawredd pethau yn America, at yr elfen *global* sy'n perthyn i'r lle, ac at y diwylliannau brodorol sy'n ymylol i guriad roc-a-rôl y dinasoedd. Ar un llaw mae'n mwynhau 'y wefr o fod yn nabod neb',<sup>16</sup> ond ar y llaw arall mae'n pwysleisio pwysigrwydd cadw hen enwau Cymraeg a phwysigrwydd adnabod y tir o dan ein traed yng Nghymru. Rhydd werth hefyd ar berthyn i hen draddodiad barddol Cymru, ac ar wybod hanes Cymru a hanes ardaloedd yng Nghymru. Roedd yn ymdeimlo i'r byw â brwydr yr iaith; wrth weld yr Eisteddfod fel rhyw fath o Ynys Gwales i'r Gymraeg, agorodd Iwan y drws gan ddweud: 'Tra 'dwi'n sgwennu'r erthygl hon mae'r iaith yn marw'.<sup>17</sup> Roedd Cymru a'r Gymraeg yn ei ddiffinio, hyd yn oed os nad oedd yr holl gysylltiadau ystrydebol a oedd ynghlwm wrth y ddwy yn rhan o'i gymeriad.

Dylanwad mawr arall ar Iwan, wrth gwrs, oedd America. Cafodd ei ddylanwadu gan arddull y blws ac arddull beirdd Beat America, a chrybwyllwyd eisoes y cyfeiriadau yn ei gerddi at ganeuon Bob Dylan, Bruce Springsteen a Robert Leroy Johnson. Nid oes ond rhaid darllen *Dan Ddylanwad* a sylwi ar deitl y gyfrol er mwyn canfod prawf o faint dylanwad America ar Iwan. Roedd cydweithio ag artistiaid eraill o wahanol ddisgyblaethau ac o wahanol gefndiroedd hefyd yn ei ysgogi. Roedd creadigrwydd o un math yn gallu esgor ar greadigrwydd o fath gwahanol. Awgrymodd Elwyn Williams fod 'amynedd creadigol' Iwan yn isel, ac mai goresgyn hynny a wnâi wrth gydweithio â phobl greadigol eraill, a bod hynny'n porthi ei egni creadigol ei hun.<sup>18</sup> Mae cyfrolau Iwan, sy'n aml yn gywaith rhwng bardd ac arlunydd neu ffotograffydd, cerddi'r teithiau barddol, cerddi a ysgrifennodd yn ymateb i arddangosfeydd, a geiriau caneuon a ysgrifennodd, i gyd yn gynnyrch cydweithio a rhannu egni creadigol.

Astudiaeth o farddoniaeth Iwan yw hon, ond amhosib yw darllen ei gerddi'n fanwl heb gadw mewn cof ei alwedigaethau eraill; roedd ei rôl fel colofnydd, fel ysgrifennwr geiriau caneuon a diddanwr i gyd yn plethu ynghyd. Wrth droi at y cynnyrch a ddaeth yn sgil

---

<sup>16</sup> Iwan Llwyd, 'Far Rockaway', *Dan Ddylanwad*, t. 17.

<sup>17</sup> Iwan Llwyd, 'Gwyliau ar Ynys Gwales', *Barddas*, 268 (Gorffennaf/Awst 2002), t. 52.

<sup>18</sup> Gohebiaeth rhyngof ac Elwyn Williams (27/08/15).

y swyddogaethau hyn, a phori drwy ei gyfraniadau niferus sydd wedi eu cyhoeddi mewn cyfrolau a chylchgronau neu wedi eu rhyddhau ar gasét neu CD, mae modd canfod agweddau gwahanol ar gymeriad Iwan a goleuo nifer o'i gerddi, a dyna un o amcanion y thesis hwn.

Dechreuodd Iwan gyfrannu cerddi ac ysgrifau i amryw gylchgronau ddechrau'r 1980au. Y gerdd gyntaf ganddo a welwyd mewn cylchgrawn cenedlaethol oedd 'Y Lefiaid', a hynny yn *Y Faner* yn 1980;<sup>19</sup> dilynwyd hi yn 1981 gan adolygiad ar gyfansoddiadau'r Eisteddfod Ryng-golegol.<sup>20</sup> Yn 1982, cyhoeddwyd erthygl a ysgrifennwyd ar y cyd gan Iwan a Wiliam Owen Roberts yn *Llais Llyfrau*, a dyna ddechrau herio'r traddodiad, ysgwyd seiliau llenyddiaeth Gymraeg, a dangos lliwiau'r to newydd o lenorion a oedd yn codi.<sup>21</sup> Ysgrifennodd y ddau ail erthygl a'i chyhoeddi yn *Y Faner* yn 1984,<sup>22</sup> ond roedd Iwan eisoes wedi bod yn cyfrannu ambell erthygl fer i'r *Faner* yn sôn mwy am y syniadau eiconoclastig a oedd ganddo ef a Wiliam Owen Roberts neu'n trafod cyflwr y theatr yng Nghymru.<sup>23</sup>

Gwelwyd un o'i gerddi am y tro cyntaf yng nghylchgrawn *Barddas* yn 1983, cerdd sydd bellach yn adnabyddus i genedlaethau o fyfyrwyr TGAU a astudiodd '11.12.82',<sup>24</sup> a chyfrannodd ei ysgrif gyntaf i'r cylchgrawn yn 1984 lle trafoda farddoniaeth R. Williams Parry.<sup>25</sup> Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, cyhoeddwyd 'Cyfarwyddyd Newydd', ysgrif sy'n sôn yn ymarferol am gyfeiriad newydd i farddoniaeth Gymraeg.<sup>26</sup> Ysgrifennodd ambell adolygiad i'r cylchgrawn yn ystod y blynyddoedd wedyn, ac yn 1993 gwahoddwyd ef i gyfrannu ysgrif i'r 'Golofn Wadd'.<sup>27</sup> Daeth i ddeall yn sydyn sut roedd ysgrifennu'n ddifyr, ac roedd ganddo lawer o syniadau i'w gwyntyllu a gwybodaeth i'w rhannu; y cyfuniad hwnnw

---

<sup>19</sup> *Y Faner* (31 Hydref 1980), t. 20.

<sup>20</sup> 'Yr Eisteddfod Ryng-golegol – 1981', *Y Faner* (27 Mawrth 1981), t. 6.

<sup>21</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), tt. 10-11.

<sup>22</sup> Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), tt. 6-7.

<sup>23</sup> Llythyr gan Iwan yn ymateb i adolygiad drama, *Y Faner* (5 Mawrth 1982), t. 3; Iwan Llwyd, 'Nid niwlogrwydd na Thraddodiad Marwol', *Y Faner* (10 Mehefin 1983), t. 11; Iwan Llwyd, 'Ceidwadaeth Ystyfnig ein Beirdd "Cyfoes"', *Y Faner* (8 Mehefin 1984), t. 2; Iwan Llwyd, 'Myth y Brifwyl Anwleidyddol', *Y Faner* (5 Hydref 1984), t. 9; Iwan Llwyd, 'Addysg Aml-ddiwylant yng Nghymru', *Y Faner* (2 Tachwedd 1984), t. 6.

<sup>24</sup> *Barddas*, 70 (Ionawr 1983), t. 3.

<sup>25</sup> Siôn Aled, Iwan Llwyd, a Rhys Dafis, 'Barn y Dyfodol Pell', *Barddas*, 83-4 (Mawrth/Ebrill 1984), t. 10.

<sup>26</sup> Iwan Llwyd, 'Cyfarwyddyd Newydd', *Barddas*, 99-100 (Gorffennaf/Awst 1985), t. 24.

<sup>27</sup> Iwan Llwyd, 'Pa Bris Tawelwch?', *Barddas*, 198 (Hydref 1993), t. 19.

a'i gwnaeth yn gystal ysgrifwr. Nid pawb a feddai ar y ddawn, fel y sylweddolodd Geraint Lovgreen wedi iddo gytuno i fod yn golofnydd i gylchgrawn *Barn* cyn rhoi'r gorau iddi ar ôl dim ond dau gyfraniad. Er na lwyddodd Geraint Lovgreen i ddweud rhyw lawer mewn dwy ysgrif yn unig, fe drawodd yr hoelen ar ei phen wrth ddisgrifio'r dasg a oedd yn wynebu colofnydd llwyddiannus:

Mae colofn dda yn grefftwaith, yn gampwaith celfyddydol, yn berl fach o lenyddiaeth, ac yn gallu tanio dychymyg ac aros yn y cof am amser maith.<sup>28</sup>

Dechreuodd 'Colofn Iwan' yn *Barddas* ym mis Mawrth 1994 gyda'r bwriad o fod yn golofn ddeufisol, ond dau rifyn yn ddiweddarach daeth y golofn yn un o gonglfeini'r cylchgrawn a ymddangosai ym mhob rhifyn. Rhedodd y golofn bron yn ddi-dor am bedair blynedd ar ddeg, ac ynddi mae trafodaethau am wleidyddiaeth, am sefyllfa barddoniaeth Gymraeg, am deithio ac am yr Eisteddfod Genedlaethol, ymysg pynciau eraill. Crynhodd Alan Llwyd gyfraniad Iwan fel colofnydd i *Barddas*:

Rhoddodd ddogn go helaeth o fywiogrwydd a deallusrwydd i'r cylchgrawn; prociodd ein meddyliau, ysgogodd ymateb. A'r tu ôl i bopeth a ysgrifennai, roedd pryder mawr am y Gymraeg a'i diwylliant. Mynnai droi'r pryder hwnnw yn hyder, hyder i fod yn rhan o'r byd mawr technolegol, aml-gyfringol, unfurf a oedd yn bygwth ein difa.<sup>29</sup>

Bu Iwan hefyd yn adolygydd cyson i gylchgrawn *Barn*, ac yn 1996 cymerodd awenau'r golofn fwyd oddi wrth John Rowlands. Bu'n gyfrifol am y golofn tan 2002, ac ymhlith y colofnau hyn y ceir rhai o ysgrifau difyrffaf Iwan wrth iddo ychwanegu at ei adolygiadau ar amryw fwytai a thafarndai binsiad o farddoniaeth y Cywyddwyr. Yn 1993, daeth Iwan yn golofnydd rheolaidd i *Taliesin*, yn bwrw golwg ar raglenni teledu a ffilmiau, ac wrth gwrs byddai'n bachu ar bob cyfle i drafod barddoniaeth yno hefyd. Roedd ganddo golofn debyg yn *Golwg* am gyfnod ac roedd yn cyfrannu'n aml i *Tu Chwith*, *Planet*, a *Poetry Wales*. Mae yma, rhwng popeth, gryn dipyn o ddeunydd darllen ac mae'n anodd peidio â gweld cysylltiadau rhwng ei farddoniaeth a phytiau o'i ryddiaith. Defnyddir yr ysgrifau a'r erthyglau hyn yn aml yng nghwrs y thesis er mwyn darparu cefndir deallusol i'r cerddi.

---

<sup>28</sup> Geraint Lovgreen, 'Lövgreen', *Barn*, 409 (Chwefror 1997), t. 15.

<sup>29</sup> Alan Llwyd, 'Iwan Llwyd fel Colofnydd Barddas', *Awen Iwan*, t. 219.

Amhosib fyddai trin a thrafod holl gerddi Iwan yma, a'r hyn a wneir yw manylu ar gerddi penodol, cerddi gorau Iwan gan amlaf, gan adael iddynt gynrychioli a chrynhoi ei yrfa farddol yn ei chrynswth. Ni fyddai'n bosib chwaith ddisgwyl i gerddi bardd mor doreithiog i gyd fod mor gofiadwy a llwyddiannus â'i gilydd, a'r hyn rwy'n eu cyfrif ymhlith ei gerddi mwyaf llwyddiannus sy'n derbyn sylw yma gan amlaf. Dyma'r cerddi sy'n cynnig newydddeb testunol law yn llaw ag ymwybyddiaeth o draddodiad, lle mae'r ieithwedd yn farddonol ond yn ddealladwy, y delweddau yn gain ond yn weledol, a lle mae cyfeiriadaeth neu hunan-gyfeiriadaeth yn ymhlyg yn y farddoniaeth. Wrth gasglu'r goreuon at ei gilydd, a rhai o'r rheiny hefyd yn well na'i gilydd, mae modd gweld sut y mae cerddi Iwan yn goleuo'i gilydd, yn clymu wrth ei gilydd i greu darlun cyflawn o oes ac o weledigaethau'r bardd. Daw cerddi Iwan oll ynghyd i greu cyfanwaith gwych a chymhleth sy'n adlewyrchu'r symud a'r newid cymdeithasol a diwylliannol a fu yng Nghymru o ddiwedd y 1970au hyd ddechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Olrheinir datblygiad Iwan fel bardd ifanc yn y bennod gyntaf, o'i ddyddiau yn Ysgol Uwchradd Friars ym Mangor nes cyhoeddi *Sonedau Bore Sadwrn* yn 1983. Yn y sonedau a ysgrifennodd yn fachgen ysgol y down ar draws dylanwad T. H. Parry-Williams am y tro cyntaf a dyma hefyd lle y gwelwn yn gyntaf ei angerdd tuag at Gymru a'r Gymraeg; sylwa bryd hynny fod y ddwy ar drengi. Parhaodd y sylweddoliad hwnnw'n rhan ganolog o farddoniaeth Iwan yn ystod y 1980au, a'i ateb diweddarach er mwyn sicrhau goroesiad y ddwy oedd sicrhau fod gan y Gymraeg y gallu i gynnal creadigrwydd fel bod modd defnyddio'r egni creadigol i ddiffinio Cymru newydd. Ond nid dyna'r ateb a gynigai yn y sonedau a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn Ysgol Friars; ffydd ac argyhoeddiad Cristnogol oedd yr unig ffordd i adfywio Cymru yn ôl yr Iwan oedd yn ei ardegau hwyr. Wedi bwrw golwg ar themâu ac arddull y sonedau a'r cerddi rhydd a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn ysgol, ac eraill a ddyfynnwyd yn nhraethawd PhD Nia Heledd Jones,<sup>30</sup> eir ymlaen i drafod cynnyrch Iwan o'i ddyddiau coleg yn Aberystwyth. Enillodd ddwy gadair mewn eisteddfodau rhyng-golegol, enillodd gadair Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddarach yn 1980 a choron Eisteddfod Môn yn 1982, a thrafodir y prydestau a'r cerddi o'r casgliad coronog mewn perthynas â'i

---

<sup>30</sup> Traethawd PhD Nia Heledd Jones, *Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997* (Prifysgol Bangor, 1998), tt. 167-225.



farddoniaeth aeddfetach. Er nad oedd arddull ei gerddi yn adlewyrchu fawr o newid yn y traddodiad barddol Cymreig, roedd y syniadau a oedd gan Iwan ynghylch llusgo'r traddodiad i'r presennol yn sicr yn dangos fod ganddo gyfeiriad a bwriad pendant i'w farddoniaeth, a byddai hynny'n dod yn amlwg yn nes ymlaen yn ei yrfa.

Mynd i'r afael ag amcanion barddoniaeth Gymraeg law yn llaw â swyddogaeth bardd a wneir yn yr ail bennod. Edrychir hefyd ar ddelwedd y bardd a gaiff ei thaflunio yng ngherddi ac yn ysgrifau Iwan, a honno'n gysylltiedig ar brydiau â hen ddelwedd y bardd Cymraeg fel clerwr neu ddiwanwr. Droeon eraill, mae'r bardd yn greadur unig mewn croglofft, yn ddiotwr yn y dafarn neu hyd yn oed yn unigolyn cyffredin yn siopa mewn archfarchnadoedd ac yn magu teulu. Daw'r delweddau hyn oll ynghyd yng nghymeriad lliwgar a chymhleth Iwan, ac er eu bod yn tynnu'n groes i'w gilydd ar brydiau, mae'r paradocs yn ychwanegu at y chwilfrydedd sy'n perthyn i'r bardd a'i farddoniaeth.

Trafoda Iwan rôl barddoniaeth fel cyfrwng er mwyn cofnodi digwyddiadau lleol a rhyngwladol, cyfrwng er mwyn cynghori a chyfrwng er mwyn diddanu. Ennill cynulleidfa yw'r prif nod o hyd yn y pen draw, ac awgryma sut y gellid cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, trwy gyfieithu barddoniaeth, trwy gydweithio â phobl o gefndiroedd creadigol gwahanol, trwy ddefnyddio cyfrwng y we, teithio, ac ysgrifennu barddoniaeth berthnasol i'r cyfnod. Archwilir yn yr ail bennod y ffin rhwng bod yn ffigwr y gall pobl gyffredin uniaethu ag ef a'r dirgelwch sy'n ennyn chwilfrydedd yng nghymeriad y bardd:

Barddoniaeth, o bosib, yw'r cyfrwng llenyddol mwyaf uniongyrchol, personol, cyfriniol a chymdeithasol. Mewn oes pan fo crefydd a llenyddiaeth grefyddol, gwleidyddiaeth a llenyddiaeth chwyldroadol, wedi colli llawer o'u dylanwad, barddoniaeth i lawer sy'n cynnal y dimensiwn ysbrydol neu'r llais gwrthryfelgar. Yn ei gyfrol a enillodd wobr Nobel am lenyddiaeth yn 1990, dywed Octavio Paz, 'Between revolution and religion, poetry is the *other* voice. Its voice is *other* because it is the voice of the passions and of visions ... All poets in the moments, long or short, of poetry, if they are really poets, hear the *other* voice.'<sup>31</sup>

---

<sup>31</sup> Beirniadaeth Iwan Llwyd ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999* (Llandybie, 1999), t. 28.

Elfen sy'n clymu â'r ail bennod yw rôl bardd fel addysgwr, ac mae'n berthnasol hefyd i'r drafodaeth yn y bumed bennod ar yr ymdrech i boblogeiddio barddoniaeth. Roedd y gwaith a wnâi Iwan mewn ysgolion yn gyfraniad pwysig er mwyn meithrin cenhedlaeth newydd i ddatblygu creadigrwydd, i werthfawrogi ac i ddeall barddoniaeth, ac i ddysgu am y gynghanedd, ac roedd yn waith pwysig i Iwan ei hun yn ôl Myrddin ap Dafydd:

Treuliodd Iwan flynyddoedd yn ateb galwadau i ysgolion Ceredigion a Môn ymhell cyn i'r swydd 'Bardd Plant Cymru' gael ei chreu a gwn ei fod yn rhoi mwy o bwyslais a gwerth ar y gwaith hwnnw na dim arall a wnâi.<sup>32</sup>

Cynhwyswyd ambell gerdd a ysgrifennodd plant o wahanol ysgolion yng nghwmni Iwan a Myrddin ap Dafydd yn *Iwan, ar Daith*, cynnyrch gweithdai mewn gwahanol amgueddfeydd, cestyll, a pharciau natur, neu weithdai yn yr ystafell ddosbarth. Cyhoeddwyd mwy o gerddi disgyblion ysgol a ysgrifennwyd gyda'r ddau brifardd yn y llyfryn *Cri'r Barcud Coch*,<sup>33</sup> ffrwyth prosiect y Barcud Coch yn ne Powys yn 2003, ac mae'n siŵr fod degau o gerddi tebyg ynghudd yn archifau ysgolion ledled Cymru. Un i'w hychwanegu at y pentwr anghyhoeddedig yw'r un a ysgrifennodd Iwan a phlant Ysgol Gynradd Llanfairpwll yn 2009, bron i ddegawd wedi fy nghyfnod i yn yr ysgol honno; cerdd am siambr gladdu Neolithig Bryn Celli Ddu ym Môn a adroddwyd gan blant yr ysgol ger y siambr ar fore heuldro'r haf y flwyddyn honno a hithau'n gwawrio:

### **Bryn Celli Ddu**

Drwy'r tywyllwch gorymdeithio  
Fesul dau, a'r fflaglau'n fflamio.  
Rhythm drwm yn cadw'r camau'n drefnus  
Gan ein tywys ninnau heibio'r dderwen a thros yr afon  
Gam wrth gam i dir y meirwon.  
Dacw'r gromlech a'r cylch cerrig  
A'r ysbrydion anweledig!  
Casglwn ni gan [*sic*] borth y dwyrain  
A daw derwydd doeth i'n harwain,  
Dim un sŵn ond bref y defaid –

---

<sup>32</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Iwan, y Bardd Plant', *Iwan, ar Daith*, tt. 148-9.

<sup>33</sup> Cerddi gan ddisgyblion gyda'r prifeirdd Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd, *Cri'r Barcud Coch/Cry of the Red Kite* (Cardiau Cefn Gwlad, 2004).

A wnawn nhw ddim deffro'r enaid!  
Yna'r wawr sy'n torri arnaf  
Drwy'r llwyni coed o'r gorwel pellaf,  
A phelydrau'r haul yn dilyn  
I liwio'r tir a'r eithin melyn  
I lenwi gwagle'r siambr gladdu  
A'r egni mawr i drechu'r fagddu.

Wrth sôn am ei brofiad yn teithio ysgolion Ceredigion, cydnabu Iwan y wefr a gâi o weld y potensial creadigol a oedd yn perthyn i'r plant, a'u gallu weithiau i lunio cwpled mewn cynghanedd, ac roedd rhoi'r cyfle hwnnw i blant arbroti'n creadigol yn hollbwysig:

Er gwaethaf y chwyldro digidol a chyfrifiadurol, o gael y cyfle mae gan blant o hyd ddiddordeb ac atyniad at hud geiriau a delweddau – ac mae'n allweddol fod y diddordeb hwnnw yn cael rhyddid a chymorth i ddatblygu a dyfnhau – nid ei gaethiwo oherwydd gofynion profion a disgwyliadau cyraeddiadau mewn rhyw dablau addysgol.<sup>34</sup>

Yn 2005, cynhaliwyd cystadleuaeth 'Creu Cyfle', cystadleuaeth ysgrifennu creadigol i blant; ac Iwan yn un o'r beirniaid, ysgrifennodd englyn i gyd-fynd â'r gystadleuaeth:

Deg baner ond un werin – a'u hieithoedd  
ar un daith gyffredin,  
ar eu ffordd i groesi'r ffin  
i gae arall, llai gerwin.<sup>35</sup>

Profiad chwerw-felys oedd teithio ysgolion Ceredigion, meddai. Er dotio ar allu'r plant o bryd i'w gilydd, sylwodd fwyfwy ar argyfwng y Gymraeg yn un o gadarnleoedd Cymru. Gwelodd fod dylanwad plant y mewnfudwyr ar y plant cynhenid Gymraeg yn golygu glastwreiddio grym yr iaith yn sylweddol, ac roedd hynny'n cael effaith negyddol ar ddatblygiad creadigol y plant i gyd:

---

<sup>34</sup> Iwan Llwyd, 'O Enau Plant Bychain', *Barddas*, 240 (Ebrill/Mai 1997), t. 6.

<sup>35</sup> 'Creu Cyfle', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 36 (Tachwedd/Rhagfyr 2005), t. 9.

Y gwirionedd ydi, mewn unrhyw ysgol lle mae'r cydbwysedd yn 80/20 o ran mewnfudwyr i Gymry brodorol, 'does gan yr iaith Gymraeg ddim gobaith i ddatblygu yn iaith hyfyw a chyhyrog ymhlith plant yr ysgol. Mae'r byrdwn drwy'r amser ar gyfieithu ac egluro. Mae'r dysgwyr yn dioddef oherwydd nad ydynt yn creu yn eu hiaith naturiol, ac mae'r Cymry iaith gyntaf yn dioddef oherwydd na all yr athro neu'r bardd fynd i'r afael ag idiomau a syniadau cymhleth. Y pen draw ydi diffyg ymwneud creadigol cyhyrog â'r iaith.<sup>36</sup>

Efallai mai rhyw fyfyrddod tebyg a'i harweiniodd i ysgrifennu'r englyn 'Ysgolion Ceredigion' yn 2001:

Tryweryn yw'r tir a'i eiriau – ar goll  
dan fôr gwag y tonau [*sic*],  
tir mud torri amodau,  
tir di-stwr y dwr [*sic*] rhwng dau.<sup>37</sup>

Caiff argyfwng y Gymraeg ac effaith y mewnlifiad fwy o sylw yn y drydedd bennod sy'n canolbwyntio ar gerddi gwleidyddol Iwan. A pharheir â'r thema wleidyddol yn y bedwaredd bennod wrth fynd i'r afael â cherddi arobryn 'Gwreichion' o safbwynt hanesyddiaethol a strwythuraidd. Awgrymwyd eisoes fod gyrfa farddol Iwan yn rhannu'n fras yn ddwy: yn gyfnod o ganu Cymru newydd i fodolaeth ac, yn sgil hynny, yn gyfnod o fwynhau'r Gymru newydd a grëwyd. Y cyfnod cyntaf hwnnw sy'n derbyn sylw yn y drydedd a'r bedwaredd bennod, ac yma y ceir y cerddi mwyaf diddorol lle mae'r cyhyrog a'r bregus ochr yn ochr yn bwydo'i gilydd er mwyn creu darlun o gyfnod dryslyd a chyfnod o newid yng Nghymru. Mapio'r newid yng nghyd-destun llenyddiaeth a diwylliant Cymraeg a wneir ar ddechrau'r drydedd bennod, cyn troi at gyfraniad Iwan ei hun fel un sy'n ein harwain drwy'r cyfnod ansicr. Trafoda'r cerddi hynny fethiant y Gymraeg i symud gyda'r oes, y nihilistiaeth a deimlwyd ymysg llawer o'r Cymry wedi canlyniad siomedig refferendwm 1979 a thaeogrwydd y Cymry, ond yng nghanol y digalondid mae yma hefyd gerddi sy'n sôn am weledigaethau a gobeithion. Bron nad yw'r 1980au yn gyfnod o garthu'r holl negyddiaeth a'r ansicrwydd er mwyn gosod sylfaen lân ar gyfer y bennod nesaf yn hanes Cymru.

---

<sup>36</sup> Iwan Llwyd, 'O Enau Plant Bychain', t. 6.

<sup>37</sup> <http://www.cynghanedd.com/oriel/ysgolion.html> (Cyrchwyd: 6/2/16).

Cerddi coron Eisteddfod Cwm Rhymni 1990, 'Gwreichion', sy'n cynrychioli orau'r newid agwedd a fu yn ystod y 1980au; cerddi anodd ac amwys yw'r rhain, ac er eu hystyried yn bwysig ac yn drobwynt i'r canu Eisteddfodol, ni fentrodd rhyw lawer eu trafod yn fanwl. Ar wahân i Alan Llwyd, a oedd yn un o'r beirniaid a ddyfarnodd cerddi Iwan yn deilwng, Wiliam Owen Roberts yw'r unig un i gyhoeddi dehongliad gweddol gyflawn o'r casgliad.<sup>38</sup> Aeth Geraint Williams ati i'w trafod yn ei draethawd MPhil ar farddoniaeth Iwan,<sup>39</sup> a thrafodir ambell gerdd unigol gan feirniaid eraill yma ac acw. Hyderaf y bydd y drafodaeth yn y bedwaredd bennod yn ychwanegu at y dehongliadau hyn. Edrychir ar y cerddi fel cyfanwaith ar wahân yn ogystal ag edrych arnynt yng nghyd-destun y cerddi eraill a ysgrifennodd Iwan yn ystod y 1980au, a pherthnasol gwneud hynny gan mai'n wasgaredig dros y degawd yr ysgrifennodd Iwan y cerddi'n wreiddiol.

Difyr yw crybwyll nad dyna'r unig dro i Iwan gystadlu am y Goron. Rhoddodd ei gynnig cyntaf arni yn 1984 gyda'r ffugenw 'Gwern'. 'Llygaid' oedd y testun ac mae ei bryddest i'w gweld yn *Fel yr Hed y Frân* dan y teitl 'Diwedd Awst': cerdd sy'n sôn am ddiweithdra yn y 1980au.<sup>40</sup> Roedd Iwan 'i mewn am y Goron' yn 2000 dan y ffugenw 'Pendeits', ond ni lwyddodd i argyhoeddi'r beirniaid y tro hwnnw, a gosodwyd ef yn y pedwerydd dosbarth gan Jason Walford Davies am fod yn annhestunol, er iddo nodi fod dilyniant Iwan 'yn cynnwys ambell gerdd ddigon gafaelgar', ac i Robert Rhys ei alw'n 'grefftwr digon deheuig'.<sup>41</sup> Cyhoeddwyd y dilyniant hwnnw, 'Tywod', yn *Tu Chwith* maes o law.<sup>42</sup> Cerddi ydynt am gymeriadau mewn tafarn: gwelwn 'y barman', 'yr alltud', 'cariadon', 'y trafeiliwr', ymhlith cymeriadau eraill. Defnyddiodd Iwan rai o gerddi'r dilyniant fel rhan o ambell sioe farddol: ymddangosodd 'Cariadon' yn y sioe Bol a Chyfri Banc; mae'n debyg fod 'Y trafeiliwr' ac 'Y rebel' wedi eu hadrodd o flaen cynulleidfaoedd Y Ffwlmoni Barddol, ac roedd 'Y fam' yn gerdd a fyddai wedi ei chynnwys yn y sioe Catraeth: Daeth Un yn Ôl pe buasai'r sioe honno wedi mynd yn ei blaen. Gosodwyd ei gynnig dan y ffugenw 'Crawia' yn uwch o lawer yn 2004, a'i roi yn y dosbarth cyntaf ac yn deilwng o'r Goron gan Alan Llwyd.

---

<sup>38</sup> Wiliam Owen Roberts, "'Gwreichion" Iwan Llwyd', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), tt. 25-42.

<sup>39</sup> Traethawd MPhil Geraint Siôn Williams, *Astudiaeth o farddoniaeth Iwan Llwyd* (Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2001).

<sup>40</sup> Iwan Llwyd et al., *Fel yr Hed y Frân* (Cytgord, 1986), tt. 35-8.

<sup>41</sup> Beirniadaeth cystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch 2000* (Llandybie, 2000), tt. 40, 59.

<sup>42</sup> *Tu Chwith*, 14 (Gaeaf 2000), tt. 13-19.

Cyhoeddwyd ei ddilyniant o un ar ddeg cerdd dan y testun 'Egni' yn *Barddas* wedi'r Eisteddfod.<sup>43</sup> Maent yn gerddi sy'n llawn adleisiau o gerddi eraill o'i eiddo ac yn cyfleu neges nid annhebyg i 'Gwreichion' wrth iddo sôn am rym hen egni a'r angen i greu egni newydd yn y byd unffurf a synthetig sydd ohoni. Iwan hefyd oedd 'Sawl s sy'n Mississippi' yng nghystadleuaeth 2009 a osodwyd yn yr ail ddsbarth gan M. Wynn Thomas a Dafydd John Pritchard, ac yn y pedwerydd dosbarth gan John Gruffydd Jones, a fethodd weld dilyniant yn y casgliad. Yn ôl y beirniadaethau, cerddi sy'n cyfuno'r hen benillion a chaneuon blws Americanaidd Johnny Cash sydd yma, a cherddi sy'n sôn am gariad a cholli cariad. Mae'n debyg fod 'Blws #9' yn un o gerddi'r dilyniant hwnnw.<sup>44</sup>

Bu Iwan ar ochr arall y bwrdd eisteddfodol yn beirniadu cystadleuaeth y Goron yn 1999, lle mae'n rhagymadroddi yn ei feirniadaeth ynghylch gwerth a nodweddion barddoniaeth dda:

Mae'r gallu yma i ddiriaethu teimladau a syniadau, sy'n aml yn anodd eu cyfleu, a hynny'n gynnil ac awgrymog, yn rhan o hanfod barddoniaeth. Mae yna le mewn barddoniaeth i ddwysedd a hiwmor, delweddau a disgrifiadau, a *stori* hefyd.<sup>45</sup>

Roedd Iwan yn feirniad ar y gystadleuaeth yn 2010 hefyd, blwyddyn ei farwolaeth. Bu farw cyn cyflwyno'r feirniadaeth ysgrifenedig, ac er y nodyn golygyddol wrth feirniadaethau Mererid Hopwood a T. James Jones yn datgan bod y tri beirniad yn gytûn, aeth Iwan i'w fedd yn credu mai Ynyr Williams oedd am gael ei goroni y flwyddyn honno, mae'n debyg, er mai Glenys Roberts a goronwyd mewn gwirionedd.<sup>46</sup>

Un o brif amcanion y thesis yw pwysleisio rhan Iwan yn yr ymdrech i boblogeiddio barddoniaeth Gymraeg. Cyffyrddir â hyn yn yr ail bennod wrth edrych ar ei syniadau ynghylch ehangu gorwelion barddoniaeth Gymraeg drwy gyfieithu cerddi, drwy gydweithio â beirdd di-Gymraeg, a chydweithio ag artistiaid creadigol eraill. Sonnir yn y bumed bennod yn fwy penodol am gyrchu cynulleidfa fyw a chynnig adloniant drwy farddoniaeth. Bu Iwan yn

---

<sup>43</sup> *Barddas*, 279 (Medi/Hydref/Tachwedd 2004), tt. 30-2.

<sup>44</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst, 2009), t. 51.

<sup>45</sup> Beirniadaeth Iwan Llwyd ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999*, t. 28.

<sup>46</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn* (Cyhoeddwyd gan Karen Owen, 2014), t. 8.

rhan ganolog o'r teithiau barddol a'r nosweithiau adloniannol a ddechreuwyd yn y 1980au, a phrin yw'r sioeau a drefnwyd heb fod Iwan yn un o'r beirdd a gymerai ran. Ni soniwyd yn feirniadol fawr ddim am sioeau barddol fel Cicio Ciwcymbars, Taith y Saith Sant, a Syched am Sycharth, er mor amlwg yw eu gwerth a'u cyfraniad at boblogeiddio barddoniaeth Gymraeg. Eir ati yn y bennod hon i groniclo'r sioeau y bu Iwan yn rhan ohonynt, eu cynnwys a'u fformat, ac i archwilio arddull ac ieithwedd y cerddi a gyflwynai Iwan gerbron cynulleidfa. Sonnir yma hefyd am gyfraniad Iwan wrth ysgrifennu geiriau caneuon, a sylwir ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ddisgyblaeth hynny.

Mae'n amlwg fod arbrofi â chelfyddyd yn rhywbeth a groesawai Iwan, ac roedd yn un a groesai ac a glymai diriogaethau barddoniaeth, geiriau caneuon, a rhyddiaith. Yn y bywgraffiad byr a geir yn y rhaglen ar gyfer Cicio Ciwcymbars, dywedwyd am Iwan:

Cred mewn cyfuno gwahanol ffurfiau celfyddydol er mwyn hyrwyddo a phoblogeiddio yr holl gelfyddydau mewn cyfnod anodd.<sup>47</sup>

Yn anaml y sonnir am Iwan y sriptiwr, ond nid oedd byd y ddrama yn un anghyfarwydd iddo chwaith ac yntau wedi gweithio fel gweinyddwr i gwmni theatr Hwyl a Fflag yn 1986. Ysgrifennodd sript ar y cyd ag Alun Ffred ar gyfer y gyfres ddrama deledu *Paradwys Ffŵl* a ddarllledwyd ar S4C fis Hydref 1993, cyfres dditectif a oedd yn trafod 'llygredd, twyll a gwleidyddiaeth grym' ac a oedd yn holi 'pwy sy'n rhedeg Cymru?'.<sup>48</sup> Mentrodd i fydd y ddrama lwyfan hefyd gyda *Hud ar Ddyfed* yn 1994 ac *Mae gynnon ni hawl ar y sêr* yn 2007. *Hud ar Ddyfed* oedd y ddrama olaf i gwmni Hwyl a Fflag ei llwyfannu a chyhoeddwyd rhan ohoni yn *Taliesin* gan y 'cododd ieithwedd farddonol gyfoethog y ddrama ddadl amserol ynglŷn â phriod iaith y dramodydd'.<sup>49</sup> Drama sy'n cyfuno Trydedd Gainc y Mabinogi ac argyfwng byd amaeth y cyfnod yw hi, ac mae'r iaith ynddi'n adlewyrchu hynny hefyd i raddau wrth i rannau o'r sript ymddangos yn sgysiol a naturiol a rhannau eraill yn farddonol eithriadol.

---

<sup>47</sup> Iwan Llwyd et al., *Cicio Ciwcymbars* (Llangefni, 1988), t. 8.

<sup>48</sup> 'Paradwys Ffŵl', *Golwg* (7 Hydref 1993), t. 9.

<sup>49</sup> 'Hud ar Ddyfed', *Taliesin*, 86 (Haf 1994), t. 11.

Drama am oriau olaf Hedd Wyn yw *Mae gynnon ni hawl ar y sêr*, a'i theitl yn addasiad o linell bardd y Gadair Ddu o'i gerdd 'Y Blotyn Du'. Llwyfannwyd hi gan Lwyfan Gogledd Cymru a daeth yn destun dadl gan sawl adolygydd gan i'r ddrama awgrymu na fyddai Hedd Wyn wedi ennill y Gadair yn Eisteddfod 1917 pe na bai wedi ei ladd yn y rhyfel. Ni dderbyniodd yr un o'r dramâu adolygiadau arbennig o ffafriol, ond yr hyn sy'n ddifyr ynghylch y ddrama deledu a'r ddwy ddrama lwyfan yw'r elfennau gwleidyddol sy'n perthyn i'r tair. Mae'r modd y defnyddiodd Iwan un o chwedlau'r Mabinogi ac yna hanes Hedd Wyn hefyd yn ddiddorol, ac yntau wedi cyfeirio at y Drydedd Gainc yn y gerdd 'Ymgom Pryderi a Manawydan',<sup>50</sup> ac wedi cyfuno hanes Pwyll a Phryderi a sefyllfa economaidd y 1980au yn 'Mabinogi'.<sup>51</sup> Roedd rhyfel hefyd yn thema yr ymdriniodd Iwan â hi fwy nag unwaith yn ei farddoniaeth, ac fe adleisiwyd llinellau Hedd Wyn o 'Rhyfel' yng ngerdd Iwan am 'Y bugail' lle gwelwn y 'delyn ynghrog ar fidog'.<sup>52</sup>

Yn y naid rhwng y cerddi gwleidyddol, a drafodir yn y drydedd a'r bedwaredd bennod, a'r cerddi taith, a drafodir yn y bennod olaf, y gwelir y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfnod yng ngyrfa farddol Iwan ar ei amlycaf. Gan ddilyn ôl troed T. H. Parry-Williams, teithiodd i Dde a Gogledd America, a chanfod yno ddelweddau a diwylliannau newydd i'w hychwanegu i'w bair Cymreig ei hun. Roedd rhyddid y lôn a'r daith ei hun yn cyffroi Iwan ac yn cynnig posibiladau di-ben-draw, a chaiff yr egni creadigol a oedd yn cael ei gronni wrth deithio ei ymgorffori mewn cyfrolau fel *Dan Ddylanwad*, *Eldorado*, a *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, ac mewn cerddi unigol yn ei gyfrolau eraill. Er mai'r bwriad oedd cynnig rhywbeth ffres yn y Gymraeg wrth gydio mewn ieithwedd newydd, mentro i dir anghymreig a dod dan ddylanwad America, roedd y teithio hefyd yn ei glymu wrth yr hen draddodiad barddol Cymreig. Roedd Iwan yn ymwybodol iawn o deithiau'r Cywyddwyr wrth iddynt gyrchu gwahanol dai bonedd, ac yn cyfeirio'n lled aml at deithiau Parry-Williams i America neu at daith Guto'r Glyn i Ffrainc fel milwr. Cesglir yn y bennod olaf argraffiadau Iwan o'i deithiau, ymdrinnir â'r gyfeiriadaeth yn ei gerddi i'r Unol Daleithiau, i Dde America ac i Ganada, ac ystyrir y dylanwad a gafodd y teithiau hyn wrth iddo ddychwelyd i Gymru a chychwyn ar siwrnai o amgylch ei wlad ei hun.

---

<sup>50</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), tt. 24-5.

<sup>51</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 13.

<sup>52</sup> *Ibid.*, t. 20.



Ymdrinnir gan mwyaf yn y thesis â'r cerddi a ysgrifennodd Iwan yn ystod y 1980au a'r 1990au, sef y cyfnod y mae ei farddoniaeth a'i gyfraniad ar eu difyrfa ac ar eu gorau, yn fy nhyb i. Ac yntau'n dechrau ymglyfarwyddo ag ysgrifennu mewn hinsawdd wleidyddol newydd yn y 1990au, ac yn dechrau gweld Cymru yng nghyd-destun y byd yn hytrach nag yng nghyd-destun Prydain, nododd Simon Brooks fod 'Iwan Llwyd wedi mynd yn fwy o realydd yn ddiweddar (byddai'n well gennyf pe dychwelai at gywair "Gwreichion")'.<sup>53</sup> Mae'n wir fod cerddi'r 1980au a'r casgliad 'Gwreichion' yn tueddu i fod yn fwy synhwyrus a dychmygus na cherddi'r 1990au, ond ni cholodd Iwan y sbarc o bell ffordd yn ystod y degawd newydd. Mae nifer o gerddi *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* yn profi hynny. Credaf innau mai yn ystod y ganrif newydd y dechreuodd y wefr yn ei gerddi bylu, ac nid yw'r cyfrolau *Rhyw Deid yn Dod Miwn* na *Sonedau Pnawn Sul* yn gwneud cyfiawnder ag ansawdd ei gyfrolau blaenorol. Dyna'r rheswm dros beidio â neilltuo cymaint o sylw i'r ddwy gyfrol honno yn y thesis, a chanolbwyntio yn hytrach ar y cerddi sy'n adlewyrchu orau weledigaethau gwleidyddol a diwylliannol Iwan.

Dywed Myrddin ap Dafydd ar gefn clawr y gyfrol deyrnged, *Iwan, ar Daith*:

Bydd cyfrolau eraill – niferus – yn y dyfodol yn sicr o drin a thrafod gwaith Iwan Llwyd a thafoli ei gyfraniad ar droad canrif allweddol yn ein hanes. Bydd gwerthfawrogi ei gerddi; bydd yn hawlio'i le yn ein traddodiad barddol.<sup>54</sup>

Cyhoeddwyd eisoes y gyfrol feirniadol *Awen Iwan*, a bwriad y thesis hwn yw ychwanegu at yr ymdriniaeth fanwl y mae Iwan yn ei haeddu. Dyma un a chanddo ddawn i'n twyllo â'i symlrwydd, ond y tu ôl i estheteg ei eiriau, mae bwriad cadarn a haenau o ystyr. O edrych ar ei yrfa farddol ar ei hyd, ni ellir ond cytuno mai Iwan Llwyd oedd bardd ei genhedlaeth.

---

<sup>53</sup> Simon Brooks, 'Ideogramau', *Barn*, 392 (Medi 1995), t. 40.

<sup>54</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*.

## 'Mae o 'di bod ar daith ers saithdeg chwech'

### Prentisiaeth farddol Iwan Llwyd

'Mae o 'di bod ar daith ers saithdeg chwech,' meddai Iwan am y Gaucho crwydrol o Dde America yn ei siaced ledr a'i wallt yn gwynnu.<sup>55</sup> Cyhoeddwyd geiriau'r gân yn y gyfrol *Iwan, ar Daith*, ac fe sylwa Geraint Lovgreen yn ei nodyn wrth ei hochr nad dieithryn oedd y Gaucho hwn o gwbl, ond estyniad o gymeriad y bardd ei hun.

Cychwynnodd taith Iwan fel bardd yn 1976. Y flwyddyn honno, hwyliodd am y brifysgol yn Aberystwyth i astudio ar gyfer gradd yn y Gymraeg. Yno, daeth i gael ei gydnabod yn dipyn o fardd gan ei gyd-fyfyrwyr, dysgodd grefft y gynghanedd dan adain Roy Stephens, a newidiodd Iwan Lloyd Williams yn raddol yn Iwan Llwyd Williams. Gellir olrhain llwybrau cynharaf ei yrfa farddol ymhellach yn ôl eto, fodd bynnag, i'w gyfnod yn Ysgol Uwchradd Friars ym Mangor, lle bu'n ddisgybl rhwng 1969 ac 1976. Cyfeiria ar sawl achlysur at ei gyfnod yno fel y cyfnod y dechreuodd ymhél â barddoniaeth, ac mae'n sôn yn gyson hefyd am ei ddyled i'w athro Cymraeg yno, Hywel Bebb, a fu'n gyfrifol am sbarduno'r diddordeb ynddo drwy astudio cerddi R. Williams Parry a T. H. Parry-Williams. Yn drwm dan ddylanwad T. H. Parry-Williams, un o'i hoff feirdd ers y cyfnod cynnar hwn, dechreuodd Iwan ysgrifennu ei farddoniaeth ei hun, a chydag anogaeth ei athro, cyhoeddodd rai o'r cerddi yng nghylchgrawn blynyddol yr ysgol, *The Dominican*. Teg cadw mewn cof mai cerddi llencynnaidd yw'r rhain, cerddi wedi eu hysgrifennu dan ddylanwad y farddoniaeth a astudiwyd yn yr ysgol, ac sy'n dwyn nodweddion a ddisgwylid gan fardd ar ei brifant, fel yr arfer o osod yr ansoddair o flaen yr enw. Ond er gwaethaf y duedd naturiol i ddynewared beirdd eraill, mae modd gweld egin bardd â chryn botensial mewn manau.

Cerdd ddiniwed, ddiffuant ac iddi'r teitl 'Swm [sic] y Gaeaf' oedd y gyntaf i'w gweld mewn print ganddo yng nghylchgrawn yr ysgol yn 1973,<sup>56</sup> ac yntau ond yn bymtheg oed ar y

<sup>55</sup> Iwan Llwyd, 'Y Gaucho', *Iwan, ar Daith*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2010), t. 15.

<sup>56</sup> *The New Dominican*, 88 (1973), t. 22. Dyfynnir y cerddi yn union fel yr ymddangosant yn wreiddiol.

pryd. Dilynwyd hi'r flwyddyn ganlynol gan gerdd benrhydd arall, 'Y Fenai'.<sup>57</sup> Erbyn ei gyfnod yn y chweched dosbarth, y soned oedd y prif fesur y canai Iwan arno. Cyhoeddodd ddwy soned ac un gerdd rydd yn rhifyn 1975 o'r *Dominican*, a thair soned ac un gerdd rydd yn rhifyn 1976. Yn wir, cofia ei athro Cymraeg yn Ysgol Friars iddynt drafod ffurf y soned mewn gwrs yn ystod y bedwaredd flwyddyn, ac i Iwan aros ar ddiwedd y wers honno i holi mwy am y mesur ac am y beirdd a'i defnyddiai.<sup>58</sup> Roedd ffurf y soned yn amlwg wedi cydio ynddo, ac mae'n arwyddocaol mai *Sonedau Bore Sadwrn* a roddwyd yn enw ar ei gyfrol gyntaf a gyhoeddwyd yng nghyfres Beirdd Answyddogol y Lolfa yn 1983, cyfrol sy'n dwyn teitl y gerdd gyntaf ynddi ond cyfrol nad oes ynddi un gerdd ar fesur y soned. Mae'n debyg bod rhyw gyfaredd ynghlwm â'r mesur ym meddwl Iwan, swyn a ddaliodd ei afael ynddo hyd 2009 pan gyhoeddodd ei gyfrol olaf o bedair soned ar hugain, *Sonedau Phawn Sul*.

Mae nifer o'r cerddi a ddaw o ddwy flynedd olaf Iwan yn yr ysgol yn drymlwythog gan ddylanwad barddoniaeth T. H. Parry-Williams, ac ôl yr arch-sonedwr ei hun i'w weld nid yn unig ar y mesur ac ar y dechneg o oferu'r llinellau o fewn ffrâm y soned, ond ar themâu ac ieithwedd nifer o gerddi 1975 ac 1976. Gweler wythawd y soned 'Caethiwed', er enghraifft, sy'n efelychiad triw o lais Parry-Williams:

Ar ddiwedd hirddydd cynnes mwyn o'r haf,  
A machlud haul yn lliwio'r wybren draw  
Dros lewod llonydd Pont y Tiwb; fe âf  
O ddwndwr maith diderfyn tref y baw,  
I geisio rhyw dawelwch uwch na'r byd;  
Ar lethrau unig hen Eryri gref  
Caf ddianc rhag holl boenau dyn i gyd,  
Ar fawnog fryn ychydig is na'r nef.<sup>59</sup>

Myfyrdod digon tebyg i'r hyn a geir yn rhigwm T. H. Parry-Williams, 'Hon', sydd yn y soned, lle cyflêir rhyw berthynas anesmwyth, anorfod rhwng y bardd a'i gynefin. Fel yr aeth Parry-Williams am dro i ffoi rhag clegar y Cymry, mae Iwan hefyd yn ymgyrraedd tua'i hafan yn Eryri, man sy'n cynnig lloches iddo rhag bywyd trefol Bangor. Er mwyn cymhwysio profiad ei

---

<sup>57</sup> *The New Dominican*, 89 (1974), t. 15.

<sup>58</sup> Gohebiaeth rhyngof a Hywel Bebb (14/09/13).

<sup>59</sup> *The Dominican*, 90 (1975), t. 22.

arwr i'w brofiad ei hun ac i'w ardal ei hun, mae'n sôn am bont Britannia uwch y Fenai gan gyfeirio at 'Ilewod Llonydd Pont y Tiwb', ac mae'n cyfod, mewn modd digon rhamantaidd, ddisgrifiad hyll o Fangor fel 'tref y baw' â glendid natur. Yn driw i arddull Parry-Williams, daw'r 'Ond' ar ddechrau'r chwechawd i newid cyfeiriad y soned wrth iddo sylweddoli mai ofer yw ffoi dros dro, a gwêl ei fod yntau, fel y llewod, yn gaeth i'r fan.

Yn wahanol i Parry-Williams, fodd bynnag, a deimlodd dynfa gref tuag at Eryri a Rhyd-ddu, nid oedd gan Iwan deyrngarwch mawr tuag at ardal arbennig. Fe'i ganed yng Ngharno ym Mhowys, cyn i'r teulu symud i Dal-y-bont yn Nyffryn Conwy, a symud wedyn i Fangor pan oedd Iwan yn ddeg oed; does ryfedd felly na theimlai ei fod wedi ei glymu wrth un lle penodol. O gofio bod Iwan wedi hawlio ei le fel un o Feirdd Answyddogol y Lolfa maes o law, mae'n ddifyr nodi bod y diffyg ymlyniad i un lle yn nodwedd gyffredin gan y beirdd answyddogol, fel yr awgryma Gerwyn Williams:

Ni hualwyd mohonynt yn ormodol o'r herwydd gan y cysyniad Cymreig o berthyn, ni feddant ar yr ymlyniad emosiynol hwnnw wrth gynefin arbennig, ac o'r herwydd coleda amryw ohonynt agwedd syniadol wrthrychol, annibynnol. Esgorodd y cyflwr diberthynas hwnnw ar gymhlethdod y bu'n dda i ambell fardd wrtho i'w ecsbloetio'n greadigol ...<sup>60</sup>

Wedi dweud hynny, efallai mai Ceredigion oedd y lle â'r gafael tynnaf ar Iwan ers cyfnod ei blentyndod, a theulu ei fam yn hanu o'r cyffiniau, fel y dywed mewn ysgrif ym mhapur bro Dyffryn Teifi yn fuan wedi iddo gael ei goroni'n brifardd:

Er gwaethaf fy nghrwydriadau ffôl, yr ardal sy'n fy nhynnu'n ôl dro ar ôl tro, a'r man a'r [sic] atgofion hapusaf yw ardal Brongest yn ne sir Aberteifi, cartref mam, a lle y byddem yn ymweld ag o'n rheolaidd bob gwyliau hyd ganol y saithdegau pan dorrwyd y cysylltiadau olaf â'r lle.<sup>61</sup>

Ceir prawf pellach o'r cysylltiad a deimlai â Brongest mewn soned a gyfansoddodd i gartref ei nain. Mae'r soned 'Rhianfa' yn fynegiant o rwystredigaeth deunaw oed Iwan o deimlo nad

---

<sup>60</sup> Gerwyn Williams, 'Darlunio'r Tirlun Cyflawn', *Sglefrio ar Eiriau*, gol. John Rowlands (Llandysul, 1992), tt. 139-40.

<sup>61</sup> Iwan Llwyd, 'Darnau ohonof ar Wasgar', *Y Garthen* (Hydref 1990), t. 1.

yw'n perthyn i fan arbennig, nad yw wedi gweld y byd ac nad oes modd dianc o gaethiwed trefn bywyd ym Mangor. Newidir cyfeiriad y soned yn y chwechawd, ac mae'n anfon ei ysbryd yn llatai i dde Ceredigion ac i Rhianfa er mwyn dod o hyd i ryw angor:

Ond rhydd i'm hysbryd hedfan tua'r fan,  
Lle daw fy noe a'm hechdoe eto'n fyw,  
A gwelaf obaith cyrraedd tua'r lan,  
A chanfod yno beth yw ystyr byw,  
Tra pery'r gwreiddiau hyn, ni chwynaf i,  
Er suddo llawer breuddwyd yn y lli.<sup>62</sup>

Parhaodd y cwlwm rhyngddo a Cheredigion gydol ei yrfa farddol, a gwelir bod cyfeiriadau at rannau o'r sir yn ymddangos yn gyson ganddo. Wedi cyhoeddi'r cerddi 'Soar y Mynydd' a 'Traethau' yn *Sonedau Bore Sadwrn*,<sup>63</sup> cawn ein tywys ganddo fwy nag unwaith i Aberystwyth ac i Dre-saith, i Bontrhydfendigaid, Cei Newydd ac Aberteifi, cyn dychwelyd i 'Soar y Mynydd' drachefn yn *Sonedau Pnawn Sul*.<sup>64</sup>

Clywir adlais arall o 'Hon', ac adlais o agwedd amheugar T. H. Parry-Williams mewn soned arall ganddo, 'Symlrydd', fel y gwelir yn y ddwy linell gyntaf:

A oes rheolaeth ar ragluniaeth nef,  
Neu hap a damwain yw ein bywyd ni?<sup>65</sup>

Â yn ei flaen i holi p'un ai Duw ynteu dyn sy'n rheoli trywydd bywyd. Ac yntau ond dwy ar bymtheg oed yn ysgrifennu'r gerdd, mae'n holi cwestiynau dwys a dyrys. Dengys yma ei adnabyddiaeth dda o'i Feibl trwy gyfeirio at y ddelwedd o'r ddynoliaeth fel clai yn nwylo Duw'r crochenydd (gweler Jeremeia 18), a thrwy ein hatgoffa mai o'r llwch y crewyd dyn. Ceisia fynegi rhyw ansicrwydd mawr fel y gwnaeth T. H. Parry-Williams mewn sonedau fel 'Ofn', 'Argyhoeddiad', 'Dychwelyd' a 'Moelni'. Ond yn wahanol i Parry-Williams yr amheuwyr, gŵyr Iwan mai yn ei ffydd ac yn ei grefydd y mae'r angor i'w sadio pan gaiff ei lynu gan yr

---

<sup>62</sup> Adroddir y soned 'Rhianfa' gan Llion Williams, brawd Iwan, ar y rhaglen deledu *Iwan Llwyd, rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul* (Teleg, Darlledwyd: 9/3/14).

<sup>63</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn* (Talybont, 1983), tt. 5, 8.

<sup>64</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst, 2009), t. 7.

<sup>65</sup> *The Dominican*, 90 (1975), t. 22.

ansicrwydd tywyll hwn. Daw'r oleuedigaeth Gristnogol ar ddiwedd y soned yn y cwpled olaf: 'Bu farw Iesu ar Galfaria fryn. / Ceir datrys holl broblemau dyn yn hyn'.

Yr un yw argyhoeddiad Cristnogol y soned 'Rhybudd':

A llewyrch seren ddisglair Bethlehem,  
Trwy'r Eglwys, eto'n dal yn olau byd  
I'n harwain drwy'r tywyllwch i'r crud gwair  
Lle gwelwn wir ogoniant Baban Mair.<sup>66</sup>

Achub cam yr Eglwys a wna yn y soned hon, a hithau'n drwm dan lach cymdeithas. Er mwyn diosg y rhagfarnau mai 'rhagrith a sarhad' sydd tu ôl i ddrysau'r addoldy, rhaid yw cydio'n dynnach yn y ffydd a pheidio â cholli golwg ar yr hyn sy'n bwysig ac yn ganolog i Gristnogaeth. Gwelir osgo crefyddol yn 'Y Proffwyd' hefyd,<sup>67</sup> soned arall a ymddangosodd ar dudalennau cylchgrawn yr ysgol lle sonnir am ddallineb pobl i'r neges Gristnogol. Defnyddir yno ddelwedd Feiblaidd arall wrth gyfeirio at ddameg yr heuwr, a geiriau'r proffwyd yn ymdebygu i'r hadau a syrthiodd ymhlith y drain. Mae teyrngarwch Iwan i'w ffydd ac i'r Eglwys yn ystod ei lencyndod yn nodwedd bur annisgwyl ar y cerddi hyn, ac yn dipyn o syndod i unrhyw un sy'n gyfarwydd â'i weithiau diweddarach, sy'n cofleidio pynciau seciwlar a chyfoes gan amlaf. Ond wedi dweud hynny, rhaid cofio mai mab y mans oedd Iwan, wedi'r cyfan.

Cafodd ei fagu yn sŵn barddoniaeth y Beibl ac odlau a rhythmau emynau; roedd ganddo, felly, sylfaen gadarn, stôr barod o ddelweddau, a geirfa goeth yn danwydd wrth fynd ati i farddoni. Fel y gwelir yn y cerddi uchod, roedd crefydd yn thema gyson yn ei gerddi cynharaf ac mae osgo Cristnogol i nifer ohonynt. Roedd Iwan yn barod iawn i gydnabod dylanwad ei fagwraeth Anghydfurfiol:

Fel mab i weinidog roedd geiriau yn rhan bwysig o 'mywyd ers yn gynnar iawn. Er bod pregethau ac emynau yn medru bod yn ddiflas iawn i hogyn ifanc, mae'r gorau

---

<sup>66</sup> *The New Dominican*, 91 (1976), t. 15.

<sup>67</sup> *Ibid.*

ohonyn nhw yn llawn o ddisgrifiadau a delweddau byw, o straeon neu droeon difyr, ac o farddoniaeth.<sup>68</sup>

Er nad oedd ôl argyhoeddiad Cristnogol amlwg ar ei farddoniaeth wedi ei gyfnod yn yr ysgol, ni chafodd ei gefndir Anghydfurfiol ei ddiystyru'n llwyr ganddo chwaith. Gwelir iddo ddefnyddio fwy nag unwaith gyfeiriadaeth at alltudiaeth yr Iddewon o Israel a chysylltu profiad yr Iddewon a phrofiad y Cymry fel dwy genedl orthrymedig. Cafodd y gymhariaeth hon ei defnyddio ganddo yn y gerdd a enillodd iddo gadair Eisteddfod Ryng-golegol 1980, ac eto'n ddiweddarach yn y cerddi 'Y Lefiad'<sup>69</sup> ac 'Ar lan afonydd Babylon'.<sup>70</sup> Gwelir bod cyfeiriadau a delweddau Beiblaidd yn britho ei gyfrolau a chânt eu defnyddio'n fynych yn *Dan Ddylanwad* er mwyn cryfhau'r syniad o wladychu gwledydd America, ond ymddengys mai prinhaus a wna'r cyfeiriadau yng nghyfrolau olaf y bardd. Rhydd bwyslais ar werth ieithwedd y Beibl mewn ysgrif arall lle gwêl dristwch yn nirywiad traddodiad y capel, traddodiad sy'n fodd i gadw barddoniaeth yn beth byw a ddefnyddir yn naturiol o ddydd i ddydd:

Gyda dirywiad crefydd draddodiadol, prin erbyn hyn, hyd yn oed o fewn y gymdeithas Gymraeg, yw'r rhai sy'n llefaru neu ganu barddoniaeth wych y Beibl a'r emynau o wythnos i wythnos – ffynhonnell o eiriau a delweddau i genedlaethau o feirdd, hyd yn oed y rhai mwyaf paganaidd a gwrthgrefyddol.<sup>71</sup>

Â magwraeth draddodiadol o'r fath, ac agwedd ddeallus tuag at farddoniaeth o oedran ifanc, does ryfedd i Mari Beynon Owen, un o'i gyfoedion yn yr ysgol, ddisgrifio ei hargraff gyntaf o'r bardd fel 'rhywun gwladaidd, wedi'i drwytho yn y "pethe" – capel a drama a thipyn o sgolor'.<sup>72</sup>

Nid hanner mor annisgwyl yw gweld arlliw o genedlaetholdeb a gwladgarwch yn y cerddi cynnar, er y ceir mewn ambell un ohonynt fod crefydd eto'n dod law yn llaw â Chymreictod. Yn 'Ffydd, Gobaith, Cariad', er enghraifft, cyflëir y syniad fod dyfodol Cymru yn ddibynnol ar ymlyniad y Cymry i'r ffydd Gristnogol: 'Trwy obaith a ffydd yng nghariad ein

<sup>68</sup> Iwan Llwyd, 'O Dal-y-bont i Dal-y-bont', *Pac o Feirdd*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2002), t. 11.

<sup>69</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 7.

<sup>70</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 26.

<sup>71</sup> Iwan Llwyd, 'Barddoniaeth i Bawb', *Barddas*, 244 (Rhagfyr/Ionawr/Chwefror 1997-98), t. 61.

<sup>72</sup> Mari Beynon Owen, "'My friend has just won the Crown'", *Iwan, ar Daith*, t. 25.

Duw / Gwireddir y proffwyd, daw Cymru'n fyw'.<sup>73</sup> Yr un amod sydd ar ddiwedd 'Y Ffordd': 'I sicrhau troi'r Gymru hon yn Nef, / Rhaid ceisio dilyn ei esiamp' Ef'.<sup>74</sup> Ychydig yn wahanol yw'r gerdd 'Cymru', sy'n awgrymu na fydd y wlad yn cael ei hadfer tra bo'r Cymry'n cefnu ar eu Duw. Mae'r llinell "'O ble mae ein Duw?" medd yr orchfygedig bobl' yn enghraifft arall o glymu'r Cymry â chenedl yr Iddewon yn eu cyni.<sup>75</sup> Ond yna yn 'Rhagrith' sylweddola Iwan nad digon yw iddo draethu byth a beunydd am yr argyfwng sy'n wynebu Cymru; rhaid i'r geiriau esgor ar weithredoedd:

Ond daw euogrwydd wedi'r twyllo ffôl,  
Hunangyfiawnder oedd y dwrdio maith,  
Daw geiriau'n hawdd i faeddu gwefus laith,  
Ond ni ddaw gweithredu ar eu hôl;  
Ac weithiau cenfigennaf at y rhai  
Na allant sylweddoli maint eu bai.<sup>76</sup>

Yr awgrym yn y gerdd yw mai Iwan yw'r un sy'n dwrdio ei gyd-Gymry, ac yn ddifyr iawn dywed Mari Beynon Owen ei bod yn cofio Iwan yn 'dwrddio fi a fy ffrindiau am ein gwamalrwydd, ein diffyg ymrwymiad i'n hiaith a'n diwylliant'.<sup>77</sup>

Fel yr adlewyrcha Seisnigrwydd cylchgrawn y *Dominican*, roedd y Saesneg yn bresenoldeb cryf yn Ysgol Friars, ac efallai mai ymateb yn reddfol i hynny yr oedd Iwan yn y cerddi herfeiddiol sy'n dangos angerdd dros ei wlad a'i iaith leiafrifol. Roedd yn sicr yn cydnabod yr her a oedd yn ei wynebu ef a'i gyd-ddisgyblion o Gymry Cymraeg ar y pryd:

Fel disgybl yn ysgol Seisnig Friars ym Mangor, roedd criw bychan ohonom ni yn ceisio glynu at yr iaith, yn wyneb cryn dipyn o ragfarn a malais.<sup>78</sup>

Roedd yn ymwybodol o'r dylanwad estron a oedd yn fygythiad beunyddiol i'r ffordd Gymreig, Gymraeg, ac aeth ati'n ymarferol i gyfrannu at achos y Gymraeg yn yr ysgol trwy fod yn ysgrifennydd y Gymdeithas Gymraeg tra oedd yn ei flwyddyn olaf yno. Mae'r gerdd 'Y

<sup>73</sup> Traethawd PhD Nia Heledd Jones, *Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997* (Prifysgol Bangor, 1998), t. 169.

<sup>74</sup> Ibid.

<sup>75</sup> Ceir llun o'r soned ar y rhaglen deledu *Iwan Llwyd, rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul*.

<sup>76</sup> Traethawd PhD Nia Heledd Jones, *Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997*, t. 169.

<sup>77</sup> Mari Beynon Owen, "'My friend has just won the Crown'", t. 28.

<sup>78</sup> Iwan Llwyd, 'Breuddwyd Roc a Rôl', *Barn*, 479-80 (Rhagfyr/Ionawr 2002-03), t. 68.



Teledu', a ymddangosodd yn y *Dominican* yn 1976, yn enghraifft o'r ymwybyddiaeth boenus a oedd ganddo o'r dylanwad Seisnig a oedd yn llifo trwy ddrysau aelwydydd Cymreig gyda dyfodiad y teledu lliw, a oedd yn dal yn beth go newydd pan gyfansoddwyd y gerdd. Caiff y bachgen pedair oed yn y gerdd, a chanddo enw Cymraeg da, Dafydd Alun, ei ddadrithio a'i siomi wrth sylweddoli nad yw'n deall y Saesneg a glyw ar y teledu, ac mae'n sylweddoli ei fod yn wahanol i 'drigolion y byd lliw'. Daw'r ergyd ar ddiwedd y gerdd:

Nid celwydd yw'r teledu i rai heb brofi gwell,  
Ond ffaith sy'n adlewyrchu byd estron, Seisnig pell.<sup>79</sup>

Dangos ymwithiad traddodiadau allanol i ddiwylliant Cymreig a wna'r gerdd 'Yr R.A.F yn gorymdeithio fel rhydd-ddinasyddion Bangor' hefyd.<sup>80</sup> Cyfeiriodd Iwan at y gerdd honno mewn ysgrifau diweddarach, gan ddangos sut y bu cyfochri'r cyferbyniol a chanfod ffin yn ysgogiad iddo ysgrifennu o'r cychwyn cyntaf:

Fe ddois o hyd i'r gerdd yn ddiweddar, yn llechu dan dudalennau'r blynyddoedd, a cherdd oedd hi yn ymateb i benderfyniad Cyngor Dinas Bangor i gyflwyno rhyddid y Ddinas i Awyrlu'r Fali, gyda'r seremoni yn digwydd ar y sgwâr y tu allan i Eglwys Gadeiriol hynafol Deiniol Sant. Dyna'r ffin ar un waith, y ffin rhwng rhyfel a heddwch, rhwng traddodiad militaraid Prydain a hen grefydd Geltaidd Cymru, rhwng grym milwrol llywodraeth Loegr a'r man lle gorwedd Owain Gwynedd.<sup>81</sup>

Efallai mai ei hoffter o ddeuoliaeth a'i denodd at farddoniaeth T. H. Parry-Williams mor gynnar, ac mae'n sôn fwy nag unwaith yn ei golofn yn y cylchgrawn *Barddas* am gerdd gan Waldo sy'n amlygu dau begwn, a gafodd gryn argraff arno. Fe geir gan Waldo yn 'O Bridd' ddau gyflwr cyferbyniol ochr yn ochr: cyflwr gwenwynig, afiach y pridd yn ymyl purdeb ynys o îa, lle na chyffyrddwyd ag ef gan ddydd.<sup>82</sup> Byddai Waldo, fel y gwelwn maes o law, yn ddylanwad o bwys ar farddoniaeth Iwan erbyn ei ddyddiau yn y brifysgol. Mae'n nodi hefyd, mewn sawl ysgrif, y modd y gwêl Fangor yn ddinas â natur ddeuol iddi: 'Fel hogyn o Fangor dwi wastad wedi teimlo ar y ffin rhwng y wlad a'r ddinas,' meddai.<sup>83</sup>

---

<sup>79</sup> *The New Dominican*, 91 (1976), t. 16.

<sup>80</sup> *The Dominican*, 90 (1975), t. 22.

<sup>81</sup> Iwan Llwyd, 'Dinas Deiniol', *Barn*, 510-11 (Gorffennaf/Awst 2005), t. 43.

<sup>82</sup> Waldo Williams, *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956), tt. 84-5.

<sup>83</sup> Iwan Llwyd, 'Y to ifanc traddodiadol', *Barn*, 557 (Mehefin 2009), t. 45.

Mae'n sefydlu'n glir ar ddechrau'r gerdd yn y *Dominican* y lleoliad a'r flwyddyn:

Tu allan i'r Eglwys Gadeiriol ym mlwyddyn dathlu  
Sefydlu cell Deiniol Sant ym Mangor,  
Ym mlwyddyn Cymru i Grist ym mis Mawrth  
Mil-naw-cant-saith-deg-a-phump.

Byddai lle ac amser yn dod yn nodweddion amlwg o gerddi diweddarach Iwan, ac fe nodir yn aml ganddo ar waelod y ddalen yn ei gyfrolau barddoniaeth y man a'r flwyddyn y cafodd cerdd ei chyfansoddi. Wedi iddo baentio llun o'r digwyddiad hwnnw a'i cythruddodd ym Mangor, ac o'r milwyr a'r bobl barchus yn dathlu ac yn ymfalchïo mewn grym imperialaidd, mae'n cadw ei ergyd eto ar gyfer clo'r gerdd:

Rhoi rhyddid y ddinas yn nwylo'r Estron pell  
A chaethiwo'r Cymry yn nyfnder eu cell.<sup>84</sup>

Mynegi rhwystredigaeth bachgen ifanc a wna nifer o'r cerddi hyn, ac mae'n amlwg iddo ganfod mai trwy farddoniaeth y medrai ysgrifennu am y pethau oedd yn ei gorddi ar y pryd. Yng nghanol y cerddi o gyfnod Iwan yn y chweched dosbarth, cerddi a all ymddangos braidd yn unffurf ar brydiau, mae meddwl aeddfed ar waith, a chryn wreiddioldeb yn perthyn i gerddi fel 'Y Teledu' ac 'Wedi'r Ddrama', cerdd arall a ymddangosodd yn rhifyn 1976 y *Dominican*.<sup>85</sup> Nid oedd byd y ddrama yn un anghyfarwydd i Iwan ac yntau'n rhan o Gymdeithas Ddrama'r ysgol yn ystod ei flwyddyn olaf yno. Y flwyddyn honno, llwyfannwyd drama Saunders Lewis *Eisteddfod Bodran*; dewiswyd Iwan i chwarae'r brif ran a chafodd ei ganmol yn hael am ei berfformiad mewn adolygiad yng nghylchgrawn yr ysgol. Cerdd sy'n dangos byrhoedledd pethau yw 'Wedi'r Ddrama'; ar un wedd, darlunia'r gwacter yn y theatr wedi i'r ddrama orffen, a'r cyffro pan gaiff y theatr ei llenwi drachefn, ond ni ellir peidio â gweld y llun fel microcosm o rywbeth ehangach. Gyda'r sôn am iaith, gwlad a chrefydd yn y gerdd, gallwn gymryd mai sefyllfa'r Gymru Gymraeg sydd ganddo mewn golwg yn y gerdd

---

<sup>84</sup> *The Dominican*, 90 (1975), t. 22.

<sup>85</sup> *The New Dominican*, 91 (1976), t. 16.

hon, fel yn 'Y Teledu'. Mae'r newydd-deb a geir yn y ddwy gerdd yn argoeli bod yma fardd addawol.

Cafodd yr angerdd dros ei wlad ac ynghylch sefyllfa wleidyddol Cymru ei fegino wrth i Iwan gefnu ar Fangor am y tro ym mis Medi 1976 a throi tuag Aberystwyth i fod yn fyfyrwr yn Adran Gymraeg y Coleg. Ac yntau wedi hen arfer â'r mesur yn ystod ei ddwy flynedd olaf yn yr ysgol, does ryfedd iddo roi cynnig ar gystadleuaeth y soned yn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn Aberystwyth yn 1977. Cafodd Iwan Lloyd Williams – neu 'Llwyd yr Eithin', a defnyddio ei ffugenw arwyddocaol – ei osod yn ail gan y beirniad, R. Geraint Gruffydd, gyda Myrddin ap Dafydd yn fuddugol yn y gystadleuaeth. Gosodwyd 'Llwyd yr Eithin' yn gydradd ail ag ef ei hun gan Nesta Wyn Jones yng nghystadleuaeth y delyneg y flwyddyn honno hefyd, a Dylan Iorwerth yn dod i'r brig. 'Gwreichion' oedd y testun, a go brin y dychmygai Iwan bryd hynny y byddai'r un testun yn codi eto yn Eisteddfod Genedlaethol 1990, ac mai ef fyddai enillydd y Goron. Cystadlodd Iwan ar gystadleuaeth y delyneg eto yn ei ail flwyddyn yn Eisteddfod Ryng-golegol Caerdydd 1978 dan y ffugenw 'Pync y gân 1' a dod yn gydradd drydydd y tro hwnnw. Dylan Iorwerth aeth â hi unwaith yn rhagor.

Yn 1979, fodd bynnag, y dechreuodd gyrfa farddol Iwan o ddifri, mae'n debyg, a'i awen yn cael ei gyrru gan rwystredigaeth ynghylch y diwylliant Cymraeg ac yna gan y sefyllfa dywyll, ddihyder a oedd ohoni wedi siom canlyniad refferendwm Gŵyl Dewi. Ac yntau bellach yn ei drydedd flwyddyn yn y brifysgol, penderfynodd geisio am gadair yr Eisteddfod Ryng-golegol, a dyna'i hennill ym Mangor y flwyddyn honno, a'i wobrwyo rai dyddiau'n unig wedi canlyniad y bleidlais. Ailadroddodd y gamp yn 1980 yn Abertawe, a chael ei ddisgrifio gan Bryan Martin Davies yn y feirniadaeth yn 'fardd ifanc addawol dros ben, sy'n meddu ar ddoniau a all wneud enw cenedlaethol iddo yn y dyfodol'.<sup>86</sup> Nid honno oedd yr unig gadair iddo ei hennill yn 1980 fodd bynnag. Cafodd Iwan ei gadeirio am yr eildro y flwyddyn honno yn Eisteddfod yr Urdd Bro Colwyn. Tebyg iawn yw thema ac arddull cerddi buddugol 1979 ac 1980, cerddi sy'n rhoi sylw i barhad ac i argyfwng y Gymraeg a Chymreictod. Fe ddarlunnir ynddynt y sefyllfa ddigalon a oedd ohoni ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au mewn modd trosiadol, llawn cyfeiriadaeth. Mae'r gyfeiriadaeth a ddefnyddia ynddynt at ein

---

<sup>86</sup> Beirniadaeth Bryan Martin Davies ar gystadleuaeth y Gadair, *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-Golegol Abertawe 1980* (Abertawe, 1980), t. 3.

chwedlau ac at waith beirdd mawr yr ugeinfed ganrif yn brawf ynddo'i hun o gyfoeth traddodiad diwylliannol y Cymry, yr union draddodiad y mae'n ei weld yn dadfeilio o'i flaen yn y tair cerdd. Goleuodd y cerddi hyn y llwybr tuag at gerddi'r goron yn Eisteddfod Cwm Rhymni 1990 a llywio trywydd ei ganu dros y blynyddoedd a oedd i ddod. Roedd y cyfnod hwnnw yn Aberystwyth yn hollbwysig i ddatblygiad Iwan, ac awgryma Wiliam Owen Roberts mai'r naws ddigalon a oedd yn gwmwl dros Aberystwyth yn 1979 fu'n gyfrifol am yrfa farddol lewyrchus a chynhyrchiol Iwan:

Does dim dwywaith yn fy meddwl i mai crochan ferw chwerw y cyfnod rydw i newydd sôn amdano berodd [*sic*] i Iwan ddatblygu i fod y math o fardd ag oedd o yn y diwedd. Motor ei ddicter – ac mae pawb sy'n dal ati i sgwennu tros gyfnod hir angen rhyw ias o ddicter, rhyw dân yn y bol, rhyw boen neu rhyw [*sic*] glwy – a'r cyfnod hwnnw yn Aberystwyth borthodd hynny i mewn i enaid Iwan, heb os nac oni bai.<sup>87</sup>

'Y Ffynnon' oedd testun cystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod Ryng-golegol 1979, ac yn gefndir i bryddest fuddugol Iwan mae chwedl Iarlles y Ffynnon neu ramant Owain.<sup>88</sup> Alegori yw'r bryddest mewn gwirionedd, ac fel y ffynnon yn y chwedl, mae'r ffynnon yng ngherdd Iwan yn gofyn am gael ei gwarchod. Dyma 'ffynnon ein hawen a'n hiaith: / Ffynhonnell ein hunaniaeth'. Daw'n amlwg wrth ddarllen y bryddest fod dylanwad mesur y cywydd ar fesur cerdd rydd Iwan gyda'r defnydd o gwpledi odledig, acennog a diacen am yn ail. Gellir dod o hyd i ambell linell o gynghanedd yma ac acw ynddi hefyd, neu linellau ac iddynt gyffyrddiadau cynganeddol. Parhaodd hynny yn un o nodweddion amlycaf arddull Iwan yn ei gerddi rhydd gydol ei yrfa farddol.

Egyr y bryddest â darlun o'r 'tir tywyll': mae'r haul wedi machlud ac nid oes sicrwydd y daw bore newydd i'w ganlyn. Mae'n debyg mai cynrychioli'r diffeithwch diwylliannol yng Nghymru a wna'r 'tir tywyll' hwn yn hytrach na chynrychioli'r hinsawdd wleidyddol. Nid oedd pleidlais y refferendwm wedi ei bwrw pan ysgrifennodd Iwan y gerdd, ac mae'n debyg fod hyder heintus myfyrwyr Aberystwyth yn dal i obeithio am bleidlais 'ie'. Ond yng nghydestun yr iaith a'r diwylliant Cymreig, roedd pethau'n edrych yn ddigon du, ac yng nghanol y

---

<sup>87</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Rhai atgofion coleg', *Iwan, ar Daith*, t. 37.

<sup>88</sup> 'Y Ffynnon', *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-Golegol Bangor 1979* (Argraffdy Arfon, 1979), tt. 3-4.

tir tywyll y saif y ffynnon sanctaidd sy'n dal hanfod Cymreictod. Ysgrifennwyd y gerdd yn y person cyntaf lluosog, a gallwn dybio mai cymeriad Owain o'r chwedl yw'r llefarydd yma gan mai dyna ffugenw Iwan, a bod Owain yntau'n cynrychioli'r Cymry. Yn ôl y chwedl, dilynodd Owain yr un llwybr ag a ddilynodd Cynon, un arall o farchogion Arthur, nes cyrraedd y ffynnon ryfeddol. Gan gadw at yr un hanes yn y gerdd, gwêl Owain y ffynnon yn y gwyll, ac fe â ati i yfed dŵr ohoni gan ddiwallu ei angen am chwistrelliad o Gymreictod.

Yn unol â'r rhamant unwaith eto, wrth i Owain gydio yn y cawg arian ger y ffynnon, daw'n gawod drom o genllysg. Mae'r 'storm gesair yn siglo'r gwyll' ac yn peri i'r dail ddisgyn oddi ar y coed gan orchuddio llygad y ffynnon, yn gaead amdani fwy neu lai. Mae'r awen wedi ei chloi o fewn y ffynnon:

Yr awel fain yn cwyno  
Am y gerdd sy'n gaeth dan y clo,  
A'i heco yn ein herio  
I geisio'r gwin dan y gro.

Cyn cael cyfle i ystyried hel y dail oddi yno a rhyddhau'r awen o'i chell, daw haid o adar i glwydo ac i ganu ar y dderwen uwch y ffynnon. Swyddogaeth yr adar yn y chwedl yw llesmeirio'r sawl sy'n yfed dŵr y ffynnon â'u cân swynol, fel nad ydyw wedi ei baratoi na'i rybuddio o'r hyn a ddaw nesaf, sef y frwydr yn erbyn gwarchodwr y ffynnon. Yr un yw swyddogaeth yr adar yma: mae eu 'cân yn cadwyno'r cof', yn cynnig 'anghofrwydd' ac yn 'rheoli cyfeiriad y co', hynny yw, yn peri i Owain anghofio am y ffynnon, ac felly anghofio am ei fwriad i ryddhau'r awen. Er bod yr adar yn ei demtio, mae'n ymwybodol mai twyll yw eu swyn:

Onid angau sydd yn yr angof  
A ddaw, megis gwawr newydd,  
A chelwydd ei nos yn twyllo'r dydd?

Yn wir, byddai ildio yn golygu y byddai hi'n gwawrio eto yn y tir tywyll, ond gwawr o gelwydd fyddai hi: y Gymraeg a'r hen draddodiadau Cymreig wedi eu colli a'r Cymry yn byw dan haul llwynog cyfaddawd. Mewn cerdd ddiweddarach, lle caiff Cymreictod ei ddarlunio fel cadwyn

am y bardd, mae Iwan yn cyfaddef: 'weithiau / dyheaf / am rwygo'r gadwyn / a rhodio'n rhydd', ond yna mae'n sobri ac yn newid ei feddwl gan '[b]enderfynu / mai / rhy hawdd y rhyddid'.<sup>89</sup> Cynnig yr un rhyddid a wna'r adar yma, rhyddid rhag y frwydr barhaus dros Gymru. Rhaid yw penderfynu rhwng dal ati i frwydro neu ildio i'r rhyddid:

Crewyd drysau i'w hagog,  
A chwestiynau i'w hateb yn ddi-dor;  
A feddo gof ni fydd gaeth,  
I'n herio daw ein hiraeth.<sup>90</sup>

Gwireb yw'r cwpled olaf sy'n adlais o eiriau T. Gwynn Jones: 'A feddo gof a fydd gaeth, / Cyfaredd cof yw hiraeth'; cwpled o'i awdl delynegol 'Tir Na N-Og' sy'n seiliedig ar chwedl Wyddelig Nia Ben Aur.<sup>91</sup> Troi'r llinell gyntaf ar ei phen a wna Iwan, fodd bynnag, a gwyrddroi'r syniad o ryddid hawdd y fargen. Awgryma fod y rhyddid go iawn i'w ganfod o gofio am hanes Cymru, yr iaith a'i diwylliant; rhyddhau rhywun yn hytrach na'i gaethiwo a wna Cymreictod. Mae'r 'drysau i'w hagog' yn y pennill uchod hefyd yn ein hatgoffa o agor y drws tuag Aber Henfelen, delwedd a ddefnyddiodd Iwan eto mewn prydddest y flwyddyn ganlynol, ac sydd i'w gweld yn ei gerddi aeddfetach hefyd. Ystyria Owain y canlyniadau pe dewisid y rhyddid taeogaidd, ac mae'r canlyniadau hynny yn alarus a digalon:

Onid ofer cydymdeimlad  
Yr oesoedd a ddêl, am farw gwlad?  
Marwnad fydd eu hanthem  
A'u hemynau gwag ar fore'r gêm.<sup>92</sup>

Daw tro yn y bryddest wrth i'r genedl ddeffro o'i pherlewyg a mynnu brwydro yn erbyn swyn dieflig yr adar: 'Chwalwyd yr adar yn gawod / A gwelwyd o'r newydd holl greulondeb Bod'. Mae'r 'Bod' priflythrennog yn ein tywys yn syth at gysyniad Waldo o Wreiddyn Bod, a gwelir ôl Waldo yn y cyfeiriad at y 'dail gwÿdd' yn nes ymlaen. Wrth i'r genedl ddeffro, ymddengys 'Y Gŵr Du', unwaith eto yn cadw at ddigwyddiadau'r chwedl, er

---

<sup>89</sup> Iwan Llwyd, 'Y Gadwyn', *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 15.

<sup>90</sup> 'Y Ffynnon', t. 4.

<sup>91</sup> T. Gwynn Jones, *Caniadau* (Wrecsam, 1934), t. 74.

<sup>92</sup> 'Y Ffynnon', t. 4.

mwyn 'amddiffyn y ffynnon rhag y llaid'; cyfeiriad digamsyniol arall at 'Preseli' Waldo.<sup>93</sup> Yn hytrach na mynnu brwydr yn erbyn Owain sydd newydd yfed dŵr y ffynnon, ymddengys mai ysgwyd Owain a'r Cymry yw bwriad y marchog hwn 'a'r tân yn ei frest'. Mae'n 'sgrechian ei gerdd yn ein henaid', ac yn mynnu adwaith gan y genedl. Bron nad yw'r sefyllfa'n ein hatgoffa o'r hyn a geir gan R. Williams Parry yn 'Cymru 1937', lle mae galw ar wynt cryf i ddod i ddeffro'r Cymry o'u lludded.<sup>94</sup> Wrth i'r Gŵr Du gynhyrfu'r dyfroedd a chynnig ffordd allan o'r tir tywyll, mae'r genedl yn ei ddilyn ac yn wynebu eu hofnau â hyder newydd:

A'r Gŵr Du yn erlid y gwynt,  
Yn herio ac yn hawlio helynt.  
Mynnwn ninnau, yn y tir tywyll,  
Agor ein ffenestri i'r gwyll,  
A gwrthod llesmair y côr  
Rhag inni anghofio rhagor.<sup>95</sup>

Defnyddiodd Iwan y syniad o agor ffenest er mwyn wynebu'r byd tu allan yn ddiweddarach yn 'Wedi'r angladd' lle mae'n gorchymyn: 'agor y ffenest / a gad i'r gwynt chwythu / llygredd y stryd i gyrion y 'stafell'.<sup>96</sup> Wynebu'r byd fel ag y mae yw'r unig ffordd o sicrhau dyfodol i'r Gymraeg a'i diwylliant, a chyda'r sylweddoliad hwnnw 'y daw yfory'n ei arfer' er gwaethaf yr ansicrwydd oedd ar ddechrau'r gerdd. Daw'r bryddest i ben yn hyderus:

A'r gerdd hithau'n ei gwendid  
A gaiff gyfeiriad, ac iaith a gwrid;  
Yr hon fu gynt yn gyfyng a brau  
A gaiff waed yn ei gwythiennau.<sup>97</sup>

Aros ym myd y Mabinogion a wnaeth Iwan yn ei gerdd fuddugol y flwyddyn ganlynol yn Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe. Roedd bellach yn fyfyrwr ymchwil, wedi graddio yn ystod haf 1979 gyda gradd 2:1 uchel, ac wedi aros ymlaen i astudio ar gyfer doethuriaeth ar noddwyr y beirdd yn sir Gaernarfon dan gyfarwyddyd yr Athro D. J. Bowen. Ni chyflwynodd ei draethawd tan 1986 er iddo gael ei ddisgrifio gan Wiliam Owen Roberts fel 'ymchwilydd

<sup>93</sup> Waldo Williams, *Dail Pren*, t. 30.

<sup>94</sup> R. Williams Parry, *Cerddi'r Gaeaf*, Pedwerydd argraffiad (Dinbych, 1964), t. 63.

<sup>95</sup> 'Y Ffynnon', t. 4.

<sup>96</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 35.

<sup>97</sup> 'Y Ffynnon', t. 4.

cydwybodol iawn [...] a byddai'n gyrru i fyny yn ddeddfol i'r Llyfrgell Genedlaethol bob bora, waeth befo faint o hwyl a miri a gafwyd y noson gynt'.<sup>98</sup> O edrych ar y gwaith ymchwil, sy'n rhychwantu cyfnod helaeth rhwng y bedwaredd ganrif ar ddeg a dechrau'r ddeunawfed ganrif, mae'r traethawd cyflawn yn ymestyn dros ddwy gyfrol drwchus; dros 700 tudalen yn cofnodi 71 o ganolfannau nawdd i'r beirdd yn sir Gaernarfon. Nid yw'n syndod iddo gymryd cymaint o amser i gwblhau gwaith mor drylwyr, ond gradd MA a dderbyniodd am yr ymchwil yn y pen draw am ba reswm bynnag.

Diwedd Ail Gainc y Mabinogi sydd ganddo'n fframwaith i'r bryddest dair rhan 'Atgof', sydd yn ein tywys i Ynys Gwales gyda'r saith goroeswr a phen Bendigeidfran wedi'r brwydro yn Iwerddon a chladdu Branwen ger afon Alaw ym Môn.<sup>99</sup> Daw'n amlwg mai cerdd alegoriol arall sydd yma. Fe ddarlunnir Gwales fel ystafell lle yr enciliodd y saith yn flinedig rhag tywyllwch y byd tu allan wedi canlyniad y refferendwm ac ethol Margaret Thatcher yn Brif Weinidog ym mis Mai 1979; cilio 'wedi blynyddoedd y dagrau / ger afonydd y gaethglud'. Mae osgo Beiblaidd i'r llinellau hyn, a daw adnod gyntaf Salm 137 i'r cof, lle gwelwn yr Iddewon yn wylo ger afonydd Babilon ar ôl cael eu halltudio o Seion. Fel y nodwyd eisoes, mae'n debyg iddo weld tebygrwydd yn sefyllfa orchfygedig yr Iddewon a'r Cymry, a'r ddwy genedl yn colli gafael ar ran o'u hunaniaeth o achos grym mwy. Dyma ddangos difrifoldeb sefyllfa Cymru yng ngolwg y bardd. Fe ddarlunnir cysgod trwm dros y wlad, tywyllwch tebyg i'r hyn a welsom ganddo yn 'Y Ffynnon', ac fe'i gwelwn eto yn ei gerdd fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd yn 1980. Ffoi rhag y tywyllwch hwnnw a wna'r Cymry wrth eu cau eu hunain yn yr ystafell.

Os dilynwn fod y ffugenw yn cynrychioli'r llais yn y gerdd eto, yna Heilyn ap Gwyn yw llefarydd y gerdd, ond mae'n amhosib peidio â chlywed llais Iwan yma hefyd. Yn yr ystafell, caiff amser i fyfyrion hunandosturiol ar naifrwydd y rhai a feddyliodd fod pleidlais y refferendwm yn debygol o fod yn un gadarnhaol, ac roedd Iwan ei hun ymysg nifer o fyfyrwyr yn Aberystwyth a gredai hynny. Fe'u cymherir â milwyr y Gododdin, yn meddwi ar y ddelfryd cyn gorfod wynebu'r dinistr:

---

<sup>98</sup> William Owen Roberts, 'Rhai atgofion coleg', t. 34.

<sup>99</sup> 'Atgof', *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe 1980*, t. 3.



Truan ein tynged;  
y gwŷr ieuanc brau  
a ruthrasant yn llawen  
ar eu meirch meddw  
o barlyrau'r medd  
heb sawru'r gwaed ar ystlys y gwynt ...

Yna daw adar Rhiannon i'w cysuro yn yr ystafell, i 'estyn alawon anghofio' er mwyn pylu'r cof am realiti sefyllfa wleidyddol Cymru ac i huno'r atgofion am Gymru lewyrchus y gorffennol. Nid ildiodd y Cymry i swyn yr adar yn 'Y Ffynnon', ond mae'r demtasiwn yn gryfach yn 'Atgof' i dderbyn y wawr gelwyddog:

Breuddwyd yw byw mwyach,  
a'r gorwel yn ymestyn  
yn un wledd hir  
yng nghelwydd heno ...

Er mor gyfforddus yw encilio i ystafell sy'n cynnig cynhesrwydd, medd a thrwmgwsg, mae'r llais yn y gerdd yn dyheu am deimlo'r hiraeth eto ac am roi diwedd ar undonedd bywyd. Hiraetha am i'r 'cigfrain ddychwelyd / i'w nyth / yn adfeilion y cof; / a boddi lledrith ein breuddwydion / a'u crawcian caled'. Yn ôl myth sydd ynghlwm â Thŵr Llundain (safle a gysylltir â'r Gwynfryn yn Llundain, lle claddwyd pen Bendigeidfran) ni orchfygir Ynys Prydain tra bo brain yn nythu yno. Efallai fod cysylltiad rhwng delwedd Iwan yn y gerdd a'r myth hwn. Nid dyma'r unig dro i frain ymddangos yng ngherddi Iwan, a sonia Myrddin ap Dafydd am y cyfeiriadau niferus at frain sydd yn ei farddoniaeth ac am y chwedlau sy'n dod i gof wrth feddwl am y frân. Ar un olwg 'cymeriad doeth, dwyfol y chwedlau' ydyw, ond 'mae blerwch yn perthyn i frain yn ogystal – chwalfa o blu wrth hedfan, crac yn y llais wrth draethu a'r nyth mwyaf di-siâp ohonyn nhw i gyd'. Cred Myrddin ap Dafydd y byddai cyfeiriad o'r fath yn apelio at Iwan: 'Roedd ffin yn cydfodoli, y niwl amwys rhwng dau fyd gwahanol, yn diriogaeth agos at galon Iwan'.<sup>100</sup>

---

<sup>100</sup> Myrddin ap Dafydd, "'Un Frân o Ddifri o Hyd'", *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), tt. 120-1.

Yn nhrydedd ran y bryddest y daw'r dadrith wrth i Heilyn ap Gwyn agor y drws tuag Aber Henfelen. Ac Iwan bellach wedi ei drwytho mewn llenyddiaeth Gymraeg, mae'n bur debyg y byddai wedi dod ar draws cerddi fel 'Cymru 1937' R. Williams Parry, lle disgrifir y dynion dur diemosiwn, neu 'Golygfa mewn Caffé' Saunders Lewis lle mae'r 'meirwon byw' a'r 'sgerbydau llafar' yn cynrychioli'r Cymry.<sup>101</sup> Cerddi ydynt sy'n beirniadu difaterwch a dideimladrwydd y genedl ynghylch ei sefyllfa yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, ac mae Iwan yn cyflwyno llun digon tebyg ohoni:

Daethom i'r ystafell neithiwr,  
ddeugain mlynedd yn ôl,  
a'r awel yng Ngwales  
yn 'sgubo ymaith  
y galar a'r gorfoledd:

cawsom rhyw [*sic*] lwyd fodlonrwydd  
i'n cynnal yn ein cyni,  
ond daeth amser i fynnu  
gwynebu'r gwae  
a chofio'r cywilydd ...<sup>102</sup>

Dyma ddechrau dadebru o'r byw breuddwydiol, a rhaid agor y drws fel yr agorwyd y ffenest yn 'Ffenestri'. Dyna'r cam cyntaf tuag at sicrhau nad anwybyddir sefyllfa wleidyddol a diwylliannol Cymru ymhellach. Wrth agor y drws, mae her yn aros y Cymry – dechrau nid diwedd pennod sydd yma. Fe'u hatgoffir 'nad yw'r gân ond dechrau'. Mynnu edrych yn ei flaen y mae Iwan o hyd, ac mae'n aml yn gweld gwerth yn yr adegau tywyll sy'n sbarduno egni creadigol. Dywedodd unwaith ei fod yn 'gredwr cry bod rhyw ynni newydd yn deillio o bob dihoeni, rhyw fywyd yn mynnu parhau',<sup>103</sup> a dyna'r agwedd sy'n llywodraethu yn y pryddestau cynnar hyn oll.

Cafodd Iwan lwyddiannau eraill yn Eisteddfod Ryng-golegol 1980. Erbyn y flwyddyn honno roedd yn amlwg wedi dechrau ymgyswrtio â rheolau'r gynghanedd, ac yn englynwr digon medrus i ddod yn fuddugol ac yn ail yng nghystadleuaeth yr englyn dan y

---

<sup>101</sup> Saunders Lewis, *Cerddi* (Gregynog, 1986), t. 5.

<sup>102</sup> 'Atgof', t. 3.

<sup>103</sup> 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', *Barddas*, 161 (Medi 1990), t. 10.

testun 'Yr Arwr'. Rhaid cofio, er hynny, mai prentis ydoedd o hyd, a digon ystrydebol a rhamantaidd yw ei englyn buddugol sy'n cynnwys gwall cynganeddol yn yr ail linell na sylwodd y beirniad, W. Gerallt Harris, arno, mae'n rhaid:

Er adlais chwerw'r wawdlef – wedi'r hollt  
O'i droi'n alltud gartref;  
treuliodd oriau'r dioddef  
heb os, yn agos i'w nef.<sup>104</sup>

Gwelwyd fersiwn cynharach o'r un englyn yn nhaflen newyddion Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, *Yr Utgorn*, ddiwedd Tachwedd 1979 ac iddo'r teitl 'Y Chwyldroadwr'.<sup>105</sup> Daeth Iwan yn ail hefyd ar y gadwyn o englynion y flwyddyn honno, a derbyniodd feirniadaeth ganmoliaethus gan W. Gerallt Harris sy'n sôn rhywfaint am thema'r englynion:

Yng nglan y môr, yn Nhre-saith, y gwelodd *Glan Ceri* arwyddion o dranc yr iaith, a chynlluniodd ei gerdd yn ofalus ac yn bur gelfydd. Y mae'n gynganeddwr da, a theimlaf fod y gynghanedd a'r mesur yn llai o rwystr iddo ef nag i'w ddau gydymaith.<sup>106</sup>

Dyna brawf arall o'r ymlyniad wrth Sir Aberteifi a phrawf fod y cysylltiad yn ysbrydoliaeth gynnar iddo. Clymai ei ffugenw, *Glan Ceri*, ef yn uniongyrchol â Brongest, lle mae afon Ceri yn rhedeg drwy'r pentref. Daeth Iwan yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd yng nghystadleuaeth yr englyn digrif gyda thri englyn gwahanol i 'Y Mochyn'. Eto, englyn llencynnaidd yw'r englyn buddugol, ac mae'r defnydd o'r ansoddair cyn yr enw yn y llinell olaf yn dangos parhad dylanwad y beirdd rhamantaidd arno. Roedd yn amlwg yr un mor gyfforddus yn nhafodiaith ddeheuol teulu ei fam ag ydoedd yn ei dafodiaith ogleddol ei hun:

Un brwnt tu hwnt o'i wynto – a'i enau  
yn chwynnu'n afrosgo:  
un trwm, ond fe wnaiff y tro  
yn gynnes bryd i ginio.<sup>107</sup>

---

<sup>104</sup> *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe 1980*, t. 8.

<sup>105</sup> *Yr Utgorn*, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, 9 (30/11/79).

<sup>106</sup> *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe 1980*, t. 8.

<sup>107</sup> *Ibid.*, t. 9.

Erbyn ei bedwaredd flwyddyn yn y brifysgol, ymddengys fod Iwan yn fardd cyflawn yng ngolwg ei gyd-fyfyrwyr yn Aberystwyth. Wedi iddo ennill ei ail gadair yn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn 1980, ymddangosodd cerdd gan Emyr Lewis i'w longyfarch yn *Yr Utgorn*. Bu Emyr Lewis, Wiliam Owen Roberts, Siôn Aled ac Iwan Llwyd, ynghyd ag eraill, yn denantiaid yn y Gelli Aur yn George Street, Aberystwyth, yn ystod y flwyddyn honno. Fel Iwan Bangor neu Iw Bang y câi Iwan ei adnabod yn y coleg, ac felly y mae Emyr Lewis yn ei gyfarch yn ysgafn mewn 'Can [sic] o Fawl i'r Prifardd' gan ddweud bod y 'rafin eto'n Brifardd / ynfyty'n o foi eto'n fardd'.<sup>108</sup> Yn *Yr Utgorn* hefyd y cafwyd englyn dychanol gan Iwan i 'Saeson y Coleg hwn' gyda brawddeg ragarweiniol eglurhaol gan y golygydd yn dweud fel "roedd y beirdd mor pissed off hefo Saeson y Coleg hwn fel yr esgorodd Iwan Brydydd Hir Bangor ar yr epic – y dyhead cudd yn ein calonnau ni oll'. Mae galw Iwan wrth yr enw hwnnw, sy'n chwarae ar yr enw barddol Iwan Brydydd Hir, yn ddigon i gadarnhau ei fod yn cael ei gydnabod gan ei gyfoedion yn fardd digon da i dynnu ei goes. Dyma'r englyn:

Unbennol annibyniaeth? – a'i heno [sic]  
daeth hun i'n bodolaeth?  
Gwyliwch rhag unigoliaeth...  
Eto coll yw taeog caeth.<sup>109</sup>

Er ysgafned yw'r cyflwyniad, mae'r englyn ei hun yn dangos awydd Iwan i fynegi ei ddieter tuag at y ffordd yr oedd y brifysgol yn cael ei gweinyddu. Fis wedi cyhoeddi'r englyn, ysgrifennodd bwt crafog i'w gyhoeddi yn *Yr Utgorn* yn ymwneud â Seisnigrwydd Undeb y Brifysgol:

Da gweld fod y myth o fewn yr harmoni o Undeb gysylltiedig yn parhau i ffynnu yn Aber. Pob hwyl i'r aelodau hynny o UMCA sydd yn fodlon cydsynio a [sic] sistem Brydeinig o'r fath. Rhwydd hynt i'ch dyfodol.<sup>110</sup>

Prawf arall fod Iwan wedi hawlio'i statws fel bardd ymhlith y myfyrwyr oedd iddo allu dynodi 'I.B' cwta, neu mewn un achos 'You bang I can't' – sy'n chwarae'n ddireidus ar 'Iw Bang a'i cant' – er mwyn hawlio perchnogaeth ar englynion yn *Yr Utgorn*. Cyhoeddodd

---

<sup>108</sup> *Yr Utgorn*, 18 (29/2/80).

<sup>109</sup> *Yr Utgorn*, 6 (2/11/79).

<sup>110</sup> *Yr Utgorn*, 10 (7/12/79).

ambell englyn ysgafn yno, fel yr englynion i'r 'Meddwyn' ac 'I Alun Geufronnydd (ar ôl sgorio tair gol [sic])',<sup>111</sup> ond fe geir hefyd ergydion deifiol ganddo, fel y gwelwyd yn yr englyn i'r brifysgol ac mewn englyn dychanol arall 'i wyn roberts as'; englyn i Aelod Seneddol Ceidwadol Conwy a benodwyd yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig. Mae'r cyfeiriad tafod-yn-y-foch at y 'sianel ddi-werthoedd' yn cofnodi'r frwydr a fu dros sianel Gymraeg, lle bu 'ymgyrchu taer a charcharu llym' wedi i'r Blaid Geidwadol dorri ei haddewid ym Medi 1979 ynghylch sefydlu'r sianel:<sup>112</sup>

Ymhell o sŵn [sic] y celloedd – a'r senedd  
A'r sianel ddi-werthoedd,  
Y mae ef yn ei nefoedd  
Ac angerdd ei gerdd ar goedd.<sup>113</sup>

Roedd Wyn Roberts yn bleidiol iawn i bolisiau Thatcher, ac yn cefnogi'n frwd y bleidlais nacaol yn y refferendwm. Cyfeirio mae llinell olaf yr englyn at fel yr arferai'r Aelod Seneddol ysgrifennu ambell soned a'u cyhoeddi yn *Barn*. Disgrifia Wiliam Owen Roberts hwy fel sonedau 'erchyll o ffugdeimladwy a brogarol eu naws' oedd yn llawn 'sentimentaliaeth awenyddol "draddodiadol" a realpolitik dogmatic gwirioneddol galed'. Ychwanega drachefn: 'Efallai fod Wyn Roberts yn wleidydd craff ei grefft ond doedd o ddim yn fardd'.<sup>114</sup> Dyna egluro'r jôc yn *Sonedau Bore Sadwrn* lle cyflwyna Iwan y gyfrol 'Er cof am Wyn Roberts, A.S., Pensaer y Soned', a'r gwleidydd yn dal yn fyw ar y pryd.

Bu cyfnod Iwan yn fyfyrwr ymchwil yn fodd iddo ymgyfarwyddo ymhellach â'r gynghanedd, fel yr awgryma Wiliam Owen Roberts:

Yn y coleg, fe gafodd hyfforddiant ymarferol pellach, rhyw fath o brentisiaeth dwy flynedd yn y mesurau caeth – neu o leiaf yn y cywydd deuair hirion – trwy orfod llafurio ymysg y noddwyr a'u beirdd yn Sir Gaernarfon ar gyfer ei radd M.A. o dan oruchwyliaeth yr Athro D.J. Bowen.<sup>115</sup>

---

<sup>111</sup> *Yr Utgorn*, 8 (23/11/79).

<sup>112</sup> John Davies, *Hanes Cymru*, Argraffiad newydd wedi ei ddiwygio (London, 2007), t. 619.

<sup>113</sup> *Yr Utgorn*, 7 (16/11/79).

<sup>114</sup> Gohebiaeth rhyngof a Wiliam Owen Roberts (07/02/16).

<sup>115</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Rhai atgofion coleg', tt. 33-4.

Yn ogystal â chyhoeddi'n weddol gyson yn *Yr Utgorn* yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn fyfyrwr ymchwil, cyfrannodd Iwan yn helaeth at rifyn 1980 cylchgrawn llenyddol myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, *Y Ddraig*, a pha syndod hynny gan mai ei gyfaill a'i gyd-denant, Wiliam Owen Roberts, oedd golygydd y rhifyn. Yno, ar dudalennau cyntaf y cylchgrawn, gwelir erthygl Iwan Lloyd Williams, 'Pwysigrwydd 1936 fel Trobwynt yn Hanes Barddoniaeth Gymraeg y Ganrif Hon'; erthygl sy'n dangos sut y cefnodd y beirdd ar Ramantiaeth dechrau'r ugeinfed ganrif ac sy'n tafoli p'un ai'r Rhyfel Mawr ynteu llosgi'r Ysgol Fomio yn 1936 a fu'n gyfrifol am y newid. Dengys, trwy drafod arddull beirdd fel R. Williams Parry a Gwenallt, fod yn rhaid i farddoniaeth fod yn berthnasol i gymdeithas ei hoes, ac mae'n cloi ei erthygl trwy nodi ei bod yn 'haws i fardd ifanc yn awr ganu gyda Geraint Jarman'.<sup>116</sup> Bu Jarman yn esiampl i Iwan ei dilyn wedi rhwyg 1979, a'i gyfrol *Cerddi Alfred St* a geiriau caneuon yr albwm *Tacsi i'r Tywyllwch* yn adlewyrchu caledi a dŵch sinistr y cyfnod, dŵch oedd wedi suddo i fêr esgyrn y Cymry ieuainc siomedig a fu'n ymgyrchu mor frwd dros ddatganoli. Roedd sŵn a geiriau Jarman yn galed, yn ddinesig ac yn poeri ar bopeth sefydliadol draddodiadol Gymreig. Dyna'r cywair a'r naws a oedd yn gweddu i'r cyfnod, ac er nad oedd Iwan yn canu'n ddinesig ar y pryd, roedd yn sicr wedi profi'r chwistrelliad o besimistiaeth dywyll, ac roedd hynny i'w gweld yn amlwg yn y pryddestau a ysgrifennai.

Yn dilyn erthygl Iwan yn *Y Ddraig*, ymddengys pryddest ganddo, yr ail bryddest iddo ei hysgrifennu y flwyddyn honno a ddygai'r teitl 'Atgof'.<sup>117</sup> Tybed ai cynnig arall ar gystadleuaeth y gadair yn yr Eisteddfod Ryng-golegol yn gynharach yn y flwyddyn oedd hi? Yr un thema sydd iddi ag a oedd ym mhryddest fuddugol Iwan, sef siom canlyniad y refferendwm yn 1979. Rhanna'r gerdd yn bum caniad, a chefnidir ysgrythurol sydd iddi. Cymhara Iwan drallod Cymru ag atgyfodiad Crist. Er nad oedd yn dangos unrhyw argyhoeddiad Cristnogol personol yn y cerddi a ysgrifennodd wedi iddo adael Ysgol Friars, roedd ei gefndir Anghydfurfiol yn amlwg yn dal i ddylanwadu arno ac yn cynnig rhyw gysur ar adegau hefyd, fel y tystia Siôn Aled wrth gofio am sgwrs a gafodd ag Iwan yn y Gelli Aur y noson y lladdwyd John Lennon:

---

<sup>116</sup> Iwan Lloyd Williams, 'Pwysigrwydd 1936 fel Trobwynt yn Hanes Barddoniaeth Gymraeg y Ganrif Hon', *Y Ddraig*, Cylchgrawn Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, gol. Wil Roberts (1980), t. 5.

<sup>117</sup> 'Atgof', *ibid.*, tt. 6-7.

Mab y Mans oedd Iwan, wrth gwrs, ond prin y byddai'n trafod crefydd, yn ystyr gyfundrefnol y gair beth bynnag, o gwbl. Fodd bynnag, yn sgil digwyddiad y noson honno, a oedd fel pe'n herio bob sicrwydd arall, dwi'n ei gofio'n cyfaddef 'Dwi byth yn mynd i'r capal bellach ond mae'n gysur imi bod y capal yno sdi.'<sup>118</sup>

Stroclyd a phregethwrol yw'r ail 'Atgof' ar y cyfan, ond mae ynnddi ddelweddau a thrawiadau y byddai Iwan yn eu defnyddio eto maes o law mewn cerddi aeddfetach ac mae'r dylanwadau arno eto'n cael eu hamlygu. Egyr y gerdd â'r syniad mai bore tebyg i unrhyw fore arall oedd 1 Mawrth 1979: 'Byr / fu'r bore hwnnw / yng nghronicl y canrifoedd,' meddai. Ailgylcha'r un syniad yn 'Mawrth 1af, 1997'; a'r ail refferendwm ar y gorwel ym mis Medi'r flwyddyn honno. Ar Fawrth 1af, mae Iwan yn cofio sut y bu hi yn 1979, ddeunaw mlynedd yn union i'r diwrnod: 'Heddiw oedd hi: / un dydd arall yn nhroad y ddaear'.<sup>119</sup> Un o brif ddelweddau'r bryddest yw honno o'r barcud yn cylchu'r bedd, yn aros i gael bwydo ar y corff, ac mae'r cyfeiriad at y 'trydydd dydd' yn gosod y cyd-destun Beiblaidd yn syth:

Byr fu'r bore  
ar y trydydd dydd hwnnw:  
a'r barcud uwch y borfa  
wedi hen flino ar ei ysglyfaeth.<sup>120</sup>

Ond gan mai cerdd am y refferendwm yw hon, rhaid ystyried bod symbolaeth ehangach i'r barcud, a gall gynrychioli'r grym Prydeinig yn aros am dranc Cymru. Defnyddia Iwan ddelwedd debyg yng nghyd-destun Cymru a Lloegr yn 'Croesi'r Ffin', un o gerddi *Sonedau Bore Sadwrn*, lle mae cudyll coch yn awchu am gig yr oen diniwed.<sup>121</sup>

Yn niwedd rhan gyntaf 'Atgof', darlunnir Cymru fel gwlad wedi colli ei hurddas, ei grym a'i gweledigaeth:

Brain lle bu brenhinoedd,  
a brwyn lle bu breuddwyd:  
o na ddeuai'r Brenin Alltud

---

<sup>118</sup> Siôn Aled, 'Mab y Mans', *Iwan, ar Daith*, t. 143.

<sup>119</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), t. 33.

<sup>120</sup> 'Atgof', t. 6.

<sup>121</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 10.

i'w hollti eto.

Dyna ddylanwad Waldo i'w weld yn glir unwaith eto. Yn 'Mewn Dau Gae', hola Waldo pryd y deuai'r 'Brenin Alltud a'r brwyn yn hollti' o dan ei draed gan mor nerthol ydyw.<sup>122</sup> Cynnig achubiaeth yng nghanol argyfwng a wna Brenin Alltud Waldo, a gofyn am achubiaeth i Gymru a wna Iwan yn ei gerdd yntau.

Â Iwan ymlaen yn y gerdd i gymharu hen ddoluriau'r genedl â choron ddrain Crist; mae'n ystyried pa mor berthnasol yw hanes Cymru ac etifeddiaeth i'r genhedlaeth ifanc o Gymry, ac yn holi 'a roed y gwreiddiau hyn i'w hanghofio?'. Mae Iwan yn amau mai felly y mae hi ac wrth iddo anobeithio mae hi'n tywyllu ar Gymru: 'Ileda'r machlud / ym mharlyrau'r gorllewin,' meddai. Roedd yn amlwg wedi hoffi'r ddelwedd hon, a gwelwn y 'machlud / ym mharlyrau'r gorllewin' eto mewn pryddest arall ganddo yn y man.

Mae'r cyfeiriadau at yr ehedydd yn y bryddest yn arwyddocaol hefyd, gan i Waldo sôn am yr aderyn hwnnw yn ei gerddi 'Ar Weun Cas' Mael', 'Cwmwl Haf', 'I'r Hafod', ac 'Yr Heniaith', a chynrychiola hediad yr ehedydd y Cymry yn codi uwchlaw eu gorthrwm yn 'Caniad Ehedydd'.<sup>123</sup> Dyrchafa Waldo yr aderyn yn ei ddefnydd cyson ohono yn ei gerddi, ac efallai mai defnyddio'r ddelwedd yn yr un cyswllt a wna Iwan yma wrth iddo sôn am yr ehedydd yn cilio yn wyneb anobaith. Fel yn y ddwy bryddest fuddugol y soniwyd amdanynt eisoes, gwelwn eto'r dewis i ymryddhau o'r frwydr dros Gymru, ac ymddengys yma fod y genedl wedi derbyn y fargen:

Yn rhydd o hualau'r freuddwyd,  
Clwyda'r llu i'w colomendai llwyd,  
i huno yn eu hannwyd ...

Tywyllach yw diwedd y bryddest hon o'i chymharu â'r ddwy arall, ond gobaith Iwan yw y daw rhyw derfysg i ddeffro'r Cymry o'u trwmgwsg.

---

<sup>122</sup> Waldo Williams, *Dail Pren*, t. 27.

<sup>123</sup> *Ibid.*, tt. 24-5, 48-9, 59, 95, 94.



Ymhellach ymlaen yn yr un rhifyn o'r *Ddraig*, down at 'Rhyfelgan Dafydd ap Gruffudd',<sup>124</sup> cân wedi ei chyfansoddi gan Iwan ac Elwyn Williams, partneriaeth a fyddai maes o law yn cyfansoddi'r caneuon poblogaidd 'Tŷ Coz' ac 'Eldorado'. Daeth Iwan i gael ei adnabod fel ysgrifennwr geiriau caneuon deheuig yn ddiweddarach, ond roedd wedi bod yn ymarfer y grefft ers peth amser. Arferai ysgrifennu caneuon syml ar gyfer y gitâr tra oedd yn fachgen ysgol,<sup>125</sup> ac yna yn ystod ei gyfnod yn y coleg bu'n ysgrifennu geiriau caneuon y grŵp Doctor. Gyferbyn â'r gân mae prydddest arall gan Iwan, 'Gwanwyn 1293',<sup>126</sup> er mai 1283 y dylid bod wedi ei nodi mae'n debyg gan mai sôn am frawd Llywelyn ap Gruffydd, Dafydd, y mae'r brydddest, fel y gân. Ymdrechion yw'r gân a'r brydddest i godi ymwybyddiaeth am hanes Dafydd ap Gruffudd, a fu'n dywysog ar Gymru am rai misoedd wedi marwolaeth Llywelyn yng Nghilmeri. Treuliodd fisoedd ei deyrnasiad byr ar ffo rhag Edward I cyn cael ei ddal a'i ddienyddio yn Hydref 1283. Gan i hanes Dafydd gael ei fwrw i'r cysgodion yn sgil hanes ei frawd, rhydd Iwan gydnabyddiaeth iddo mewn marwnad ar fesur penrhydd cynganeddol.

Myfyrio mae'r brydddest ar 'y misoedd coll' pan fu'r tywysog yn cuddio yng Nghastell y Bere, rhwng Tywyn a Dolgellau. Ynndi, ceir cyfeiriadau at farwnad Gruffydd ab yr Ynad Goch i Lywelyn, adleisir y Gododdin, a gwelwn eto Ynys Gwales ac adar Rhiannon yn fferru'r cof. Ceir hefyd hunan-gyfeiriadaeth; a llu Dafydd yn encilio yn y castell fel milwyr y Gododdin yn mwynhau'r wledd cyn y frwydr, maent yn 'rhuthro'n feddw i'r weithred, / heb sawru'r gwaed ar ystlus [*sic*] arw'r gwynt'. Clywir eto'r llinell 'Byr fu'r bore' wrth sôn am y bore y lladdwyd Dafydd. Gan ddilyn arfer marwnadau'r beirdd mae Iwan yn rhestru rhinweddau'r ymadawedig drwy ddyfaliadau ac yn nodi iddo farw'n rhy ifanc. Mae hefyd yn cofio amdano fel brawd i Lywelyn:

Bu hwn yn gawr  
a wybu ing y geiriau:  
'Oer calon dan fron o fraw.'

Bu hwn yn ewig  
na wybu ddigio,  
er gwawd a rhyfyg y gwadu.

---

<sup>124</sup> *Y Ddraig*, Cylchgrawn Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (1980), t. 16.

<sup>125</sup> Gwyn Thomas (gol.), *Pair Ceridwen* (Llangefni, 1995), t. 41.

<sup>126</sup> *Y Ddraig*, Cylchgrawn Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (1980), tt. 17-18.

Bu hwn yn Frân,  
bu hwn yn frenin,  
bu hwn yn wanwyn  
na wybu eni ei haf.

Fe sonia Siôn Aled yng nghyfrol deyrnged Iwan i'r ddau ohonynt ymweld â Chastell y Bere rywbryd yn 1981 lle buont am oriau yn eu huniaethu eu hunain â Dafydd ap Gruffudd.<sup>127</sup> Mae'n debyg fod yr hanes wedi cydio ym meddwl Iwan; fe ysgrifennodd gerdd arall i gastell y Bere ar gyfer cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Môn 1982, a chyhoeddi cerdd arall drachefn, 'Castell y Bere, 1997', yn *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*.<sup>128</sup> Mae digon o dystiolaeth bellach o ddiddordeb cynnar Iwan yn sefyllfa wleidyddol Cymru, ac roedd refferendwm 1979 wedi porthi'r diddordeb hwnnw ymhellach, ond dyma ddangos diddordeb cysylltiedig yn hanes Cymru. Dyna thema arall, fel refferendwm 1979, a geir drwy gydol ei yrfa farddol mewn cerddi fel '11.12.82',<sup>129</sup> 'Anadl Llywelyn',<sup>130</sup> 'Gruffydd ab yr Ynad 1277',<sup>131</sup> 'Carreg Cennen'<sup>132</sup> a cherddi a gomisiynwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol yn y flwyddyn 2000 yn ymateb i arddangosfa yn dathlu gwrthryfel Owain Glyndŵr.<sup>133</sup>

Cyfeiriwyd eisoes at lwyddiant Iwan yn Eisteddfod yr Urdd Bro Colwyn 1980. Testun cystadleuaeth y gadair oedd 'Ffenestri', ac yn ôl y beirniad, Gerallt Lloyd Owen, roedd pryddest 'Seithennin' ben ac ysgwydd uwchlaw'r deunaw arall a gystadlodd.<sup>134</sup> Dyma'i bryddest orau hyd yma, ac er ei fod yn gwyntyllu'r un thema o ddifodiant Cymreictod, fe wna hynny â'i gyfeiriadaeth yn aeddfetach a'i ddelwedd ganolog yn un fwy gwreiddiol y tro hwn. Fel y gwelsom, cafodd ddigon o ymarfer yn llunio pryddestau, ac mae hynny o wreiddioldeb a welwyd ar ddiwedd y gerdd 'Gwanwyn 1293' o gylchgrawn *Y Ddraig* fel pe bai'n bont rhwng pryddestau buddugol yr eisteddfodau rhyng-golegol a phryddest Eisteddfod yr Urdd.

---

<sup>127</sup> Siôn Aled, 'Mab y Mans', t. 144.

<sup>128</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 64.

<sup>129</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 9.

<sup>130</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 77-8.

<sup>131</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), t. 40.

<sup>132</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant* (Bodedern, 2007), tt. 24-5.

<sup>133</sup> Iwan Llwyd a Gillian Clarke, *Owain Glyndŵr: 1400-2000* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth, 2000).

<sup>134</sup> Beirniadaeth Gerallt Lloyd Owen ar gystadleuaeth y Gadair, *Cyfansoddiadau Llenyddol Buddugol Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Bro Colwyn 1980* (Aberystwyth, 1980), t. 22.



yna cau'r llenni  
rhag i'r noethni  
gynhyrfu'r stryd.

Defnyddia Iwan chwedl Cantre'r Gwaelod yn rhan olaf ei gerdd er mwyn cyfleu'r dilyw Seisnig sy'n golchi dros Gymru, ac mae'n dangos y Cymry, neu'r 'deillion' fel y cyfeiria atynt, yn gwylio '[c]uriad tonnau'r llanw / ar y tywod trist'. Dyma ddelwedd a ddefnyddiodd Iwan dro ar ôl tro yn ei farddoniaeth aeddfetach.

Mae'r bryddest yn cloi drwy ddychwelyd at gerdd Waldo wrth i Iwan holi a fydd modd adfer sefyllfa'r Gymraeg:

A gaeir y llenni am byth  
ym mharlyrau'r Gorllewin?  
Neu tybed,  
    heno,  
    a ddaw'r colomennod  
    â'r gangen werdd yn eu genau  
    i hudo'r golau'n ôl  
    i lygaid y ffenestri?

Eglurodd Waldo mai 'Jeremeia, rwy'n meddwl, sy'n proffwydo am yr amser da i'r genedl yn y termau olaf hynny – y colomennod yn hedfan i'w ffenestri'.<sup>138</sup> Ychwanega Iwan haen arall at y gyfeiriadaeth Feiblaidd drwy gyfeirio at yr hanes yn Genesis lle dychwela'r golomen i arch Noa â deilen werdd yn ei phig. Roedd hynny'n arwydd fod tir sych gerllaw a bod gobaith am ddiwedd y dilyw.

Yr hyn sy'n gyffredin yn y pryddestau a ysgrifennodd Iwan yn ei flynyddoedd olaf yn y coleg yw'r syniad o agor y drws neu'r ffenest ar gyfnod newydd. Edrych am ymlaen a wna Iwan yn y bôn â'i olygon ar hyder newydd i Gymru yn ei diwylliant a'i gwleidyddiaeth. Roedd hynny'n sicr yn rhan bwysig o weledigaeth Iwan yng ngherddi gwleidyddol y 1980au, ac yn thema ganolog yn 'Gwreichion'. Daeth yr anniddigrwydd ynghylch gwleidyddiaeth Cymru fel

---

<sup>138</sup> Waldo Williams, 'Llythyr at Anna Wyn Jones ynghylch "Yr Heniaith"', *Waldo Williams: Rhyddiaith*, gol. Damian Walford Davies (Caerdydd, 2001), t. 104.

gordd wedi canlyniad y refferendwm, ond roedd anesmwythyd ynghylch y sefyllfa ddiwylliannol yn mudferwi cyn 1 Mawrth 1997. Mae pryddest gyntaf Iwan, 'Ffenestri', yn brawf o hynny. Roedd methiant llenyddiaeth Gymraeg i wynebu'r newidiadau ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif yn bwnc trafod dwys rhwng Iwan a Wiliam Owen Roberts ar brynhawniau gwlyb yn y Gelli Aur, a'r cwrs Cymraeg yr oedd y ddau yn ei astudio yn amlygu hynny:

Ar y pryd, roedd 'na rhyw [sic] deimlad monolithig rhywsut ynglyn [sic] â'n cwrs Cymraeg ni, y teimlad – ganddom ni ein dau, beth bynnag – fod rhyw gonfensiwn wedi setlo ar yr adran, a fod pawb yn weddol gytûn mai dim ond un ffordd oedd yna o ddirnad y cwbl o hanes llenyddiaeth Cymru. Dehongliad Saundersaidd oedd hwn mewn gwirionedd ...<sup>139</sup>

Esgorodd y trafodaethau hyn ar ddwy erthygl bwysig a ysgrifennwyd ar y cyd gan y ddau lenor ifanc. Cyhoeddwyd 'Myth y Traddodiad Dethol' yn 1982, wedi i John Rowlands, un o ddarlithwyr yr Adran yn Aberystwyth a golygydd *Llais Llyfrau* ar y pryd, eu comisiynu i'w hysgrifennu. Dechreu'r erthygl drwy sôn am farddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr a chan bwysleisio mai ysgrifennu'r hyn yr oedd eu noddwyr am ei glywed yr oedd beirdd y cyfnod, hynny yw, nid oedd eu barddoniaeth yn adlewyrchiad teg o'r gymdeithas oedd ohoni. Byrdwn yr erthygl yw y dylai barddoniaeth fod yn gynnyrch ei chyfnod. Lluniwyd tabl yn nodi'r gwahaniaethau rhwng cyfnod Beirdd yr Uchelwyr a'r cyfnod pryd yr ysgrifennwyd yr erthygl, ac mae'r awduron yn nodi mai anodd yw ysgrifennu barddoniaeth Gymraeg sy'n adlewyrchu'r cyfnod presennol gan nad oes datblygiad graddol wedi bod yn arddull y llenorion Cymraeg:

Gwaith poenus ac anodd iawn yw creu barddoniaeth sydd yn berthnasol yn y Gymraeg mwyach. Yn aml iawn mae beirdd yn teimlo mai act o necroffilia ydyw. Anodd yw darganfod delweddau newydd mwyach, a'r iaith ei hun yn crebachu. Haws o lawer yw glynu wrth foddau mynegiant y traddodiad (e.e., cywydd, awdl, englyn): delweddau y traddodiad; chwedloniaeth y traddodiad; mythau y traddodiad; ieithwedd y traddodiad; nostalgia y traddodiad, heb unwaith amau dilysrwydd y cyfan.<sup>140</sup>

---

<sup>139</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Rhai atgofion coleg', t. 32.

<sup>140</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), tt. 10-11.

Galw y maent ar i feirdd ddefnyddio mynegiant ‘uniongyrchol, a di-flewyn-ar-dafod’ fel y gwna Siôn Eirian ac Eirug Wyn a ysgrifennai dan y ffugenw Derec Tomos ar y pryd.<sup>141</sup> Mae’n eironig mai defnyddio ‘chwedloniaeth y traddodiad’ yn sail i’w bryddestau cynnar a wnaeth Iwan, ond ar yr un pryd efallai fod y ffaith iddo eu defnyddio o gwbl yn brawf o’r ffordd yr oedd llenorion ifanc yn cael eu cyflyru.

Yr un yw’r gŵyn yn yr ail erthygl, ‘Mae’n bwrw yn Toremolinos’, a gyhoeddwyd ddwy flynedd yn ddiweddarach. Cymherir y Cymry sy’n glynu at yr hen draddodiad a’r hen safonau â phobl yn torheulo ar draeth yn Toremolinos ‘a ninnau’n gwybod ei bod wedi dechrau bwrw ers blynyddoedd’.<sup>142</sup> Maent yn gweld y mynegiant hen ffasiwn yn rhwystr, ac yn dadlau mai dyna pam na fu ymateb llenyddol i’r Rhyfel Mawr ac i’r dirwasgiad a’r streic gyffredinol yn y 1920au, ac mai dyna pam hefyd na fu ymateb digonol i’r refferendwm yn 1979. Y prif syniad a gyflwynir yn yr erthygl, fodd bynnag, yw fod angen ailddosi llenyddiaeth y gorffennol a’i haddasu ar gyfer dibenion y presennol.

Er gwyntyllu syniadau newydd yn yr erthyglau eiconoclastig hyn, ymddengys nad oedd Iwan ei hun yn medru ysgwyd llwch y ‘traddodiad’ oddi ar ei draed yn llwyr. Ym mis Mai 1982, rai misoedd cyn cyhoeddi ‘Myth y Traddodiad Dethol’, enillodd Iwan goron Eisteddfod Môn â chasgliad o ddeuddeg o gerddi ar y thema ‘Aberth’.<sup>143</sup> Yng nghanol y casgliad, gwelir ambell gerdd a fyddai’n cael ei chyhoeddi maes o law yng nghyfrol gyntaf y bardd. Mae’r tair cerdd sy’n dod o dan yr ymbarél ‘Cerddi’r Aberth’ yn *Sonedau Bore Sadwrn* – ‘Aberth’, ‘Y Drws a Agorodd...’, a ‘Chwilio Gwaith’ – ynghyd â’r gerdd ‘Y Gadwyn’, yn gerddi o’r casgliad buddugol hwnnw. Y rhain yw cerddi gorau’r casgliad, a’r rhain sy’n arddangos yr arddull ‘uniongyrchol, a di-flewyn-ar-dafod’ y sonnir amdani yn yr erthyglau. Hyd yn oed os yw testunau gweddill y cerddi yn herio’r pynciau traddodiadol, yn sicr nid yw’r arddull yn dilyn. Arddull nes at arddull y pryddestau cynnar sydd yn y rhan fwyaf o’r cerddi eraill; yn wir, defnyddiodd Iwan ran olaf ei bryddest ‘Atgof’ o gylchgrawn *Y Ddraig* a’i gosod fel cerdd ar ei phen ei hun yn y casgliad dan y teitl ‘Craith’.

---

<sup>141</sup> Ibid., t. 11.

<sup>142</sup> William Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, ‘Mae’n bwrw yn Toremolinos’, *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), tt. 6-7.

<sup>143</sup> *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Môn: Cylch y Garn 1982* (Llys Eisteddfod Môn, 1982), tt. 15-22.

Cymerer y gerdd gyntaf yn y casgliad fel enghraifft bellach: cywydd sy'n defnyddio un o linellau enwocaf y Gododdin yn deitl iddi, 'Beirdd byd barnant wŷr o galon'. Fel yn 'Aberth' ac 'Y drws a Agorodd...', mae cyfeiriad yn y cywydd at 'lanc sy' 'Nghymru dan glo'. Mae'n bosib mai cyfeiriad at Hywel Pennar sydd yn y cerddi hyn, ymgyrchydd dros sianel deledu Gymraeg a garcharwyd yn 1980 am ddifrodi trosglwyddydd Midhurst yng ngorllewin Surrey. Byddai Iwan wedi adnabod sawl un a aeth i'r carchar dros yr iaith yn nechrau'r 1980au, ond achos Hywel Pennar sy'n ffitio'r cerddi orau, a chofia Siôn Aled i'r achos hwnnw fod yn destun sgwrs rhyngddo ac Iwan tra roedd y ddau yn cyd-letya yn y Gelli Aur.<sup>144</sup> Â Iwan rhagddo i sôn am ddewrder y gweriniaethwyr yn Iwerddon a ymprydiodd yn 1981. Cenadwri'r cywydd yw y dylid canu cerddi yn canmol y protestwyr hyn gan gadw at draddodiad barddoniaeth Gymraeg o ganu mawl i wŷr dewr er mwyn cofnodi eu hymdrechion. Dyma enghraifft o Iwan yn aildrosi'r traddodiad, ond os edrychwn ar arddull y gerdd, mae gwreiddioldeb y syniad yn mynd ar goll dan gynganeddion barddonllyd:

Am aneirif ganrifoedd  
Ei gerdd a adroddwyd ar goedd  
Ninnau, clywn ei gân heno  
I lanc sy' 'Nghymru dan glo,  
A cherdd, a ddaw draw o'r drin  
I wrol ymprydwyd Erin.

Canodd y bardd i harddwch  
Y llu o ddelfrydau sy'n llwch:  
A'i gerdd heno'n graith ar gof:  
Ei hangerdd nid â'n angof.

Efallai mai annheg yw gwneud enghraifft o un o gerddi caeth Iwan, ac yntau'n dal i ymarfer y grefft, ond os edrychwn ar un o'i gerddi rhydd yn y casgliad, 'Protestiwr', gwelir yn union yr un broblem yn codi: caiff y traddodiad ei ail-drosi yn llwyddiannus yn yr hyn y mae'r gerdd yn ei ddweud, ond mae'r arddull yn dal yn llyffethair:

Buost Efnisien...  
yn dlws friw yn ystlys dy frawd,

---

<sup>144</sup> Gohebiaeth rhyngof a Siôn Aled (18/11/15).

ond eto'n synhwyro twyll y wledd,  
ac yn rhwygo'r cydau crwyn  
er difa'r gelyn  
ac erthylu'r pair.

Buost Fabon...  
yn gaeth yn dy gaerog gell  
a'th gof yn gof cenedl  
a grinodd yn ei henaint gwyrff  
heb glywed dy gri.

Yn ei feirniadaeth ar y cerddi, canmol angerdd y bardd a wna Gwyn Thomas yn anad dim arall, ac ymddengys yr angerdd hwnnw'n ddiwyll ar y cyfan. Ceir yn y casgliad gerdd arall sy'n crybwyll yr helyntion yn Iwerddon. Sôn am y protestiadau ffyrnig yn nechrau'r ugeinfed ganrif mae 'Kilmainham', sef Kilmainham Gaol lle dienyddiwyd cenedlaetholwyr a gweriniaethwyr fel Joseph Plunkett, James Connolly a Patrick Pearse. Roedd Iwan wedi ymddiddori yn y protestiadau a oedd yn digwydd yn Iwerddon ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au ac yn cefnogi'r gweriniaethwyr bob cam. Ysgrifennodd bwt yn *Yr Utgorn* ym mis Tachwedd 1979 yn adrodd hanes ysgol undydd a gafwyd yn Lolfa Pantycelyn i ddysgu mwy am y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon, ac mae'n gorffen yr adroddiad byr gyda'r datganiad: 'MYNNWN FUDDUGOLIAETH LWYR I WYR [*sic*] Y BLANCED!'.<sup>145</sup>

Er bod rhai o gerddi'r casgliad, fel y ddwy enghraifft uchod, yn tueddu o hyd i ddynwared rhyw arddull flodeuog, farddonllyd; yn y casgliad hwn y gwelwn Iwan yn canfod ei lais ei hun am y tro cyntaf hefyd, a hynny yn y cerddi a gyhoeddwyd maes o law yn *Sonedau Bore Sadwrn*. Mae'n eironig mewn ffordd iddo gymryd cyhyd i ddod o hyd i'w briod arddull ac yntau, ar yr un pryd ag yr ysgrifennai farddoniaeth, hefyd yn cyfansoddi geiriau caneuon i'r grŵp Doctor. Gellir dweud bod arddull geiriau ei ganeuon yn 'uniongyrchol, a diflewyn-ar-dafod' o'r cychwyn, ond eu bod yn brin o'r sylwedd a oedd yn sail i'w farddoniaeth. Sylweddolodd yn ddigon buan mai cyfuniad o'r ddwy ddisgyblaeth a oedd ei angen arno, a dyna a geir yn y cerddi a gyhoeddodd yn *Y Faner* yn nechrau'r 1980au,<sup>146</sup> ac

---

<sup>145</sup> *Yr Utgorn*, 8 (23/11/79).

<sup>146</sup> Ymddangosodd rhai o'r cerddi a gyhoeddwyd yn *Sonedau Bore Sadwrn* yn gyntaf yn *Y Faner*. Cyhoeddwyd 'Y Lefiaid' yn *Y Faner* (31 Hydref 1980), t. 20; 'Wedi'r Wyl' yn *Y Faner* (28 Awst 1981), t. 20; 'Soar y Mynydd' yn *Y Faner* (30 Hydref 1981), t. 20, a 'Sloganau' yn *Y Faner* (26 Mawrth 1982), t. 20.



yng ngherddi *Sonedau Bore Sadwrn*. Ond fel unrhyw feistr ar ei grefft, rhaid oedd bwrw prentisiaeth, a bu'r brentisiaeth honno'n un bwysig yn ei hanes er mwyn iddo archwilio'r themâu, y delweddau a'r gyfeiriadaeth a oedd yn cydio, gan ymgyfarwyddo â gwahanol fesurau.

Gwelwn yn y cerddi a drafodwyd yma ymdrechion cynnar bardd a chanddo ddawn gynhenid i drin geiriau o'r cychwyn cyntaf. Drwy ddal rhyw fymryn o'i gymeriad yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol ac yna'n ddiweddarach yn y brifysgol, gallwn sylwi ar hadau'r themâu a blannwyd yn gynnar ganddo, a gweld blodeuo'r themâu hynny mewn amryw gerddi ar hyd y daith.

## II

### 'Bardd dan faner y byd'

#### Persona'r bardd a chanllawiau barddoni

Wrth ddychmygu 'bardd' mewn modd cwbl ystrydebol, gall sawl llun gwahanol ddod i'r meddwl. Mae'r stereoteip o'r creadur dwys, dychmygus a synhwyrus sy'n meddu ar ddawn i drin geiriau'n gelfydd yn ddarlun sy'n ennyn cryn chwilfrydedd, ac fe lapiwyd ffigur y bardd mewn haen o chwedloniaeth dros y canrifoedd. Tyfodd myth o amgylch Taliesin ac Aneirin, ac mae'r un gyfaredd yn perthyn i enwau Hedd Wyn a Dylan Thomas. 'Mae myth y bardd wedi gafael yn dynn yn nychymyg y Cymry o'r cyfnod cynharaf,' meddai Iwan unwaith; 'O chwedl Taliesin i chwedl Dylan Thomas, mae'r ddelwedd o'r bardd wedi ei thrawsffurfio a'i hail-greu i ateb amgylchiadau a dyheadau'r oes'.<sup>147</sup> Yma, rhown sylw i'r delweddau a daflunia Iwan o'r bardd fel y bod creadigol, y teithiwr, y creadur unig, y diotwr, a'r unigolyn cyffredin, cyn troi at y modd y mae'n portreadu'r ymateb i farddoniaeth Gymraeg. Trafodir ei syniadau ynghylch y broses o farddoni a chrynoir ei syniadau ynghylch sut y gall barddoniaeth gyrraedd cynulleidfa ehangach. Yn plethu drwy'r cyfan mae'r paradocs cyson rhwng y creu unigolyddol a'r cynnyrch cymdeithasol. Mae'r 'trawsffurfio' a'r 'ail-greu' yn allweddol wrth inni weld y bardd yn ymgymryd â chynifer o wahanol swyddogaethau, yn ddiddanwr, sylwebydd, neu gynghorwr. Bron nad yw'n estyniad o chwedloniaeth geni Taliesin, a'r gymysgedd o grochan Ceridwen yn rhoi'r gallu iddo newid ei ffurf ar amrantiad. Felly y mae'r bardd cyfoes, yn newid ei rôl i gyfateb i wahanol ofynion er mwyn i'w farddoniaeth gyrraedd cynulleidfaoedd a chreu effaith, fel yr awgryma Adrian May:

Here the brew will give us the ability to transform, through creative endeavour, into anything we please. This is both birth and rebirth from the cauldron of inspiration. The power of writing is embodied here.<sup>148</sup>

Roedd gan Iwan ei syniadau pendant ynghylch delwedd y bardd, ynghylch natur riniol barddoniaeth a swyddogaeth y farddoniaeth honno. Cafodd y ddelwedd ramantaidd

---

<sup>147</sup> Iwan Llwyd, 'Gwlad Beirdd ac Arwerthwyr', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 113.

<sup>148</sup> Adrian May, *Myth and Creative Writing: The Self-renewing Song* (Harlow, 2011), t. 32.

o'r bardd unig yn gweithio cerdd mewn cornel dywyll ei thaflunio ganddo sawl gwaith, er iddo bwysleisio mai delwedd Seisnig dan ddylanwad y mudiad Rhamantaidd yw honno ac nad dyna'r darlun gwreiddiol o fardd Cymreig:

Cyfathrebu ydy hanfod pob barddoniaeth. Er bod llawer ohonom wedi ein magu ar y ddelwedd o'r bardd unig yn ei lofft tamp yn byw ar gaws fel llygoden eglwys, yn tywallt ei ofid a'i gariad a'i ddicter ar ddalen lân yna ei sgrynshio i fyny a'i thaflu i'r bin sbwriel rhag i rywun ei darllen a chywilyddio, mae yna ddarlun llawer hŷn o'r bardd – yn arbennig yng Nghymru. Dyma'r bardd fel ffigur o ddylanwad o fewn cymdeithas – yn cofnodi, dathlu, marwnadu, dychanu – y cyfan yn fater o gyfathrebu a diddanu ei gynulleidfa.<sup>149</sup>

Er mai efelychu'r darlun o'r bardd Cymreig a wnaeth Iwan ei hun, gyda'r pwyslais ar yr elfen gymdeithasol i farddoniaeth wrth iddo ymgymryd â sawl taith, gweithdy a gŵyl farddol, gellir dychmygu bod rhyw ran o'r darlun tywyll hwnnw o'r bardd unig yn apelio hefyd. Wrth iddo ddarlunio'r bardd dro ar ôl tro fel creadur cymhleth sy'n teimlo i'r byw, yn 'unigolyn yn ei groglofft yn chwysu'n dlawd er mwyn tywallt ei berfedd ar y ddalen',<sup>150</sup> gellir synied i'r arwahanrwydd a'r cyfrinachedd sy'n perthyn i'r cymeriad borthi dychymyg Iwan, ac i'r stereoteip ychwanegu at y llun o'r bardd Cymreig yn hytrach na'i ddisodli.

Wrth drafod myth y bardd a'r gyfriniaeth sy'n dal i berthyn i'r cymeriad, dywed fod 'i'r bardd ryw *aura* o hyd yn ein diwylliant', a bod y diddordeb parhaus yn yr Orsedd ac yn seremonïau'r Gadair a'r Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn brawf o hynny.<sup>151</sup> Fe sonia drachefn am gred Dylan Thomas yn y myth hwnnw nad yw'r bardd yn 'perthyn i'r nefoedd na'r ddaear rywsut'.<sup>152</sup> Ategir hyn gan Emyr Lewis:

Yn fy marn i, un o ganlyniadau ein 'traddodiad' derwyddol wedi iddo gael ei ogrwn drwy ridyll Rhamantiaeth Ewropeidd y ganrif ddiwethaf, yw ein bod yn ystyried beirdd, neu Feirdd, yn fodau arallfydol bron, y mae ganddynt ryw fath o sensitifrwydd cyfrin y tu hwnt i'r cyffredin.<sup>153</sup>

<sup>149</sup> Iwan Llwyd, 'O Dal-y-bont i Dal-y-bont', *Pac o Feirdd*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2002), tt. 12-13.

<sup>150</sup> Iwan Llwyd, 'Cydnabod Cynulleidfa', *Barddas*, 277 (Mai/Mehefin 2004), t. 38.

<sup>151</sup> Iwan Llwyd, 'Gwlad Beirdd ac Arwerthwyr', t. 113.

<sup>152</sup> Iwan Llwyd, 'Cofio Dylan', *Barddas*, 275 (Rhagfyr/Ionawr 2003-04), t. 45.

<sup>153</sup> Emyr Lewis, 'Ar lafar gwlad', *Barn*, 426-7 (Gorffennaf/Awst 1998), t. 60.

Er nad oedd Iwan yn dyrchafu beirdd i'r fath raddau nes eu dynodi'n anfeidrol, ni rwystrodd hynny ef rhag ysgrifennu'n ddychmygus yn ei gerddi am bersona'r bardd, ac ymddengys mai cymeriad arallfydol yw'r bardd yn y gerdd 'Aderyn diarth'.<sup>154</sup> Cerdd yw hon sy'n ymddangos yn y gyfrol *Dan Ddylanwad*, ond sydd hefyd yn cloi cyfrol Twm Morys, *Ofn fy Het*, gan ddilyn awdl 'Y Môr'. Ymateb i'r awdl honno yw cerdd Iwan sy'n sôn am fardd fel 'anturiwr dall' yn glanio yng Nghymru ar '[d]raeth yr hen hen gynghanedd, / y bar rhwng y byw a'r bedd'. Dyna leoli'r bardd mewn rhyw burdan arallfydol, a'i osod yn un mewn llinach o fewn yr hen draddodiad barddol Cymreig, ond ar yr un pryd mae'r cyfeiriad at y bar yn ei ddaearu yn y presennol modern ac yn y dafarn.<sup>155</sup> Heb wneud y cysylltiad ag awdl Twm Morys, ac wrth ddarllen y gerdd yn nghyd-destun y gyfrol *Dan Ddylanwad* yn unig, byddai rhywun yn tybio mai Iwan yw'r 'deryn unig' yn y gerdd, yn dychwelyd i Gymru a'i brofiadau lliwgar o deithio America a Chanada ar ei gefn; 'fe ddois i fel dieithryn / yn ôl i ngwlad fy hun,' meddai mewn cerdd arall o'r gyfrol.<sup>156</sup> Gellir edrych ar y cywydd, 'Aderyn diarth', fel math o fanifesto barddol ar ei gyfer ef ei hun, a'i fwriad yw lliwio'r Gymru lwydaidd, ddifywyd dan ganu cerddi a chonsurio gwlad a'i llond o feirdd uchel eu bri trwy rym ei ddychymyg:

... canodd, gweddnewidiodd wae  
 chwerw yn blant yn chwarae,  
 rhwydo chwerthin cariadon  
 yn y pair lle dawnsiai'r don [...]

... a dychmygu'r wlad  
 yn gref gan fwg y reufeirdd  
 ac awen bêr gwin y beirdd ...

Ond fel sy'n wir am nifer o gerddi Iwan, mae haenau eraill o ystyr i'r gerdd ynghlwm â'r gyfeiriadaeth sydd ynddi.

<sup>154</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), tt. 112-13.

<sup>155</sup> Gallai'r 'bar' hefyd fod yn gyfeiriad at y banc tywod sy'n rhannu'r tir a'r môr. O'i ddefnyddio yma fel y ffin rhwng bywyd a marwolaeth, cawn y cyflwr cyd-rhwng hwnnw y mae Iwan mor hoff ohono, y ffin beryglus sy'n ei ysbrydoli'n gyson, fel y dywed yn 'Dinas Deiniol', *Barn*, 510-11 (Gorffennaf/Awst 2005), t. 43: 'Dwi'n dal i wirioni ar yr ymdeimlad yna o ffin – y lle peryg, creadigol, heriol hwnnw sy'n gymaint rhan o'n diwylliant a'n llenyddiaeth ni er y cyfnodau cynharaf'.

<sup>156</sup> Iwan Llwyd, 'Cyrraedd glan', *Dan Ddylanwad*, t. 80.

Hanes carwriaeth rhwng merch o Lŷn a bachgen o Lydaw sydd yn awdl Twm Morys, ac ynddi caiff y Llydäwr ei ddisgrifio fel ‘aderyn o wlad arall’ sydd wedi hedfan dros y môr i Gymru. Caiff y cysylltiad ei sefydlu’n syth rhwng yr aderyn hwn o Lydaw ac ‘aderyn diarth’ Iwan. Wedi i’r Llydäwr adael ei gariad yng Nghymru a dychwelyd i Lydaw, mae’r ferch yn ceisio anghofio’r berthynas ac anghofio am y ‘llog wen o Ben y Byd’ a ddaeth â’i chariad ati. Ceir eglurhad manwl o awdl ‘Y Môr’ ar dudalennau *Taliesin* gan yr Athro Neil Sagam, persona ffug-ysgolheigaidd Twm Morys.<sup>157</sup> Yno, eglura’r Athro mai cyfeiriad at Penn ar Bed, yr enw Llydaweg ar Finistère sydd yng ngorllewin eithaf Llydaw, yw Pen y Byd yma. Defnyddia Iwan yr union linell yn ei gerdd yntau, gan awgrymu fod y llanc ar ei ffordd yn ôl at ei gariad. Ond fe hepgorwyd y prif lythrennau yn enw’r lle y tro hwn gan deneuo rhywfaint ar y cysylltiad â Llydaw:

... ei ganiad oedd troad trai,  
ei alawon a lywiau  
y llong wen o ben y byd  
yn ôl at ei hanwylyd ...

Cysylltiad arall rhwng y ddwy gerdd yw’r sôn am y ‘reu’, neu fariwana, ynddynt; ‘A dyna’r ias wrth danio reusen,’ meddai Twm Morys,<sup>158</sup> tra mae Iwan yn ‘dychmygu’r wlad / yn gref gan fwg y reufeirdd’, beirdd dan ddylanwad y cyffur *hallucinogenic*.

Ymhellach, mewn adolygiad ar *Ofn fy Het*, rhydd Simon Brooks sylw i’r cysylltiad sydd rhwng cerdd Iwan a cherdd R. Williams Parry, ‘J. S. L.’, a gyfansoddwyd yn dilyn llosgi’r Ysgol Fomio, lle disgrifir Saunders Lewis fel aderyn diarth yn glanio ymysg y colomennod ac yn cael ei wrthod gan weddill yr adar.<sup>159</sup> Mae’n ddifyr nodi hefyd i Iwan gyfeirio at gerdd Williams Parry a disgrifio Saunders Lewis fel ‘aderyn diarth’ mewn ysgrif yn *Taliesin* flwyddyn wedi iddo gyhoeddi’r gerdd ‘Aderyn Diarth’ am y tro cyntaf ar dudalennau *Barddas*.<sup>160</sup> Rhydd hynny oleuni newydd eto ar gerdd Iwan, a chyda’r sôn am ‘ddychmygu’r wlad’ ar ei newydd wedd, gallwn weld bwriad llawer mwy gwleidyddol i’r gerdd amwys hon.

---

<sup>157</sup> Twm Morys, ‘Môr Mari’, *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), tt. 75-84.

<sup>158</sup> Twm Morys, *Ofn Fy Het* (Cyhoeddiadau Barddas, 1995), t. 71.

<sup>159</sup> Simon Brooks, ‘Wynebau ar Dywod’, *Barn*, 397 (Chwefror 1996), t. 29.

<sup>160</sup> Iwan Llwyd, ‘Hedyn o Hunanhyder’, *Taliesin*, 96 (Gaeaf 1996), t. 144. Cyhoeddwyd y gerdd ‘Aderyn Diarth’ yn gyntaf yn *Barddas*, 223 (Tachwedd 1995), t. 12.

Wedi i'r aderyn diarth wneud ei waith, a rhoi bywyd newydd i'r wlad a oedd gynt yn lle digon llwm, gŵyr ei bod yn bryd gadael:

... canu'i gân, ac yna'n gall  
hed i wawr rhyw wlad arall.

Mae'n ffigwr tebyg i ryw fab darogan yn dod i adfer y wlad, ond dros dro yn unig y mae ar dir Cymru. Mae'r aflonyddwch hwn yn gwbl nodweddiadol o waith Iwan, ac o waith y to o feirdd y perthyn Iwan iddo. Mae'n bendant yn wir yn achos Twm Morys, ac yn wir hefyd am Emyr Lewis, fel y tystia Llion Jones yn ei adolygiad ar *Chwarae Mig*:

Fel yng ngwaith un arall o'i gyd-fforddion, Iwan Llwyd, mae'r ymdeimlad hwn o aflonyddwch a symud parhaus yn gyfeiliant cyson i'r cerddi ac yn ddrych efallai o ddiwylliant cenhedlaeth a gefnodd ar yr ymboeni am ddiffyg gwreiddiau mewn bro neu ardal benodol, y pryder hwnnw a fu mor amlwg yn llenyddiaeth y ganrif hon.<sup>161</sup>

Mae'r syniad o ganu cerdd er mwyn rhoi bodolaeth i rywbeth yn rhan o chwedloniaeth yr Aboriginaliaid a'r Hen Eifftiaid, ac yn gysyniad canolog yn stori gyntaf *The Silmarillion* J. R. R. Tolkien. Mae hefyd yn syniad allweddol i ddilyniant arobryn Iwan yn 1990, 'Gwreichion', sy'n drwm dan ddylanwad mytholeg yr Aboriginaliaid. Fel y cred yr Aboriginaliaid y crëwyd y byd trwy ei ganu i fodolaeth, ceisiodd Iwan ganu Cymru newydd i fodolaeth yn ei gerddi buddugol sy'n olrhain y deng mlynedd a ddilynodd ganlyniad siomedig refferendwm 1979. Eglura'n ddiweddarach fod eraill wedi ymateb i'r refferendwm hwnnw wrth geisio diffinio'r wlad trwy greadigrwydd y diwylliant Cymraeg:

Roedd dwy ffordd o ymateb i chwalfa 1979. Fe wnaeth rhai droi at weithredu'n uniongyrchol yn erbyn yr hyn oedd yn cynrychioli chwalfa cefn gwlad Cymru – y tai ha'. Fe wnaeth carfan arall droi at greadigrwydd. Os nad oedd Cymru Gymraeg yn bodoli bellach, yna rhaid ceisio ei chreu o'r newydd.<sup>162</sup>

---

<sup>161</sup> Llion Jones, 'Cameleon, Nid Brân', *Taliesin*, 93 (Gwanwyn 1996), t. 101.

<sup>162</sup> Iwan Llwyd, 'Breuddwyd Roc a Rôl', *Barn*, 479-80 (Rhagfyr/Ionawr 2002-03), t. 69.

Mynegi'r un bwriad i ganu Cymru newydd a chyfoes sydd yn niwedd y gerdd 'Bardd'. Wedi datgan fod yn rhaid i farddoniaeth Gymraeg symud gyda'r oes gan gofleidio hen draddodiad ar yr un pryd, gwelwn y bardd fel crwydryn yn teithio'r wlad, yn 'cerdded y llwybrau a'u canu'n rhwydwaith o fan i fan', yn canu i'w oes ei hun ac yn canu gwlad i fodolaeth:

Yn ei dro aiff yntau'n un â'i lwybyr,  
a chanu ei gân a chanu gwlad â phob cam.<sup>163</sup>

Coleddai Iwan y syniad fod geiriau'n medru deffro'r synhwyrâu a thanio'r dychymyg. Er mai tristáu a wna yn 'Y drws clo' wrth weld nad yw geiriau'n ennyn yr un ymateb nac yn cyffroi'r dychymyg fel yr arferent ei wneud yn y gorffennol, mae'r gerdd yn arddangos cred y bardd yng ngrym geiriau. Gwêl gyfoeth mewn un gair a all ddal cefnfor o ystyr wrth i hanes cenedl fynd rhagddo. Mae 'dŵr', er enghraifft, yn gallu ein tywys ni i Dryweryn ac i Gantre'r Gwaelod, a 'thân' yn gallu ein harwain i Benyberth neu at feibion Glyndŵr yn y 1980au. Cyn i dechnoleg feddiannu ein diwylliant a chynnig lluniau a syniadau parod gan adael i'r dychymyg ddiogi, roedd gan eiriau'r gallu i ddatgloi drysau'r dychymyg:

Gynt yr oedd geiriau'n allweddi,  
yn agor drysau cyfrinachau fyrdd:  
rhoddwyd hwynt ym manc cenedl i fagu llog

a lledodd y geiriau'n gyf'rwyddyd,  
yn stor o ddewiniaeth ddud:  
yr oedd iddynt ystyr a hud ...<sup>164</sup>

Wrth gyffelybu bardd i ddewin a sôn am ei allu i ddelweddu a throsi gwrthrychau yn wrthrychau eraill â'i 'ffon hud eiriol', dywed Alan Llwyd fod yna 'ryw ystyron cudd, "ryw ystyr hud", chwedl y Mabinogi, i farddoniaeth'.<sup>165</sup> Mae'r cysylltiad rhwng hudoliaeth a barddoniaeth yn amlwg yng nghymeriad Gwydion ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi, a'r cysylltiad wedi para drwy gyfnod y Gogynfeirdd a'r Cywyddwyr wrth i gymdeithas gredu fod gan fardd y gallu i iacháu ac i felltithio. Disgrifiodd T. H. Parry-Williams farddoniaeth yn yr un

---

<sup>163</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), t. 102.

<sup>164</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 10.

<sup>165</sup> Dyfynnir geiriau Alan Llwyd yn Elwyn Edwards, 'Colofn Farddol Y Cymro: Rhagfyr 1973 – Medi 1977', *Alan*, gol. Huw Meirion Edwards (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), t. 52.

modd wrth iddo gloi'r soned 'Gweddill' â'r adduned a fyddai'n sicrhau nad âi ei rieni'n angof ganddo: 'Cans tra bo cerdd yn swyn a nwyd yn fflam / Bydd gennyf innau ran o dad a mam'.<sup>166</sup> Yn y cywydd 'Dulyn', defnyddia Iwan eirfa sy'n ymwneud â barddoniaeth er mwyn disgrifio'r swyn anesboniadwy sydd i'w deimlo yn Iwerddon. Cyfleu'r lledrith synhwyrus a wna'r geiriau hynny o'u defnyddio'n ansoddeiriol mewn llinellau fel: 'Mae'r Ynys Werdd yn gerdd i gyd', 'pob cwlwm yn gwllwm gwâr / yn dew gan odlau daear' a 'pob cusan yn gynghanedd'.<sup>167</sup> Yr un ymdeimlad rhiniol sy'n cael ei gyfleu yn 'Ar lan y Fenai', a hynny eto gan ddefnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â barddoniaeth:

... a chaniad dy bersawr  
yn tywys y dall  
ar hyd llwybrau'r gynghanedd  
fesul saib, fesul sill.<sup>168</sup>

Fodd bynnag, mae yna ochr arall, fydol, gyntefig bron, i'r bardd drwy lygaid Iwan, er gwaethaf y duedd i oreuro cymeriad y bardd a'i farddoniaeth, a'u gosod weithiau ar bedestal anghyraeddadwy. Dyma'r 'bardd dan faner y byd, / a'i odlau'n llesg a mwdlyd'.<sup>169</sup> Gellir mentro mai disgrifiad ohono ef ei hun yw hwnnw yn 'Dau', ac mae'n bur debyg mai cyfeirio at Twm Morys a wna wrth sôn am y telynor sy'n gwmni i'r bardd ar y daith y sonnir amdani yn y gerdd.

Mae'r bardd yn gymeriad canolog ym marddoniaeth Iwan fel ag y mae yn ei golofnau mewn amryw gylchgronau. Darlunnir y bardd modern yn gyson fel teithiwr, a'r darlun hwnnw'n clymu â'r syniad o fardd crwydrol o gyfnod Beirdd yr Uchelwyr neu o glerwr traddodiadol. Dyma'r bardd cymdeithasol ar un olwg yn mynd â'i farddoniaeth o le i le, ac yn dod yn gyfarwydd â phob twll a chornel o'r wlad. Byddai Iwan yn bur gyfarwydd â'r darlun hwnnw o'r bardd yn sgil ei waith ymchwil i noddwyr y beirdd yn sir Gaernarfon. Roedd yn ymwybodol iawn o'r hen draddodiad yr oedd y beirdd yn perthyn iddo yng Nghymru, ac roedd yn hoff o glymu'r bardd modern yn sownd wrth y traddodiad hwnnw. Cymharer ei ddisgrifiad o grwydradau'r bardd yng nghyfnod Owain Glyndŵr yn 'Dwy Daith' â'r disgrifiad

---

<sup>166</sup> T. H. Parry-Williams, *Cerddi*, Ail argraffiad (Aberystwyth, 1948), t. 58.

<sup>167</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 23.

<sup>168</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), t. 68.

<sup>169</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 60.



o daith y bardd modern yn 'Bardd'. Yn 'Dwy Daith', mae'r bardd o'r bymthegfed ganrif yn adnabod yr holl lonydd diarffordd ym mherfeddion gwlad:

Roedd golau ym mhen draw pob cwm  
i'r bardd, a'r llwybrau'n batrwm:  
roedd ei fap ar gefn ei law ac yn ei gynghanedd,  
a de a gogledd cyn agosed

â'r odlau a glymai ei linellau ...<sup>170</sup>

Dilyn ôl troed y bardd hwn a'i debyg yn llythrennol a wna'r bardd modern yn 'Bardd', ac mae'r ymwybyddiaeth o'r llinach y perthyn y bardd iddi'n amlwg wrth i Iwan gyfeirio at y beirdd-dywysogion o'r ddeuddegfed ganrif, Hywel ab Owain Gwynedd ac Owain Cyfeiliog. Wrth gyfeirio at 'Gorhoffedd' Hywel ab Owain Gwynedd a 'Hirlas' Owain Cyfeiliog, dengys yn y gerdd fod yr ysfa i deithio yn dal yng ngwaed y bardd:

Ond nid crwydro i'r manau diarth, digyfeiriad.  
Yn hytrach cyrchu'r manau cyfarwydd.  
Fel Hywel ab Owain Gwynedd yn dilyn  
Gwenllian, Gwerfyl a Gwenerys  
i drefydd Meirionnydd, Maelienydd a'r Mers.<sup>171</sup>

Ymddengys fod y bardd cyfoes yn adnabod llwybrau'r wlad lawn cystal ag yr adwaenai'r beirdd nhw ganrifoedd ynghynt. Ac os deuai ar draws llwybrau anghyfarwydd, yna 'mae'n ceisio mapio'r anghyfannedd'.<sup>172</sup> Adroddodd Myrddin ap Dafydd un hanes a oedd yn profi fod rhyw reddf i deithio yn perthyn i'r beirdd cyfoes, a'u bod, yn wir, yn gyfarwydd â lonydd cefn y wlad:

Mi fu goresgyn anawsterau teithio yn rhan o brofiad criw *Syched am Sycharth* yn 2000. Ar wythnos gyntaf y daith roedd hi'n Derfysg Petrol gyda ffermwyr a lorïwyr yn gwarchae purfa olew Stanlow a chreu blocêds ar y priffyrdd drwy yrru yn ara deg. Sychodd y tanwydd yn y gorsafoedd petrol ac roedd llu o ddigwyddiadau yn cael eu gohirio. Ond mi lwyddwyd i gynnal pob noson o'r daith yr wythnos honno. Os oedd

<sup>170</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (Llandysul, 2008), t. 12.

<sup>171</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 101.

<sup>172</sup> *Ibid.*, t. 102.

blocêd ar yr A55, roedd y beirdd yn medru teithio dros yr hen ffyrdd dros y Migneint a Mynydd Hiraethog. Roedden ni'n nabod perchnogion garejes gwledig oedd yn fodlon gwerthu dîsl o hen danciau rhydlyd rhyw hen oes a fu iddyn nhw. Roedd ganddon ni ein rhwydwaith a'n cysylltiadau a'n map ein hunain.<sup>173</sup>

Er bod elfen o antur ynghlwm â'r teithio, mae rhyw unigedd hefyd yn perthyn i'r daith ar brydiau, a hynny'n ychwanegu at arwahanrwydd rhamantaidd y bardd. Gwelir hynny yn 'Teithio', cerdd a ysgrifennodd Iwan tra oedd yn nhalaith Iowa yn yr Unol Daleithiau. Disgrifir esmwythder y profiad o deithio mewn awyren, a'r syniad nad yw ffiniau daearyddol na rhaniadau gwleidyddol yn bod pan fo rhywun yn yr awyr. Ond unwaith y glania'r awyren ac y camwn allan i sŵn ieithoedd anghyfarwydd a bwrlwm gwlad arall, buan y cawn ein daearu drachefn. Dyna pryd y gall rhywun deimlo unigrwydd llethol yng nghanol dieithrwch lle newydd:

... allan acw,  
tu hwnt i'r drysau trydan,  
mae ffiniau ac acenion a thiriogaeth  
yn barod i ffrwydro'n ein clustiau:

oedwn am ychydig,  
yma yn nhir neb,  
dan olau synthetig y maes awyr  
lle mae'r unigrwydd yn aflafar.<sup>174</sup>

O grwydro tua'r de draw i Dde America yn 'Y Weddi', mae hiraeth chwerw-felys am Gymru yn brathu. Defnyddia Iwan bennill gan T. H. Parry-Williams fel sylfaen i'r gerdd,<sup>175</sup> gan ychwanegu ei benillion ei hun ato er mwyn ehangu'r darlun o'r profiad hiraethus:

Gwesty diarth, llygaid hardd,  
llais y pellter yng nghalon bardd,  
a thrwy fwg swnllyd y teliffôn  
mae dinas arall i lawr y lôn ...<sup>176</sup>

---

<sup>173</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Dilyn camau'r cywyddwyr', *Iwan, ar Daith*, t. 44.

<sup>174</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 152.

<sup>175</sup> T. H. Parry-Williams, 'Y Weddi', *Cerddi*, Ail argraffiad (Aberystwyth, 1948), t. 31.

Er gwaethaf tinc y blws a'r naws bruddglwyfus a geir yn y pennill cyntaf hwn, mae'r bardd yn dal i fod yn gymeriad synhwyrus a dychmygus, yn gwerthfawrogi'r 'llygaid hardd', ac yn y cyfnod 'rhwng y nos a'r gawod sêr', fe deimla weddi Parry-Williams fel balm yn lleddfu ei hiraeth. Mae ymateb greddfyl y synhwyrus yn rhywbeth arall y mae Iwan yn effro iddo, ac mae'r darn byr a ddyfynnir isod yn arddangos yn berffaith ei ymwybyddiaeth o hynny:

Fe all rhywun eistedd ar ei ben ei hun mewn tafarn, ac ar yr un pryd fwynhau blas gwydriad oer o Guinness, gwranddo ar sgwrs ar y bwrdd nesaf, poeni am y gwaith na chafodd ei gwblhau y prynhawn hwnnw, hel atgofion i gyfeiliant cân o ryw ddegad arall ar y jiwc-bocs, ac edmygu harddwch y ferch sy'n gweini y tu ôl i'r bar.<sup>177</sup>

Darlun arall o'r bardd a gaiff ei daflunio yw hwnnw o'r diotwr y down o hyd iddo yn y dafarn o bryd i'w gilydd yng ngherddi Iwan. Hen ddelwedd yw honno o'r bardd meddw, fel y dengys Twm Morys mewn dwy ysgrif wrth iddo olrhain y cyfeiriadau at winoedd ac at feddwi mewn barddoniaeth Gymraeg dros y canrifoedd. Dywed fod y 'bardd meddw yn hoff iawn o ddweud hefyd mor bwysig ydi'r ddiot wrth ymrafael â geiriau yn y garet'.<sup>178</sup> Rhyw ddelwedd felly sy'n cael ei chyfleu gan Iwan yn ei englyn 'Talacharn 2001' ar wefan Yr Anedd lle mae'n cyfeirio at hoff dafarn Dylan Thomas, y Browns Hotel, ac yn awgrymu fod yr awen yn dal yn y ddiot yno hyd yn oed os nad yw Dylan Thomas ei hun yn y dafarn bellach:

Sêr i un yn y Browns Hotel – yn wag,  
a neb yn y gornel,  
ond gwên ei awen sy'n hel  
eto ar geg y botel.<sup>179</sup>

---

<sup>176</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado* (Llanrwst, 1999), t. 89. Cafodd 'Y Weddi' ei recordio fel cân yn ddiweddarach, ac fe glywir Iwan yn ei chanu ar albwm Geraint Lovgreen a'r enw da, *Busnes Anorffenedig* (Recordiau Sain, 2008).

<sup>177</sup> Iwan Llwyd, 'Ffeindio'r Lefel', *Barddas*, 226 (Chwefror 1996), t. 14.

<sup>178</sup> Twm Morys, 'Y Bardd Meddw [1]', *Barddas*, 277 (Mai/Mehefin 2004), t. 36. Ymddengys yr ail ysgrif yn *Barddas*, 278 (Gorffennaf/Awst 2004), tt. 43-4.

<sup>179</sup> <http://www.cynghanedd.com/oriel/talacharn.html> (Cyrchwyd: 26/11/15).

Roedd perthynas Iwan ei hun ag alcohol yn un anodd a chymhleth. Roedd y ddiod yn aml yn miniogi ei awen, fel yr awgrymodd Twm Morys yn ei 'Awdyl i Iwan Llwyd o'r Tai Newyddion':

Yma'n aml y bûm y nôs  
Yn Klera, yn kael aros.  
A chlywais o'n barddoni'n  
Well ac yn well yn ei wîn ...<sup>180</sup>

Ond roedd alcohol hefyd yn elfen ddinistriol ym mywyd Iwan. Trafoda Karen Owen yn ddidwyll gyflwr ei alcoholiaeth gan egluro mai 'yfed oedd yn cau allan yr ofnau, yn trechu swildod ac yn ymdrin â'r pethau anodd eu hwynebu' yn ei fywyd. Ond er ceisio trechu'r cyflwr, mae hithau'n cydnabod fod alcohol wedi bod o gymorth i'w farddoniaeth: 'Nid am ei fod yn fardd yr oedd Iwan yn alcoholig; ond mae'n debygol iawn mai am ei fod yn alcoholig yr oedd Iwan yn gystal bardd'.<sup>181</sup> Cyfeiriodd Myrddin ap Dafydd yntau yn ei farwnad i Iwan at y difrod terfynol a achoswyd gan yr yfed trwm:

Garw i mi y grym oedd  
yn wenwyn yn ei winoedd  
a'r hen graig yn troi'n gregyn  
a graean o dan y dyn;  
ofnwn naid y Sauvignon  
a môr niwloedd y meirwon.<sup>182</sup>

Gwelwn yn aml yng ngherddi Iwan gymeriad y bardd mewn tafarn. Dyna'r ddelwedd o fardd yr oedd Iwan yn ei thaflunio ac mae'n anodd weithiau tynnu ffin rhwng y ddelwedd 'wneud' honno a chymeriad Iwan ei hun. Fel yr awgrymodd Guto Dafydd, rhan o'r dirgelwch a oedd yn perthyn i Iwan oedd 'ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng persona'r bardd a'r person go iawn – os oedd gwahaniaeth o gwbl.' Fel hyn y disgrifiodd Guto Dafydd bersona ystrydebol bardd:

Wrth sôn am 'y bardd', mae'r meddwl yn troi at bersona penodol, delfryd o fardd – rôl a chwaraeodd Iwan i'r eithaf, boed yn fwriadol neu'n anfwriadol. Dyma'r teithiwr

---

<sup>180</sup> Neil Sagam, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 100 (Gaeaf 1997), t. 7.

<sup>181</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn* (Cyhoeddwyd gan Karen Owen, 2014), t. 1.

<sup>182</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Iwan', *Iwan, ar Daith*, t. 124.

talog, y *raconteur*, y clerwr mwyn, y trwbadw'r, sy'n yfed am yn ail â mercheta a sgwennu ambell gerdd ac sy'n dianc â chroen ei ddannedd rhag peryglon enbyd. Mae'n ddelwedd atyniadol.<sup>183</sup>

Gwelsom y bardd eisoes yn 'Aderyn diarth' yn glanio ger y 'bar rhwng y byw a'r bedd', ac yn 'Far Rockaway' fe welwn y 'beirdd ar eu hystolion tal / yn cynganeddu ar bedair wal, / yn yfed wisgi efo gwllith', a hynny'n ychwanegu at y darlun breuddwydiol o'r lle.<sup>184</sup> Glanio yng ngorsaf drenau Far Rockaway drwy gamgymeriad a wnaeth Iwan, fel y dywed mewn esboniad o'r gerdd, ac er na fu yno ond cwta hanner awr, cafodd ei swyno gan yr enw, a hynny er gwaethaf golwg flêr a budr y lle.<sup>185</sup> Wrth y bar y mae'r beirdd eto yn 'Tafarn y Werin' yn canu mawl i Kenny Khan, perchennog hael y dafarn yng Nghaernarfon:

... twrw beirdd o bobtu'r bar  
yn rhoi mawl drwy'r oriau mân  
i eryr y gwallt arian.<sup>186</sup>

Teithio o gylch tafarndai a chlybiau oedd hanes y sioeau barddol y bu Iwan yn rhan ohonynt, a'r llefydd hynny'n cynnig naws anffurfiol i'r nosweithiau. Ymdrech i boblogeiddio barddoniaeth a'i chyflwyno gerbron cynulleidfa mewn man cymdeithasol fel peth byw, perthnasol a dealladwy oedd y teithiau hyn. Yr un oedd amcan nosweithiau'r *Cywyddau Cyhoeddus*, a dal peth o naws y nosweithiau hynny a wneir yn y tair cyfrol a gyhoeddwyd yn sgil y nosweithiau. Nid oes gwadu yn y cyfrolau y berthynas rhwng y bardd a'r ddiodyd gadarn. Ysgrifennodd Iwan a Myrddin ap Dafydd yn y cyflwyniad i'r gyfrol gyntaf fod 'rhyfela â photeli gwin yn hen arfer ymysg cywyddwyr'.<sup>187</sup> Adolygodd Jerry Hunter yr ail gyfrol gan nodi mai cyfeirio at y tafarndai a wna'r cywyddwyr cyfoes, yn wahanol i Feirdd yr Uchelwyr, a fyddai'n cyfeirio at neuaddau eu noddwyr, a dyfynna ran o gywydd Ceri Wyn Jones yn brawf:

Yn y bar mae'r byd mor bell

---

<sup>183</sup> Guto Dafydd, 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 66.

<sup>184</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 17.

<sup>185</sup> 'Iwan Llwyd', *Mae'n gêm o ddau fileniwm*, gol. Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2002), tt. 113-14.

<sup>186</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 179.

<sup>187</sup> Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus*, 1 (Llanrwst, 1994), t. 9.

â ninnau'n trafod llinell;  
yn sawru'r hen fesurau,  
sawru cerdd tan amser cau.

'Yn lle medd a gwin y canu arwrol ceir *lager*,' meddai Jerry Hunter wedyn.<sup>188</sup> Erbyn cyhoeddi trydedd gyfrol *Cywyddau Cyhoeddus*, mae'r llun ar y clawr yn dangos pawb a'i beint o Guinness yn gwrando ar y bardd.

Ymddengys y bardd eto 'yn hen wâr / yn tynnu ar sigarét mewn tafarn wag' yn y gerdd 'Wrth Wrando ar "Ambiwlan" Geraint Jarman'.<sup>189</sup> Tywyllach yw naws y gerdd honno o'i chymharu â'r cerddi uchod, ac mae mwy o arwyddocâd i bresenoldeb y bardd y tro hwn o wneud y cysylltiad â geiriau Geraint Jarman. Tebyg yw naws 'Ambiwlan' Geraint Jarman i gerdd Iwan: mae'r ddwy yn cyfleu rhyw deimlad dinesig, haearnaidd ac yn adlewyrchu traul cymdeithas: 'roedd rhywun yn synhwyro bod rhywun yn marw yn rhywle,' fel y dywed Iwan wrth iddo sôn am wylofain iasol y gân.<sup>190</sup> Mae Jarman yn crybwyll yr ystlum yn sugno gwaed y bardd, a hynny o bosib yn awgrymu marwolaeth araf y diwylliant Cymreig a'r bygythiad sy'n wynebu gwareiddiad. Yr un yw awgrym Iwan wrth iddo dynnu sylw at y gwacter trymaidd yn y dafarn er mwyn cyfleu'r ymdeimlad amhersonol yno ac er mwyn awgrymu fod yr hen ffordd Gymreig, gymdeithasol yn prysur ddod i ben. Y bardd yw'r unig un 'mewn tafarn wag', a'i unig ddi-ddanwch yw gwyllo mwg ei sigarét yn codi 'i wacter y nenfwd' cyn 'gwagio'i wydr'. Nid oes lle i'r bardd yn y gymdeithas oeraidd hon; mae ei 'gerdd yn grin', yn cael ei dibrisio wrth gael ei 'sathru dan draed'. Mae Iwan un ai'n awgrymu ei bod yn argyfwng ar y diwylliant Cymraeg yn gyffredinol, neu mae'n dangos mor amherthnasol oedd y farddoniaeth a ysgrifennid ar y pryd.

Yr argyfwng ynghylch sefyllfa barddoniaeth Gymraeg a ysgogodd Iwan a Wiliam Owen Roberts i ysgrifennu eu herthyglau beirniadol ddechrau'r 1980au yn galw am lenyddiaeth berthnasol i'r cyfnod. Os na all cynulleidfa uniaethu â'r farddoniaeth sy'n cael ei chynhyrchu, buan y bydd y gynulleidfa honno'n diflannu; ac o golli'r gynulleidfa, rhaid holi pa werth a pha ddiben sydd i'r farddoniaeth o gwbl. Disgrifiodd Gwyn Thomas unwaith y

---

<sup>188</sup> Jerry Hunter, 'Tafarnau'r Canu Cyfoes', *Taliesin*, 95 (Hydref 1996), t. 122.

<sup>189</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn* (Talybont, 1983), t. 12.

<sup>190</sup> Iwan Llwyd, 'Jarman: Gobaith Mawr y Ganrif', *Barn*, 421 (Chwefror 1998), t. 31.

broses o ysgrifennu cerddi yn Gymraeg fel ‘anfon negesau i’r gofod – ‘does yna ddim ymateb am nad oes yna neb yn eu darllen’.<sup>191</sup> Rhywbeth tebyg oedd gan Iwan mewn golwg yn ‘Barddoni (yn Gymraeg)’:

Ydi o fel bod mewn pub yn Llundain?  
Ydi o?  
Y siarad unig â thi dy hunan  
a neb yn gwranddo:  
heb yno neb a wybu adnabod,  
neb yn perthyn,  
a’r geiriau’n cronni cyn suddo  
i waelod diod rhywun ...<sup>192</sup>

Mae’n egluro cefndir y gerdd wrth annerch cynulleidfa, ar daith yn America fwy na thebyg:

And as I was sitting there, in this pub by myself, I started to think – well perhaps this is how a poet should be, you know, by himself, writing by himself in some sort of vacuum, in a garret, writing by himself, and the poem asks the question is that what poetry’s about, or should it be about communicating with people?<sup>193</sup>

Dangos y diffyg ymateb i farddoniaeth a wneir yn y cerddi ‘Bardd’ a ‘Methu cysgu’ hefyd. Gwelir y bardd ar ffurf Seithennyn yn y gerdd gyntaf, ac unwaith eto daw’r berthynas rhwng y bardd a’r ddiod i’r wyneb. Cerdd fer ac iddi neges gryno yw ‘Bardd’, ac mae’n werth ei dyfynnu yn ei chrynswith:

O dop ei dŵr  
datganodd Seithennin  
gerdd yn ei gwrw:  
  
ac fel arfer  
ni chynhyrfodd hi  
na’r llwynau na’r llanw.<sup>194</sup>

---

<sup>191</sup> Gwyn Thomas, ‘Awen o Waeau’, *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1991), t. 8.

<sup>192</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 2.

<sup>193</sup> Iwan Llwyd, *rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul* (Teleg, Darlledwyd: 9/3/14).

<sup>194</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 38.

Mae'r feirniadaeth yn y gerdd yn amwys. Gall fod yn pwysleisio'r angen am farddoniaeth berthnasol sy'n ennyn ymateb, barddoniaeth a fydd yn cael effaith ar gynulleidfa. Ond ar y llaw arall, mae'r llinell gyntaf yn mynnu awgrymu fod y bardd ei hun ar fai am ei osod ei hun ar wahân i weddill cymdeithas. Doedd y syniad hwnnw ddim yn un a anwybyddodd Iwan:

Efallai fod y beirdd eu hunain wedi bod ar fai yn ystod y canrifoedd diweddar. Maent, ac yr ydym, wedi tueddu i feithrin y ddelwedd o'r bardd fel rhywun breuddwydiol, ar wahân, a'i feddwl ar goll yn y cymylau, tra bo pobol o'i gwmpas yn gorfod mynd i'r afael â bywyd go iawn.<sup>195</sup>

Ysgafnach o lawer yw cywair 'Methu cysgu', lle down i ddeall ar ddiwedd y gerdd mai'r hyn sy'n cadw'r bardd yn effro fin nos yw'r diffyg ymateb sydd i'w gerddi. Ac yntau'n cicio'n fwriadol yn erbyn y tresi er mwyn ysgogi trafodaeth, caiff ei brotest farddol ei hanwybyddu'n llwyr.<sup>196</sup>

Caiff y broses o farddoni sylw pellach yng ngerddi Iwan. Er bod y bardd Cymraeg yn gymeriad cymdeithasol ar un wedd, yn cyflwyno ei farddoniaeth ar lafar mewn nosweithiau hwyliog, mae llunio'r gerdd yn y lle cyntaf yn broses unig. 'Mae pob bardd yn ei hanfod yn greadur unig,' meddai Iwan wrth adolygu hunangofiant Alan Llwyd.<sup>197</sup> Cyfeirio at hynny a wna yn y gerdd 'Sonedau Bore Sadwrn', a'r 'gwely oer' yn ategu'r darlun o unigrwydd y bardd digymar:

Gweithred unig yw barddoni:

gweithred y nos â'r golau'n isel,  
a'r boreau segur yn y gwely oer ...<sup>198</sup>

Mae'n rhaid wrth *ambience* arbennig er mwyn ysbrydoli'r broses greadigol, ac yn y gwyll y mae awen Iwan yn trigo. Weithiau daw llinell i'w feddwl yn ddisymwth wrth iddo yrru drwy'r glaw, a'r llinell honno'n ei daro'n annisgwyl gan adael 'staen goch ar y tarmac gwlyb'. Ar adegau felly, nid yw'n chwilio am y geiriau, ac mae sydynrwydd y profiad yn un rhan o'r

<sup>195</sup> Iwan Llwyd, 'Barddoniaeth i Bawb', *Barddas*, 244 (Rhagfyr/Ionawr/Chwefror 1997-98), t. 61.

<sup>196</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 41.

<sup>197</sup> Iwan Llwyd, 'Cysgod Hedd Wyn', *Barn*, 385 (Chwefror 1995), t. 35.

<sup>198</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 4.



broses greadigol. Tebyg yn hynny o beth yw cerdd Menna Elfyn, 'Bardd Di-gadair Freichiau', lle daw'r awen iddi 'yn sydyn ganol swper' neu wrth iddi hongian dillad ar y lein.<sup>199</sup> Ond mewn cyferbyniad â sydynrwydd y creu weithiau, disgrifia Iwan y broses arall, arafach o lunio cerdd yn ail hanner 'Sonedau Bore Sadwrn'. Y cerddi hynny sydd wedi bod yn ymffurfio yn yr isymwybod dros amser yw'r rhai sy'n rhoi'r pleser mwyaf, meddai, y llinellau sydd wedi cael eu troi a'u gweithio am wythnos yn y meddwl cyn eu rhoi ar bapur:

... ond sonedau bore Sadwrn  
a rydd y boddhad mwyaf:

mae iddynt rwystredigaeth  
wythnos o eiriau'n cronni,  
yn erfyn eu tywallt  
ar liain glân y dydd:

gweithred unig yw barddoni,  
ond nid diffrwyth,  
ac egin cerdd  
yn staen ar y lliain gwyn.

Mae'r gyffelybiaeth rywiol yn y gerdd, sydd ynghlwm â'r broses o farddoni, eto'n pwysleisio'r elfen synhwyrus sydd i ysgrifennu, ac mae rhoi'r gerdd ar glawr wedi wythnos o ymatal yn ymdebygu i'r rhyddhad wrth ddiwallu anghenion cnawdol. Dyma'r gerdd gyntaf yng nghyfrol gyntaf Iwan, ac mae'n debyg y byddai delwedd awgrymog fel sydd yn y gerdd yn bodloni meini prawf gwasg y Lolfa ar gyfer cyfres *avant-garde* y Beirdd Answyddogol. Dyma felly'r argraff gyhoeddus gyntaf a gaed o Iwan Llwyd, y bardd cyhoeddedig, mae'n debyg: rhywun beiddgar a oedd yn ysgrifennu'n gyfoes ac yn herio'r to hŷn o feirdd a'u pynciau gwladaidd, mwy traddodiadol. Fe'i cyflwyna ei hun felly drwy gydol y gyfrol gyntaf honno drwy roi sylw i'r ffaith fod ewthanasia a rhyw yn bynciau tabŵ o fewn y gymdeithas Gymreig, trwy ysgrifennu cân werin am ganabis, a chyffelybu'r Eisteddfod i'r cyffur mewn cerdd arall. Ond er ceisio gwthio'r ffiniau Cymreig a chicio yn erbyn tresi ei gefndir traddodiadol, Anghydfurfiol, digon ceidwadol yw'r gyfrol *Sonedau Bore Sadwrn* o'i chymharu ag ambell gyfrol arall o'r gyfres Answyddogol. Er bodloni'r criteria Answyddogol o

---

<sup>199</sup> Menna Elfyn, *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011* (Llandysul, 2011), t. 191.

ran ei thestunau, ni ellir ystyried cyfrol Iwan yn un sy'n arddel yr 'arddull anllenyddol' yr oedd Robot Gruffudd yn galw amdano. Dim ond un enghraifft yw'r gerdd 'Sonedau Bore Sadwrn' o sut yr oedd Iwan yn ceisio gwthio barddoniaeth Gymraeg yn ei blaen gyda'r oes. Dywedodd mewn cerdd ddiweddarach fod angen taflu'r hen eiriau i'r pair er mwyn iddynt gael eu haileni ar ffurfiau newydd:

Bwrw'r llythrennau i'r tân  
a gadael iddyn nhw lifo'n iaith newydd ar hyd yr aelwyd.

Eu herio i ganu'n dyheadau mwyaf cyfoes a chyffrous  
er mwyn eu llusgo, dan sgrechian weithiau, i'r ganrif nesa.<sup>200</sup>

A dyna a wnaeth Iwan o'r cychwyn cyntaf: llusgo'r Gymraeg a barddoniaeth Gymraeg yn eofn i'r presennol ac i'r byd cyfoes.

Defnyddiodd eto gymhariaeth rywiol er mwyn disgrifio'r broses o farddoni yn ei gerdd 'Tywallt anadl', lle dywed fod 'sgwennu cerddi fel caru'. Gydag amynedd y daw'r gerdd, a rhaid wrth y cofleidio a'r cusanu cychwynnol cyn cyrraedd unrhyw uchafbwynt:

... wrth grafu am eiria,  
am ddelwedda  
mae'n llwyr ymlâdd,  
yn blino'n lân:

ac eto fesul dipyn,  
fesul coflaid fesul cusan,  
caiff wared â'r cyfan,  
nes bod ei anadl yn tywallt  
ei ddiferion drosot.<sup>201</sup>

Mae ymwarded â'r holl syniadau, y llinellau a'r delweddau wrth gofnodi'r gerdd orffenedig, a'r rhyddhad a ddaw o gael gwagio'r meddwl, yn brofiad dwys a nwydus i'r bardd. Yn ôl

---

<sup>200</sup> Iwan Llwyd, 'Bardd', *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 101-2.

<sup>201</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 18.

Freud, ‘ffordd i gael gwared o niwrosis yw celfyddyd’,<sup>202</sup> a disgrifiodd T. H. Parry-Williams yntau’r rhyddhad a gâi wrth ysgrifennu cerdd yn y rhigwm ‘Awen’:

Felly af ati i ganu y funud hon,  
I lacio tyndra’r caethiwed sydd yn fy mron.<sup>203</sup>

Wrth droi’n ôl at y ddwy broses greadigol a ddisgrifir yn ‘Sonedau Bore Sadwrn’, y llinellau sy’n llamu o flaen y car yn ddirybudd, a’r arafwch sy’n perthyn i’r broses dro arall wrth i fardd gnoi cil ar syniadau yn yr isymwybod, mae’n werth dyfynnu geiriau J. Gwilym Jones o erthygl yn *Y Traethodydd*. Yno, mae’n aralleirio disgrifiad y mathemategydd Henri Poincaré o’r broses greadigol a oedd y tu ôl i un o’i greadigaethau:

Mae goleuni sydyn yn arwydd amlwg o waith hir anymwybodol. Ymlefnir yn ymwybodol i gychwyn, yn ofer. Yna gorffwys, heb ymddangosiadol feddwl am y peth. Yna ail gychwyn yn ymwybodol ac yn sydyn daw’r goleuni, a hwnnw, medd Poincaré, yn fwy ffrwythlon oherwydd i’r meddwl yn y cyfamser gael gorffwys. Nid yw’r rhan anymwybodol ohonom ddim mewn unrhyw fodd yn israddol i’r rhan ymwybodol. Nid peth awtomatig ydyw. Mae ganddi’r gallu i ddewis a dyfalu. Beth a ddywedaf? Mae’n gwybod yn well na’r ymwybod sut i ddyfalu gan iddi hi lwyddo lle methodd y llall. Mewn gair, mae’r anymwybod yn rhagorach na’r ymwybod. Yn yr anymwybod y ceir gafael ar y cyfuniadau sydd o werth, ac fe’u teflir ohono i’r ymwybod gyda sydynrwydd ysbrydoliaeth.<sup>204</sup>

Â J. Gwilym Jones rhagddo i nodi mai proses debyg oedd proses greadigol Wordsworth a Mozart, a dyna daflu rhywfaint o oleuni ar broses greadigol Iwan fel y mae’n sôn amdani yn ‘Sonedau Bore Sadwrn’. Ceir mewn cerdd arall fod oferedd yr ymlafnio ymwybodol cychwynnol yn beth cyfarwydd i Iwan hefyd. Fel y dengys teitl y gerdd, ‘Barddoniaeth yn y nos’, gyda’r hwyr yr ysgrifennai, a’r golau gwan yn creu’r un naws ag a gafwyd yn ‘Sonedau Bore Sadwrn’, y naws sy’n gyrru’r awen fel rheol:

... a minnau  
yn fy stafell dywyll  
yn mwydro,

<sup>202</sup> J. Gwilym Jones, ‘Y Broses Greadigol’, *Y Traethodydd*, Cyf. CXXXV, 575 (1980), t. 65.

<sup>203</sup> T. H. Parry-Williams, *Ugain o Gerddi* (Aberystwyth, 1949), t. 11.

<sup>204</sup> J. Gwilym Jones, ‘Y Broses Greadigol’, t. 63.

yn profi llinellau'n  
lluchio cyfeiriadau,  
yn dal yn effro

yn yr hanner golau  
yn craffu ar dudalennau,  
yn trio sgriblo,

yn troi a throsi  
a methu cynganeddu  
na chanolbwyntio ...<sup>205</sup>

Yn y diwedd, mae'n noswyllo 'yn ddi-gerdd a diawen, / wedi hen flino', ac yn canfod y gerdd yn y diwedd yn y man mwyaf annisgwyl wrth weld ei ferch ddyflwydd oed yn cysgu â chyfrol o farddoniaeth Keats dan ei chesail. Wedi oriau o dyrchu'r meddwl am eiriau a syniadau, symlirwydd y ddelwedd honno a esgorodd ar gerdd.

Dyma faglu ar draws un ddelwedd arall o'r bardd na chyffyrddwyd â hi eto, ac mae i'w chanfod yng nghymeriad Iwan ei hun yn hytrach nag yn ei bortreadau o'r bardd. Dyma'r darlun o'r bardd fel rhywun cwbl gyffredin. Gwelwn ef yn y gerdd uchod fel tad, a chawn mewn cerddi fel 'Safeways',<sup>206</sup> 'Ar ddarllen Brecht yn y bog', 'Trolïau', a 'Genod y "til"'<sup>207</sup> ei fod yn siopa mewn archfarchnadoedd. Daliwyd y darlun hwn orau yn 'Caeth', lle mae'n rhestru'r holl bethau sy'n diffinio patrwm ei fywyd, y pethau y mae'n gaeth iddynt o ddydd i ddydd: 'i rhythmau'r dyn llefrith a'r postman a'r papur', 'i roi bath i'r fechan a newid ei chlwt / gwneud tân, golchi'r llestri, a chadw'r tŷ'n dwt'. Mae hyd yn oed yn cydnabod ei fod yn gaeth 'i Bobol y Cwm' ac 'i win rhad o Safeway'.<sup>208</sup>

Gweithred y nos yw barddoni i Iwan yn 'Geiriau' hefyd, lle 'bydd geiriau'n dawnsio drwy mreuddwydion / fel pysgod anniddig'. Y tro hwn, ymdebyga'r broses o farddoni i bysgota, a'r gamp yw dal yr union eiriau sy'n nofio ym mhwl y dychymyg er mwyn llunio'r

---

<sup>205</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant* (Bodedern, 2007), t. 36.

<sup>206</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, tt. 42-5.

<sup>207</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 163-4, 165-6, 169-70.

<sup>208</sup> Y Bechgyn Drwg, *Blŷz* (Cyhoeddiad preifat, 2002), t. 2.

llynell berffaith o farddoniaeth. Defnyddiodd Twm Morys drosiad tebyg yn ei awdl fer 'I'm hathro barddol':

Llenyddiaeth yn llyn iddo, – a'r awen  
Fel rhyw eog yno,  
A gwneud i'r eog neidio  
Oedd ei ddawn bencerddaidd o.<sup>209</sup>

Gan fod Iwan yn cyfeirio at freuddwydio yn 'Geiriau', mae'n amlwg mai'r isymwybod sydd ar waith eto yma, ac wrth i'r meddwl weithio liw nos a dewis a dethol geiriau a delweddau, daw fflach o ysbrydoliaeth weithiau y bore canlynol:

... o'u tywyllwch  
mae geiriau'n cythru'r abwyd, yn cydio:  
does 'na ddim fel deffro'n fore  
a dal brithyll.<sup>210</sup>

Disgrifir y tywyllwch anniffiniol lle nofia'r geiriau yn 'ddyfnder / na all rhai ei ddirnad' yn 'Miami Beach', cerdd i'r bardd, Robert Minhinnick, yr aeth Iwan gydag ef i Miami Beach ym Mhort Talbot wrth iddo roi'r gyfrol *Rhyw Deid yn Dod Miwn* at ei gilydd.<sup>211</sup> Dyma ddyfnder cyfriniol y ffin, cyflwr y cyd-rhwng, a'r man creadigol:

... y dyfnder sy' ar gyrion y môr,  
y dyfnder ar ymyl yr eiliad [...]

... ac oherwydd y dyfnder hwnnw  
mae'r beirdd yn bodoli ...<sup>212</sup>

Ar y ffin y mae canfod yr awen yn 'Beirdd' hefyd, cerdd a ysgrifennwyd i Menna Elfyn a Nigel Jenkins yn 1997 yn ystod taith y tri i America i ddarllen eu gwaith mewn canolfan gelfyddydau yn Philadelphia. Ynddi, mae'r dyfnder emosiynol a'r cysylltiad corfforol â barddoni yn cael eu disgrifio fel hyn:

---

<sup>209</sup> Twm Morys, *Ofn Fy Het*, t. 13.

<sup>210</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 104.

<sup>211</sup> Robert Minhinnick, 'Er Cof: Iwan Llwyd', *Poetry Wales*, Vol.46, 1 (Summer 2010), t. 4.

<sup>212</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 96.

Yn y dagrau yn eu llygaid  
mae'r cyfarwydd yn cuddio:  
ar y ffin denau honno

rhwng chwerthin a chrïo ...<sup>213</sup>

Fel yn y gerdd 'Y drws clo', lle roedd y 'geiriau'n gyf'rwyddyd', cawn eto'r 'cyfarwydd' yn y gerdd hon wrth i Iwan hoelio'r bardd modern yn sownd i hen draddodiad barddol y llys yn yr Oesoedd Canol. Canmol dawn y beirdd a wna yn y gerdd gan roi cipolwg inni ar yr un pryd ar natur bardd ac ar gyflwr ei feddwl pan fo ar waith. Mae'r gerdd yn awgrymu fod gan fardd allu i weld yn wahanol i bawb arall, i weld rhyfeddodau mewn pethau bach cyffredin fel ystlumod a phryfed ac acenion diaconiaid, a dyna roi ystyr amwys i'r 'cyfarwydd' ar ddechrau'r gerdd. Dyna sut y gwêl y bardd y byd yn naturiol, ac nid yw ysgrifennu cerdd sy'n trosglwyddo'r weledigaeth honno o'i fyd yn gofyn llawer o ymdrech gan fod dawn gynhenid ganddo i drin geiriau a chreu delweddau. Ond mae cerddi eraill sy'n mynnu mwy o waith, ac yn nagrau'r beirdd y mae'r 'gwinoedd gorau'; mae'n debyg mai dweud y mae Iwan yma mai'r cerddi a ffurfiwyd yn nyfnder lle cyfriniol y meddwl yw'r cerddi gorau. Y rheiny yw'r cerddi sy'n medru rhoi bodolaeth a bywyd i bethau, i'r 'capeli gwag a chaerau cogio', ac mae'n debyg mai'r rheiny yw'r cerddi sy'n canu gwlad newydd i fodolaeth hefyd.

Mae'r broses greadigol a ddisgrifir drwy'r cerddi yn un ddwys a chymhleth, ac yn un sy'n blino'r sawl sy'n ymgymryd â hi yn feddylol ac yn gorfforol. Caiff yr ymdrech gorfforol ei chrybwyll eto yn 'Y Glöwr', cerdd i Tony Conran, lle darlunnir y bardd fel llafurwr mewn pwll glo:

Babi, ty'd i mewn o'r glaw,  
ty'd mewn i glywed  
y gŵr sy'n rhwygo geiriau  
o berfeddion ei gorff,  
yn eu cloddio fesul sillaf  
o'i ymysgaroedd ...<sup>214</sup>

---

<sup>213</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 43.

<sup>214</sup> *Ibid.*, t. 108.

Dyna, mae'n debyg, 'y dyfnder sy'n brifo weithiau' yn 'Miami Beach' wrth i fardd deimlo ei eiriau i'r byw.<sup>215</sup>

Wrth sôn am yr artist creadigol o'i gymharu â'r dyn cyffredin nad yw'n profi trydan y synhwyrâu'n llawn, dywed J. Gwilym Jones fel hyn amdanynt:

... mae normalrwydd mewn un ystyr yn golygu diffyg mewn synhwyrusrwydd, mewn croendeneuwch, mewn medru teimlo pethau i'r byw, mewn difaterwch ynghylch gorffennol a phresennol a dyfodol. [...] Y mae'r artist, ar y llaw arall, yn anarferol o synhwyrus, yn ingol wybyddus â'i gymhlethdodau, yn baradocsaidd ymwybodol o'i anymwybod, ond gyda'r ddawn brin o fedru lleddfu'r boen a'r pangau mewn mynegiant.<sup>216</sup>

Yr ymwybyddiaeth o'i synhwyrâu ynghyd â'i ddawn eiriol sy'n galluogi bardd i fynegi'r anhraethadwy, a'r grefft honno yw un o hanfodion barddoniaeth yn ôl Iwan yn 'Y Wers':

... 'barddoniaeth yw creu â geiriau lun  
o'r gyfrinach ddi-ddeall yn nagrau dyn ...'<sup>217</sup>

Yn union fel y ceir y ddelwedd fytholegol o'r bardd ochr yn ochr â'r ddelwedd gymdeithasol, fydol ohono, mae'r un ddeuliaeth yn perthyn i'r cerddi. Mae'r disgrifiad a ddyfynnir uchod o 'Y Wers' yn enghraifft o'r elfen haniaethol sy'n perthyn i farddoniaeth, elfen sy'n ymylu ar fod yn absŵrd. Ond wrth i'r bardd fyfyrion ymhellach ar beth yw barddoniaeth yn y gerdd, mae lluniau diriaethol, arogl, a sŵn 'odl amrwd, cynghanedd flêr' a roc a rôl yn cael eu plethu i mewn i'r elfen haniaethol er mwyn cynnig diffiniad dealladwy o'r hyn yw barddoniaeth yn nhyb Iwan. Wrth drafod yr union bwnc hwn mewn erthygl yn 2012, beirniadodd Emyr Lewis yr elfen haniaethol, esoterig sydd wedi tyfu o gylch y gair 'barddoniaeth', ac mae'n cynnig y dylem ddefnyddio 'barddoni' yn ei le er mwyn cyfleu mai ffrwyth gweithred go iawn yw cerdd.<sup>218</sup>

---

<sup>215</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 96.

<sup>216</sup> J. Gwilym Jones, 'Y Broses Greadigol', tt. 65-6.

<sup>217</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant*, t. 30.

<sup>218</sup> Emyr Lewis, 'Dydw i ddim yn hoff iawn o farddoniaeth!', *Barddas*, 314 (Gwanwyn 2012), tt. 36-7.

Er i Iwan bwyso ar yr elfen haniaethol honno'n gyson, roedd yn realydd yn y syniadau ymarferol a gynigai yn ei golofnau yn *Barddas* ynghylch sut i ymestyn ffiniau barddoniaeth Gymraeg ac ymgyrraedd at gynulleidfa ehangach. Yn y colofnau hynny hefyd y cawn ddysgu am hanfodion barddoniaeth trwy lygaid Iwan. Roedd barddoni yn fwy na diddordeb yn unig iddo; yr oedd, mae'n deg dweud, yn ffordd o fyw, ac yn wir yn fywoliaeth iddo am flynyddoedd. Yn ddigon naturiol, felly, roedd sefyllfa barddoniaeth Gymraeg yn bwnc a oedd yn codi'n aml ganddo yn ei ysgrifau, a'r syniadau a gafodd eu mynegi yn ei bytiau rhyddiaith yn cael eu hadlewyrchu yn ei farddoniaeth ei hun ac yn yr hyn a wnâi fel bardd o ddydd i ddydd.

Un o'i syniadau craidd oedd fod yn rhaid i farddoniaeth Gymraeg fod yn ddealladwy i'r gynulleidfa fodern er mwyn cyflawni ei swyddogaeth. Dywedodd mewn ysgrif yn 1995 mai'r her sy'n wynebu bardd wrth nesáu at droad y ganrif yw 'canfod iaith a chyfrwng sy'n caniatáu iddo/iddi fynegi ei deimladau/profiadau dyfnaf – a hynny drwy gyfrwng geiriau a delweddau cyfoethog, heb gael ei alw yn dywyll/amherthnasol/academaidd'.<sup>219</sup> Roedd cyrraedd cynulleidfa drwy farddoniaeth yn rhan o weledigaeth Iwan o'r cychwyn; dyna fyrdwn ei erthyglau ef a Wiliam Owen Roberts yn *Y Faner* ac yn *Llais Llyfrau*, a dyna'r nod oedd ganddo wrth gyhoeddi *Sonedau Bore Sadwrn*. Roedd ysgrifennu barddoniaeth ddealladwy ac ysgrifennu barddoniaeth berthnasol yn mynd law yn llaw. Fel y nodwyd eisoes, rhaid oedd i farddoniaeth fod yn berthnasol i'r cyfnod er mwyn iddi apelio at y gynulleidfa gyfoes. Rhaid oedd iddi adlewyrchu 'realiti ein bodolaeth heddiw', fel y dywed Wiliam Owen Roberts yn ei ragair i gyfrol gyntaf Iwan, ac roedd angen i iaith a phynciau'r cerddi gael eu diwygio a'u datblygu gyda'r oes:

Os yw'r bardd yn cyfyngu ei hun i gysyniadau esthetaidd penodol, e.e., tra-arglwyddiaeth y mesurau caeth neu ddefnyddio delweddiaeth [*sic*] o gyfnod Beirdd yr Uchelwyr, yna mae'n anodd gweld sut y gall y farddoniaeth honno fod yn adlewyrchiad o fywyd heddiw. Oherwydd hyn mae perygl i'r bardd ymddieithrio oddiwrth [*sic*] ei gymdeithas ac i'r act o farddoni droi'n weithred ddiletantaidd ddibwrpas.<sup>220</sup>

---

<sup>219</sup> Iwan Llwyd, 'Yfory', *Barddas*, 216 (Ebrill 1995), t. 10.

<sup>220</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 3.



Priodol oedd i Wiliam Owen Roberts nodi hynny yn y cyflwyniad i *Sonedau Bore Sadwrn*, a cherddi'r gyfrol ei hun yn enghreifftiau o'r math o farddoniaeth y gwelai'r bardd a'i gyfaill o lenor alw amdani. Gwelir yn y gyfrol Gymry yn cael eu denu i gyffiniau Llundain, a Saeson yn meddiannu'r pentrefi Cymraeg. Trafodir dirywiad y Gymraeg, S4C, a diweithdra; problemau a thestunau trafod sydd yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent yn 1983, blwyddyn cyhoeddi'r gyfrol. Ond ochr yn ochr â phynciau'r dydd, ac ochr yn ochr â Jarman a noson Twrw Tanllyd Eisteddfod Genedlaethol 1981, mae lle yn y gyfrol hefyd i Bengwern ac i Heledd, i Aber Henfelen a *Dail Pren* Waldo. Amhosib, meddai Iwan yn ddiweddarach, yw anwybyddu'r traddodiadau a'r dylanwadau sy'n rhan mor amlwg o fagwraeth Gymreig, ac felly mae'n rhaid cyfuno'r hen a'r newydd er mwyn creu barddoniaeth apelgar heddiw:

Mae rhywun yn ceisio'i orau i asio'r hen a'r newydd, er mwyn creu sŵn newydd, delweddau newydd, barddoniaeth newydd. Heb hynny 'does dim barddoniaeth.<sup>221</sup>

Mae 'asio'r hen a'r newydd' yn un o bennaf nodweddion barddoniaeth Iwan, ac roedd y traddodiadol a'r cyfoes yn ddylanwadau cyfartal ar ei waith yn ogystal ag ar ei gymeriad. Fel y sylwyd yn y bennod gyntaf, gwelir hynny yn rhai o'i gerddi cynharaf, yn y prydestau a enillodd iddo gadeiriau'r Eisteddfod Ryng-golegol yn 1979 ac yn 1980. Defnyddiodd ynddynt ddau o destunau chwedloniaeth Gymraeg, chwedl Iarlles y Ffynnon, ac yna chwedl Branwen, yn fframwaith er mwyn trafod sefyllfa orthrymedig y Gymru gyfoes. A defnyddiodd ddyfyniad gan un o feirdd mawr Cymru, Waldo, yn sail i'w bryddest yn Eisteddfod yr Urdd 1980, a chyfeirio hefyd at chwedl Cantre'r Gwaelod er mwyn cyfleu sefyllfa Cymru wedi refferendwm 1979. A does ond rhaid edrych ar gerdd fel 'Aneirin', lle'r ymdebyga'r newyddiadurwr rhyfel modern i'r bardd o'r chweched ganrif,<sup>222</sup> neu 'Plant y chwedegau' lle ceir adlais o linell o waith Guto'r Glyn, 'rhyw flodau rhyfel ydynt', wrth sôn am effaith y cyffur thalidomide ar blant y genhedlaeth honno,<sup>223</sup> er mwyn gweld yr hen a'r newydd ochr yn ochr yn ei farddoniaeth aeddfetach. Roedd y cyfuniad hwn yn greiddiol i'w syniadau ynghylch barddoni yn y presennol cyfoes, ac yn rhywbeth a bregethai droeon yn ei ysgrifau:

---

<sup>221</sup> Iwan Llwyd, 'Dalen Lân', *Barddas*, 229-30 (Mai/Mehefin 1996), tt. 6-7.

<sup>222</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 22.

<sup>223</sup> *Ibid.*, t. 12.

Dan haul llachar y byd cyfoes, mae'n rhaid i'r diwylliant Cymraeg chwarae'r peiriannau pres ar brom Y Rhyl yn ogystal â gwarchod y llestri gorau.<sup>224</sup>

Nodwedd arall a berthyn i waith Iwan yw cyfuno diwylliannau mewn barddoniaeth, ac roedd plethu elfennau Cymreig wrth ddiwylliannau rhyngwladol yn rhywbeth a wnâi o bryd i'w gilydd yn ei gerddi. Cyfeiria Llion Jones yn ei bennod yn *Y Patrwm Amryliw* at rai o'r cerddi hyn, gan roi sylw i'r adlais o un o linellau Hedd Wyn yn y gerdd 'Alcatraz', a'r cyfeiriad at Riannon y Mabinogi ochr yn ochr â Rhiannon Fleetwood Mac yn 'Haight Ashbury'. Mae'n sôn hefyd am y gerdd 'Wrth wrando Bob Delyn ym maes awyr Manceinion', ac am 'Hiawatha', lle caiff Dafydd Iwan ei gymharu â chanwr mewn bar yn Nashville.<sup>225</sup> Efallai mai'r cerddi amlycaf gan Iwan sy'n cyfuno diwylliannau yw cerddi Coron 1990, 'Gwreichion', lle mae chwedloniaeth Aboriginaliaid Awstralia yn allwedd i'r dilyniant, er bod y cerddi'n gwbl Gymreig eu thema wrth iddynt ddilyn y deng mlynedd wedi refferendwm 1979.<sup>226</sup>

Roedd amrywiaeth y diwylliannau a ddylanwadai ar gerddi Iwan yn nodweddu ei gymeriad hefyd, ac enghraifft o hynny yw'r hyn a'i gyrodd i deithio i America, ac i Santa Fe yn benodol. Un ysgogiad oedd ei fod am ddilyn ôl troed ei arwr, T. H. Parry-Williams, a ysgrifennodd yn dlws o delynegol am Santa Fe ac am effaith yr enw hudolus arno. Yr ail reswm dros ymweld â'r ddinas oedd ei fod am brofi a oedd geiriau'r gân 'Albuquerque' gan Neil Young yn wir: 'Well, they say that Santa Fe is less than ninety miles away.'<sup>227</sup> Dyna ddangos yn nodweddiadol y pegynau cyferbyniol a oedd yn cael eu lle ganddo. Fel y dywed Llion Jones:

Mae lle i Ginsberg a Gwenallt, Bob Dylan a Bob Williams Parry, Tom Waits a Thomas Parry-Williams fel ei gilydd yn ei eglwys ef, a lle i Fangor Gwynedd a Bangor Maine ar ei fap.<sup>228</sup>

Wedi sôn am yr hud a oedd ynghlwm ag enw Santa Fe ym meddwl T. H. Parry-Williams, a chofio iddo ddweud yn 'Yng Ngwlff Mecsico' mai 'hud /enwau a phellter yw

---

<sup>224</sup> Iwan Llwyd, 'Cymryd siawns ar yfory', *Barddas*, 221-2 (Medi/Hydref 1995), t. 42.

<sup>225</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 54-5, 53, 13, 31.

<sup>226</sup> Ymdrinnir â'r cerddi hyn yn fwy trylwyr ym Mhennod 4.

<sup>227</sup> Iwan Llwyd, 'Pow Wow', *Barddas*, 274 (Medi/Hydref/Tachwedd 2003), t. 60.

<sup>228</sup> Llion Jones, 'Iwan Llwyd', *Y Patrwm Amryliw*, Cyfrol 2, gol. Robert Rhys (Cyhoeddiadau Barddas, 2006), t. 258.

“gweld y byd”<sup>229</sup> priodol yw cyfeirio’n ôl at gerdd Iwan i ‘Far Rockaway’. Yr un effaith a gafodd enw Far Rockaway ar Iwan ag a gafodd enw Santa Fe ar Parry-Williams, a rhyw ramant yn perthyn i’r lle yn syth wrth iddo gael ei swyno gan yr enw’n unig:

Dwi am fynd â thi i Far Rockaway,  
Far Rockaway,  
mae enw’r lle  
yn gitâr yn fy mhen, yn gôr  
o rythmau haf a llanw’r môr ...<sup>230</sup>

Sôn am daith T.H. Parry-Williams i America ac am effaith yr enwau anghyfarwydd arno y mae Iwan yn ‘Y Truan’, cerdd y mae ei theitl wedi ei fenthylg o’r gerdd ‘Yng Ngwlff Mecsico’:

Llanc o Arfon  
ddeng mlynedd a thrigain a mwy yn ôl,  
yn croesi’r lwerydd  
ar drywydd paradwys ffôl;

a’r enwau’n ei ben  
fel sêr môr y de,  
yn ei arwain yn hurtyn  
o le i le ...<sup>231</sup>

Mae cysylltu profiad â lle ac adeg arbennig yn un arall o nodweddion barddoniaeth Iwan, ac aiff mor bell a galw’r peth yn ‘un o hanfodion barddoni’ wrth i’r profiad o fod mewn man penodol ar adeg benodol ysgogi teimladau ac ymateb greddfôl.<sup>232</sup> Yn amlach na pheidio yn ei gyfrolau, gwelir iddo nodi’r flwyddyn a’r man lle’r ysgrifennodd y gerdd ar waelod y ddalen, a hynny’n hoelio’r gerdd yn sownd mewn gofod ac amser.

Nid enwau llefydd tramor yn unig a gyfareddodd Iwan, fodd bynnag. Gall enwau llefydd yng Nghymru hefyd gynnig rhaff i’r dychymyg ac ysgogi creadigrwydd, fel y dywedodd un tro wrth gyfeirio at enw ffermdy ger Chwiliog, Mur Clwt Lloer. Erbyn

---

<sup>229</sup> T. H. Parry-Williams, *Cerddi*, t. 27.

<sup>230</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 17.

<sup>231</sup> Iwan Llwyd, *Be ‘di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 118.

<sup>232</sup> Iwan Llwyd, ‘O le i le’, *Barddas*, 287 (Ebrill/Mai 2006), t. 26.

cyhoeddi'r gyfrol *Hanner Cant* yn 2007, gwelir fod yno gerdd i Fur Clwt Lloer sy'n dychmygu stori i'r ffermdy. Trwy roi bywyd newydd i hen enwau Cymreig, mae modd gweld eto gyfuniad o'r hen a'r cyfoes:

Mae hen hanes a diwylliant ein hardal ynghlo yn y geiriau a'r enwau ar dai ac afonydd, cymoedd a mynyddoedd. Drwy ddefnyddio'r cyfoeth sydd yn y geiriau a'r enwau mae modd edrych ar ein byd global, unffurf mewn modd newydd a gwahanol ...<sup>233</sup>

Enwau'r llefydd cyfarwydd sydd ganddo dan sylw yn 'Taith adre', a'u heffaith arno, yr enwau o gylch ei gynefin sy'n arwyddion solat ar y lôn yn dynodi ei fod yn nesáu at ei gartref. Maent yn enwau cysurlon ond hefyd yn enwau sy'n dal rhyw hiraeth poenus ar yr un pryd, ac mae'n llwyddo i roi mewn geiriau brofiad cyfarwydd anodd iawn ei ddiffinio:

... mae'r enwau fel bwledi o ddryll

yn agor clwyfau yn fy nghalon i  
ac eto'n llawn o esmwythâd y lli.<sup>234</sup>

Er bod nifer o gerddi Iwan wedi eu hangori mewn llefydd arbennig, nid darlunio tirwedd y manau hynny a wna fel rheol. Fel beirdd y llwyth a beirdd y tywysogion a'r uchelwyr gynt, bardd pobl a chymdeithas oedd Iwan. Credai mai'r 'farddoniaeth fwyaf cyffrous yw'r un sy'n rhoi pobol yn eu holl gymhlethdod yng nghanol y llun'.<sup>235</sup> Hyd yn oed pan â ati i ddisgrifio'r tirwedd, mae ôl diwydiant, ôl digwyddiadau ac ôl pobl i'w gweld ar y tir yn bur aml. Ac nid ar y tir yn unig y mae ôl pobl: mae'r un peth yn wir am y môr, fel y gwelir yn 'Ynyswyr' lle mae 'creithiau eu hin a'u hanes / ar groen hallt gwerin y môr'.<sup>236</sup> Yn yr ysgrif y dyfynnwyd ohoni uchod, mae Iwan yn nodi nad oes ganddo lawer i'w ddweud wrth ddelweddau artiffisial, addas ar gyfer cerdyn post, o Gymru. Gwell ganddo yw edrych ar y golygfeydd darluniaidd yn yr un modd ag y gwelodd T. H. Parry Williams nhw, ag olion blêr byw drostynt, ac mae 'Tirluniau', a ddaw o'r casgliad 'Cerddi Rhiwlas', yn cadarnhau'r safbwynt hwnnw ganddo:

<sup>233</sup> Iwan Llwyd, 'Man Arbennig', *Barddas*, 280 (Rhagfyr/Ionawr 2004-05), t. 38.

<sup>234</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 14.

<sup>235</sup> Iwan Llwyd, 'Tirlun barddoniaeth', *Barddas*, 217-18 (Mai/Mehefin 1995), t. 37.

<sup>236</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 35.

Mae gennym dirluniau  
o'r brwyn a'r bryniau  
yn dod allan o'n clustiau:

mor hoff gan ymwelwyr  
i gofio'r achlysur  
yw rhyw fyd sy'n ddi-fodur,

byd di-dractor, di-ffatri,  
dim ond y pîn yn gwmpeini  
ym mharlwr Cilgwri:

heb sylwi mai arad,  
a phobol yn siarad  
sy'n rhoi i gomin gymeriad.<sup>237</sup>

Mae lle i bobl o bob math ym marddoniaeth Iwan. Fel y dywed Llion Jones, 'dyn pobol ydy hwn ac nid dyn rhai pobol'.<sup>238</sup> Mae'n canu am y digartref yn 'Tai unnos', am 'Genod y "til"' mewn archfarchnad, ac am fachgen o'r enw Alwyn sy'n casglu'r trolïau mewn archfarchnad arall yn y gerdd 'Trolïau'; mae'n canu am ddau fachgen yn Ecwador yn 'Ll'nau sgidiau' ac am wraig tu ôl i'r bar mewn gwesty yn Crewe yn 'Tina Turner'.<sup>239</sup> Nid cyflawni swyddogaeth bardd gwlad traddodiadol a wna; nid bardd i farwnadu a dathlu priodasau a genedigaethau oedd Iwan, ond yn hytrach bardd a sylwebai ar y gymdeithas a'r bobl o'i gwmpas lle bynnag y byddai ar y pryd. Roedd sylwebu ar bobl gyffredin, a phobl difreintiedig yn eu mysg, yn nodwedd a berthyn i ddiwylliant y Beirdd Answyddogol, ac yn perthyn i'r ffasiwn drefol mewn llenyddiaeth a cherddoriaeth Americanaidd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Canodd Geraint Jarman am 'Merch Tŷ Cyngor' ar ei albwm *Hen Wlad Fy Nhadau* a ryddhawyd yn 1978.<sup>240</sup> Gwelir gan Steve Eaves yn ei gyfrol *Jazz yn y nos* gerddi am butain ym Mharis, am 'boi'r lori laeth', ac am 'genod Kwiksave / yn brasgamu adre'n gegog' yn y gerdd 'Noswyl Nadolig ym Maesgeirchen'.<sup>241</sup> Gwelir Lona Mari Walters yn myfyrio ar

---

<sup>237</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 19-20.

<sup>238</sup> Llion Jones, 'Wncwl Lyn a Ginsberg', *Iwan, ar Daith*, t. 53.

<sup>239</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 18, 169-70, 165-6, 114-15, 61.

<sup>240</sup> Geraint Jarman, *Hen Wlad Fy Nhadau* (Recordiau Sain, 1978).

<sup>241</sup> Steve Eaves, *Jazz yn y Nos* (Talybont, 1986), tt. 7, 10, 28-9.

fam ifanc 'nad oedd / eto'n ugain oed' yn teithio ar y bws;<sup>242</sup> Fryen ab Ogwen yn ysgrifennu 'Cerdd i Nyrs Nad Oedd Yn Hardd',<sup>243</sup> ac Alun Llwyd yn sylwi ar fachgen a'i gariad yn y 'jîns tynn a'r stiletos' yn gwthio pram yn 'Park Avenue, Wrecsam'.<sup>244</sup> Sylwodd Dafydd Morgan Lewis mewn adolygiad ar y duedd hon a oedd yn perthyn i gyfrolau answyddogol Steve Eaves a Martin Davis yn benodol:

... mewn cyfnod pan lethir ni gan farwnadau a cherddi moliant i ysgolheigion, llenorion a Chymry da, braf sylwi mai pobl gyffredin sy'n tanio awen y ddau fardd hyn.<sup>245</sup>

Nid sylwebydd ar gymdeithas Gymreig yn unig oedd Iwan; cafodd yr elfen gymdeithasol a fu'n greiddiol i'r traddodiad barddol Cymraeg ei chymhwyso a'i hymestyn ganddo i drafod diwylliannau eraill ac i gyfleu bywyd a'i holl brofiadau a'i gyfarfyddiadau fel ag y mae heddiw:

... mae unrhyw fardd gwerth ei halen yn ceisio cynnwys bywyd yn ei holl gymhlethdod yn ei gerddi neu ei cherddi. 'Does dim cyfyngiad ar yr hyn sy'n ein hysbrydoli, na'r hyn a gynhwysir yn ein cerddi – o'r archfarchnad fwya' materol i'r llecyn mwyaf arallfydol, o'r truan mwyaf dinod i'r dywysoges wychaf ...<sup>246</sup>

Dyna Iwan eto'n cydio yn hen swyddogaeth y bardd Cymraeg, ac yn ei diwygio a'i haddasu er mwyn ateb dibenion yr oes.

Wrth i Iwan adolygu ail gyfrol farddoniaeth T. James Jones, *Eiliadau o Berthyn*, soniodd eto am swyddogaeth draddodiadol y bardd Cymraeg ac am allu'r bardd i gyfleu teimpladau a phrofiadau ei gyd-Gymry:

Un o swyddogaethau traddodiadol y bardd yng Nghymru yw lleisio o dro i dro yn ein hanes fel pobol wae neu lawenydd y llwyth. Ac o Gatraeth i Gilmeri, o Ben-gwern i

---

<sup>242</sup> Lona Mari Walters, 'Y Fam', *Pum munud arall* (Talybont, 1983), tt. 20-1.

<sup>243</sup> Fryen ab Ogwen, *Dysgwr Dan Glo* (Talybont, 1986), t. 23.

<sup>244</sup> Alun Llwyd, *Blwyddyn a 'Chydig* (Talybont, 1991), tt. 26-8.

<sup>245</sup> Dafydd Morgan Lewis yn adolygu Cyfres y Beirdd Answyddogol 15-18, *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1987), t. 14.

<sup>246</sup> Iwan Llwyd, 'Barddoniaeth i Bawb', t. 61.

Benyberth, y beirdd a ddaeth agosaf at fynegi'r profiad torfol yw'r rhai a deimlodd i'r byw angerdd y digwyddiad eu hunain.<sup>247</sup>

Sôn y mae ar ddechrau ei adolygiad am y modd y llwyddodd T. James Jones a Jon Dressel yn y gyfrol *Cerddi lanws* i gofnodi'r iselder a oedd yn perthyn i'r cyfnod wedi canlyniad siomedig y refferendwm yn 1979. Drwy ei ing amrwd yn y cerddi, llwyddodd T. James Jones i fynegi nid yn unig ei siom a'i dristwch ei hun, ond rhoddodd lais i brofiad nifer o'i gyd-Gymry hefyd.<sup>248</sup> Cawsai Iwan, maes o law, ei gydnabod fel un arall o'r prif leisiau a fynegodd y profiad torfol hwnnw o wewyr refferendwm 1979, a hynny'n bennaf gyda'i gerddi buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol 1990. Fel y profodd Iwan, mae modd sylwebu ar unrhyw gymdeithas, o'r tu mewn neu o'r tu allan, ond er mwyn cyfleu teimladau dyfnaf y gymdeithas honno, mae'n anochel fod yn rhaid i'r sawl sy'n ysgrifennu berthyn i'r llwyth.

Elfen arall o'r traddodiad barddol Cymreig y cydiodd Iwan ynddi oedd yr elfen lafar, gyhoeddus. Roedd codi cerdd oddi ar y ddalen a'i pherfformio o flaen cynulleidfa yn rhan bwysig o'r ymgyrch i boblogeiddio barddoniaeth a chynyddu ei hapêl. Nid peth ar gyfer y stafell ddosbarth a'r ddarlithfa yn unig oedd barddoniaeth, a galwai Iwan ar feirdd i fynd a darllen eu gwaith cyn amlled â phosib mewn ysgolion a cholegau ac mewn nosweithiau adloniannol. Dywedodd, wrth i nifer o feirdd gael eu holi ar dudalennau *Barddas* ddiwedd 1999 am eu dyheadau ar gyfer y ganrif newydd, yr hoffai weld mwy o feirdd iau yn ymgymryd â theithiau barddol, er mwyn ei herio ef a Twm Morys a'u tebyg.<sup>249</sup> Byddai taith fel 'Cnoi Draenogod', a gynhaliwyd rhwng 2012 a 2013, a'r pedwar a fu'n teithio i gyd o dan eu deg ar hugain, yn sicr wedi bod wrth fodd Iwan, fel ag y byddai nosweithiau *Bragdy'r Beirdd* a gychwynwyd yn 2011 yng Nghaerdydd dan ofal Rhys Iorwerth, Osian Rhys a Catrin Dafydd. Ond er gwaethaf y pwyslais cynyddol ar gadw barddoniaeth yn beth ifanc a chyfoes, roedd gan Iwan le i'r to hŷn o feirdd hefyd, a'i obaith oedd gweld profiad ac aeddfedrwydd yn teilyngu Cadair a Choron yr Eisteddfod Genedlaethol:

---

<sup>247</sup> Iwan Llwyd, 'Perthyn i Gymru'n ei Gwae', *Barddas*, 180 (Ebrill 1992), t. 20.

<sup>248</sup> Am ymdriniaeth bellach â barddoniaeth sydd ynghlwm â refferendwm 1979, gweler Peredur I. Lynch, 'Refferendwm 1979, Cerddi lanws a Thopos "Y Cymry Taeog"', *Ysgrifau Beirniadol*, XXX, gol. Gerwyn Williams (Bethesda, 2011), tt. 78-109.

<sup>249</sup> 'Fy Nyhead am y Ganrif Newydd', *Barddas*, 255 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 1999-2000), t. 3.

Fy hun, fe hoffwn i weld bardd neu feirdd hŷn yn ennill y Gadair neu'r Goron – beirdd sydd wedi hen feistroli eu crefft, sy'n canu o dir uchel aeddfedrwydd a phrofiad [...] Byddai awdl neu bryddest o'r fath yn rhoi persbectif arall eto o'r Gymru sydd ohoni, ac yn gosod safon y medrai y beirdd iau ymgynraedd ati. Byddai yn waith gan Bencerdd go iawn. Ond y peryg ydi, dan bwysau byd lle nad yw henaint nac aeddfedrwydd yn 'secsi', y bydd y beirniaid a'r Eisteddfod, yn y dyfodol agos beth bynnag, yn dal i chwilio am ganeuon y bore glas, ac nid cerddi'r hwyr, i'w gwobrwyo.<sup>250</sup>

Bu Iwan ei hun ynghlwm â sawl taith farddol dros y blynyddoedd, gan gynnwys Fel yr Hed y Frân (1986), Cicio Ciwcymbars (1988), Bol a Chyfri Banc (1995), Ffwlmondi Barddol (1998), Syched am Sycharth (2000-2001), a Taith y Saith Sant (2002).<sup>251</sup> Roedd hefyd yn gydolygydd gyda Myrddin ap Dafydd ar gyfrol gyntaf y *Cywyddau Cyhoeddus*, cyfrol a gyhoeddwyd ar y cyd â'r nosweithiau a rannai'r un enw. Dyna ymdrech arall i godi cerddi oddi ar y ddalen a'u perfformio gerbron cynulleidfa fel yr arferai'r beirdd ei wneud yn y llysoedd gynt. Dywed Iwan a Myrddin ap Dafydd yn y cyflwyniad i'r gyfrol fod arddull lafar y cywyddau a geir ynddi yn clymu beirdd y gyfrol wrth hen linach y traddodiad barddol Cymreig:

Mewn un ffordd, mae yma ddychwelyd at y seiliau gan mai barddoniaeth lafar ydyw ac mae'n arwyddocaol bod amryw ohonynt yn darllen eu cerddi yn gyhoeddus yn gyson yn ogystal ag ymrysona. Dyma wreiddiau'r traddodiad cynganeddol ac mae'r gyfrol hon a chynnyrch llawer o'r beirdd hyn yn perthyn i gorff o ganu sy'n ymestyn yn ôl i niwloedd cynnar y Gymraeg. Mae'r idiom, y gystrawen, yr arddull yn canu clychau yn aml – yr un iaith farddonol sydd yma ag oedd gan gywyddwyr o'n blaenau.<sup>252</sup>

Roedd Iwan yn awyddus hefyd i weld barddoniaeth yn cael lle yn y cyfryngau, ac yn arbennig ar sgriniau'r teledu a'r cyfrifiadur gan gyfuno'r geiriau â lluniau a ffurfiau creadigol eraill. Rhaid oedd i farddoniaeth Gymraeg symud gyda'r dechnoleg ddiweddaraf. Yn ystod y 1990au, darlledwyd tair cyfres deledu a oedd yn dilyn Iwan o amgylch Cymru ac America, un ohonynt yn daith ar y cyd â Twm Morys i Dde America, lle'r oedd yn darllen ei gerddi gan

---

<sup>250</sup> Iwan Llwyd, 'Cysur Henaint', *Barddas*, 215 (Mawrth 1995), t. 15.

<sup>251</sup> Trafodir y teithiau barddol mewn mwy o fanylder ym Mhennod 5.

<sup>252</sup> Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus*, 1, t. 8.



ymateb i'r llefydd yr ymwelai â nhw.<sup>253</sup> Dywedodd yn ddiweddarach fod angen defnyddio'r we er mwyn hysbysebu nosweithiau a theithiau barddol, a bod angen rhoi lle i farddoniaeth ar y llwyfannau mwyaf dylanwadol.<sup>254</sup> Difyr yw nodi mai cerdd fer gan Iwan, 'Bore Sadwrn', oedd y gyntaf i ymddangos ar wefan Yr Annedd,<sup>255</sup> gwefan a sefydlwyd yn 1999 gan Llion Jones sy'n cyhoeddi barddoniaeth ac sy'n cynnig gwersi cynganeddu. Nid Iwan a anfonodd y gerdd o'i wirfodd chwaith, ac mae'n debyg mai Llion Jones a 'ofynnodd iddo am unrhyw gerdd newydd oedd ganddo i'w rhoi yn yr oriel er mwyn cael gosod y safon o'r cychwyn!'. Ychwanega Llion Jones nad oedd Iwan yn cyfrannu hanner cymaint ag oedd beirdd fel Twm Morys, Mei Mac ac Emyr Lewis at Yr Annedd, a phrin yw ei gyfraniadau i 'seiat' y wefan lle ceir trafodaethau difyr, a doniol weithiau, ar farddoniaeth Gymraeg dan ffugenwau.<sup>256</sup> Mae'n werth cofnodi, fodd bynnag, ddau gyfraniad gan Iwan i'r seiat; y cyntaf yn ymateb i gŵyn o gywydd gan rywun ynghylch pa mor dawel yr oedd y seiat wedi mynd. Cafodd y cwynwr ateb gan aelod arall yn ei gysuro, eto ar ffurf cywydd, ac yn dweud wrtho am beidio â phoeni gan y byddai'r seiat yn bywiogi drachefn, ac yna ychwanegodd Iwan ei bwt:

rhythm y bardd yw rhythm y byd,  
 yn chwalu a dychwelyd,  
 sigl a chraig a sigl a chrud,  
 cur ifanc, hen rocar hefyd ...<sup>257</sup>

Cyfrannodd hefyd at drafodaeth ar y ffaith nad oedd gofyn am awdl yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 2000:

Beth yw'r ots gennyf i am awdl,  
 damwain a hap yw fod neb yn ei dallt,  
 llawer gwell fyddai troi ar fy sawdl  
 a dilyn y bryddest i lawr yr allt:  
 a phwy fyddai'n straffaglio a'r [sic] mesur, dywedwch i mi,  
 pwy ond gwehilion o feirdd, peidiwch da chi  
 a son [sic] am englyn a chywydd a hir a thoddaid o hyd,  
 mae digon o fesurau heb y rhain yn bod yn y byd!<sup>258</sup>

<sup>253</sup> *Dan Ddylanwad* (Telegraffiti, 1994); *Dan Draed* (Telegraffiti, 1996); *Eldorado* (Teleg, 1999).

<sup>254</sup> Iwan Llwyd, 'Asiantaethau ac ati', *Barddas*, 245 (Mawrth/Ebrill 1998), tt. 28-9.

<sup>255</sup> <http://www.cynghanedd.com/oriel/boresadwrn.html> (Cyrchwyd: 12/02/16)

<sup>256</sup> Gohebiaeth rhyngof a Llion Jones (27/01/16).

<sup>257</sup> [http://llionj.tripod.com/\\_trafod2/0000009a.htm](http://llionj.tripod.com/_trafod2/0000009a.htm) (Cyrchwyd: 12/02/16).

Er mor brin ei gyfraniadau, mae'r ddwy enghraifft uchod yn ffraeth ac yn chwareus, ac er mai tynnu coes amlwg sydd yn y parodi o 'Hon', mae awgrym yno mai bardd y mesurau rhydd oedd Iwan yn bennaf.

Gwelir, wrth droi at unrhyw un o gyfrolau Iwan, ac eithrio *Be di blwyddyn rhwng ffrindia?*, fod cyfuno celfyddydau gwahanol yn rhan arall o'i weledigaeth fel bardd. Cydweithiodd â sawl artist a ffotograffydd er mwyn cyhoeddi cyfrolau deniadol a oedd yn priodi gair a llun, ac ef oedd y bardd cyntaf i'w gomisiynu i ymateb i arddangosfa celf a chreffft yr Eisteddfod Genedlaethol, a hynny yn Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau yn 1997. Cyhoeddwyd y pedair cerdd ar ddeg a ysgrifennodd ar gyfer yr arddangosfa yn y cylchgrawn *Taliesin* yn rhifyn gaeaf y flwyddyn honno. Y flwyddyn ganlynol, roedd Iwan yn un o'r artistiaid creadigol, ynghyd ag arlunwyr, ffotograffwyr a saer maen, a gymerodd ran mewn gweithdy yn y babell celf a chreffft yn Eisteddfod Bro Ogwr lle'r oedd gofyn i'r artistiaid ymateb i'r testun 'Iolo Morganwg' â chywaith creadigol.<sup>259</sup> Yn 2000, comisiynwyd ef gan y Llyfrgell Genedlaethol i ysgrifennu pedair cerdd ar ddeg yn ymateb i arddangosfa a oedd yn dathlu chwe chan mlwyddiant dechrau gwrthryfel Owain Glyndŵr.<sup>260</sup>

Un arall a rannai weledigaeth Iwan ynghylch pontio llun a llên ac a gyfrannodd luniau i gyfrol Iwan, *Dan Anesthetig*, oedd Iwan Bala, ac mae'n nodi yn ei gyflwyniad i'r gyfrol *Darllen Delweddau* yr holl gyfryngau creadigol y mae'n bosib eu cyfuno heddiw:

Mae ein hoes ni yn gweld bwrlwm newydd yn y celfyddydau gweledol, ac unwaith eto yng Nghymru, mae'n bosib gweld cydweithredu rhwng gwahanol feysydd creadigol. O gyfryngau ffilm a theledu a theatr, fideo a cherdd, crefft a thechnoleg, ac i'r cyfrwng mwyaf cyntefig, ond eto oesol, cyfrwng yr arlunydd a'r bardd.<sup>261</sup>

Yn 1998, aeth Iwan â'r syniad gam ymhellach gan awgrymu y dylid cyfuno meysydd creadigol ar faes yr Eisteddfod hefyd: 'mae isio roc yn y Babell Lên a llên yn y Babell Roc,'

---

<sup>258</sup> [http://llionj.tripod.com/\\_trafod2/00000047.htm](http://llionj.tripod.com/_trafod2/00000047.htm) (Cyrchwyd: 12/02/16).

<sup>259</sup> Iwan Llwyd, 'Croesi Pontydd', *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), tt. 42-3.

<sup>260</sup> Iwan Llwyd a Gillian Clarke, *Owain Glyndŵr: 1400-2000* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth, 2000).

<sup>261</sup> Iwan Bala, *Darllen Delweddau: Beirdd ac Artistiaid* (Llanrwst, 2000), t. 9.

meddai.<sup>262</sup> Nid peth newydd oedd cyfuno cerddoriaeth Gymraeg a barddoniaeth chwaith; roedd y cysylltiad yn bodoli eisoes gyda Twm Morys, Myrddin ap Dafydd, Ifor ap Glyn, Geraint Jarman, Steve Eaves ac Iwan ei hun, oll yn feirdd a ysgrifennai eiriau caneuon.

Gweledigaeth arall gan Iwan oedd fod barddoniaeth Gymraeg yn meithrin perthynas â barddoniaeth Saesneg, ac yn arbennig felly farddoniaeth Saesneg o Gymru. Roedd yn awyddus i weld y ddwy iaith a'r ddau ddiwylliant yn cyd-fyw ac yn porthi ar ei gilydd, ac roedd am i feirdd di-Gymraeg gyflwyno eu gwaith ar y cyd â'r beirdd Cymraeg er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd i'r ddwy garfan.<sup>263</sup> Trwy wneud hynny, byddai modd chwalu'r rhagfarnau a'r diffyg dealltwriaeth sydd gan y naill garfan ynghylch y llall, a chymathu bodolaeth y ddwy fel rhan o ddiwylliant Cymru. Cyfaddefodd Iwan yn un o'i ysgrifau ei fod 'weithiau yn teimlo yn nes at feirdd di-Gymraeg o Gymru o 'nghenedlaeth i nag at feirdd sy'n ymlynu wrth ddelweddau a mynegiant sy'n gwbl ddbynnol ar y "traddodiad barddol" Cymraeg'.<sup>264</sup> Yn ei astudiaeth o lôn Engl-Gymreig, *Imagining Wales*, dywed Jeremy Hooker fod bardd Cymraeg yn tueddu i ysgrifennu o fewn ffiniau ei draddodiad: 'traditionally the Welsh poet writes as a member of a historical community, not as an outsider'.<sup>265</sup> Yn hynny o beth, gallwn weld i Iwan fynd ati'n fwriadol i osgoi cael ei ddioli'n daclus i gategori'r bardd Cymraeg traddodiadol, yn arbennig felly yn ei gyfrol *Dan Ddylanwad* lle mae'r cerddi i America, i Ganada, ac i Gymru wedi eu hysgrifennu trwy lygaid un o'r tu allan. Dywed Robert Minhinnick beth tebyg yn ei ysgrif goffa i Iwan yn *Poetry Wales* wrth iddo gofio Iwan yn adrodd hanes T. H. Parry-Williams yn crwydro De America:

That exemplified for me the gap between Welsh and English language poets. The former are part of a tradition. They know their history and the context it provides. The rest of us aspire to a phoney world of readings and launches that permits endless self regard.<sup>266</sup>

Cyfuniad o'r ddau draddodiad a yrrai farddoniaeth Iwan. Efallai y gellid ystyried y modd yr ysgrifennai am y fan a'r lle ac am ddylanwadau ffasiynau ei genhedlaeth ei hun fel

---

<sup>262</sup> Iwan Llwyd, 'Croesi Pontydd', t. 43.

<sup>263</sup> Iwan Llwyd, 'Ymestyn y ffiniau', *Barddas*, 211 (Tachwedd 1994), tt. 18-19.

<sup>264</sup> Iwan Llwyd, 'Diwyllianau'n cyfathrebu', *Barddas*, 254 (Medi/Hydref 1999), t. 43.

<sup>265</sup> Jeremy Hooker, *Imagining Wales: A view of Modern Welsh Writing in English* (Cardiff, 2001), t. 28.

<sup>266</sup> Robert Minhinnick, 'Er Cof: Iwan Llwyd', t. 4.

nodweddion a berthyn i'r beirdd di-Gymraeg. Ond nid yw'r traddodiad Cymreig byth ymhell o dan wyneb y byd unffurf Eingl-Americanaidd, er na olyga hynny y câi ei gyfyngu gan ffiniau'r traddodiad hwnnw. Dyna'r rhan ohono sy'n perthyn i'r bardd Cymraeg na all anwybyddu ei dreftadaeth fel Cymro; fel y dywed yn 'Caeth', mae'n gaeth 'i genedl enwau, i gystrawen, i'r gair, / i reolau'r gynghanedd, i Wynedd, i wair'.<sup>267</sup> Ond er iddo gydnabod yr ymlyniad anochel hwnnw, mae blas gwrthryfel yn halltu'r elfennau traddodiadol yn amlach na pheidio.

Yn wahanol i'w gyfaill, Twm Morys, doedd gan Iwan ddim gwrthwynebiad i'w gerddi gael eu cyfieithu. Yn wir, cyhoeddwyd yn 1997 lyfryn *Far Rockaway*, llyfryn o gyfieithiadau Saesneg ochr yn ochr â'r cerddi gwreiddiol at ddiben rhyw daith neu'i gilydd mae'n debyg. Geraint Lovgreen, Twm Morys ac Iwan ei hun oedd yn gyfrifol am y cyfieithiadau.<sup>268</sup> Cyhoeddwyd llyfryn tebyg yn 2000 dan y teitl *Eldorado* sy'n cynnwys cyfieithiadau Geraint Lovgreen ochr yn ochr â cherddi Iwan, nifer ohonynt yn gerddi o *Dan Ddylanwad*.<sup>269</sup> Cafodd ei gerddi eu cyfieithu gan Grahame Davies, Richard Poole a Robert Minhinnick hefyd, ac ymddangosodd ei waith yn Saesneg mewn cyfrolau fel *Say That Again*,<sup>270</sup> *Oxygen: Beirdd Newydd o Gymru*,<sup>271</sup> *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20th-century Welsh-language poetry in translation*<sup>272</sup> a *The Adulterer's Tongue*.<sup>273</sup> Cynhwyswyd rhai o gerddi Iwan wedi eu cyfieithu i'r Eidaleg yn *I Nuovi Bardi : poesia gallese contemporanea* (Y Beirdd Newydd: Barddoniaeth Gymraeg Ddiweddar) a olygwyd gan Sioned Puw Rowlands,<sup>274</sup> a chyhoeddwyd cyfrol o'i farddoniaeth mewn Eidaleg yn ddiweddarach yn 2003, *Da Bangor a Bangor*.<sup>275</sup> Gwelai fod cyfieithu barddoniaeth yn ffordd o symud y Gymraeg yn ei blaen, ac yn fodd o ennyn creadigrwydd o fath gwahanol; 'mae unrhyw gyfieithiad yn waith creadigol

---

<sup>267</sup> Y Bechgyn Drwg, *Blŵz*, t. 2.

<sup>268</sup> Iwan Llwyd, *Far Rockaway* (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 1997).

<sup>269</sup> Iwan Llwyd, *Eldorado* (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 2000).

<sup>270</sup> Mairwen Jones a John Spink (gol.), *Say That Again* (Llandysul, 1997).

<sup>271</sup> Amy Wack a Grahame Davies (gol.), *Oxygen: Beirdd Newydd o Gymru/New Poets from Wales* (Bridgend, 2000).

<sup>272</sup> Menna Elfyn a John Rowlands (gol.), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20<sup>th</sup>-century Welsh-language poetry in translation* (Tarsset, 2003).

<sup>273</sup> Robert Minhinnick (gol.), *The Adulterer's Tongue: Six Welsh Poets: A Facing-Text Anthology* (Manchester, 2003).

<sup>274</sup> Sioned Puw Rowlands (gol.), *I Nuovi Bardi: poesia gallese contemporanea* (Faenza, 1999).

<sup>275</sup> Iwan Llwyd, *Da Bangor a Bangor* (Faenza, 2003).

ynddo ei hun,' meddai, a chredai fod gwerth mewn rhannu'r Gymraeg a lledaenu ei gorwelion:

Mae gennym, yng ngeiriau Steve Eaves, 'rywbeth gwych ofnadwy', ac mae'n bwysig ein bod ni'n gwarchod y peth gwych hwnnw, ac yn y ffordd orau bosibl yn ei rannu â gweddill y byd, a hefyd yn sicrhau nad yw'r peth gwych hwnnw yn ffosileiddio oherwydd nad yw'n agored i ddylanwadau newydd a gwahanol. Dyma'r ffin – y weithred o gyfieithu yw'r weithred o groesi'r ffin, neu o gyfarfod ar y ffin, fel Pwyll ac Arawn, brenin Annwn. Unwaith mae'r cyfarfyddiad yn digwydd mae unrhyw beth yn bosib.<sup>276</sup>

Yn ei gyflwyniad i *The Adulterer's Tongue*, noda Robert Minhinnick fod brwydr yn wynebu unrhyw lenor sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg:

... acknowledging the pressures on a minority language from globalised English culture, the Welsh language writer might seem embattled.<sup>277</sup>

Disgrifiodd Bobi Jones yntau'r her wrth ysgrifennu yn Gymraeg, a'r elfen wleidyddol sy'n perthyn i'r weithred o ysgrifennu mewn iaith leiafrifol: 'To be a Welsh-speaker therefore is to be thrust immediately into battle. To write the language is to bleed'.<sup>278</sup>

Hen berthynas yw honno rhwng gwleidyddiaeth a llenyddiaeth Gymraeg, perthynas yr oedd Iwan yn awyddus i'w gweld yn parhau. Fel yr oedd y beirdd yn cefnogi Glyndŵr yn ystod ei wrthryfel, neu fel yr ymatebodd llenyddiaeth Gymraeg, i raddau dadleuol, i'r ddau ryfel byd, i garcharu Saunders Lewis ac i foddï Tryweryn, cyfrannodd Iwan yntau'n sylweddol at ganon y canu gwleidyddol Cymraeg. Bu'n ymateb i refferendwm 1979, yn trafod sefyllfa fregus Cymru wrth iddi rannu ffin â grym dylanwadol Lloegr; rhoddodd sylw i'r iaith ac i Thatcheriaeth a sefyllfa economaidd y 1980au. Gwelai fod lleisio dyheadau pobl a chofnodi digwyddiadau gwleidyddol yn rhan o ddyletswydd beirdd a llenorion pob cyfnod, a chredai fod modd i lenyddiaeth ddylanwadu ac ysgogi newid:

---

<sup>276</sup> Iwan Llwyd, 'Mudandod ofnus', *Taliesin*, 131 (Haf 2007), t. 13.

<sup>277</sup> Robert Minhinnick (gol.), *The Adulterer's Tongue: Six Welsh Poets: A Facing-Text Anthology*, t. ix.

<sup>278</sup> R. M. Jones, 'The Present Situation', *A Guide to Welsh Literature: c.1900-1996*, gol. Dafydd Johnston (Cardiff, 1998), t. 276.

Bu'r berthynas rhwng llenyddiaeth a gwleidyddiaeth yn un ddeinamig yng Nghymru'r ganrif hon. Os na wna y genhedlaeth nesaf o sgrifenyddyr sylweddoli'r wefr a ddaw o haerneisio grym y gair i hyrwyddo newid, yna mae rhywun yn pryderu ynglŷn â dyfodol barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg fel cyfrwng cyffrous a dylanwadol.<sup>279</sup>

Ynghlwm ag ymateb i wleidyddiaeth, roedd ysgrifennu am ryfel yn beth pwysig hefyd yng ngolwg Iwan. Dywedodd, wrth drafod ei gerdd 'Aneirin', mai 'rhan o gyfrifoldeb beirdd a newyddiadurwyr ar hyd yr oesau ydi cofnodi hanes a helynt pobol, a milwyr cyffredin. Gobeithio ein bod yn dal i wneud hynny'.<sup>280</sup> Er nad ysgrifennodd Iwan ryw lawer o gerddi yn cofnodi helyntion pobl benodol, mae ganddo lond dwrn o gerddi sy'n trafod rhyfel. Y Rhyfel Mawr a'r gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon oedd y ddau achos a oedd yn ennyn ei sylw fynychaf mewn cerddi fel 'Tommy Reilly',<sup>281</sup> 'Cofio'r Somme 1916'<sup>282</sup> a 'Noswyl Gorffennaf yn Ffrainc'.<sup>283</sup> Ond wrth iddo sôn am ei daith i Wlad Pwyl ac am ei ymweliad ef a Mei Mac ag un o wersylloedd difa yr Ail Ryfel Byd, sylweddolodd ei bod yn '[rh]an o gyfrifoldeb bardd a sgwennwr i ddatgelu'r corneli tywyll hyn, o'r gorffennol ac yn ein hoes ni'.<sup>284</sup>

Roedd Iwan am weld barddoniaeth yn cael ei defnyddio er mwyn cynnal ac ysbrydoli'r dychymyg Cymreig, ac roedd ar y blaen gyda'i syniadau ynghylch sut y gellid rhoi lle canolog i farddoniaeth yng Nghymru. Yn 1998, awgrymodd y byddai'n gwneud lles i dîm rygbi Cymru benodi bardd er mwyn tanio dychymyg y chwaraewyr cyn gêm, rhywbeth a wireddwyd yn 2011 pan benodwyd Owen Sheers yn artist preswyl cyntaf Undeb Rygbi Cymru er mwyn ffurfioli'r berthynas rhwng chwaraeon a'r celfyddydau. Yn yr un ysgrif, â chynulliad datganoledig i Gymru ar ei ffordd, awgrymodd hefyd y dylid penodi beirdd yn ymgynghorwyr i wleidyddion y Cynulliad er mwyn 'sicrhau bod gweithgareddau a phenderfyniadau ein Senedd ifanc hefyd yn llawn dychymyg a dyfeisgarwch. A bod cynghanedd yn teyrnasu – yn yr ystyr ehangaf wrth gwrs'.<sup>285</sup> Trawodd Peter Finch ar yr un

---

<sup>279</sup> Iwan Llwyd, 'Telynegu Gwleidyddiaeth', *Barddas*, 214 (Chwefror 1995), t. 4.

<sup>280</sup> 'Iwan Llwyd', *Mae'n gêm o ddau fileniwm*, gol. Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd, t. 110.

<sup>281</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 23.

<sup>282</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 55.

<sup>283</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 86-7.

<sup>284</sup> Iwan Llwyd, 'Y Teithiwr Talog', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 35 (Medi/Hydref 2005), t. 5.

<sup>285</sup> Iwan Llwyd, 'Barddoniaeth i Bawb', t. 62.

syniad flwyddyn yn ddiweddarach, lle dywed fod yr Academi Gymreig yn awyddus i benodi dau fardd, un Cymraeg ac un Saesneg, er mwyn cofnodi gweithgareddau'r Cynulliad:

The poets will also be there to inspire and inform the Assembly's work and the Assembly itself. This is perhaps the hardest part of their duties for us to understand but artists and especially poets have a sensitivity to national consciousness and an ability to reach the heart of things that others often lack.<sup>286</sup>

Er na chynghorodd Iwan aelodau'r Cynulliad yn uniongyrchol yn ei gerddi, fe aeth ati i gyflawni hen rôl y bardd o gynghori yn ei gerdd 'Llys Rhys Gryg yn y Dryslwyn'. Cynghori Rhodri Williams, cadeirydd Bwrdd yr Iaith ar y pryd, oedd diben y gerdd, gan ei annog i warchod yr hyn sydd gan Gymru a'i atgoffa fod 'gwyrth yn ein gofal'.<sup>287</sup> Dweud oedd Iwan fod angen i rai fel Rhodri Williams, rhai a chanddynt swyddi sefydliadol, sicrhau adfer ein treftadaeth.

Fel y bloeddiodd Ifor ap Glyn, 'BARDDONIAETH AT IWS GWLAD'<sup>288</sup> oedd ei hangen yng Nghymru ddiwedd yr ugeinfed ganrif, a dyna oedd nod holl weledigaethau Iwan hefyd, a honno'n wlad ddwyieithog a frwydrai'n gyson yn erbyn y llif Prydeinig. Rhaid oedd cynnal y diddordeb a'r chwilfrydedd ynghylch barddoniaeth ym meddwl y genedl cyn medru ei defnyddio fel cyfrwng dylanwadol, cyfrwng newyddiadurol a chymdeithasol, a chyfrwng Cymreig cyfoes. Rhaid oedd i fardd ennill statws o fewn cymdeithas, a chanu weithiau o ganol y gymdeithas honno a thro arall ar y cyrion. 'Nid bod hynny'n baradocs o gwbl,' meddai Myrddin ap Dafydd, 'dyna fel oedd o, a dyna fel mae petha': mae'r du a'r gwyn yn cymysgu i greu llwyd'.<sup>289</sup>

---

<sup>286</sup> Peter Finch, 'A national poet for Wales', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 2 (Chwefror/Mawrth 1999), t. 2.

<sup>287</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant*, tt. 22-1. Trafodir y gerdd hon yn fanylach gan Guto Dafydd yn 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', tt. 64-6.

<sup>288</sup> Ifor ap Glyn, *Holl Garthion Pen Cymro Ynghyd* (Talybont, 1991), t. 3.

<sup>289</sup> Myrddin ap Dafydd yn sgwrsio ar y rhaglen deledu *Iwan Llwyd, rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul*.

### III

## 'Fe ddaeth rhai ohonom o le pell'

### Cerddi gwleidyddol: 1979–1997

Dywed Hywel Griffiths yn ei ragymadrodd golygyddol i'w ddetholiad o ganu gwleidyddol 1979-2013 y 'bu'r beirdd yn arsylwi, yn archwilio, yn cyfranogi ac yn byw brwydrau Cymru' dros y cyfnod dan sylw.<sup>290</sup> Mae'n ddadlennol mai Iwan, gyda phump o'i gerddi'n britho tudalennau'r gyfrol, yw'r bardd â'r nifer fwyaf o gerddi sy'n ymddangos ynddi. Â Hywel Griffiths yn ei flaen i gyfeirio at y genhedlaeth o feirdd a fu'n ymgymryd â nosweithiau mewn clybiau a thafarndai, beirdd fel Myrddin ap Dafydd, Twm Morys, Ifor ap Glyn, Meirion MacIntyre Hughes ac Iwan ei hun, a'u galw'n 'feirdd gwleidyddol'. Dyma, unwaith eto, feirdd y *Cywyddau Cyhoeddus*, ac fel y nododd Iwan a Myrddin ap Dafydd yn eu cyflwyniad i'r gyfrol gyntaf o dair, roedd gwleidyddiaeth yn destun cyson yng nghanu'r beirdd:

Does dim osgoi'r elfen wleidyddol yn y canu chwaith. Unwaith eto yn hanes Cymru a'r Gymraeg, mae'r beirdd – a'r beirdd caeth yn benodol – yn lleisio siom, dadrith ac ofn ond ar yr un pryd yn mynnu dal eu tir a herio hynny gyda gobaith ac ysbryd anorchfygol. Mae'r testun mor wleidyddol â thestun cywyddwyr oes Glyndŵr ac ar gerdd dafod – ac ar fesur y cywydd yn arbennig, efallai – cafwyd cyfuniad campus o destun, thema a dull o fynegi. Mae canu cywydd ynddo'i hunan yn weithred wleidyddol yn y Gymru hon, yn ddrych o'r dyhead bod rhaid clywed ddoe cyn siarad am yfory.<sup>291</sup>

Rhy hawdd fyddai labelu Iwan yn fardd gwleidyddol yn yr ystyr draddodiadol Gymreig, fodd bynnag, ac efallai mai gwneud cam ag o fyddai gwneud hynny. Nid bardd i gael ei gategoreiddio'n daclus mo hwn. Dyfynnodd eiriau Bob Dylan yn rhagnodyn i'r gerdd 'Best of a bad bunch' gan ddatgan, 'take this badge offa me'.<sup>292</sup> Ymwrthododd â chael ei gysylltu â'r stereoteip o Gymro Cymraeg: 'Na, wnes i ddim cynganeddu cyn brechwast. / Na, fedra' i ddim canu cerdd dant. / Na, dydw i ddim mewn côr meibion'. Ymwrthododd hefyd

---

<sup>290</sup> Hywel Griffiths (gol.), *Byw Brwydr: Detholiad o ganu gwleidyddol 1979-2013* (Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 9.

<sup>291</sup> Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus*, 1 (Llanrwst, 1994), t. 10.

<sup>292</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), t. 123.



ag unrhyw ystrydeb o unigolyn o fewn diwylliant lleiafrifol: 'Nid wyneb lleiafrifol mo hwn. / Fy wyneb i ydi o,' meddai.<sup>293</sup> A dywedodd yn 1990 wrth i gylchgrawn *Barddas* ei holi ynghylch ei statws fel un o feirdd answyddogol y Lolfa, ac yntau newydd ei goroni'n brifardd cenedlaethol, nad oedd ganddo 'ddim i'w ddweud wrth labeli'.<sup>294</sup> Roedd yn wrthwynebus i'r syniad o gategoreiddio destlus ar faes yr Eisteddfod hefyd gan alw am gyfuno gwahanol gelfyddydau'r Brifwyl. Ond hyd yn oed os osgoir cysylltu Iwan ag un thema neu bwnc arbennig, ni ellir gwadu fod gwleidyddiaeth yn un o'i brif gymhellion fel bardd a cholofnydd. Fe sylweba'n gyson ar wleidyddiaeth iaith, ar y llanw o fewnfudwyr a'u diwylliant Eingl-Americanaidd a ddaw i foddî'r cymunedau Cymraeg, ar Thatcheriaeth a sefyllfa economaidd Prydain yn ystod y 1980au, ac ar ddiwyddiadau gwleidyddol rhyngwladol maes o law.

Gellir olrhain datblygiad ei ymwybyddiaeth wleidyddol o gyfrol i gyfrol. Ac yntau wedi byw bywyd myfyriwr protestgar yn Aberystwyth, nid yw'n syndod fod blas gwrthryfel yn gryfach ar *Sonedau Bore Sadwrn* nag ydyw ar unrhyw un o'i gyfrolau eraill. Gydag aeddfedrwydd y daeth cynildeb ac amwysedd i'w farddoniaeth, a newidiodd ei safbwyntiau gwleidyddol o fod yn amlwg Gymreig i fod yn ehangach o lawer. Erbyn cyhoeddi *Dan Ddylanwad a Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, llwyddodd i gysylltu'r Gymraeg a'r Cymreig â diwylliannau mwy ac â diwylliannau nad ydynt wedi eu gorllewineiddio. Ynghlwm â'r ymwybyddiaeth o gyd-fyw â'r diwylliannau mawrion, gwelir yn y cyfrolau diweddarach ei ymwybyddiaeth o'r byd global, o ddiwylliant enfawr y prynu a'r gwerthu ac o'r gwastraff sy'n dod yn ei sgil. Er mai canolbwyntio'n bennaf ar y tair cyfrol gyntaf a gyhoeddodd Iwan a wneir yn y bennod hon, gwelwn, wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, y symud graddol oddi wrth wleidyddiaeth Gymreig, a all ymddangos yn unffurf braidd o fewn y traddodiad barddol, tuag at ymwybyddiaeth aeddfetach. Dyna'r ymwybyddiaeth wleidyddol sy'n gosod Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol yn hytrach na gosod sefyllfa'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig o fewn ffiniau Prydain.

Mae cyfraniad Iwan i'r canon o gerddi gwleidyddol a ysgrifennwyd yn ystod y tri degawd yn dilyn 1979 yn sylweddol, ac roedd ei awen yn aml yn cael ei gyrru gan sefyllfa wleidyddol Cymru a sefyllfa'r Gymraeg ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Yn ei dair cyfrol

---

<sup>293</sup> 'Iawn, gei di ofyn cwestiwn personol', *ibid.*, tt. 48-9.

<sup>294</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', *Barddas*, 161 (Medi 1990), t. 9.

gyntaf, fodd bynnag, y mae ei ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth Gymreig ar ei miniocaf, a bron na ellir tynnu llinell rhwng cerddi'r 1980au a'r cerddi a ddilynodd 'Gwreichion' yn 1990. Yr argraff a geir o ddilyn gyrfa farddol Iwan yw iddo benderfynu yn 1990 ei fod wedi rhoi'r sylw teilwng i Gymru'r 1980au ac wedi llwyddo i grisialu'r teimlad yng Nghymru yn ystod y degawd. Gyda Thatcher yn gadael 10 Stryd Downing ym mis Tachwedd y flwyddyn honno a thudalen lân degawd newydd yn agor, nid oedd diben dal i rygnu ymlaen ar yr un tant. Rhaid oedd symud ymlaen. Ond a dechrau yn y dechrau, a chymryd ei gyfnod yn Aberystwyth fel cychwyn ei yrfa farddol o ddifri, cerddi gwleidyddol oedd y cerddi a ddaeth ag Iwan i sylw fel bardd, a dwrn canlyniad refferendwm 1979 yn cleisio nifer ohonynt. Gwelir hynny'n bendant yn ei bryddestau a enillodd iddo gadeiriau eisteddfodol tra oedd yn fyfyrwr yn Aberystwyth, ond roedd ei genedlaetholdeb a'i ymwybyddiaeth o Gymru fel y wlad fechan nesaf at rym a dylanwad Lloegr eisoes wedi eu plannu tra oedd yn ddisgybl yn Ysgol Friars. Dyna pryd y cyneuwyd y tân yn ei fol, yn ôl tystiolaeth ei gerddi cynharaf, ac fel y gwelwyd yn y bennod gyntaf, dyna pryd y daeth yn ymwybodol fod y Saesneg yn llyncu'r Gymraeg yn ei ardal ei hun. Dal iselder a dadrithiad y cyfnod a ddilynodd y bleidlais a wna'r rhan helaeth o gerddi ei gyfrol gyntaf, *Sonedau Bore Sadwrn*, hefyd, a gyhoeddwyd yn 1983, ac ymestynnodd y llinyn thematig hwnnw ar draws y 1980au yn ei farddoniaeth. Rhaid oedd wynebu methiant hen ddiffiniadau a gwerthoedd y gorffennol, a chwilio am fynegiant newydd. Rhaid hefyd oedd defnyddio'r holl dyndra a'r dicter a deimlwyd yn ei sgil i borthi creadigrwydd.

Daeth cerddi 'Gwreichion', casgliad buddugol y Goron yn 1990, yn benllanw ar fynegiant Iwan o'r chwerwedd a'r siom a deimlodd ei genhedlaeth yn ystod y 1980au. Gyda chanlyniad y refferendwm, chwalwyd sicrwydd yr hen ffordd Gymreig gysurus a berthynai'n draddodiadol i'r capel ac i gefn gwlad, a rhaid oedd ailddiffinio hunaniaeth Gymreig o'r newydd. Roedd datblygiad diweddar eisoes wedi bod yng nghymunedau cefn gwlad Cymru ers cyfnod rhamantaidd dechrau'r ugeinfed ganrif. Daeth Cymdeithas yr Iaith i hawlio teyrngarwch gwladwyr cenedlaetholgar ifanc yn 1963, daeth Merched y Wawr yn 1967 i gymryd lle'r Women's Institute, sefydlwyd mudiad Adfer yn 1973, y Gymdeithas Gerdd Dafod yn 1976, a rhoddwyd lle sefydlog a pharhaol i'r Gymraeg ar donfeddi'r radio yn 1977 gyda sefydlu gorsaf Radio Cymru. Ond hyd yn oed gyda datblygiadau'r 1960au a'r 1970au, cadarnhaodd canlyniad y refferendwm nad oedd y diwygiadau hynny'n darparu diffiniad

digonol o Gymreictod ar ddiwedd y 1970au. Priodol yma yw cofio am rigwm a ysgrifennodd Iwan ar gyfer un o ornestau Talwrn y Beirdd ar ddechrau'r 1990au lle mae'n dychanu'r bardd gwlad:

Mae ganddo radd prifysgol, prifysgol hyna'r byd,  
bu'n eistedd efo'r sgwarnog a'r cudyll ers cyhyd;  
fe wŷr dreigladau'r tywydd a holl guriadau'r glaw,  
daeth iddo lyfr y cread yn ddail o law i law;  
mae'n plethu ei gynghanedd yn wrych o boptu'r lôn  
a'r brain sy'n sgwennu'i alaw yn flêr ar wifrau'r ffôn,  
a gyda'r nos mae'n gorwedd a'r lleuad yn ei drem –  
pam felly fod ei gerddi mor uffernol o ddi-glem?<sup>295</sup>

Os oedd llenyddiaeth am fyd amaeth a chrefydd yn lled-amherthnasol cyn 1979 a'r genhedlaeth ifanc yn barod wedi dechrau troi ei golygon tua'r ddinas, gellid dadlau bod llenyddiaeth felly wedi 1979 yn gynnwys cwbl ddiystyr ac yn hunan-dwyll dybryd ar yr un pryd yng ngolwg y to iau. Gwêl Wiliam Owen Roberts y ddelfryd haniaethol o fywyd Cymreig 'traddodiadol' fel myth, myth a gynhaliwyd i raddau gan hoelion wyth *Barddas*, yr union gymdeithas a gynigodd rywbeth newydd a blaengar wrth ei sefydlu yn y lle cyntaf. Galwodd y geidwadaeth hen ffasiwn hon a chelwydd ei chysur yn 'Fyth Cenedlaetholdeb Cristnogol Gwledig',<sup>296</sup> a dyma'r myth a ddrylliwyd gyda'r bleidlais 'na' drom ar ddydd Gŵyl Dewi 1979. Yn dilyn y bleidlais, cydiodd rhai yn y myth yn dynnach nag erioed mewn ymgais i feddu ar ryw lun o hunaniaeth y gorffennol, eu pennau yn nhywod meddal y Gymdeithas Gerdd Dafod, neu yn nhraddodiad y bardd gwlad traddodiadol. Er y gellid dadlau i Gymru gael ei threfedigaethu er 1282, os cymerwn bleidlais 1979 fel y cadarnhad eithaf o'i safle orthrymedig, nid peth anarferol yw i lenorion y wlad ymwrthod ag wynebu'r cyfnod cyfoes. Eglura Peter Barry y meddylfryd ôl-drefedigaethol fel hyn:

Characteristically, postcolonial writers evoke or create a precolonial version of their own nation, rejecting the modern and the contemporary, which is tainted with the colonial status of their countries.<sup>297</sup>

---

<sup>295</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd 7* (Caernarfon, 1994), t. 125.

<sup>296</sup> Wiliam Owen Roberts, "'Gwreichion' Iwan Llwyd", *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 33.

<sup>297</sup> Peter Barry, *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory*, Trydydd argraffiad (Manchester, 2009), t. 187.

Ymdrochodd eraill mewn diwylliant Cymraeg a Chymreig o fath gwahanol, 'diwylliant ansylweddol y trais a'r sŵn' neu'r 'is-ddiwylliant' fel y galwodd golygyddion *Barn* ef yn ddilornus ddigon.<sup>298</sup> Ymgnawdolodd y diwylliant cyfoes, amgen hwn ar ffurf Cyfres Beirdd Answyddogol Y Lolfa, artistiaid roc a phop Cymraeg a nosweithiau o adloniant i'r to iau, fel nosweithiau Twrw Tanllyd yn yr Eisteddfod. Cyhoeddwyd *Trên y Chwyldro* Robot Gruffudd, y gyntaf yn y gyfres Answyddogol yn 1976,<sup>299</sup> a chafodd ei dilyn gan gyfrolau amrywiol eu safon, eu tafodieithoedd a'u beiddgarwch. Daeth Edward H. Dafis, Geraint Jarman, Meic Stevens, Bando, Jîp a'r Trwynau Coch i daranu o lwyfan Twrw Tanllyd Eisteddfod Dyffryn Lliw yn 1980, ac roedd Cymdeithas yr Iaith hefyd yn weithgar yn trefnu gigs yn Mhafiliwn Corwen ac ym Mhontrhydfendigaid. Roedd unrhyw ddiwylliant nad oedd yn cyd-fynd â delwedd barchus y dosbarth canol Cymraeg yn 'is-ddiwylliant' yng ngolwg y Cymry hŷn a thraddodiadol. Er mor wahanol oedd gweledigaethau a diffiniadau'r ddwy garfan o'r hyn a ystyrid ganddynt yn ddiwylliant, yn y pen draw ymbalfalu am hunaniaeth Gymreig trwy ddiwylliant Cymraeg oedd bwriad y ddwy. Diffyg parodrwydd selogion *Barddas* a *Barn* i gyfaddawdu a chydabod gwerth y diwylliant newydd a barodd i'r rhwyg ledu rhwng y genhedlaeth hŷn a'r to iau. Ond heb y gwrthdaro hwn a roddodd reswm i'r lleisiau newydd wrthryfela, mae'n bur debyg na fyddai'r datblygiad ym myd barddoniaeth Gymraeg a'r datblygiad yng ngallu'r Gymraeg i ddarlunio'r byd yn ei holl gymhlethdod cosmopolitan wedi bod mor ddramatig o'r hanner. Gwthio'r beirdd ieuainc i herio ymhellach a wnaeth colofnau ymhonnus a fynegai safbwyntiau o awdurdod honedig, yn hytrach na ffrwyno'r lleisiau newydd.<sup>300</sup> Un a gododd ei lais ar ran y to ifanc oedd Gerwyn Williams, a oedd yn dal yn fyfyrwr yn Aberystwyth ar y pryd. Cwynodd ar dudalennau *Y Faner* yn 1984 mai 'tuedd yr unbenaethol Alan Llwyd yw taflu cerrig at feirdd nad ydynt o'r un safbwynt

---

<sup>298</sup> 'Golygyddol', *Barn*, 201 (Hydref 1979), t. 153.

<sup>299</sup> Robot Gruffudd, *Trên y Chwyldro* (Talybont, 1976).

<sup>300</sup> Cyfeirir yma at erthygl Alan Llwyd, 'Y Safonau Simsan' yn *Y Faner* (23 Ebrill 1982), tt. 12-13, lle dywed, wrth iddo anghytuno â beirniadaeth Robert Rhys, 'mai'r hyn sydd ei wir angen ar y byd llenyddol yng Nghymru heddiw yw beirniadaeth lenyddol gyfrifol, ddibynadwy o diragfarn [*sic*]' . Aiff yn ei flaen i roi ei feirniadaeth ei hun ar y cyfrolau Answyddogol a adolygodd Robert Rhys, ac i amddiffyn ei gyfrol farddoniaeth ei hun a gafodd ei beirniadu yn yr un adolygiad. Gellir hefyd grybwyll ysgrif olygyddol Alan Llwyd yn *Barddas*, 89 (Medi 1984), tt. 4-5, lle awgryma fod angen addysgu'r genhedlaeth newydd ynghylch 'Beth yw Llenyddiaeth?' wrth iddo nodi fod 'hyder digywilydd ac ehofndra'r genhedlaeth newydd hon yn llawer amlycach na'i gallu'.

llynyddol ag ef ei hun. Anelir y taflegrau o wersyll saff *Barddas* a thargedau cyson yw Beirdd Answyddogol y Lolfa'.<sup>301</sup>

Annheg, fodd bynnag, yw cyffredinoli a labelu'r ceidwadwyr traddodiadol i gyd fel aelodau'r to hŷn. Er mai beirdd ac academyddion profiadol wedi hen ennill eu plwy oedd yn gyfrifol am y feirniadaeth lem ar y gyfres Answyddogol ac ar ddiwylliant ifanc y canu roc Cymraeg, lleisio ei gefnogaeth i'r mynegiant cyfoes a wnaeth John Rowlands. Y beirdd hynny a wrthodai ymddatod oddi wrth y myth oedd dan ei lach ef yn ei erthygl 'Ein Duwiol Brydyddion' yn 1985,<sup>302</sup> ac ef a anogodd Wiliam Owen Roberts ac Iwan i gyhoeddi eu barn ynghylch methiant llynyddiaeth Gymraeg yn eu herthyglau yn *Llais Llyfrau* ac yn *Y Faner* ddechrau'r 1980au.<sup>303</sup> Pwniad i'r un cyfeiriad oedd gan Iwan mewn darn byr yn *Y Faner* yn 1984:

Tuedd nodweddiadol mewn dosbarth neu gymdeithas mewn argyfwng yw ceisio cysur yn y 'traddodiad' – nad yw gan amlaf ond creadigaeth yr un dosbarth neu gymdeithas. Wrth geisio gwarchod ein treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru, mae peryg mygu unrhyw ddatblygiad a rydd iddi ddyfodol.<sup>304</sup>

Roedd y myth y cyfeiria Wiliam Owen Roberts ato eisoes wedi dechrau colli tir ymysg y genhedlaeth ifanc cyn mis Mawrth 1979. Roedd Edward H. Dafis yn barod wedi holi yn 1974 a oedd Mistar Duw yn fyw o hyd, a Geraint Jarman wedi bod yn canu'n ddinesig yn 1978 am Gymru fel 'Ethiopia Newydd' gan fynnu mai 'rocars a'r gwalltiau cyrliog yw dyfodol Gwalia nawr'. Cyhoeddodd Siôn Eirian ei gyfrol farddoniaeth *Plant Gadara* yn 1975, lle mae'n uniaethu ei genhedlaeth â 'Plant Gadara, – fe'n ganwyd i gul-de-sac' lle mae'r 'offeiriad yn padera'n y gwyll'.<sup>305</sup> Dyna nodi yn blaen amherthnasedd crefydd, a choncrit yn hytrach na phridd sy'n nodweddu *cul-de-sac*. A Siôn Eirian, fel Iwan, yn fab y mans, gwna ddefnydd eironig o gyfeiriadaeth Feiblaidd wrth gyfeirio at ardal Gadara yn nheitl ei gyfrol (gweler Marc 5:1). Dyma'r fan y daeth Iesu ar draws gŵr wedi ei feddiannu gan ysbryd aflan.

<sup>301</sup> Gerwyn Williams, 'Pwysigrwydd y Tir Canol', *Y Faner* (13 Gorffennaf 1984), t. 8.

<sup>302</sup> John Rowlands, 'Ein Duwiol Brydyddion', *Weiren Bigog*, 1 (Awst 1985), tt. 13-15.

<sup>303</sup> Iwan Llwyd Williams a Wiliam Owen Roberts, 'Myth y Traddodiad Dethol', *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), tt. 10-11; a Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), tt. 6-7.

<sup>304</sup> Iwan Llwyd, 'Ceidwadaeth Ystyfnig ein Beirdd "Cyfoes"', *Y Faner* (8 Mehefin 1984), t. 2.

<sup>305</sup> Siôn Eirian, *Plant Gadara* (Llandysul, 1975), t. 8.

Ceir deuoliaeth arwyddocaol yn nheitol y gyfrol; gellir ystyried 'Plant Gadara' fel cenhedlaeth a etifeddodd rywbeth negyddol, 'etifeddion ysbryd aflan ein tras,' fel y dywed Siôn Eirian.<sup>306</sup> Ac efallai mai'r myth celwyddog a gynhaliwyd mor hir gan y Cymry oedd yr etifeddiaeth negyddol a rhwystredig honno. Tra oedd gweddill Ewrop wedi hen droi eu golygon tua Moderniaeth a hyd yn oed Ôl-foderniaeth, roedd Cymru yn dal i geisio ysgwyd llwch Rhamantiaeth cefn gwlad oddi ar ei hysgwyddau i raddau. Ar y llaw arall, gellir hefyd, wrth gwrs, ddarllen teitl y gyfrol fel label ar genhedlaeth newydd nad yw'n barod i gydymffurfio â thraddodiadau na meddylfryd y gorffennol. Plant i gicio a strancio ac nid plant i ufuddhau yw plant Gadara. Aeth Siôn Eirian yn ei flaen i ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978 gyda dilyniant o gerddi a ddarlunia rwystredigaeth bywyd yng Nghymru yn y 1970au. Dyma ddilyniant a oedd yn drobwynt yn hanes cerddi buddugol yr Eisteddfod, ac a oedd yn garreg filltir yn hanes llenyddiaeth Gymraeg wrth i sefydliad fel yr Eisteddfod gydnabod y datblygiad ym myd barddoniaeth Gymraeg. Yn wir, cydnabu Iwan hefyd ei ddyled i gerddi arobryn Siôn Eirian, a'u henwi, ynghyd â *Cerddi Ianws* T. James Jones, fel dylanwad a barodd iddo ddal ati i ysgrifennu.<sup>307</sup>

Roedd llwyfan y mynegiant newydd wedi ei osod, felly, a'r cyfan a wnaeth tolc Gŵyl Dewi 1979 oedd cadarnhau nad oedd troi'n ôl i fod. Yn y cyd-destun cymdeithasol a llenyddol hwnnw y prifiodd Iwan fel bardd. Cyhoeddodd ei ddwy gyfrol gyntaf o farddoniaeth yn ystod y 1980au yng nghanol degawd y dadrith a'r ailddiffinio, a degawd o lywodraeth Geidwadol Thatcher a'i Thorïaeth radical. Mae'r gefnlen gymdeithasol honno yn ganolog i *Sonedau Bore Sadwrn* ac i *Dan Anesthetig* ac yn amlwg hefyd yn ei drydedd gyfrol, *Dan Fy Ngwynt*, a gyhoeddwyd yn 1992 ond sy'n cynnwys nifer helaeth o gerddi a ysgrifennwyd yn y 1980au. Yn y cyflwyniad i *Sonedau Bore Sadwrn*, dywed Wiliam Owen Roberts mai 'cynnyrch cymdeithasol yw barddoniaeth (o safbwynt ei ffurf, ei arddull a'i gynnwys), ni ellir anwybyddu'r berthynas rhwng y cynnyrch a'i swyddogaeth gymdeithasol mewn gwahanol epocau hanesyddol'.<sup>308</sup> Rhywbeth tebyg oedd gan Dafydd Elis-Thomas mewn golwg yn ei ddarlith yn Eisteddfod Genedlaethol Môn yn 1983, lle gwelai fod perthynas anorfod rhwng llenyddiaeth a'r cyfnod y cyfansoddwyd y llenyddiaeth honno:

---

<sup>306</sup> Ibid.

<sup>307</sup> 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 9.

<sup>308</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn* (Talybont, 1983), t. 3.

... pobl sy'n siarad yn ac allan o gyd-destun eu cyfnodau ydy awduron. Deunydd crai pob awdur a phob siaradydd iaith mewn unrhyw sefyllfa yw geiriau ac felly syniadau'r cyfnod mae rhywun yn siarad ynddyn nhw. A chyfeirio at y testun, mae pob traddodiad yn draddodiad *heddiw* cyn y gall fod yn draddodiad o gwbl.<sup>309</sup>

Ond yn wahanol i Dafydd Elis-Thomas, a wêl fod y berthynas rhwng llenyddiaeth a'r cyfnod yr ysgrifennwyd hi ynddo yn anochel, galw a wnaeth Wiliam Owen Roberts ar lenorion i sicrhau fod y berthynas honno yn bodoli yn eu gweithiau. Nid oedd cynrychioli'r presennol yn rhywbeth a ddigwyddai'n naturiol mewn llenyddiaeth Gymraeg, ac felly nid oedd posib ei gymryd yn ganiataol, yn groes i awgrym Dafydd Elis-Thomas. Rhaid oedd sicrhau bod llenyddiaeth, a barddoniaeth yn arbennig, yn adlewyrchu'r cyfnod. Rhan o swyddogaeth gymdeithasol barddoniaeth Gymraeg y 1980au, gan gyffredinoli a chymryd fod y rhan helaeth o feirdd Cymraeg a darllenwyr barddoniaeth Gymraeg yn rhannu'r un weledigaeth, oedd lleisio'r iselder a drywanodd y rhai a oedd o blaid datganoli. A gweld pethau'n mynd o ddrwg i waeth a wnaeth Iwan a'i debyg yn ystod y blynyddoedd a ddilynodd y refferendwm. Er i Ryfel y Malvinas a ymladdwyd yn 1982 fod yn destun balchder i nifer o Brydeinwyr a ymfalchient yn y *Falklands factor* a'r undod a'r cadernid a ddaeth yn ei sgil, nid felly y gwelai carfan o Gymry y rhyfel. I'r rhai hynny a oedd am weld Cymru ddatganoledig yn 1979, nid oedd y ffaith fod 39 o Gymry'r Gwarchodlu Cymreig wedi eu lladd ymhlith y 907 o ddynion a fu farw yn y rhyfel yn ddim ond atgof creulon mai gan Loegr oedd y grym o hyd. Plannwyd y gyllell yn ddyfnach eto wrth i'r llywodraeth Geidwadol gyflwyno toriadau i'r pyllau glo, diwydiant a welodd ddirywiad mawr yn ystod y degawdau blaenorol. Yn 1984, roedd cynlluniau ar droed i gau ugain o byllau glo yn y Deyrnas Unedig; arweiniodd hynny at streic ac 'o'r 28 pwll dwfn ym maes glo'r de a oedd yn weithredol ar drothwy'r streic, yr oedd eu hanner wedi cau erbyn 1987,' yn ôl John Davies.<sup>310</sup> Nid amharodd y streic ar wasanaethau fel trydan a thrafnidiaeth, ac roedd y colledion a wnaed yn sgil y diwydiant yn dangos yn amlwg nad oedd cadw'r pyllau yn ddewis cynaliadwy. Ond wrth gau'r pyllau, nid swyddi oedd yr unig bethau i'w colli, roedd cymunedau clos yn dadfeilio a hunaniaeth benodol a berthynai i nifer o Gymry'r de yn diflannu. Swyddogaeth barddoniaeth Gymraeg a

---

<sup>309</sup> Dafydd Elis-Thomas, *Traddodiadau Fory* (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1983), t. 2.

<sup>310</sup> John Davies, *Hanes Cymru*, Argraffiad newydd wedi ei ddiwygio (London, 2007), t. 623.

chelfyddydau eraill oedd adlewyrchu'r cyfnod llwm, ond roedd dyletswydd arnynt hefyd i ddiffinio Cymru newydd a llunio hunaniaeth Gymreig trwy greadigrwydd. Fel y dywedodd Iwan yn ddiweddarach:

Mae'n eironig efallai, wrth edrych yn ôl ar ddechrau'r '80au, mai'r hyn a wnaeth yr actorion a'r awduron, y cyfarwyddwyr a'r technegwyr a sefydlodd y cwmnïau newydd oedd yr union beth yr oedd Thatcher yn eu hannog i wneud, sef mentro. Ond ar y pryd, doedd dim dewis. Gan nad oedd Cymru am gael ei diffinio'n sefydliadol, rhaid oedd ei diffinio yn greadigol.<sup>311</sup>

Gwnaed hynny wrth i nifer o gwmnïau theatr gael eu sefydlu ar wahân i Gwmni Theatr Cymru. Sefydlwyd cwmni theatr Bara Caws yn 1977, a daeth Dalier Ati, Brith Gof, Cyfri Tri, Whare Teg, a Hwyl a Fflag, cwmni y bu Iwan yn ei weinyddu yn 1986, yn ei sgil yn ystod y 1980au. Dechreuodd y beirdd gynnal nosweithiau a theithiau barddol; bu Iwan ei hun ynghlwm â thaith y rifw Tros Ryddid ac â'r Babell Glên yn Eisteddfod Genedlaethol Môn yn 1983. Roedd hefyd yn un o feirdd y daith Fel yr Hed y Frân yn 1986 yng nghwmni Menna Elfyn, Gerwyn Williams, Ifor ap Glyn a Steve Eaves, a bu'n teithio gyda'r sioe Cicio Ciwcymbars yn 1988 gyda Menna Elfyn, Ifor ap Glyn a Steve Eaves.<sup>312</sup> Parhaodd y sin roc Gymraeg i ddatblygu dros y degawd gan herio parchusrwydd y to hŷn a chynnig adloniant a mynegiant i ddyheadau cenhedlaeth ifanc y 1980au. Daeth bandiau fel Yr Anhrefn, Maffia Mr Huws, Datblygu a Crys i ddilyn y don a gychwynnwyd yn ystod y 1970au, gyda rhai ohonynt yn cicio ac yn rhegi ac yn ymhyfrydu yn eu hanweddustera. Meddai Iwan eto:

Ni oedd y genhedlaeth oedd 'wastad ar y tu fas' yng ngeiriau'r Trwynau Coch. Roedden ni wedi cael ein gwrthod gan y Gymru dosbarth canol barchus. Roedd yn rhaid i ni greu ein hystyr ein hunain i Gymreictod. Roedd refferendwm 1979 wedi dangos nad oedd modd diffinio Cymru yn ôl yr hen ganllawiau. Roedd y Gymru honno wedi darfod amdani.<sup>313</sup>

Anodd, fodd bynnag, yw mesur dylanwad uniongyrchol y refferendwm ar greadigrwydd o fewn y sin roc yn ôl Hefin Wyn, ac awgryma nad oedd y genhedlaeth ifanc honno o aelodau bandiau ac o fynychwyr gigs o reidrwydd wedi rhoi gormod o ffydd ym mhleidlais 1979 yn y

---

<sup>311</sup> Iwan Llwyd, 'Theatr Thatcher', *Barn*, 488 (Medi 2003), t. 42.

<sup>312</sup> Gweler Pennod 5 am drafodaeth fanylach ar y teithiau barddol.

<sup>313</sup> Iwan Llwyd, 'Wastad ar y Tu Fas?', *Taliesin*, 90 (Haf 1995), t. 48.



Ile cyntaf.<sup>314</sup> Soniodd Rhys Mwyn hefyd am amherthnasedd datganoli i'r grwpiau roc, gan ategu mai anarchiaeth oedd eu prif ddiddordeb ar y pryd ac mai creu rhywbeth newydd yn y Gymraeg oedd eu bwriad pennaf.<sup>315</sup> Efallai fod Iwan ei hun, ac yntau'n aelod o'r grŵp Doctor, yn eithriad felly, ac yntau'n falch o gyfaddef ei fod wedi torri'r gyfraith a phleidleisio ddwy waith yn y refferendwm.<sup>316</sup>

Gellir ystyried yr hunaniaeth Gymreig newydd a fabwysiadwyd fel math o hanfodaeth strategol lle mae unigolyn neu genedl yn mynd ati'n fwriadol i fod yn wahanol i'w gormeswyr. Wrth ailddiffinio Cymreictod trwy greadigrwydd, trwy ddiwygio'r iaith a moderneiddio'r diwylliant Gymreig, a thrwy gofleidio diwylliannau y tu hwnt i Glawdd Offa, roedd y genhedlaeth o Gymry a oedd yn gyfrifol am y datblygiadau hyn yn amlwg yn gwrthwynebu cymathu. Roeddent yn gwrthod cyfaddawdu a derbyn hunaniaeth a diffiniadau Lloegr a Phrydeindod imperialaidd fel eu diffiniadau eu hunain, hyd yn oed os oedd yn rhaid iddynt dderbyn llywodraeth a chyfraith Lloegr. Nid Jac yr Undeb, palas Buckingham a grym militaraidd oedd yn diffinio Cymru, ac aeth Iwan a'i gyfoedion ati i sicrhau fod dewis arall ar gael, dewis Gymreig a oedd yn profi i Loegr ac i'r byd nad yr un bobl yw'r Cymry a'r Saeson.

Yn wahanol i'r rocars, pwysodd holl naws a goblygiadau refferendwm 1979 yn drwm ar farddoniaeth gynnar Iwan, ac nid ysgafnhaodd y baich yn ystod y degawd dilynol. Gellir gweld nifer o gerddi *Sonedau Bore Sadwrn*, *Dan Anesthetig* a *Dan Fy Ngwynt* yn bont rhwng y prydestau cynnar a cherddi 'Gwreichion' wrth iddynt ddal naws y degawd a mapio agwedd Iwan ei hun yn ystod y cyfnod. Fe deimlir yma dywyllwch gwaelodion y gwter a chaiff ei gyd-Gymry eu beirniadu'n hallt ganddo ar brydiau, ond wrth i'r gwayw cychwynnol leddfu rhywfaint, mae yma obaith hefyd am ddyfodol gwell ac am ailenedigaeth i Gymru.

Cerddi â theimlad o nihiliaeth ynddynt yw cerddi *Sonedau Bore Sadwrn* ar y cyfan, ac archoll '79 yn bell o fod wedi cau. Mae cysgod canlyniad y refferendwm a methiant y diwylliant i ymateb i'r chwalfa ar y pryd yn drwm ar 'Y Lefiad', 'Croesi'r Ffin', 'Wrth wrando

---

<sup>314</sup> Hefin Wyn, *Ble Wyt Ti Rhwng?: Hanes canu poblogaidd Cymraeg 1980-2000* (Talybont, 2006), tt. 17-18.

<sup>315</sup> Rhys Mwyn yn sgwrsio ar y rhaglen deledu *Gadael yr 20fed Ganrif* (Fiction Factory, Darlledwyd: 30/08/14).

<sup>316</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn* (Cyhoeddwyd gan Karen Owen, 2014), t. 7.

ar “Ambiwlans” Geraint Jarman’ a ‘Gwynt y Dwyrain’,<sup>317</sup> a’r ymwybyddiaeth o lanw mewnfudwyr a thrai siaradwyr Cymraeg yn halen ar y briw yn ‘Soar y Mynydd’ ac yn yr englyn i ‘Aberdyfi’.<sup>318</sup> Ond ymhlith y cerddi hyn, daliwyd hefyd rywfaint o ysbryd gwrthryfelgar yr ifainc gyda’r sôn am gyffuriau ac am fynd i’r carchar dros yr iaith. Caiff gwamalrwydd y Cymry ei ecsbloetio, ac mae’r bardd ei hun yn cyfaddef iddo ddymuno ar adegau gael bod yn rhydd oddi wrth gadwyni ei wlad. Adlais o feddylfryd T. H. Parry-Williams yn ‘Hon’, heb os.

Teg dweud, felly, fod cerddi’r gyfrol gyntaf yn driw i syniad Wiliam Owen Roberts o swyddogaeth gymdeithasol barddoniaeth, a bod perthynas bendant rhwng y cerddi a’r cyfnod y cawsant eu cyfansoddi ynddo. Cerdd a lwyddodd i ddal y naws dywyll ac oeraidd oedd yn niwl dros ddechrau’r 1980au yw ‘Y Lefiad’, cerdd a’i theitl yn ei chlymu â dameg y Samariad Trugarog. Fel y gwelir yn Luc 10, y Lefiad oedd yr ail wêr i gerdded heibio’r dyn yr ymosodwyd arno gan ladron. Dameg gyfoes sydd yn y gerdd, a’r bardd yn gyrru heibio Port Talbot ar gyrion Cymoedd y De yng nglaw yr hydref. Darlunnir ynddi dref o bobl wedi eu halltudio oddi wrth eu gwlad a’u diwylliant, ‘a’u llygaid yn chwilio diferion y nos / ger afonydd Babilon’ am ryw arwydd o berthyn.<sup>319</sup> Wrth osod Cymry Port Talbot ‘ger afonydd Babilon’, cânt eu huniaethu â chenedl orchfygedig yr Iddewon sy’n wylo wrth afonydd Babilon yn Salm 137 ar ôl cael eu caethgludo o dir Israel. Defnyddio’r ddameg fel alegori a wneir yma, ac er yr ystyrid crefydd Anghydfurfiol yn amherthnasol gan lawer o’r genhedlaeth ifanc, ymddengys fod lle o hyd gan rai i gyfeiriadaeth Feiblaidd.

Meicrocosm yw Port Talbot yn y gerdd, a’r dref yn cynrychioli sawl tref a phentref arall sy’n dioddef sgil-ffeithiau Seisnigeiddio. Aros y ‘llanw anorfod’ y mae’r dref, trosiad a ddefnyddir yn aml gan Iwan i ddarlunio mewnfudwyr di-Gymraeg a’u diwylliant Eingl-Americanaidd yn dod i foddîr cymunedau Cymreig. Gwrandawa’r bardd ar gerddoriaeth gyfoes, ddinesig Geraint Jarman ar gasét yn y car, a chaiff y diwylliant Cymraeg ifanc sy’n codi ei gyfochri â lle sydd ar fin colli pob cyswllt ag unrhyw ddiwylliant Cymraeg. Mynd heibio i argyfwng diwylliannol Port Talbot a wna Iwan yn y gerdd gan anwybyddu

---

<sup>317</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, tt. 7, 10, 12, 22.

<sup>318</sup> *Ibid.*, tt. 5, 13.

<sup>319</sup> *Ibid.*, t. 7.

marwolaeth cymuned Gymreig. Fel yr anwybyddodd y Lefiad y gŵr ar ochr y ffordd, mae'r bardd yn honni ei fod yntau'n fyddar i waedd y dref am gymorth:

... ni chlywais y waedd  
yn y strydoedd cefn,  
na gweld y gwaed  
yn llifo'n gymysg â'r glaw  
i'r gwter:

ni theimplais anadl olaf  
cenedlaeth a adawyd yn gelain  
yn gorff ar y palmant gerllaw.

Euthum heibio Porth Talbot yn y glaw  
o'r tu arall eto'r tro hwn.

Yn yr un modd, tranc iaith a diwylliant a geir yn 'Y Dywysogaeth', cerdd ddiweddarach lle darlunnir llofruddiaeth yng Nghaerdydd ar benwythnos gêm rygbi. Mae amwysedd y gerdd yn awgrymu bod yma feirniadaeth y tro hwn ar y Cymry Cymraeg hynny sy'n bedantig ynghylch cywirdeb iaith, a beirniadaeth arnynt hefyd am eu blaenoriaethau distadl. Yn araf y caiff yr iaith a'r diwylliant Cymraeg eu lladd; 'fel hyn bob dydd diflannwn; fesul un,' a dyfynnu Gerallt Lloyd Owen,<sup>320</sup> ac fe'n diddymir felly heb i neb sylwi nes y bydd hi'n rhy hwyr:

... 'dydi angau un dyn  
ddim yn rhan o'n hunllefau bras:

mae i'n diffyg cwsg ni  
ei ofnau dyfnach  
fel lleoliad y fannod,  
anghenion y gynghanedd  
neu wryfdod iaith:

y ffobias cenedlaethol  
sy'n trymlwytho colofnau  
tra bod angau'n sleifio heibio

---

<sup>320</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cilmeri a cherddi eraill* (Caernarfon, 1991), t. 85.

heb i ni sylwi.<sup>321</sup>

Efallai fod y cyfeiriad at 'anghenion y gynghanedd', sy'n deitl cyfrol gan Alan Llwyd a gyhoeddwyd gyntaf yn 1973,<sup>322</sup> yn gic slei i awdur y llyfr hwnnw a oedd, fel un o sylfaenwyr y Gymdeithas Gerdd Dafod, yn un o bennaf amddiffynwyr barddoniaeth y traddodiad Cymreig, a'r canu caeth yn ganolog i'r traddodiad hwnnw. Ac yntau'n dipyn o biwritan ynghylch cywirdeb ieithyddol a chywirdeb cynganeddol, cyfeiriodd yn fynych mewn colofnau a chyfweliadau at y gwallau a'r diffyg sylwedd a berthynai i'r farddoniaeth newydd a oedd yn mynd i'r afael â realiti yn ystod y 1980au.

Fel y gwelir yn y ddwy gerdd a drafodir uchod, mae Iwan yn ei gynnwys ei hun yn ei feirniadaeth gyda'i ddefnydd o'r person cyntaf. Does dim byd hunangyfiawn am ei feirniadaeth; mewn cerdd arall fe'i hystyria ei hun yn un o'r '*bourgeoisie* Cymreig' bondigrybwyll a'i 'arf llym yn erbyn difodiant: / ei hel dan y carped'.<sup>323</sup> Mae'n cydnabod hefyd ei fod yntau'n dibynnu ar 'chwistrelliad / o adrenalin blynyddol' yr Eisteddfod lle mae cyfoeth a diogelwch y diwylliant a'r iaith yno yn 'codi'r llwch / i'n llygaid' nes ein dallu i argyfwng y sefyllfa y tu allan.<sup>324</sup>

Un o'r ofnau pathetig sy'n poeni'r Cymry yn 'Y Dywysogaeth' yw '[g]wryfodod iaith', sy'n ein hatgoffa o gerdd gynharach gan Iwan, 'Gwryf'. Yno, mae'r iaith yn 'mynd yn hen yn ei mudandod' a hithau wedi ei gwarchod rhag cael ei baeddu gan y byd o'i chwmpas.<sup>325</sup> Er mai cynrychioli purdeb a wna'r gair 'gwryf', mae'r disgrifiad yn awgrymu fod cyfyngiadau ar yr hyn y gall yr iaith ei drafod, a pheth negyddol yw caethiwo'r iaith yn y fath fodd yng ngolwg Iwan. Er mwyn i iaith barhau'n iaith fyw, rhaid iddi allu disgrifio'r byd fel ag y mae; rhaid iddi 'ddathlu holl gymhlethdod meddw'r byd' ac ymdopi â thrafod pob pwnc dan haul. Ymhelaethodd Iwan gan fynnu:

Mae'r iaith Gymraeg yr un mor addas a hyblyg wrth fynegi'r profiad o oddiweddyd ar yr A55 neu alw am betrol yn Garej Lôn Glan Môr ag ydi hi wrth ganu ar destunau

---

<sup>321</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), t. 14.

<sup>322</sup> Alan Lloyd Roberts, *Anghenion y Gynghanedd* (Caerdydd, 1973).

<sup>323</sup> Iwan Llwyd, 'Paradwys Ffŵl', *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 6.

<sup>324</sup> 'Wedi'r Wyl', *ibid.*, t. 11.

<sup>325</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 6.

mwy traddodiadol. A dweud y gwir, mae'n hanfodol ein bod yn herio'r iaith i ganu'n dyheadau mwyaf cyfoes a chyffrous er mwyn ei llusgo, tan sgrechian weithiau, i'r ganrif nesaf.<sup>326</sup>

Cyfeirio y mae yma at un o gerddi'r dilyniant 'Gwreichion', sef '*Golygfa 8: Hydref 1986 Cymudo*', ac yna at 'Garej Lôn Glan Môr' Steve Eaves.<sup>327</sup> Mae'n werth cyfeirio wrth fynd heibio at y gerdd 'Bardd', lle canfyddir geiriau'r dyfyniad uchod bron air am air:

Bwrw'r llythrennau i'r tân  
a gadael iddyn nhw lifo'n iaith newydd ar hyd yr aelwyd.  
Eu herio i ganu'n dyheadau mwyaf cyfoes a chyffrous  
er mwyn eu llusgo, dan sgrechian weithiau, i'r ganrif nesa.<sup>328</sup>

Ymestynnodd y weledigaeth hon ynghylch datblygiad yr iaith y tu hwnt i drafodaeth ar farddoniaeth, a lleisiodd Iwan, fwy nag unwaith, yr angen am raglenni Cymraeg ar S4C a fedrai gystadlu yn erbyn y sothach Americanaidd poblogaidd, gan wneud hynny mewn ffordd Gymreig yn hytrach nag mewn ffordd eildwym ac ail-law. Galwodd am raglenni a fyddai'n apelio at gynulleidfa 'blynyddoedd antur a rhyw a rhegi a rhyfeddu a pheryg',<sup>329</sup> a cheryddodd y biwritaniaeth sy'n mynnu ystyried rhyw yn bwnc lletchwith i'w drafod yn y Gymraeg er bod gan 'yr hen feirdd ddigon o eiriau ac ymadroddion i drafod pob safle yn y *Kama Sutra*'.<sup>330</sup>

A dychwelyd at iselder ôl-79, cerdd y gwaelodion tywyll yn llythrennol yw 'Y seithfed don', cerdd sy'n 'perthyn yn agos iawn o ran amser a theimlad' i gerddi 'Gwreichion', yn ôl Iwan.<sup>331</sup> Ynddi, mae Cymru wedi mynd â'i phen iddi, ac yn ei diffeithwch diwylliannol rhaid cloddio'n ddwfn er mwyn canfod unrhyw emosiwn gwerth sôn amdano. Yno, yn y gwaelodion, dan rwbel y chwareli llechi segur, dan adfeilion y tai haf a 'dan guriad ansad fy

---

<sup>326</sup> 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 9.

<sup>327</sup> Camgymeriad cyffredin yw tybio mai Iwan piau'r gerdd hon ac yntau'n ei llefaru i gyfeiliant gitâr ar y record *Canol Llonydd Distaw*. Gweler Steve Eaves, 'Cywiro Camargraff', *Barddas*, 310 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2010), t. 13.

<sup>328</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), tt. 101-2.

<sup>329</sup> Iwan Llwyd, 'Cyrchu Gwlad Arall', *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), t. 131.

<sup>330</sup> Iwan Llwyd, 'Torri'r Brethyn yn ôl ein Gallu', *Taliesin*, 85 (Gwanwyn 1994), t. 137.

<sup>331</sup> 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 8.

nghalon innau / mae dicter yn cyniwair'.<sup>332</sup> Bron nad oes yma ail-greu naws englynion Iwan Fardd i Lys Ifor Hael, a'r 'mieri lle bu mawredd' yn ei fenthyg ei hun i linellau Iwan wrth iddo sôn am y tai haf ac unrhyw awydd i wrthryfela yn llechu 'dan loriau'r bythynnod gweigion / lle bu dawnsio'. Hwyrach mai cyfeirio y mae teitl y gerdd at y goel fod tonnau'n cylchredeg fesul saith, a bod y seithfed don yn fwy na'r gweddill. Cydwedda hynny â'r syniad o'r llanw Seisnig sy'n boddi cymunedau. Yn unol â threfn y llanw daw'r trai ffigurol wedyn, a'r Cymry Cymraeg yn cael 'ein cludo ymaith' gan adael y lle'n wag ac yn ddiffaith. Ond tybed ai ton o ddicter y Cymry yw'r seithfed don yma?

Nid yw'r fath gynnwrf neu ymateb i'w gweld mewn cerddi eraill, ac mae diymadferthedd, galar a gwacter yn drech nag unrhyw ddicter. Dyma'r naws sy'n perthyn i 'Croesi'r Ffin', lle caiff Cymru ei phortreadu fel oen a Lloegr yn aderyn ysglyfaethus 'yn eiddig am gig yr oenig', sy'n adlais o 'Eryr Pengwern' Canu Heledd, lle mae'r eryr yn 'eiddig am gig Cynddylan'.<sup>333</sup> Mae 'Gwynt y Dwyrain' yn gerdd o'r un anian, yn cymharu Cymru â Phengwern, ond yn wahanol i adeg teyrnasiad Cynddylan yn y seithfed ganrif, gwelir heddiw 'nad oes un Heledd yn aros / i alaru uwch gwacter y llwch'.<sup>334</sup> Nid yw'n syndod i Iwan ddefnyddio delwedd o'r traddodiad llenyddol Cymreig yn y modd hwn, ac yntau eisoes wedi ysgrifennu prydestau alegoriol rai blynyddoedd ynghynt a ddefnyddiai rai o chwedlau'r Mabinogion yn sylfaen iddynt. Defnyddio hanes Heledd er mwyn cyfleu adladd refferendwm '79 a wna Iwan yn ei gerdd, a difyr yw nodi i Alan Llwyd, maes o law, gyfeirio at dywysoges Pengwern mewn cerdd ddiweddarach, 'Dwy Gerdd ynghylch Hunaniaeth', sy'n mynegi hyder wedi llwyddiant refferendwm 1997. Sôn y mae Alan Llwyd, fodd bynnag, am y modd y caiff y ffigurwraig ei ordefnyddio hyd syrffed, ac mae am 'weld disodli delweddau goresgyniad a hunandosturi ("gwehelyth yn creu myth o'i methiant") gan ddelweddau deinamig a chynhwysol – Stadiwm y Mileniwm, nid Stafell Gynddylan,' fel y noda Marged Haycock.<sup>335</sup> Ond mewn cyfnod o oresgyniad a hunandosturi yr ysgrifennwyd 'Gwynt y Dwyrain' Iwan, ac felly gellid ystyried y ddelwedd yn un gymwys hyd yn oed os nad yw hi'n ddelwedd wreiddiol.

---

<sup>332</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 49.

<sup>333</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 10.

<sup>334</sup> *Ibid.*, t. 22.

<sup>335</sup> Marged Haycock, 'Hanes Heledd Hyd Yma', *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies (Cyhoeddiadau Barddas, 2007), t. 45.

'Darfod' yw'r gerdd sy'n crynhoi'r teimlad fflat o nihiliaeth ac anobaith a ddilynodd 1979 ar ei fwyaf uniongyrchol a'i fwyaf cywrain o bosib, ac mae'n werth ei dyfynnu'n llawn:

Mae delfrydau'n darfod  
mor araf a phoenus a phendant  
â glöyn byw mewn pot jam

a'r profiad gwaethaf yw gwyllo  
wrth i'r bwrlwm bywyd  
gyrraedd anterth a methu

'does dim yn aros wedyn  
ond diymadferthedd distaw  
a disgwyl

mae'r cyfan mor drist  
ac anorfod.<sup>336</sup>

Arhosodd y teimlad hwn yn gwmwl uwch Cymru ac uwchben Iwan ei hun am gyfnod hir, ac er iddo ysgrifennu cerddi a gynigiai obaith am Gymru newydd erbyn cyhoeddi *Dan Anesthetig* yn 1987, ymddengys mai amhosib oedd peidio â llithro i'r dyfnderoedd isel ar brydiau. Ar ddiwedd 1987 yr ysgrifennwyd 'Ar ddiwedd blwyddyn', cerdd felanolaidd sy'n sôn am golli iaith ond sydd hefyd yn dweud pa mor anodd yw hi i gyfleu'r teimlad o fod yn genedl wedi ei sathru a'i bradychu gan ei phobl ei hun:

Nid oes iaith i'n caethiwed ni  
na chân all ddatgan ein cyni:  
nid edrydd beirdd ein gwrhydri.<sup>337</sup>

Fe ddarlunnir y Cymry fel cenedl oeraidd; 'ein cynefin yw'r gaeaf,' meddai, a gwêl mai'r unig ymdrech a wnaed er mwyn sicrhau llais a thegwch i'r wlad, a'r unig betrol i ddal ati yn wyneb tranc, yw'r ymgyrch llosgi tai haf.

---

<sup>336</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 45.

<sup>337</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 58.

Portreadir y Cymry mewn amryw o gerddi gan Iwan fel cenedl farwaidd a di-hid. Yn yr un modd, cyfeiria Gerallt Lloyd Owen atynt fel 'gwymon o ddynion'<sup>338</sup> a gwêl T. James Jones a Jon Dressel y bobl yn debyg i ddefaid gwlyb.<sup>339</sup> Mewn englyn i gyfarch Saunders Lewis, yr un oedd cwyn Alan Llwyd:

Anwadal yw'r genedl hon, – ac orïog  
Yw'n gwerin wangalon:  
Gwamal fel dawns y gwymon  
Lle chwyth y gwynt ewyn ton.<sup>340</sup>

Soniwyd ym mhennod gyntaf y thesis am y tebygrwydd rhwng 'Cymru 1937' R. Williams Parry a rhai o gerddi Iwan gyda'r darlun dilornus o'r genedl yn ei bryddestau cynnar yn cyfleu rhwystredigaeth debyg iawn i un Williams Parry. Caiff yr un syniad ei wyntyllu eto gan Iwan yn 'Dan anesthetig' ac yn 'Eira budur'. Fel yr awgryma'r teitl, 'Dan anesthetig', cenedl sydd yma 'yn nhrwmgwsg y synhwyrâu'.<sup>341</sup> Mae'n gyndyn o gael ei hanesmwytho gan unrhyw un sy'n lleisio'i ofnau a'i anfodlonrwydd ynghylch sefyllfa'r wlad.

Cyfforddusrwydd taegaid a geir eto yn 'Eira budur', a gelwir yma am gawod o eirlaw er mwyn ein deffro o'n dihidrwydd. Ynglwm â'r teimlad o fethiant a diffyg hyder yn sgil canlyniad y bleidlais, mae cefnlen imperialaidd llywodraeth Brydeinig y cyfnod. Anodd yw gwahanu'r ddau ddrwg mewn gwirionedd. A'r naill yn dwysáu effaith y llall ar y Cymry, try'n genedl a gaiff ei chyflyru i dderbyn ei gwendid, i dderbyn grym gwlad arall drosti a derbyn breintiau a chymwynasau San Steffan â diolchgarwch. Caiff pob arlliw o'n hunaniaeth Gymreig ei rewi a ninnau'n 'slafaidd' ac 'unffurf' bellach yn 'ein hmylwybro bwrgeisiol bas'. Egyr y gerdd â'r datganiad: 'Rhewodd ein hangerdd ers tro bellach', ac yn eironig ddigon mwy o dywydd gaeafol sydd ei angen er mwyn ein dadebru:

daeth pryd cawod eira arall:  
nid un dyner, a'i mantell yn cuddio'r  
byd yn wryfol wyn:

---

<sup>338</sup> Gerallt Lloyd Owen, 'Etifeddiaeth', *Cerddi'r Cywilydd*, Pumed argraffiad (Caernarfon, 2006), t. 11.

<sup>339</sup> T. James Jones a Jon Dressel, 'lau', *Cerddi Ianws* (Llandysul, 1979), t. 14.

<sup>340</sup> Alan Llwyd, *Marwnad o Dirdeunaw a rhai cerddi eraill* (Cyhoeddiadau Barddas, 1982), t. 37.

<sup>341</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 1.



ond cawod o eirlaw sy'n gymysg  
â mwg a huddug y strydoedd,  
yn stwnsh dan olwynion y ceir,

yn ddagrau brwmstan ar wyneb,  
ac eira budur Bangor  
yn dadmer ein hangerdd rhew.<sup>342</sup>

Ffin denau sydd rhwng gwendid a thaeogrwydd, ac fel taeogion gwasaid y caiff y Cymry eu darlunio eto yn 'Herwgiwyr'. Ers derbyn ein bod yn genedl wedi ei gorchfygu a'n tir wedi ei feddiannu, gan dderbyn meddylfryd ein gormeswyr, rydym bellach yn 'dadlau'n frwdfrydig / o blaid rhoi chwarae teg / i'n herwgiwyr hael'.<sup>343</sup> Rydym wedi ein cymathu fwy neu lai, a beirniadu pob Dic Siôn Dafydd a wneir yma. O graffu ar yr agwedd hon yng ngoleuni beirniadaeth ôl-drefedigaethol, awgryma'r bardd fod cenedl y Cymry wedi datblygu'r feddylfryd ei bod yn israddol i'w gormeswyr, ac mae'r 'caethiwed iach' yn dangos ôl cymhlethdod seicolegol lle mae'r gorthrymedig bellach yn edmygu'r rhai a'u gorthrymodd.

Yn wrthbwynt i'r cerddi uchod a ddarlunia wlad druenus a'i thrigolion yn ddi-asgwrn-cefn yn eu diffyg hyder, ceir cerddi eraill sy'n cynnau tân yn y bol. Cerddi yw'r rhain sy'n gwrthod cymathiad yn bendant. Ni cheir cerddi felly nes cyhoeddi ail gyfrol Iwan, *Dan Anesthetig*, a'r gyntaf i ymddangos ynddi yw 'Ger Clawdd Offa: 1984'. Ceir dwy ran i'r gerdd, y gyntaf yn darlunio'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr. Dywedir yn yr ail ran nad oes ffin weledol yn bod erbyn hyn, a'r cyfan sy'n nodi'r rhaniad bellach yw 'arwydd wrth fynd heibio / yn croesawu'r estron i Gymru'.<sup>344</sup> Dyna ni'r Cymry taeog unwaith yn rhagor yn croesawu'r gormeswyr â breichiau agored. Bachu ar syniad T. James Jones a Jon Dressel a wna Iwan yng ngweddill y gerdd wrth gydio yn y llinell o'r gerdd 'Gwener', 'ynom y mae'r hin'.<sup>345</sup> Gwêl Iwan nad â ffiniau daearyddol y mae diffinio gwlad, a sylweddola mai gan y bobl y mae'r gallu i ddiffinio'r Gymru hon: ei ffurfio â'u lleisiau eu hunain, a'i diffinio wrth

---

<sup>342</sup> Ibid., t. 14.

<sup>343</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 36.

<sup>344</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 5.

<sup>345</sup> T. James Jones a Jon Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 16.

'ffurfio â'n hanadl ffiniau o'n hamgylch,' fel y dywed yn 'Diffinio'.<sup>346</sup> Yng nghynhysgaeth y bobl eu hunain y mae'r hen enwau llefydd yn bod, yr hanesion sy'n perthyn i ardaloedd ac i enwau hynafol, ac yn seice'r bobl y mae'r frwydr bellach lle bu gynt frwydr lythrennol rhwng dwy genedl. Daw i'r casgliad mai 'ynom mae'r ffin' hefyd, ac addasu llinell T. James Jones, a pharhad y frwydr fewnol sy'n mynd i sicrhau na chaiff y ffin rhwng Cymru a Lloegr ei llyfnhau'n llwyr nes diflannu:

... ynom mae'r ffin  
(maddeued y llên-ladrad)  
a maddeued y dicter sy'n brigo  
i'r wyneb yr eiliadau hynny  
yn anterth y frwydr  
pan yw'r cleddyfau'n gwreichioni,  
yn tasgu rhwystredigaethau  
un na fyn ei gymathu,  
ac na all gyfannu'r rhwyg.

Gwelwyd rhywfaint o wrthryfel yn corddi yn y gerdd 'Dan anesthetig', lle 'mae'r gwir dan ruo a rhegi / yn dianc o'i gell',<sup>347</sup> ond gwrthryfel byrhoedlog oedd hwnnw gan nad oedd neb am wrando ar y brotest. Rhuo a rhegi yn erbyn y drefn sydd yn 'Richard Jenkins' hefyd, sy'n gerdd am angladd lliwgar yr actor o Gymro a adwaenir yn well fel Richard Burton. Sonia'r gerdd am y ddraig goch a wnaed o flodau oedd ar ei arch, am y siwt goch a wisgai i gael ei gladdu, ac am iddo gael ei gladdu i gyfeiliant y gân werin fywiog Sosban Fach. Awchu am 'eiliad o'i hyfdra yntau' a wna Iwan ar ran Cymru, yn hytrach na'n bod yn ildio'n dawel i'n hangau.<sup>348</sup>

'Do not go gentle into that good night,' meddai Dylan Thomas yn ei gerdd am farwolaeth ei dad, ac fe adleisir y llinell enwog honno ar ddiwedd 'Richard Jenkins'. A digon addas gwneud hynny o gofio i Richard Burton recordio darlleniadau o gerddi Dylan Thomas, ac iddo gymryd rhan y prif lefarwr mewn sawl cynhyrchiad o'r ddrama radio, *Under Milk*

---

<sup>346</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 7.

<sup>347</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 1.

<sup>348</sup> *Ibid.*, t. 25.

Wood. Fel yn angladd yr actor, yn swnllyd ac yn anfoddog y dymuna Iwan weld Cymru'n brwydro yn erbyn ei thranc:

... diosg ein llwyd a chodi'n lleisiau  
a morio'r gytgan cyn tawelu'n llwyr;  
gwrthod ymollwng a diffodd y golau,  
ond rhegi a rhuo rhag ildio i'r gwyll.

Trosiad tebyg sydd yn y gerdd 'Cactus' o'i darllen drwy lens y refferendwm. Anodd yw osgoi'r awgrym mai gweld tebygrwydd rhwng y planhigyn a Chymru y mae Iwan, a'i ddyhead unwaith eto yw gweld un ymdrech fawr olaf yn hytrach na rhygnu byw er mwyn gobeithio am oroesiad gwan:

... o na fai'n afradu ei ynni,  
dafnau a gasglodd mor gydwybodol,  
eu ffrwydro'n gawod flodau  
a darfod.<sup>349</sup>

Dyma gerdd gynnil eithriadol, a thorri ar y cynildeb, yn ddiangen efallai, a wna'r disgrifiad o'r dafnau gwllith 'sy mor brin â swyddi'. Mae hi'n llinell sy'n amlwg yn cyfeirio at ddiweithdra'r 1980au, ac yn rhwym o gyfeirio'r darllenydd i edrych ar y gerdd fel un wleidyddol.

Does dim osgoi hinsawdd economaidd y 1980au ym marddoniaeth Iwan yn ystod y cyfnod hwn. Dengys John Davies fod y cynnydd mewn diweithdra yng Nghymru yn un sylweddol yn ystod cyfnod Thatcher wrth y llyw: 'Rhwng 1974 a 1979, buasai diweithdra yng Nghymru o gwmpas 7 i 8 y cant; cynyddodd i 12.8 y cant yn 1980 ac i 17 y cant yn 1982'.<sup>350</sup> Ac yntau newydd raddio o'r brifysgol yn Aberystwyth ar yr union adeg hon, profodd Iwan ei hun y prinder swyddi, profodd giw'r dôl, a rhydd y bai ar Thatcher a'i llywodraeth am hynny. Caiff ei ddiflastod a'i rwystredigaeth eu gwyntyllu mewn cerddi fel 'Chwilio Gwaith',<sup>351</sup> 'Plant y chwedegau', 'Glaw caled' a 'Trais a threfn',<sup>352</sup> ond mae sylwebaeth ar y sefyllfa economaidd yn llithro i ganol cerddi eraill hefyd nad ydynt yn ymwneud â'r pwnc yn

<sup>349</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 37.

<sup>350</sup> John Davies, *Hanes Cymru*, tt. 619-20.

<sup>351</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 21.

<sup>352</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, tt. 12, 15, 16-17.

benodol. Yn 'Cân Serch', er enghraifft, cyfeirio at batrwm bywyd bob dydd a wna wrth sôn am '[b]rynhawnau segur diweithdra'.<sup>353</sup>

Soned yw 'Mabinogi' sy'n sôn am anghofio breuddwydion ifanc a gorfod wynebu caledi bywyd yng Nghymru lle nad oes swyddi. Mae hud dyddiau di-boen ieuentid wedi diflannu, a hola Iwan 'be sy'n aros hyd heddiw? – ffyc ôl!'. Mae'r bai am hynny ar Thatcher a ddaeth fel 'teyrn â'i gwialen i'n tawelu', sy'n fân chwarae ar eiriau Salm 23 o bosib.<sup>354</sup> Fel y taenwyd hud dros Ddyfed gan adael y lle yn wag, taenodd Thatcher yr un hud dros Gymru 'o Drefforest i'r Fflint', dwy dref lofaol a fyddai wedi dioddef oherwydd y toriadau i'r pyllau glo. Gadawyd y wlad yn dlawd, a theimla Iwan mai ei genhedlaeth ei hun sy'n talu:

yn aberth cyfalaf ac ystadegau'r dôl,  
ni ddaw Pwyll na Phryderi i Gymru'n ôl.

Mae'n debyg mai cyfeiriad sydd yma at gerdd R. Williams Parry, 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw', lle mae'r brodor o Ddyffryn Nantlle yn datgan yn benisel, 'ni ddaw Llew i Ddyffryn Nantlleu'n ôl' gan awgrymu nad yw cyfaredd y Mabinogi yn bodoli yn yr ardal bellach.<sup>355</sup> Felly hefyd y mae hud y Mabinogi a'r diwylliant Cymraeg wedi diflannu yng Nghymru. Drwy enwi Pwyll a Phryderi, daw i gof gerdd ddiweddarach gan Iwan sy'n sôn am Bryderi a Manawydan. Adrodd hanes y ddau yn gadael Dyfed ddifffraith ac yn croesi'r ffin i Loegr i wneud bywoliaeth fel cryddion a wna 'Ymgom Pryderi a Manawydan', ond wrth ddweud 'Awn adref i Gymru, awn 'nôl / i Wynedd ddi-waith', rhydd Iwan ystyr cyfoes i'r chwedl a daw deunydd cynnar y traddodiad llenyddol Cymraeg yn berthnasol unwaith yn rhagor.<sup>356</sup>

Wrth sôn am y sefyllfa economaidd, mae Iwan yn lladd yn gyson ar lywodraeth Geidwadol y 1980au. Cerdd o ganol y cyfnod Thatcheraidd yw 'Trais a threfn' lle mae hierarchaeth yn nodwedd amlwg, a'r gwleidyddion dylanwadol yn cael eu cymharu â landlordiaid. Maent yn datrys problemau'r bobl gyffredin dros dro cyn dianc i'w byd cyfforddus a moethus eu hunain gan adael 'trais fel caws llyffant / yn magu'n y corneli llaith'

---

<sup>353</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 23.

<sup>354</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 13.

<sup>355</sup> R. Williams Parry, *Cerddi'r Gaeaf*, Pedwerydd argraffiad (Dinbych, 1964), t. 83.

<sup>356</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 25.

ar lawr gwlad.<sup>357</sup> Wrth drafod y gerdd hon, dywed Iwan mai sôn y mae am 'anghyfiawnder y ffaith fod rhai pobl (y lleiafrif bach) hefo llawer o bres, a'r mwyafrif mawr yn dioddef o dlodi ac anghyfiawnder, wedi ei fwydo gan hysbysebion a chyfalafiaeth a chwsmeryddiaeth, yn golygu na fydd 'na fyth gymesuredd rhwng trais a threfn'.<sup>358</sup> Y Swyddfa Gymreig yn Llundain oedd dan ei lach yn 'Chwarae plant', a'r gwleidyddion a'r ysgrifenyddion gwladol dros Gymru fel plant yn trin Cymru fel cae chwarae. Nid Cymry mo'r gwleidyddion hyn, nid ydynt yn siarad yr iaith nac yn deall y diwylliant, ac felly nid yw'r wlad iddyn nhw 'ond cefndir llonydd, / llwyfan lle rhed eu chwarae'n / lifeiriant chwerthin'.<sup>359</sup> Cerddi sy'n berthnasol i'r cyfnod yr ysgrifennwyd hwy yw'r ddwy hyn wrth iddynt gofnodi adeg cyn i Gymru hawlio ei senedd ei hun.

*Dan Anesthetig* yw'r gyfrol sydd â'r nifer fwyaf o gerddi yn ymwneud â gwleidyddiaeth Prydain. Cerddi am Gymru oedd y rhan helaeth o gerddi *Sonedau Bore Sadwrn*, ond wrth i'r bardd aeddfedu a phrofi mwy ar fywyd, ymestynna ei orwelion i drafod mwy ar Brydain yn ei ail gyfrol gan roi sylw i'r gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon ac i Ryfel y Malvinas, i brotest Greenham ac i imperialaeth seremonïau Llundainig *Trooping the Colour*. Parhaodd i sylwebu rhywfaint ar wleidyddiaeth Brydeinig yn *Dan Fy Ngwynt*, ac mae yno sôn am yr anghyfiawnder a wnaed â phedwar Guildford ac am oroeswyr y Rhyfel Mawr. Ond erbyn cyhoeddi'r gyfrol honno, roedd Iwan wedi ehangu ei orwelion ymhellach a thrafoda ynddi wleidyddiaeth ryngwladol a digwyddiadau rhyngwladol nodedig fel rhyddhau Nelson Mandela a marwolaeth yr Ymerawdwr Hirohito yn Siapan. Mae modd gweld cynnydd graddol yn ei ymwybyddiaeth o'r byd, ond er iddo daflu'r rhwyd ymhellach gyda phob cyfrol, Cymru yw'r canolbwynt o hyd.

Ar 1 Mawrth 1989, ddegawd union wedi diwrnod y bleidlais dros ddatganoli, ysgrifennodd Iwan 'Mae'r cryman yn cau'. Ail-greu'r teimlad o iselder, fel sydd yn y cerddi a drafodwyd eisoes, a wna drwy gydol y gerdd wrth iddo ddryllio'r delweddau twristaidd o Gymru a gaiff eu taflunio gan y cyfryngau. Unwaith eto, mae effaith Thatcheriaeth i'w gweld yma wrth iddo ddarlunio diwydiant yn darfod wrth i'r pyllau a'r chwareli gau gan adael ôl y

---

<sup>357</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 16.

<sup>358</sup> Iwan Llwyd, 'Congol yr Ysgolion', *Barddas*, 306 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2010), t. 29.

<sup>359</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 29.

'graith las ar groen' y tir.<sup>360</sup> Rhaid wynebu'r ffaith mai 'byrhau / mae anadl cymunedau', ac er y cysylltir hynny â'r clefyd ar ysgyfaint nifer o chwarelwyr a glowyr ar un wedd, ceir awgrym hefyd mai cyfeirio at dranc y cymunedau glofaol Cymreig a wneir mewn gwirionedd. Y tu hwnt i'r tirluniau hardd a'r golygfeydd cerdyn post, rhaid hefyd wynebu'r ffaith fod y Saesneg yn ennill tir dros y Gymraeg: 'mae'r iaith ar wefus yn gwau / ei hestron gystrawennau', ac mae 'hyder ar drai' gan adael Cymru fel 'cragen wag [...] lle bu llafar chwedlau'. Gellir taflu goleuni pellach ar ddelwedd y cragen wag wrth droi at 'Call a ffôl' lle dywed Iwan fod 'llanw'r môr mewn cregyn gweigion'.<sup>361</sup> Chwarae ar y gred fod sŵn y môr i'w glywed yn y cregyn sydd yma, wrth gwrs, ond wrth inni gofio am gymhariaeth gyson Iwan sy'n darlunio ymwelwyr a mewnfudwyr fel llanw'r môr, ceir haen newydd o ystyr i linell seml ar yr olwg gyntaf. Rhestrir yn 'Mae'r cryman yn cau' yr holl wirioneddau digalon sy'n cael eu cuddio'n gyfleus 'dan golur y delweddau', a hwyrach mai cryman i fedi pob arlliw o'r bywyd a'r traddodiadau Cymreig yw'r cryman yn y teitl. Ond er y ffeithiau digalon, mae tro a phendantwydd y diwedd glo yn cynnig her a gobaith i Gymru:

dan golur y delweddau  
mae curiad styfnig calonnau;  
nid awn yn llwfr i'n lleihau.

Yr un effaith a geir yn '11.12.82', gyda throbynt ar ddiwedd cerdd ymddangosiadol ddigalon. Dyma un o gerddi mwyaf adnabyddus Iwan, o bosib, gan iddi ymddangos ar y maes llafur TGAU am flynyddoedd. A hithau'n saith canrif union ers marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd yng Nghilmeri, edrych yn ôl a chofio'r cwmp a wnaeth y dyrfa ger y gofeb ar y diwrnod hwnnw ym mis Rhagfyr 1982. Ond fel sy'n nodweddiadol o waith Iwan, rhaid yw cofio'r gorffennol er mwyn edrych tua'r dyfodol, a sŵn crio baban sy'n arwyddo'r dyfodol yn y gerdd, yn torri ar draws y cofio galarus 'a her canrif newydd yn nychryn ei waedd'.<sup>362</sup> Gyda'r baban daw cenhedlaeth newydd i gofio am ei hanes, i barchu ei diwylliant ac i dderbyn her y Gymraeg. Dyna a geir yn 'Gwreichion' hefyd, gyda genedigaeth Rhys yn dal y gobaith am barhad i'r genedl. Defnyddir yr un syniad eto yn 'Nadolig Caerdydd', lle y gwêl Iwan enedigaeth baban i genhedlaeth newydd o Gymry yn debyg i enedigaeth Iesu ym

---

<sup>360</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 63.

<sup>361</sup> *Ibid.*, t. 69.

<sup>362</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 9.

Methlehem adeg gorchymyn Cesar i gynnal cyfrifiad. Darlunnir y gymdeithas a'r cyfnod y cafodd y ddau blentyn eu geni ynddynt fel cyfnodau digon tebyg. Mae pawb yn rhuthro 'o siop i siop' yn ymhyfrydu mewn materoliaeth a chwsmeryddiaeth, ac mae'n gyfnod lle mae pwys ar ystadegau gwleidyddol:

... i ganol hyn daeth baban,  
i dagfa'r ystadegau  
a chyfraith a chyfrifiad ...

A gyda'r plentyn y daw gobaith i'r genedl gyfan yng nghanol cyfnod digon llwm:

... i fyd yr archfarchnadoedd  
daeth i ninnau yn nhyrfau'r nos  
siawns i gyffwrdd â'r sêr.<sup>363</sup>

Daw i gof, gyda diwedd y gerdd, eiriau'r broffwydoliaeth ynghylch genedigaeth Iesu yn Eiseia 9:2: 'Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau'. Caiff ffydd dynoliaeth ei rhoi mewn un plentyn, a ffydd cenedl ei rhoi yn y llall, a daw goleuni yn sgil y ddau.

Enghraifft arall o gynnu gobaith mewn adeg o dywyllwch a geir yn 'Wedi'r angladd'. Cymharu galar ag ystafell gaeedig a wneir yn y gerdd, ac mae'n rhaid agor y llenni a'r ffenest er mwyn gadael y golau a'r gwynt i olchi'r ystafell yn lân o'r galar, a gyda'r gwynt a'r goleuni, 'dwyn o'i ddyfod / beth o nerth berw'r byd / a'r bywyd newydd sy 'mhob dihoeni'.<sup>364</sup> Ysgrifennwyd 'Wedi'r angladd' ym mis Hydref 1984, ond chwe blynedd yn ddiweddarach, erbyn Nadolig 1990, yn y gerdd 'Ar lwybr y pererinion', sylweddola'r bardd nad hawdd oedd gadael i'r gwynt chwythu'r galar ymaith:

... daethom ar ôl degawd a blwyddyn  
o chwilio'r cefnforoedd am awel,  
yn llynges dan hwyliau benthyg,

---

<sup>363</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 62.

<sup>364</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 35.

Pererinion yw'r Cymry yma sydd wedi bod yn crwydro drwy'r degawd er mwyn cyrraedd y fan lle ceir 'mam a'i phlentyn' a lle mae 'bore newydd' yn aros. Gadawsant gyffordduswydd eu 'Aber Henfelen' wrth iddynt orfod troi cefn ar yr hen Gymru a dod o hyd i ddiffiniadau newydd. Ond nid hawdd oedd hynny 'a'n llwybrau a'n carolau dan gwmwl, / mor anodd eu dilyn â golau seren'. Dilynodd y Cymry'r llwybr niwlog nes cyrraedd y pen arall 'i rannu'n blinder â mam a'i phlentyn'. Dyma'r baban eto yn cynrychioli'r gobaith am Gymru newydd. Gwneir cysylltiad unwaith yn rhagor â hanes geni Iesu, ond cawn ein tywys hefyd at fam a phlentyn arall, sef y fam sy'n llefaru yng ngherddi 'Gwreichion' a'i mab hithau, Rhys.

Crynoir yn 'Gwreichion' yr holl emosiynau a gyflëwyd mewn cerddi a ysgrifennwyd yn ystod y 1980au wrth i'r casgliad ein tywys trwy'r degawd fesul blwyddyn.<sup>366</sup> Merch sy'n llefaru yn y cerddi, a dilyn ei llwybr hi a wnawn wrth iddi genhedlu ei phlentyn a'i fagu mewn gwlad ansicr lle nad oes hunaniaeth bendant i'w throsglwyddo iddo. Tystiwn i gladdedigaeth Cymru fel ag yr oedd hi yn dilyn canlyniad y refferendwm, a gwyliwn y ferch yn profi siom a dadrithiad, yn ogystal â'r sylweddoliad ei bod yn perthyn i genedl 'y gwroldeb eildwym, y genedl sydd ry wâr i arwriaeth,' fel y disgrifia Alan Llwyd y Cymry yn 'Cymru'r Saithdegau'.<sup>367</sup> Er bod y cerddi yn cofnodi cyfnod anodd yn hanes Cymru, cyfnod o dlodi ac o ddygymod â newid, casgliad sy'n amlygu gobaith ac ailenedigaeth yw 'Gwreichion'. Nid llunio'r dyfodol i Gymru a wna Iwan, ond pwysleisio fod dyfodol i'w gael a'n hargyhoeddi nad siom 1979 oedd tranc cenedl y Cymry. Mewn ffordd, cerddi sy'n edrych ymlaen tuag at refferendwm 1997 ydynt, a cherddi sy'n adrodd hanes codi caer newydd ar yr hen sylfeini.<sup>368</sup>

'Cyfarwyddyd Newydd' oedd yr ysgrif gyntaf i Iwan ei chyhoeddi yn *Barddas*, a hynny yn 1985. Ysgrif ydyw sy'n nodi y dylai barddoniaeth y cyfnod symud yn ei blaen gan ddefnyddio delweddau a syniadau cyfoes er mwyn adlewyrchu'r Gymru newydd ôl-79.

---

<sup>365</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 53.

<sup>366</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llandysul, 1990), tt. 37-44.

<sup>367</sup> Alan Llwyd, *Cerddi'r Cyfannu a Cherddi Eraill* (Abertawe, 1980), t. 26.

<sup>368</sup> Ceir trafodaeth lawn ar gerddi 'Gwreichion' ym Mhennod 4.



'Diweithdra yw'r drefn newydd,' meddai, 'sgrîn y cyfrifiadur yw'r beibl; recordiau roc yw'r cyfeiliant mewn gwledd a gŵyl. Ni ellir anwybyddu hyn.' Fe ychwanega wedyn y 'mynnwn ninnau edrych ymlaen i ganu'n llawenydd pan symudir pla diweithdra a chamlywodraeth o wyneb Cymru â llais newydd, hyderus, cyfoes'.<sup>369</sup> Dyna'n union a wnaeth Iwan yn y cerddi a ysgrifennodd wedi iddo ennill coron Cwm Rhymni yn 1990. Bu casgliad 'Gwreichion' yn fath o drobwynt i'w awen; roedd wedi croniclo'r 1980au yn drwyadl yn ei gerddi blaenorol a daeth 'Gwreichion' wedyn yn atalnod llawn ar y degawd, ac yn ddechrau pennod newydd yr un pryd. Nid yw hynny'n golygu iddo roi'r gorau'n gyfan gwbl i ganu'n amlwg wleidyddol chwaith. Mae rhai o gerddi *Dan Fy Ngwynt* yn brawf o hynny, ac er na nodir dyddiad cyfansoddi rhai o'r cerddi a'i bod yn bosib mai yn ystod y 1980au y cawsant eu hysgrifennu, mae'r ffaith i Iwan eu cyhoeddi yn 1992 yn profi eu bod yn gerddi perthnasol i'r degawd newydd.

Cerdd wedi ei rhannu'n ddwy sy'n agor y gyfrol *Dan Fy Ngwynt*, 'Rhwng dau gorwynt', a'r ddau gorwynt y sonnir amdanynt yw Corwynt Charli yn 1986 a Chorwynt Bob yn 1991.<sup>370</sup> Gyda llaw, mae'r diolch a rydd Iwan i'r gyfres deledu 'Twin Peaks' mewn nodyn ar ddiwedd y gerdd yno gan iddo gyplysu cymeriad o'r gyfres, Killer Bob, llofrudd diolwg a'i wallt yn hir a blêr, a Chorwynt Bob sy'n '[d]ymchwel muriau / yn hyll a hirwalltog'. Yn ei hadolygiad ar y gyfrol, dywedodd Non Indeg Evans mai cerdd yw 'Rhwng dau gorwynt' sy'n 'gosod rhyw fath o ffin amseryddol i'r testunau a'r profiadau' a geir yn y gyfrol.<sup>371</sup> Yn ogystal â fframio cerddi'r gyfrol o fewn cyfnod penodol, mae'r gerdd hefyd yn dangos y newid a fu yn agwedd y bardd o fewn y cyfnod hwnnw, ac o bosib yn adlewyrchu'r newid yn agwedd y Cymry. Yn 1986, mae'r bardd yn ymochel rhag y tywydd garw, yn 'ddiogel / dan dy ymbarel di', yn ildio i bŵer y corwynt ac yn cydnabod ei fod yn oddefol, ond erbyn 1991, mae rhyw gythraul wedi ei feddiannu: 'er gwell er gwaeth / mae dy ynni di ynof,' meddai wrth sôn am Gorwynt Bob. Dyma gerdd sy'n gymysg ei dylanwadau ac sy'n enghraifft o'r hyn sydd i ddod yng ngyrfa Iwan fel bardd. Mae ôl Iwerddon yma, a'r rhan gyntaf wedi ei lleoli mewn tref yng Nghorc, Castletownbere; mae ôl America yma; mae sôn am dwannel Conwy ac yna sôn am 'lywodraethau'n colli gafael, / am arlywyddion yn gadael', cyfeiriad, mae'n debyg, at

---

<sup>369</sup> Iwan Llwyd, 'Cyfarwyddyd Newydd', *Barddas*, 99-100 (Gorffennaf/Awst 1985), t. 24.

<sup>370</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, tt. 1-2.

<sup>371</sup> Non Indeg Evans, 'Dim Wedi Newid Dim?', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 105.

ymdrech aelodau o lywodraeth yr Undeb Sofietaidd i ddisodli'r arlywydd ym mis Awst 1991. Gweledigaeth Iwan oedd cysylltu diwylliannau, gadael i ddiwylliannau eraill fwydo'r diwylliant Cymreig a threiddio i ieithwedd y Gymraeg hefyd. Fel y dywedodd tua diwedd y degawd hwnnw, dyma sut yr oedd llunio Cymru apelgar, fodern:

Dyna'r her i Gymru'r ganrif nesaf, y Gymru ôl-gynulliad: creu gweledigaeth newydd lle nad yw'r ffin rhwng dau draddodiad yn rhwyg ond yn hytrach rhyd – yn fan cyfarfod a thrafod, dadlau a chytuno.<sup>372</sup>

Fodd bynnag, ceir cerddi eraill yn *Dan Fy Ngwynt* sy'n dangos na phylodd ymwybyddiaeth Iwan o sefyllfa wleidyddol Cymru ac o sefyllfa'r Gymraeg. Trafodwyd rhai ohonynt eisoes, y cerddi hynny sy'n perthyn yn nes o ran naws a theimlad i gerddi'r 1980au, ond mae ambell gerdd eto i'w thrafod yn y cyd-destun hwnnw. Un o'r rheiny yw'r gerdd drosiadol 'Uwchmynydd', cerdd y mae'n anodd peidio â'i darllen fel cerdd sy'n sôn am dynged Cymru, a hithau ar ymyl y dibyn, mor agos at ei marwolaeth. Ond er syndod i'r bardd, nid yw'r 'tir oddi tanom' wedi disgyn a'n taflu i'r môr er inni ei herio. Uwchmynydd yw'r pentref gorllewinol sydd ar flaen bysedd braich Pen Llŷn; nid oes yno draeth, dim ond creigiau a'r tonnau oddi tanodd yn torri yn eu herbyn. Dyna'r union lun a gawn yn y gerdd:

Erbyn hyn mae'r dibyn yn agos,  
yn nes nag erioed, am wn i,  
ac weithiau mae gwefr mewn sylu'n  
hir i eigion y lli,

a herio'r tir oddi tanom,  
a synnu canfod creigiau o hyd  
sy'n gwrthod yn lân â chwalu  
i'n gollwng dros ymyl y byd;

a'r nerfau ar binau [*sic*] beunydd,  
a phob yn ail gam yn gam yn ôl,  
a thrwy'r adeg y weilgi ddiwaelod  
yn disgwyl ein derbyn i'w chôl.<sup>373</sup>

---

<sup>372</sup> Iwan Llwyd, 'Bwt y Car', *Barddas*, 246 (Mai/Mehefin 1998), t. 13.

<sup>373</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 57.

Os edrychwn ar gerdd olaf y gyfrol, 'Tra byddwn...', gwelwn fod yr un ddelwedd yn cael ei defnyddio wrth sôn am y Gymraeg:

Tra byddwn bydd y Gymraeg yn fargen anodd,  
yn haenen styfnig o'r graig ...<sup>374</sup>

Cerdd ddyfalu yw 'Tra byddwn...', lle cawn ddisgrifiadau byrlymus, un ar ôl y llall, o'r Gymraeg, ac o'r balchder, y wefr, y rhwystredigaeth a'r digalondid sy'n dod yn ei sgil hi. Er mor gyfoethog y caiff ei darlunio yng ngoleuni'r holl drosiadau, mae'r amheuaeth ynghylch parhad yr iaith yn ddwys ac mae'r gerdd yn cloi'n ddigon du wrth inni orfod dibynnu 'ar gymryd drag o'i pharhad hi'.

Ceir yr un dechneg o ddyfalu'r iaith mewn rhan o'r cywydd 'Anadl Llywelyn' a ysgrifennwyd yn 1993 ar ymweliad ag abaty Cwm-hir. Cyfeirio at Glawdd Offa a wneir ar ddechrau'r cywydd, a'r clawdd heb fod yn rhy bell o Gwm-hir. Mae'r gerdd yn sôn am y modd y bu'r clawdd yn gwarchod tir Cymru, ac felly'n gwarchod yr iaith, ac mae'r pennill cyntaf yn crynhoi'r syniad fod hanes, iaith a thir yn un:

Mae'r ffin yn y cyffiniau,  
pridd ei gwytnwch yn parhau  
i serio'i hanes ar wyneb  
erwau ein hiaith, ein tir neb.<sup>375</sup>

Mae'r syniad fod yr iaith yn un â'r tir yn rhywbeth a welwn gan Gerallt Lloyd Owen yn 'Etifeddiaeth' pan ddywed y '[c]awsom iaith, er na cheisiem hi, / oherwydd ei hias oedd yn y pridd eisoes / a'i grym anniddig ar y mynyddoedd'.<sup>376</sup> Mae hefyd yn syniad athronyddol a archwiliwyd gan J. R. Jones yn ei lyfryn *Prydeindod*, lle trafoda 'gydymdreiddiad tir ac iaith'. Barn J. R. Jones oedd mai'r ddwy elfen hyn ymhleth oedd yn ffurfio Pobl, neu genedl yn ystyr ansefydledig y gair:

---

<sup>374</sup> Ibid., t. 74.

<sup>375</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 77.

<sup>376</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cerddi'r Cywilydd*, t. 11.

Y mae i Bobl, meddaf, ddau 'gwllwm ffurfiant'—un allanol, lluniwr undod eu *gofod*, sef y diriogaeth a gyd-drigiannwyd ganddynt dros y cenedlaethau: ac un mewnlol, lluniwr undod eu *hyspryd*, sef eu hiaith: nid yn gymaint fel y mae iddi swydd cyfrwng neu dechneg cyfathrebu ond fel y mae hi'n *draddodiad*, yn etifeddiaeth a gyfoethogir gan gerddediad y canrifoedd—'iaith' yn yr ystyr sydd i'r gair pan ddywedir fod holl orffennol diwylliannol Pobl wedi ei gronni i'w priod iaith.<sup>377</sup>

Caiff 'Anadl Llywelyn' ei thrafod gan Jerry Hunter, lle mae'n rhoi sylw i'r gair 'ffin' yn y pennill cyntaf; noda fod y gair yn awgrymu fod Llanfair-ym-Muallt a'r cyffiniau yn lle sy'n ffin rhwng y gorffennol a'r presennol, rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a rhwng rhyddid a gorthrwm. Ymhelaetha hefyd ar y paradocs a geir yn 'ein tir neb'. Mae'r rhagenw lluosog 'ein' yn priodoli'r tir i'r Cymry, ond wrth ei alw'n dir neb, fe grëir llun o dir diffaith. Fel hyn yr eglura'r cyferbyniad:

This carefully constructed contradiction suggests several things. First of all, echoing the 'no man's land' between the opposing trenches on the First World War battlefields, it describes the Welsh-English border lands in militaristic terms which immediately cast the reader's mind back to the age of the wars which ended with the conquest of Wales. Moreover, *ein tir neb* can be taken as an apt description of modern Wales, a country which is the de facto home of the people of Wales, but which, insofar as it is still a conquered, colonized and subsumed nation, does not belong to its own people. It is their own un-land, their own nobody's land.<sup>378</sup>

Yna daw'r gyfres o gyffelybiaethau yn ymwneud â'r iaith: 'Rwy'n ei dal, ei dyfalu / yn law plwm, yn wely plu,' meddai Iwan. Mae'r gerdd yn pwysu ar 'Cilmeri' Gerallt Lloyd Owen, ac yn arbennig ar 'Fan hyn sy'n anadl inni'.<sup>379</sup> Dweud yr un peth a wna Iwan yng nghwpled cyntaf y pennill hwn:

Isel anadl Llywelyn  
yn fyw i ni yn fan hyn,  
ym Muallt, ein llyw alltud  
fu'n curo, curo cyhyd ...<sup>380</sup>

<sup>377</sup> J. R. Jones, *Prydeindod* (Llandybie, 1966), t. 10.

<sup>378</sup> T. Gerald Hunter, 'The genealogy of the cell angel: contemporary Welsh political poetry', *Comparative Criticism: Literary devolution: writing in Scotland, Ireland, Wales and England*, Vol.19 (Cambridge, 1997), t. 83.

<sup>379</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cerddi'r Cywilydd*, t. 23.

<sup>380</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 78.

Sonia Gwynn ap Gwilym am holl gysylltiadau'r gair 'anadl' wrth drafod y gerdd gan fynd ar drywydd y cysylltiad Beiblaidd. 'Yn yr Hen Destament yr anadl sy'n rhoi bywyd,' meddai, cyn mynd yn ei flaen i ymhelaethu ar y cysylltiad rhwng anadl ac ysbryd yng Ngroeg y Testament Newydd; yr un gair a ddefnyddir am y ddau: 'Yr iaith Gymraeg, felly, yw ysbryd Llywelyn, rhyw ddylanwad o'r tu allan yn gweithio ar ein pobl'.<sup>381</sup> Fe geir mewn cerddi eraill gan Iwan fod anadl yn gyfystyr ag iaith, fel yn y cwpled 'Moelni':

Mae moelni mwy na'r moelni maith,  
moelni cenedl heb anadl iaith.<sup>382</sup>

Eglura Twm Morys ystyr y curo yn ail gwpled y pennill wrth iddo sôn am Iwan yn holi trigolion Llanfair-ym-Muallt 'a wydden nhw'r hanes am Llywelyn ein Llyw Olaf yn curo'n ofer ar byrth y dre cyn mynd yn ei flaen drwy'r eira i Gilmeri'.<sup>383</sup> Yn niwedd y cywydd, gwelwn y wawr yn torri ac yn goleuo'r dwyrain tua Chlawdd Offa sy'n symbol o obaith newydd i'r Gymraeg:

Rhwyga'r wawr drwy'r gororau  
a'r haf o'i hôl yn cryfhau:  
mae'n hiaith yn y meini hyn,  
yn lle olaf Llywelyn.

Defnyddir y tymhorau i gynrychioli'r awyrgylch yng Nghymru mewn cerddi fel 'Eira olaf' a 'Llosgi'r gaeaf' hefyd, a gwelir yr un dechneg eto yn 'Gwreichion'. Mae'n fwy na *pathetic fallacy* y Sais; nid natur yn cydymdeimlo â chenedl sydd yma gan mai tymer y genedl sy'n gyfrifol am oerfel y gaeaf neu wres yr haf. Darlunio'r cyfnod o newid rhwng y gaeaf a'r haf sydd yn 'Llosgi'r gaeaf', a'r hen bethau a berthyn i'r gorffennol, yr 'hen ddail, / hen wair, hen fieri', yn cael eu llosgi un prynhawn Sul.<sup>384</sup> O'u llosgi, daw'r mwg fel atgofion o'r cyfnod tywyll; hyd yn oed wrth roi heibio'r cyfnod hwnnw, amhosib yw ei anghofio'n gyfan gwbl. Cyfleu hynny a wna'r trosiad nesaf yn y gerdd, trosiad diangen o bosib sy'n

<sup>381</sup> Gwynn ap Gwilym, 'Congol yr Ysgolion', *Barddas*, 288 (Mehffin/Gorffennaf 2006), t. 33.

<sup>382</sup> Iwan Llwyd, 'Moelni', *Barddas*, 135-7 (Gorffennaf/Awst/Medi 1988), t. 48.

<sup>383</sup> Twm Morys, 'Felly Iwan: rhai agweddau ar gyfeiriadaeth, delwedd a gair mwys ym marddoniaeth Iwan Llwyd', *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 79.

<sup>384</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 54.

amharu ar y brif ddelwedd, lle caiff yr atgofion eu darlunio fel ‘gwlan budur / ar weiren bigog ein byd’. Daw’r gerdd i ben a’r bardd yn gwylio’r gaeaf yn llosgi ‘a’r haf yn cyrraedd / yn swnllyd a thywodlyd / ar drên yn y pellter’; gellir dehongli hyn fel dechrau cyfnod newydd i Gymru.

Er mai tro’r tymhorau er gwell sydd eto yn ‘Eira olaf’, mae rhyw deimlad o gamu i diriogaeth anghyfarwydd yn y gerdd hon. Ni allwn fod yn sicr ai dyfodiad y gwanwyn sydd ar droed ynteu ai haul llwynog yw haul Ebrill sy’n ‘ein twyllo i dynnu’n dillad / a diosg ein brethyn gaeaf’.<sup>385</sup> Ac wrth i’r haul daenu ei wres dros bob rhan o’r wlad, a chyrraedd y mannau mwyaf anghysbell maes o law, daw ‘holl ormes y gaeaf’ i ben gan adael y wlad mewn hinsawdd anghyfarwydd. Nid yw Iwan yn colli ei gyfle yma i ddirmygu’r ymwelwyr a ddaw dros Glawdd Offa, sy’n manteisio ar y gwanwyn yng Nghymru ond sy’n cyfrannu dim tuag at yr economi leol; fe’u gelwir yn ‘gamelod / hunangynhaliol yn dod / â’u bwyd a’u bydoedd eu hunain / yn garafân hunanol’.

Caiff y thema hon fwy o sylw yn ‘Mae Cymru ar agor’, un o gerddi’r daith Syched am Sycharth (2000). Ymateb i’r don o ymwelwyr di-Gymraeg sy’n manteisio ar Gymru ac sy’n glastwreiddio’r cymunedau Cymreig a wneir yn y gerdd honno. Nid yr ymwelwyr yw’r unig rai i gael eu lambastio ynddi; fe geir hefyd feirniadaeth ar y Cymry eu hunain wrth iddynt gael eu darlunio fel cenedl ufudd ac ymostyngol. Caiff y wlad ei dibrisio a’i defnyddio dros dro gan yr ymwelwyr, ‘yn sws fach sydyn / yng nghlwb nos rhywun-rhywun’. Ac ar ôl rhestru’n feirniadol ac yn eironig sut y mae ‘Cymru ar agor’ i’r holl ymwelwyr a beirniadu taeogrwydd y Cymry, daw’r geiriau olaf fel gordd, a chanlyniadau’r sefyllfa yn realiti digalon:

mae Cymru ar agor  
am fod y capeli a’r tafarnau bach gwledig,  
y chwareli a’r pyllau  
a’r tyddynnod yn y bryniau,  
y trydan a’r tafodau,  
y straeon celwydd golau,  
y prynhawniau chwil a’r chwedlau,  
y dofednod a’r defodau,

---

<sup>385</sup> Ibid., t. 53.

a roc a rôl y bandiau,  
a phob lân o Fôn i Rwla,  
a 'nghalon dywyll innau  
i gyd ar gau:

ond mae Cymru ar agor.<sup>386</sup>

Nid traw negyddol fel hyn sydd i bob cerdd wleidyddol chwaith, a buddugoliaeth refferendwm 1997 ar y trothwy. Ceir ambell gerdd arall a berthyn i'r 1990au sy'n meithrin yr hyder newydd a ddaeth gyda thudalen lân y degawd. Fis Medi 1991, cyfansoddodd Iwan 'Diffinio', cerdd sy'n arddangos y newid a oedd ar droed yng Nghymru. Rhestr o bethau y gellir eu gwneud er mwyn diffinio Cymru ar ei newydd wedd sydd ynddi. Dywed mai diffinio Cymru 'ydi rhoi enw / i'r hyn ydan ni: crafangu am y gair iawn, / am ystyr yng nghanol y Big Macs a'r Walkmans'.<sup>387</sup> Camp Iwan yw dod o hyd i le Cymru yng nghanol y byd masnachol, cyfalafol, ac fe wna hynny dro ar ôl tro mewn cerddi fel 'Safeways',<sup>388</sup> 'Dan ddylanwad'<sup>389</sup> ac 'Ar ddarllen Brecht yn y bog'.<sup>390</sup> Yr hyn a wna mewn gwirionedd yw trafod y byd datblygedig yn llwyddiannus yn Gymraeg. Mae'n amhosib byw gan anwybyddu'r byd o'n cwmpas, a rhaid yw cofleidio 'the widespread sense that not only is capitalism the only viable political and economic system, but also that it is now impossible even to *imagine* a coherent alternative to it,' fel y dywed Mark Fisher.<sup>391</sup> Cyd-fyw â'r ehangder cyfalafol mae'r diwylliant lleiafrifol Cymreig; nid ydynt yn ddau beth ar wahân gan Iwan. Yn ogystal â'n diffinio ein hunain trwy ganfod ein lle yn y byd, gallwn hefyd ein diffinio ein hunain drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn ein bywyd bob dydd a thrwy ei defnyddio'n greadigol: drwy '[I]unio cerdd, / cythru hen draddodiad a'i ddadberfeddu'.<sup>392</sup> Dyma gyfle o newydd i fowldio'r genedl, ei diffinio o'r newydd, ac mae posibiliadau cyffrous ynghylch eu hunaniaeth yn wynebu'r Cymry ar adeg dyngedfennol.

---

<sup>386</sup> Iwan Llwyd et al., *Syched am Sycharth* (Llanrwst, 2001), tt. 97, 97-8.

<sup>387</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 7.

<sup>388</sup> *Ibid.*, tt. 42-5.

<sup>389</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 14-15.

<sup>390</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 163-4.

<sup>391</sup> Mark Fisher, *Capitalist Realism* (Ropley, 2009), t. 2.

<sup>392</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 7.

Hwyrach mai syndod i rai yw i Iwan ymatal rhag barddoni'n uniongyrchol am refferendwm 1997 a'r canlyniad cadarnhaol. Tra oedd beirdd eraill yn cofnodi ac yn dathlu'r digwyddiad yn bendant, Ifor ap Glyn yn 'Rantio dros Ryddid', Myrddin ap Dafydd a'i gerdd 'Pam?', 'Dydd Iau, Medi 18, 1997' gan Tudur Dylan Jones, 'Glaw' Huw Meirion Edwards, 'Y Maen' Alan Llwyd,<sup>393</sup> ac ail ddilyniant T. James Jones a Jon Dressel, *Wyneb yn Wyneb*,<sup>394</sup> ni chyhoeddodd Iwan un gerdd heb sôn am gasgliad i nodi'r achlysur ar y pryd. 'Y daith' yw'r gerdd fwyaf uniongyrchol i sôn am ganlyniad y refferendwm, ond ni chyfansoddwyd hi tan fis Tachwedd 1998. Dyma gerdd sy'n edrych yn ôl ar y siwrnai anodd a arweiniodd at refferendwm 1997, ond, yn bwysicach, sy'n edrych ymlaen tuag at lwybr y dyfodol hefyd. Disgrifiodd Llion Jones hi fel 'cerdd stoicaidd ei natur i nodi'r groesffordd honno ar ei fap personol'.<sup>395</sup> Ynndi, mae sôn am y frwydr i gyrraedd y groesffordd ac am agwedd y 49.7% a bleidleisiodd yn erbyn datganoli am na wyddent sut Gymru fyddai Cymru ddatganoledig. Nid oeddent am fentro i dir anghyfarwydd datganoledig:

... doedd rhai o'r lleill ddim am fentro,  
doedd y mapiau ddim digon da,  
y lonydd yn llychlyd a garw,  
ac arwyddion diarth yn arwain  
y tu hwnt i'r allt ...<sup>396</sup>

Dyma'r Cymry a oedd yn fwy cyfforddus ar dir cyfarwydd ac a oedd yn fodlon eu byd yn hel atgofion ac yn ailgylchu'r un hen draddodiadau gwledig, 'a'r lleisiau a'r ystrydebau treuliedig / mor gartrefol â bara brith / a phaned te nain'. Rai misoedd cyn ysgrifennu'r gerdd, disgrifiodd Iwan y duedd hon i bwysu ar y syniadau cyfarwydd a'r delweddau cyfforddus fel 'clustog rhag brathiad oer y gymdeithas gyfoes'.<sup>397</sup> Yna mae'n sôn am weddill y Cymry a bleidleisiodd o blaid datganoli, ac yn fwy penodol am y Cymry a brofodd chwerwder canlyniad y refferendwm blaenorol ac a deithiodd drwy ddiffeithwch a thrwy ddrain y 1980au er mwyn cyrraedd y fan:

---

<sup>393</sup> Hywel Griffiths (gol.), *Byw Brwydr: Detholiad o ganu gwleidyddol 1979-2013*, tt. 65-7, 68, 69-70, 71, 72-4.

<sup>394</sup> Jon Dressel a T. James Jones, *Wyneb yn Wyneb* (Llandysul, 1997).

<sup>395</sup> Llion Jones, 'O Dir Neb i'r Tir Cyffredin', *Awen Iwan*, t. 189.

<sup>396</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 160.

<sup>397</sup> Iwan Llwyd, 'Bwt y Car', t. 13.



... ond fe ddaeth rhai ohonom o le pell,  
lle tywyll a'r goleuadau'n pylu,  
trwy groen ein dannedd  
fe ddaethom ni oddi yno'n gyfan,  
fel bwganod brain:

ac efallai ein bod ni wedi newid:  
mae ôl llwch y daith ar ein dillad,  
mae'r sgwrs yn wahanol,  
yn llawn chwerthin annisgwyl  
a siarad plaen:

achos ni fuom ni yma o'r blaen,  
ac mae hynny ynddo'i hun  
yn destun llawenydd:  
medrwn gychwyn o'r fan hyn,  
mae 'na ffordd ymlaen.<sup>398</sup>

Fel y dywed llinell gyntaf y gerdd, 'Nid yw diwedd y daith ond ei dechrau', a dechrau'r daith oedd canlyniad refferendwm 1997, ac efallai mai dyna pam na chanodd Iwan fwy o gerddi i nodi'r garreg filltir. Roedd eisoes wedi symud yn ei flaen ers refferendwm 1979 a digalondid y 1980au: roedd wedi dweud ei ddweud am y sefyllfa, ac roedd Cymru wedi dechrau cael ei haildiffinio yn barod. Cadarnhaodd canlyniad refferendwm 1997 mai symud tuag at y diffiniad newydd hwnnw oedd Cymru, yn sefydliadol yn ogystal ag yn greadigol. Roedd Iwan yn hyderus fod pleidlais 1997 yn mynd i fod yn un gadarnhaol, ac er ei bod yn hawdd weithiau ganolbwyntio ar yr ochr dywyll i gerddi Iwan yn y 1980au, roedd ei olwg yn sicr tuag ymlaen, fel y mynna Myrddin ap Dafydd:

... mae'n gamgymeriad darlunio Iwan fel 'bardd dadrithiad 1979'. Mewn gwirionedd, mae llawer o'i gerddi yn yr 1980au yn rhag-weld pleidlais 'le' 1997, hyd yn oed cyn bod dyddiad wedi'i roi ar gyfer honno. Bardd Refferendwm 1997, nid Bardd Refferendwm 1979 oedd o – mi ddywedodd wrthyf i un tro: 'Mae o'n mynd i ddigwydd 'sdi! 'Dan ni'n mynd i weld Cymru'n rhydd yn ystod ein hoes ni!'<sup>399</sup>

---

<sup>398</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 161.

<sup>399</sup> Myrddin ap Dafydd, "'Un frân o ddifri o hyd'", *Awen Iwan*, t. 129.

Fel sy'n amlwg yn nhrefodaeth y bennod hon, roedd sefyllfa wleidyddol Cymru yn dal i ennyn sylw'r bardd wedi i 'Gwreichion' weld golau dydd, ond prinhaus a wnaeth ei sylwebaeth ar y pwnc. Gyda'r 1990au y daeth newid i awen Iwan; yr hyn a welir ganddo yn ei gerddi diweddarach yw iddo gofleidio'r weledigaeth a oedd ganddo yn 'Gwreichion'. Symbylodd genedigaeth Rhys ddyfodiad cenhedlaeth newydd a hyder newydd yn ei sgil. Wedi'r cyfan, os oedd meithrin cenhedlaeth newydd wedi bod yn bosib mewn cyfnod mor anodd, roedd lle i fod yn hyderus ynghylch ffyniant Cymreictod a'r Gymraeg yn y dyfodol. Symud ymlaen oedd nod Iwan, a byw'r cyfnod newydd hwn; byw yn hytrach na brwydro'n barhaus, a bod yn fodlon ei fod o'r diwedd yn gyfforddus yn ei groen ei hun. Gyda gwawr newydd yn torri dros Gymru, roedd hi'n bosib iddo roi heibio sylwebaeth wleidyddol ddwys, ac ymhyfrydu yn ei brofiadau fel unigolyn yn hytrach nag ymrwymo i'w ddyletswydd fel Cymro Cymraeg, er ei bod yn anochel i'w hunaniaeth Gymreig liwio ei olwg ar bethau. Cofiw'n unwaith yn rhagor, iddo bwysleisio: 'Nid wyneb lleiafrifol mo hwn. / Fy wyneb i ydi o'.<sup>400</sup> Yn yr un modd, trodd i ysgrifennu am ei brofiadau fel Cymro yn niwedd yr ugeinfed ganrif, ac mae'r ddwy agwedd hyn i'w gweld yn ei bedwaredd gyfrol, *Dan Ddylanwad*. Wrth iddo neilltuo dwy adran ynddi ar gyfer Cerddi America a Cherddi Canada, cawn ynddynt olwg unigolyn, sy'n digwydd bod yn Gymro, ar y ddwy wlad. Cymro sy'n gweld yr enwau Cymraeg Bala Cynwyd, Bryn Mawr a Phenllyn yn Philadelphia, a Chymreictod y bardd sy'n gwneud y cysylltiad rhwng y canwr yn Nashville a Dafydd Iwan a rhwng un o arweinwyr y llwythau brodorol, Sitting Bull, a Llywelyn ein Llyw Olaf. Cyfoethogi ei olwg ar bethau a wna'r cysylltiadau hyn a'i gynorthwyo i wneud synnwyr o wledydd anghyfarwydd. Nid yw'n pwysu'n ormodol ar y cysylltiadau Cymreig yn ei gerddi taith. Pan ddaw'n ei ôl i Gymru, caiff y wlad ei darlunio fel ag y mae hi; mae lle yn yr adran 'Cerddi Cymru' i dirluniau, i ddatblygiad y melinau gwynt, i'r ffair, ac i farwolaeth babi yn y Rhyl. Nid oes yma guddio gwirioneddau caled y byd go iawn tu ôl i wrthryfela ac ymgyrchu bellach.

Yn ystod y 1980au y gwelsom fynegiant gwleidyddol Iwan ar ei daeraf, a dyma ni'n ôl at sylw Wiliam Owen Roberts mai 'cynnyrch cymdeithasol yw barddoniaeth' sydd i fod i adlewyrchu'r cyfnod sydd ohoni.<sup>401</sup> Os cyfnod o chwerwder, o ddiffyg hyder ac o iselder, a chyfnod o deimlo pwysau'n gwasgu o du Lloegr oedd y 1980au, yna dyna y mae Iwan yn ei

---

<sup>400</sup> Iwan Llwyd, 'lawn, gei di ofyn cwestiwn personol', *Dan Ddylanwad*, t. 49.

<sup>401</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 3

gofnodi ac yn ei ddarlunio. Ac er bod trobwynt yn agwedd y Cymry i'w weld gyda dyfodiad y 1990au, ni ddigwyddodd y newid dros nos wrth reswm, a dyna a adlewyrchir hefyd ym marddoniaeth Iwan – rhyw gyfnod o limbo, o hyder a diffyg hyder am yn ail. Bron nad yw'r cyfnod yn bair lle mae tensiynau'r gorffennol a her y dyfodol yn adweithio i greu rhywbeth newydd yn y pen draw. Yn y Gymru newydd hon gwelwn gau'r drws, heb ei gloi, ar sylwebaeth benodol wleidyddol yng ngherddi'r bardd, ac agor drws arall sy'n arwain at weddill gyrfa farddol liwgar Iwan Llwyd.

## IV

### 'A chenais dy enw, Rhys ...'

#### Cerddi 'Gwreichion', eu cefndir a'u cyd-destun

Wedi degawd o gerddi eisteddfodol angladdol a digalon eu naws, croesawyd yn wresog awdl Myrddin ap Dafydd a chasgliad Iwan Llwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni 1990. Ymwrthododd y ddau â nodyn lleddf y canu blaenrol, gan gyflwyno degawd gobeithiol newydd. Tipyn o beth oedd gweld dau gymharol ifanc yn cipio'r ddwy brif wobr, 'y ddau brifardd mwyaf poblogaidd a gofiau i erioed,' yng ngeiriau Llion Jones.<sup>402</sup> Roedd hynny ynddo'i hun, mae'n debyg, yn brawf nad oedd y diwylliant Cymraeg a hyder y genedl yn y bedd eto. Trwy gyd-ddigwyddiad, digon tebyg yw ymdriniaeth y ddau fardd â'u testunau, a'r ddau yn defnyddio geni plentyn fel symbol o obaith ac o barhad cenedl. Mae'r ddau hefyd yn cydnabod y profedigaethau a ddaeth i'w rhan cyn i'r gobaith oleuo naws y cerddi, a Myrddin ap Dafydd yn crisialu'r siomedigaeth o fethu cenhedlu plentyn neu o brofi marwolaeth baban yn y groth o bosib, ac felly'r methiant i sicrhau parhad ei linach:

Mae pyllau galar yn afon cariad  
A nosau duon i ddawns dyhead,  
Yn yr oriau llawen, oera'r lleuad  
A daw i draethau drai ein dadrithiad;  
Weithiau daw'r angau i'r had, – daw dagrau,  
Daw dawn i gau'n gofidiau dan gaead.<sup>403</sup>

Tebygrwydd arall rhyngddynt yw defnydd Myrddin ap Dafydd o'r ffugenw 'Rhys Bach', a defnydd Iwan yntau o'r enw Rhys ar y plentyn yn ei gasgliad o gerddi. Mae i'r enw Rhys ei arwyddocâd, wrth gwrs, gan mai yn enw Rhys Gethin y cyhoeddid datganiadau Meibion Glyndŵr. Ond wrth i Iwan gydnabod mai cerddi wedi eu hysgrifennu yn gwbl annibynnol ar ei gilydd ac ar wahanol adegau yn ystod y degawd yw cynnwys 'Gwreichion', fe noda hefyd mai mab i ffrindiau iddo oedd Rhys yn y lle cyntaf. Ysgrifennodd y gerdd 'Tân Gwyllt' i

---

<sup>402</sup> Llion Jones, 'Llion Jones yn Trafod Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni', *Barddas*, 161 (Medi 1990), t. 23.

<sup>403</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Gwythiennau', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llandysul, 1990), t. 16.

gyfarch y plentyn ar ei ben-blwydd yn bedair oed tra oedd ef ei hun yn dathlu'r deg ar hugain, a daeth Rhys, maes o law, i gynrychioli cenhedlaeth newydd a fyddai'n gwrthsefyll effeithiau Thatcheriaeth y 1980au.<sup>404</sup>

Casgliad o dair cerdd ar ddeg sydd yma. Wedi eu fframio gan brolog ac epillog caiff un ar ddeg o olygfeydd eu gosod mewn cyfnodau penodol, y gyntaf wedi ei gosod ym mis Mawrth 1979, mis y refferendwm wrth gwrs, a'r cerddi dilynol yn neidio ymlaen flwyddyn a mis bob tro nes cyrraedd Calan 1989. Disgrifiodd Iwan y cerddi fel 'snapshots' o adegau arbennig yn ystod y 1980au,<sup>405</sup> a thrwy nodi rhif yr olygfa uwchben pob cerdd, crëir naws ffilmig i'r casgliad, a'r darlennydd yn gorfod dygymod â neidio o un olygfa i'r llall, o le i le ac o flwyddyn i flwyddyn. Fel nifer o gerddi gorau Iwan, nid casgliad sy'n cynnig eglurhad ar blât mo 'Gwreichion'; aeth Alan Llwyd, un o feirniaid y Goron, mor bell â dweud y 'byddai llawer o feirniaid diamynedd wedi ei thaflu ar ei phen i'r trydydd dosbarth'.<sup>406</sup> Ond a phrofi nad un o'r beirniaid diamynedd hynny mohono, aeth ati i gynnig dehongliad trylwyr o'r casgliad yn ei feirniadaeth er mwyn goleuo darllenwyr y *Cyfansoddiadau*. Ymhelaethodd ar ei drafodaeth ar gasgliad buddugol Tjuringa, ffugenw Iwan, yn ei golofn olygyddol yn *Barddas*.<sup>407</sup> Ond ymateb y darlennydd unigol oedd yn bwysig i Iwan, fodd bynnag:

O bosib mae rhai o'r cerddi yn rhy gynnil, a dyna pam eu bod yn ddyrys ar yr olwg gyntaf. Ond mae'n llawer gwell gen i waith sy'n gadael i ddychymyg y darlennydd ymateb yn greadigol i'r delweddau a gynigir, na cherddi nad ydynt yn gadael dim i'r dychymyg. Os yw cerdd yn llwyddo i greu'r awyrgylch sy'n caniatáu i'r dychymyg ymateb, yna mae'n gerdd effeithiol.<sup>408</sup>

Ni ryddhaodd Iwan gerddi 'Gwreichion' heb yr un allwedd chwaith, ac mae dyfyniad Bruce Chatwin o'r gyfrol *The Songlines* yn rhagnodyn i lacio'r clo ar ystyron y cerddi, hyd yn oed os nad yw'n ddigon i ddatgloi'r farddoniaeth yn llwyr. Rhaid amgyffred rhywfaint o gynnwys y gyfrol honno, sy'n ymwneud â chwedloniaeth Aboriginaliaid Awstralia, er mwyn deall arwyddocâd y fytholeg gymhleth hon yng ngherddi Iwan.

---

<sup>404</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', *Barddas*, 161 (Medi 1990), t. 8

<sup>405</sup> Ibid.

<sup>406</sup> Beirniadaeth Alan Llwyd ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cwm Rhymni 1990*, t. 34.

<sup>407</sup> Alan Llwyd, 'Golygyddol', *Barddas*, 162 (Hydref 1990), tt. 6-8.

<sup>408</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 9.

Cyfrol sy'n sôn am anturiaeth Chatwin i Awstralia ac i ddyfnderoedd diwylliant yr Aboriginaliaid yw *The Songlines*, lle mae'n ymchwilio i chwedloniaeth gyfriniol y brodorion ac yn ymchwilio'n benodol i'r 'songlines' sy'n gweu patrwm dros y ddaear. Olion hanes y creu, neu fytholeg y creu yn hytrach, yw'r 'songlines' hyn: llinellau haniaethol o alawon a adawyd gan yr hynafiaid pan droediasant y ddaear gan roi bodolaeth i bopeth drwy ei enwi ar gân:

The Ancients sang their way all over the world. They sang the rivers and ranges, salt-pans and sand dunes. They hunted, ate, made love, danced, killed: wherever their tracks led they left a trail of music.<sup>409</sup>

Credir bod yr hynafiaid hyn oll yn cynrychioli gwahanol rywogaethau, ac ar fore'r dydd cyntaf pan ffrwydrodd yr haul o berfeddion y ddaear y daeth yr hynafiaid allan o'u cuddfannau a rhoi genedigaeth i'r rhywogaeth yr oedden nhw'n ei chynrychioli. Wedi'r enedigaeth y daeth y weithred gyfriniol o ddatgan 'I AM!', a ddyfynnir yn y rhagnodyn i 'Gwreichion'. Aeth yr hynafiaid yn eu blaenau i enwi elfennau eraill gyda phob cam ymlaen: 'calling to right and left, calling all things into being and weaving their names into verses'.<sup>410</sup> Digwyddodd y creu, neu'r broses o roi bodolaeth i rywbeth trwy roi enw arno, mewn cyfnod neu gyflwr a elwir y 'Dreamtime'. Y 'Dreamtime' yw fersiwn yr Aboriginaliaid o benodau cyntaf Genesis, yn ôl Chatwin, ond bod un gwahaniaeth sylfaenol rhwng y ddau:

In Genesis, God first created the 'living things' and then fashioned Father Adam from clay. Here in Australia, the Ancestors created themselves from clay, hundreds and thousands of them, one for each totemic species.<sup>411</sup>

Ond mae rhyw debygrwydd rhwng y ddau draddodiad hefyd o gofio geiriau Ioan 1:1: 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair'.

Un peth arall i'w nodi yw bod gan bob Aboriginaliad ei hynafiad ei hun y mae'n perthyn i'w linach. Rhaid yw i ferch feichiog nodi'r union fan lle mae hi'n sefyll pan deimla ei

---

<sup>409</sup> Bruce Chatwin, *The Songlines* (London, 1987), t. 73.

<sup>410</sup> Ibid.

<sup>411</sup> Ibid., t. 12.

babi'n cicio y tu mewn iddi am y tro cyntaf, a rhaid yw dod i wybod wedyn ar lwybr pa hynafiad yr oedd hi pan ddigwyddodd hynny. Dyma fan cenedlu'r plentyn, yn yr ystyr o'i genhedlu i linach ei hynafiad, a gall y plentyn hwnnw ei gysylltu ei hun wedyn gydol ei oes â rhywogaeth yr hynafiad y perthyn iddo:

'So when an Aboriginal tells you, "I have a Wallaby Dreaming," he means, "My totem is Wallaby. I am a member of the Wallaby Clan."' <sup>412</sup>

Mae'r syniad o greu a rhoi bodolaeth i rywbeth trwy ddatgan geiriau yn ganolog i gasgliad Iwan. Ar ddiwedd degawd digon du yn hanes gwleidyddiaeth y wlad, canu Cymru newydd i fodolaeth yw diben y cerddi hyn gan ' greu chwedl ar gyfer yr wythdegau' er mwyn i'r Cymry bwysu arni a theimlo eu bod yn perthyn i draddodiad cyfoes a pherthnasol. <sup>413</sup> Fel y dywed Chatwin, 'By singing the world into existence [...] the Ancestors had been poets in the original sense of *poesis*, meaning "creation"'. <sup>414</sup> Yn driw i'r traddodiad hwnnw, felly, dyma'r bardd Cymraeg yn mynd ati i ddatgan ei greadigaeth, i ddychmygu Cymru newydd a llunio seice ei genedl o newydd. Gall fod Iwan, felly, wedi ysgrifennu 'Gwreichion' gan ddilyn traddodiad yr hynafiaid, yn rhoi bodolaeth i wlad newydd drwy farddoniaeth, ond gall hefyd fod wedi ysgrifennu'r casgliad gan ddilyn arweiniad Chatwin a ysgrifennodd y nofel hanner ffuglen, hanner ffeithiol, *The Songlines*.

Nofel ar y ffin rhwng dychymyg a gwleidyddiaeth yw *The Songlines*; yn wir, caiff ei beirniadu gan sawl un am beidio ag adlewyrchu'n gywir fywyd yr Aboriginaliaid, er bod nifer yn rhoi i'r nofel ryw awdurdod gan mai Chatwin a'i hysgrifennodd. Caiff ei defnyddio gan rai fel cyfrol wleidyddol, ffeithiol, er mai ffuglen ydyw. <sup>415</sup> Yn yr un modd ag yr ysgrifennodd Chatwin *The Songlines*, aeth Iwan ati i ysgrifennu 'Gwreichion', llenyddiaeth wedi ei hysgrifennu mewn 'hinsawdd Ôl-fodernaidd', <sup>416</sup> chwedl Wiliam Owen Roberts ac sydd ar y ffin rhwng gwleidyddiaeth a'r dychymyg. Creadigaeth dychymyg Iwan yw'r Gymru yn 'Gwreichion', ac mae'n bropaganda ganddo ar gyfer cyfnod penodol yng Nghymru. Mae'r

---

<sup>412</sup> Ibid.

<sup>413</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 8.

<sup>414</sup> Bruce Chatwin, *The Songlines*, t. 14.

<sup>415</sup> Robert Clarke, 'Star traveller: celebrity, Aboriginality and Bruce Chatwin's *The Songlines* (1987)', *Postcolonial Studies*, Vol.12, No.2 (June 2009), tt. 229-46.

<sup>416</sup> Wiliam Owen Roberts, "'Gwreichion" Iwan Llwyd', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 26.

Gymru a ddarlunnir gan Iwan yn un hawdd uniaethu â hi ar gychwyn y casgliad ac adladd y refferendwm yn pwyso'n drwm, a dyna'r darllenwr wedi ei argyhoeddi felly o'r cychwyn mai adlewyrchu realiti a wna'r cerddi; mae wedi llyncu'r propaganda. Ond mewn gwirionedd, mae'r cerddi'n tywys y darllenwr at obaith newydd, ac wrth iddo barhau i gredu bod Iwan yn adlewyrchu'r Gymru go iawn, mae hefyd yn credu yn y wawr newydd. Ar un olwg, propaganda gwleidyddol yw 'Gwreichion', felly, a luniwyd er mwyn llywio agweddau'r Cymry ac ail-greu Cymru o newydd ar adeg pan oedd angen arweiniad ar y genedl. Cynigodd Iwan rywfaint o arweiniad, a dewisodd y Cymry dderbyn parhad eu cenedl a llunio diffiniad newydd o Gymru. Nid peth newydd oedd dychmygu diffiniad creadigol i Gymru chwaith, fel y dywed Gwyn Alf Williams, a sefyll yn olyniaeth y traddodiad hwnnw a wnaeth Iwan:

Wales has always been now. The Welsh as a people have lived by making and remaking themselves in generation after generation, usually against the odds, usually within a British context. Wales is an artefact which the Welsh produce. If they want to. It requires an act of choice.<sup>417</sup>

Creadigaeth pobl yw cenedl yn ôl rhai damcaniaethwyr ôl-drefedigaethol; hynny yw, nid yw'n rhywbeth cynhenid. Caiff y syniad o genedl ei ddiffinio gan Benedict Anderson fel 'an imagined political community',<sup>418</sup> sef yr union beth a geir yn 'Gwreichion'. Os derbynnir bod y Cymry wedi mabwysiadu'r agweddau a'r gobaith sydd yn 'Gwreichion', yna dyna brofi fod cenedl yn beth hylifol, fod modd dylanwadu arni a newid ei ffurf i gyfateb â'r genedl ddychmygol. Un elfen nodedig sy'n gymorth i ddiffinio cenedl a'i gwahaniaethu oddi wrth genhedloedd eraill yw iaith, ac fel y gwelwn yn 'Gwreichion', yn gyffelyb i *The Songlines*, iaith a geiriau sy'n esgor ar greadigaeth. Geiriau'r hynafiaid a greodd y byd o'u cwmpas, a geiriau Iwan a greodd gerddi 'Gwreichion' ac a ddatganodd enw 'Rhys' er mwyn rhoi bodolaeth i genhedlaeth newydd. Pwysleisir pwysigrwydd iaith i hunaniaeth cenedl gan Ngŷgĩ wa Thiong'o:

---

<sup>417</sup> Gwyn A. Williams, *When Was Wales?* (London, 1985), t. 304.

<sup>418</sup> Benedict Anderson, *Imagined Communities*, Unfed argraffiad ar ddeg (London, 2002), t. 6.



Language carries culture, and culture carries, particularly through orature and literature, the entire body of values by which we come to perceive ourselves and our place in the world.<sup>419</sup>

Â Emyr Humphreys gam ymhellach gan fanylu ar y traddodiad barddol Cymraeg fel y diwylliant y cyfeiria Ngŭgĩ wa Thiong’o ato, ond mae hefyd yn dadlau mai’r diwylliant sy’n cryfhau’r iaith yn achos y Gymraeg. Eglura fod i farddoniaeth Gymraeg yn benodol rym fel cyfrwng sy’n gallu dylanwadu ar seice’r genedl:

... it is in the Welsh experience that we can see most clearly how a poetic tradition can inject into a native language an authority and power that is sufficient to breathe forms of life into the national being even when independent military and political power have long withered away.<sup>420</sup>

Fel yr awgryma Ngŭgĩ wa Thiong’o ac Emyr Humphreys, creadigrwydd sydd wrth wraidd hunaniaeth genedlaethol, ac mae’r bod creadigol yn hollbresennol yn ‘Gwreichion’. Mae’r bardd ei hun yn fod creadigol sy’n cynhyrchu’r farddoniaeth, ac mae’r ferch sy’n llefaru yn y cerddi hefyd yn greadigol drwy genhedlu a rhoi genedigaeth i’w mab, Rhys. Mae’n gysyniad sy’n ymddangos ar wedd wahanol eto yn y Prolog a’r Epilog wrth i Iwan gyflwyno safbwynt y trydydd person sy’n cyfeirio at y bod creadigol annelwig. Sonia iddo ysgrifennu’r epillog, ‘Y Gân Olaf’, yn wreiddiol fel teyrnged i Bruce Chatwin,<sup>421</sup> a chred Alan Llwyd mai Chatwin sydd dan sylw yn ‘Y Gân Gyntaf’ hefyd, fel y noda yn ei feirniadaeth.<sup>422</sup>

Mae awgrym Alan Llwyd yn sicr yn dal dŵr, ac yntau’n egluro’r salwch y bu Chatwin yn ei ddioddef cyn ei farwolaeth yn 48 oed. Gwadau Chatwin ei fod yn dioddef o HIV, a mynnai mai afiechyd prin ar fêr ei esgryn oedd arno a bod hynny’n cyfyngu ar symudiadau ei gorff: ‘Ni fedrai gyfansoddi ar sgrîn a’i fysedd clonciog / yn hercian o sill i sill,’ fel y dywed Iwan yn y Prolog.<sup>423</sup> Er nad cerddi uniongyrchol am Bruce Chatwin mo’r Prolog na’r Epilog o

---

<sup>419</sup> Ngŭgĩ wa Thiong’o, *Decolonising the Mind: The Politics of Language in African Literature* (London, 1986), t. 16.

<sup>420</sup> Emyr Humphreys, *The Taliesin Tradition*, Trydydd argraffiad (Bridgend, 2000), t. 2.

<sup>421</sup> Iwan Llwyd, ‘Barddas yn Holi Iwan Llwyd’, t. 8.

<sup>422</sup> Beirniadaeth Alan Llwyd ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990*, t. 35.

<sup>423</sup> Iwan Llwyd, ‘Gwreichion’, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990*, t. 37.

reidrwydd yn eu ffurfiau terfynol yn y casgliad, gellid ystyried y teithiwr a'r awdur poblogaidd yn ymgawdoliad o'r bod creadigol sy'n torri yn ei henaint cynnar. Cerdd yw 'Y Gân Gyntaf' sy'n delweddu dirywiad creadigrwydd. Credai Iwan fod cynnal creadigrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad y Gymraeg. Dyna pam y gwêl fod ymweld ag ysgolion a chynnal gweithdai barddoniaeth yn Gymraeg yn rhan hollbwysig o'i swyddogaeth fel bardd:

Yn fy marn i mae iaith yn fyw cyn belled â'i bod yn medru cynnal dychymyg a chreadigrwydd, gan amsugno dylanwadau a geiriau newydd neu ddiarth i gyfoethogi'r iaith gynhenid.<sup>424</sup>

Yn debyg i 'Mae'r cryman yn cau'<sup>425</sup> ac '11.12.82',<sup>426</sup> cerdd ddiobaith yw 'Y Gân Gyntaf' ar yr wyneb, cyn y daw'r tro yn y gynffon. Wrth i'r bod creadigol ddiffygio, mae ei obeithion, ei ddelfrydau a phosibiliadau ei greadigrwydd yn gwywo hefyd, ac yn ei henaint mae'n myfyrio ar y gweledigaethau na fydd modd eu gwireddu bellach, ac yntau ar ei wely angau:

... yr oedd dydd pryd y gwelai glai'r dyfodol  
yn ei ddwylo llaith i'w fowldio a'i fwydo,  
ei danio a'i dylino ar ddelw rhyw ddinas ddihalog ...

Mae'n methu creu neu ddychmygu gobaith newydd ar gyfer y dyfodol, yn methu cynnig tudalen lân neu gyfnod newydd i'r genedl. Yn un o sonedau crefyddol cynharaf Iwan o'i gyfnod yn y chweched dosbarth, defnyddiodd ddelwedd Feiblaidd wrth sôn am ddynion fel clai yn nwylo Duw ac am ei 'rym angerddol creadigol Ef'.<sup>427</sup> Efallai fod rhywfaint o ôl y ddelwedd, a ddaw un ai o Jeremeia 18 neu o Eiseia 64, yma. Wrth ddarllen y bennod yn Eiseia ar ei hyd, a chanfod sôn am 'ddinasoedd sanctaidd yn anialwch; y mae Seion yn anialwch a Jerwsalem yn anghyfannedd', tybed a ddylanwadodd y llun dramatig hwnnw ar weledigaeth gyferbyniol y bod creadigol yng ngherdd Iwan o'r 'ddinas ddihalog'? Awgryma Wiliam Owen

---

<sup>424</sup> Iwan Llwyd, 'O Enau Plant Bychain', *Barddas*, 240 (Ebrill/Mai 1997), t. 7.

<sup>425</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), t. 63.

<sup>426</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 9.

<sup>427</sup> 'Symlwrwydd', *The Dominican*, 90 (1975), t. 22.

Roberts mai cyfeiriad yw'r 'ddinas ddihalog' un ai at syniad Awstin Sant o Ddinas Duw neu at y Gymru a ddaliai ei gafael yn y Myth Cenedlaetholdeb Cristnogol Gwledig.<sup>428</sup>

Rhennir y gerdd yn ddwy: y gorffennol a'r presennol. Yn y rhan gyntaf, ceir rhestr o'r holl bethau yr arferai'r bod creadigol allu eu gwneud, a thrwy ei ddiffinio o ran yr hyn nad yw'n gallu ei wneud bellach, mae ôl dirywiad mawr i'w weld arno. Ymddengys fel rhyw led-fodolaeth drwy'r rhan helaethaf o'r gerdd, yn hiraethu am ei allu i greu, ac yn hiraethu am allu crymu dros y marwor 'a gwyllo'i anadl / yn mygu, yn gwau patrymau unig, oer'. Fel y ceir yn y cerddi 'Tywallt anadl',<sup>429</sup> 'Anadl', ac 'Anadl Llywelyn',<sup>430</sup> ac fel y nodir yn nhrydedd bennod y thesis, mae anadl yng ngherddi Iwan yn aml iawn yn gyfystyr ag iaith. Os derbynnir hynny yma hefyd, arferai'r creadur allu creu, neu 'wau patrymau' gyda'i iaith, er mai creu ar ei ben ei hun yr oedd: 'ar y cyrion yn trin geiriau / fel arian gwynion'. Mae'n debyg iawn i sefyllfa ddiwylliannol Cymru yn ystod y 1970au a'r 1980au pan oedd y Myth Cenedlaetholdeb Cristnogol Gwledig yn dal i gael ei odro, a'r Cymry creadigol oedd yn creu'r diwylliant hen ffasiwn yn cyfansoddi mewn gwagle amherthnasol, yn gwrthod baeddu'r iaith â llwch y stryd, yn ei chadw'n bur ac yn 'trin geiriau / fel arian gwynion'.

Ar ddiwedd y gerdd y down at y presennol, a dyma lle mae trywydd y gerdd yn newid, a'r creadur creadigol yn mynnu adfywio. Nid yw'n barod i dderbyn ei dynged: 'heneiddio'n anniddig' yr oedd ar ddechrau'r gerdd, ac erbyn y diwedd mae'n penderfynu gwneud rhywbeth:

... mae'n gwasgu ei ddyrnau i'w deffro, i bwmpio  
gwaed i'r bysedd meddw sy'n siglo a swagro,  
yn gwrthod plygu i'r drefn, yn llosgi tyllau yn ei bocedi garw.

Adleisir yma rywfaint o'r syniadaeth a welwyd yn 'Richard Jenkins'<sup>431</sup> ac yn 'Cactus',<sup>432</sup> lle mae gwrthod cydymffurfio â threfn pethau, a gwrthod ildio i'r gwyll, hefyd yn nodweddion amlwg. Mae awgrym ar ddiwedd y gerdd fod y bod creadigol yn barod i afradu 'arian

---

<sup>428</sup> William Owen Roberts, "'Gwreichion" Iwan Llwyd', t. 35.

<sup>429</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 18.

<sup>430</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), tt. 56, 77-8.

<sup>431</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 25.

<sup>432</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 37.

gwynion' ei eiriau mewn ymgais i greu rhywbeth perthnasol i'r oes sydd ohoni, ac mae'n bosib mai creadigaeth y bod creadigol hwn yw'r golygfeydd dilynol.

Cychwynna'r daith drwy ddrysfar degawd gan gladdu'r hen ffordd Gymreig yn 'Golygfa 1: Mawrth 1979 Angladd',<sup>433</sup> a daeth dydd y claddu gyda mis y refferendwm cyntaf ar ddatganoli. Angladd ffermwr ym Môn sydd yma, gyda'r Gymru amaethyddol, wledig yn llythrennol yn cael ei rhoi yn y bedd. Pwysleisir hynny yn ddigon eironig gydag adlais o 'Gân yr Arad Goch' gan Ceiriog ac o 'Eifionydd' R. Williams Parry, wrth i'r gwylanod 'ganlyn arad y ffarmwr ar y ffridd'. Union ysbryd y ddwy gerdd honno, a naws y cyfnod y cyfansoddwyd hwy ynddo, yw'r pethau amherthnasol y mae'n rhaid eu gadael ar ôl. Fel y syniad o'r Gymru wledig, mae crefydd Anghydfurfiol hefyd yn amherthnasol i'r genhedlaeth sy'n dod i oed yn y 1980au. Caiff geiriau'r gweinidog eu sgubo ymaith gan y gwynt a'r glaw, ac fel y dywed Iwan mewn cân ddiweddarach, 'mae'r hen destament ar ben'.<sup>434</sup> Mae'r person cyntaf yn y gerdd – y ferch – yn dyst i hyn oll fel ag y mae'r 'ynyswyr gwargrwm', ond mae gwahaniaeth rhyngddynt: tra bo'r bobl eraill yn y gerdd yn 'dystion distaw' yn galaru ac yn gwylio'u diwylliant yn diflannu heb geisio brwydro'n erbyn difodiant, mae'r ferch yn edrych tua'r dyfodol. Cenhedla fab yn y fynwent 'rhwng y blodau a'r bedd', ar y ffin rhwng byw a marw, rhwng darfod a pharhad.

Gellir athronyddu ynghylch cenhedlu a genedigaeth Rhys yng nghyd-destun mytholeg yr Aboriginaliaid a'u syniad o'r man cenhedlu symbolaidd. Drwy ddal y syniad hwnnw mewn cof, mae modd gweld mai yn y fynwent y mae llinach Rhys: mae'n perthyn i'r hen draddodiad Cymreig sydd wrthi'n cael ei gladdu. Ac nid peth negyddol mo hynny; un o fantras Iwan oedd bod yn rhaid cydio yn y gorffennol er mwyn symud tua'r dyfodol. Mae'r adlais o bedwaredd gainc y Mabinogi yn y llinell 'dy eni'n gryf yn yr oed oedd arnat' yn ategu'r traddodiad y mae Rhys yn perthyn iddo. Yng ngoleuni mytholeg yr Aboriginaliaid y mae modd canfod ystyr llinell olaf y gerdd hefyd, 'a cherais dy enw, Rhys ...'. Dyma'r ferch yn datgan bodolaeth ei mab, yn rhoi enw arno ac felly'n cyhoeddi ei greu. Mewn ystyr

---

<sup>433</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', tt. 37-8.

<sup>434</sup> 'Syched', Cân oddi ar albwm Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Geraint Lovgreen a'r Enw Da* (Sain, 1985).

ehangach mae'n cynnig dyfodol i Gymru, ac yn esgor ar y 'bywyd newydd sy 'mhob dihoeni', fel y ceir yn 'Wedi'r angladd'.<sup>435</sup>

Wedi'r enedigaeth, flwyddyn a mis yn ddiweddarach, mae'r ferch a'i mab yn cilio i'r mynydd. Cerdd am redeg i ffwrdd dan gywilydd yw '*Golygfa 2: Ebrill 1980 Hendref*',<sup>436</sup> a cherdd am droedio mewn tir diffaith lle mae'r hen draddodiadau a arferai ddiffinio Cymru wedi eu claddu, ond lle hefyd nad oes diffiniadau newydd wedi eu creu i'r wlad. Anodd yw osgoi cysylltiad y gerdd â'r refferendwm yn y Gymru tu allan i 'Gwreichion', ac mae sôn am '[F]awrth ola'r degawd, Mawrth y gwrthod a'r gwerthu' yn hoelio'r gerdd yng nghyd-destun y cyfnod hwnnw yng Nghymru. Mae byw'n feudwyol ac yn gyntefig yn haws gan y ferch na gorfod wynebu penderfyniad 80% o'i chyd-Gymry i wrthod datganoli. Daw ei hunig gysur o'r delweddau cyfarwydd, ac mae hi'n rhy hunan-dosturiol a dihyder i fentro ymlaen a '[g]weiddi geiriau newydd a gwirioneddau' ar ôl profi'r fath ddadrithiad. Er bod y gwreichion yn pylu drwy gydol y gerdd, cânt eu megino drachefn wrth i'r ferch benderfynu trosglwyddo iaith i Rhys. Mae petruster yma o hyd, ond mae'n gam ymlaen, mae yma lygedyn o obaith ac argoel fod yr haf ar ddod. Benthycir sawl delwedd o *Cerddi lanws* yma: gwelwn yr 'hin' drosiadol a'r afon sydd yn 'Gwener', y rhew a'r rhedyn sydd yn 'Llun', ac mae'r llinell o'r gerdd 'Mercher', 'rhaid imi ffoi i'r cwm heno', hefyd yn benthyc ei ystyr i ail olygfa 'Gwreichion'.<sup>437</sup>

Diffodd yn raddol y mae'r gwreichion eto. Nid yw'r argoel o haf yn ddim ond gobaith dros dro. Mae'r ferch a'i mab yn dal i fodoli yn y tir diffaith, didraddodiad, anniffiniol hwnnw. Drysu'r ferch yn fwy byth a wna terfysgoedd y byd tu allan. 'Fe wnaeth Fai ar y naw,' meddir yn '*Golygfa 3: Mai 1981 Hen Ffotograff*'.<sup>438</sup> Cyfeirio y mae at y penawdau newyddion ar y pryd, a mis Mai wedi ei gloi rhwng terfysgoedd Brixton ym mis Ebrill a therfysgoedd Toxteth ym mis Gorffennaf. Bu Mai 1981 yn fis o ddigwyddiadau brawychus: cafodd awyren a oedd yn hedfan o Ddulyn i Lundain ei herwgipio gan un a oedd am i'r Fatican ryddhau trydedd gyfrinach Fátima; bu terfysgoedd yng Ngogledd Iwerddon yn dilyn marwolaeth Bobby Sands, a saethwyd y Pab Ioan Pawl II wrth iddo annerch cynulleidfa.

---

<sup>435</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 35.

<sup>436</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 38.

<sup>437</sup> T. James Jones a Jon Dressel, *Cerddi lanws* (Llandysul 1979), tt. 16, 8, 12.

<sup>438</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 39.

Mae'r tymor yn cyferbynnu â naws gyffredinol y cyfnod; mae'n '[w]anwyn o hwliganiaeth' ac o ragrith. A'r byd â'i ben i waered, 'trais a therfysg tu chwith allan', ceisia'r ferch chwilio am angor ac am ystyr.<sup>439</sup>

Ar hyn o bryd, mae'r byd yn 'negydd gwyn a du', a thry'r ferch i mewn i'r capel yn ei hymgais i wneud synnwyr o bethau, yn wahanol i T. James Jones, sy'n mynd 'heibio i'r cwrdd yn y capel / ag ymbil ei olau yn colli'r dydd' yn 'Mercher' *Cerddi Ianws*.<sup>440</sup> Ni chaiff ei hargyhoeddi na'i chysuro gan grefydd, fodd bynnag, ac nid yw mynychu'r oedfa ond yn cadarnhau bod geiriau'r bregeth, y gweddïau a'r emynau'n amherthnasol. Y tu allan clywir sgrech ambiwlans yn rhuthro 'o'r tu arall heibio' gan adleisio sŵn realiti caled y byd tu allan a'r seiren yn symbol o argyfwng. Gwneir defnydd eironig o gyfeiriadaeth Feiblaidd at ddameg y Samariad Trugarog, a daw i gof ddwy o gerddi cynharach Iwan, 'Wrth Wrando ar "Ambiwlans" Geraint Jarman', lle mae'r seiren yn 'farwnad cenhedlaeth', ac 'Y Lefiad' lle'r â cymorth heibio i sefyllfa argyfyngus 'o'r tu arall eto'r tro hwn'.<sup>441</sup> Methodd y ferch â chanfod unrhyw atebion, ac mae'n gadael y capel wedi oedfa'r hwyr wedi ei drysu fwy fyth gan olau dydd.

Yna cawn 'un o gerddi mwyaf grymus y casgliad,' ym marn William Owen Roberts,<sup>442</sup> lle mae cyferbyniad amlwg rhwng yr hen a'r ifanc, rhwng y 'marwnadu' a'r '[c]rud'. Mae rhyw arafwch yn '*Golygfa 4: Mehefin 1982 Hwiangerdd*',<sup>443</sup> wrth i rai gydio'n dynn yn yr hen draddodiadau a'r hen ffordd Gymreig a gwrthod wynebu realiti caled y byd 'tu hwnt i'r drws'. Mae'r 'drws' yn ein hatgoffa o agor y drws at Aber Henfelen, ac felly mae'r 'hen wŵr' a'i debyg yn fodlon eu byd mewn Gwales o hen ddelweddau a hen ddiffiniadau. Mae eu Cymru nhw'n perthyn i amgueddfa bellach, a phwysleisir eu hymlyniad i gysur y gorffennol drwy adleisio Cân yr Henwr o ganu Llywarch Hen, sydd hefyd yn dod â 'Dysgub y Dail' Crwys i gof: fel 'deilen grin' ar drugaredd y gwynt, mae'r hen ffordd o fyw yn un fregus erbyn hyn. Dyma gerdd sy'n drwm gan henaint a marwolaeth, ond serch hynny, rhaid cofio mai cyfarch plentyn ifanc a wneir ynddi. Er y naws farwnadol, mae ymbil yn llais y fam a thaerineb yn yr

<sup>439</sup> Difyr yw nodi wrth fynd heibio mai'r llinell 'trais a therfysg tu chwith allan' a roddodd yr enw i'r cylchgrawn *Tu Chwith*; prawf o ddylanwad y casgliad o bosib.

<sup>440</sup> T. James Jones a Jon Dressel, *Cerddi Ianws*, t. 12.

<sup>441</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn* (Talybont, 1983), tt. 12, 7.

<sup>442</sup> William Owen Roberts, "'Gwreichion" Iwan Llwyd', t. 38.

<sup>443</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 39.

ailadrodd gorchmynnol 'clyw' dro ar ôl tro. Dyma'r ymgais olaf i adweithio yn erbyn tranc cenedl wrth i '[a]nadliad olaf' y gorffennol siglo crud Rhys. Dyma'r hen yn esgor ar y newydd, y gorffennol yn porthi'r dyfodol. Ond parhau'n styfnig y mae'r hen do, a buan y deuai ei dranc wrth iddo weld 'chwerw-win hen hafau yn gynhesach / na chwrrw a choncrïd y palmant tu hwnt i'r drws'.

A'r gorffennol y tu cefn iddi, ceisia'r ferch unwaith eto ganfod cyfeiriad yn y bumed olygfa.<sup>444</sup> Bron nad yw'r gerdd yn barhad o'r bedwaredd olygfa, lle rydym bellach yn gweld yr hyn sydd 'tu hwnt i'r drws', sef anesmwythyd y chwys hallt, y gwres llethol, a'r ofn symud. Mae dieithrwch yn y darlun, ond ar yr un pryd mae'r ceir sy'n pasio ar y lôn yn daearu ac yn normaleiddio'r profiad rhyfedd. Wedi dioddef yr amgylchiadau anghysurus am ryw hyd, daw'r ferch o hyd i gyfeiriad erbyn diwedd y gerdd, diolch i'r 'crwydryn alltud' y 'mae'n ddiogel croesi yn ei gysgod'. Mae'r geiriau Lladin yn nheiti y gerdd, 'Quo Vadis' (I ba le yr ei di?), yn ein gwyro tuag at ddarlleniad Cristnogol wrth i'r geiriau adleisio'r cwestiwn a ofynnodd Pedr i Iesu pan oedd ar y ffordd i gael ei groeshoelio am yr eildro.<sup>445</sup> Awgrymodd Wiliam Owen Roberts ac Alan Llwyd mai Crist yw'r 'crwydryn alltud' yn y gerdd, ac mae'n ddifyr nodi i Iwan gyfeirio at ddelw o Grist yn ddiweddarach yn 'Llwybr y groes' yn 'grwydryn a'i freichiau ar led'.<sup>446</sup> Mae'r 'crwydryn alltud' a'r eglurder sydyn a ddaw yn ei sgil hefyd yn dwyn i gof 'Mewn Dau Gae' Waldo Williams a'r 'Brenin alltud' sy'n cynnig y 'môr goleuni' yn y gerdd honno. Rhyw naws debyg sydd yng ngherdd Iwan i'r hyn a ddisgrifir gan Waldo ar ddechrau ei gerdd yntau:

Ar ôl imi holi'n hir yn y tir tywyll,  
O b'le deuai, yr un a fu erioed?  
Neu pwy, pwy oedd y saethwr, yr eglurwr sydyn?<sup>447</sup>

'*Golygfa 5*' yw cerdd fwyaf amwys 'Gwreichion'. Fe'i disgrifir gan Wiliam Owen Roberts fel 'cerdd fetaffisegol amlystyrog'.<sup>448</sup> Mae posibiladau eraill, anghristnogol, i'r

---

<sup>444</sup> Ibid., t. 40.

<sup>445</sup> Yn ôl traddodiad Cristnogol sy'n deillio o'r ddogfen Ladin Actau Apocryffaidd Pedr, bu i'r apostol gwrdd â'r Crist atgyfodedig ar y ffordd y tu allan i Rufain, a phan ofynnodd Pedr iddo 'Quo vadis?' ('I ble rwy'ti'n mynd?') atebodd Iesu 'Romam eo iterum crucifigi' ('rwy'n mynd i Rufain i gael fy nghroeshoelio drachefn'). Adeiladwyd Eglwys Domine Quo Vadis ar yr union fan lle, yn ôl traddodiad, y bu'r cyfarfyddiad rhwng Pedr ac Iesu.

<sup>446</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), t. 106.

<sup>447</sup> Waldo Williams, *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956), t. 26.

‘crwydryn alltud’, ac awgryma Wiliam Owen Roberts efallai mai un o hynafiaid yr Aboriginaliaid sydd yma. Gellir ymhelaethu rywfaint ar y syniad hwnnw wrth ystyried fod gan bob Aboriginaliad ei hynafiad y mae’n perthyn iddo, ac felly *songline* y mae’n perthyn iddo hefyd. Pan fydd bachgen o Aboriginaliad yn ymgymryd â’r ddefod o grwydro, *walkabout*, y bwriad yw dilyn ôl ei hynafiad gan gerdded ar hyd y *songline* sy’n perthyn iddo. Os ceidw at y llwybr hwnnw, caiff groeso gan y llwythau ar y ffordd ac fe fydd yn ddiogel, ond os bydd yn gwyro oddi ar ei lwybr ei hun yna bydd yn wynebu peryglon ar y ffordd. Fe all mai dyma sydd dan sylw yn llinell olaf cerdd Iwan ac yntau’n sôn am y crwydryn y ‘mae’n ddiogel croesi yn ei gysgod’.

Yn ystod y bumed a’r chweched olygfa, gwelir trobwynt yn y casgliad. Mae’r ferch wedi canfod cyfeiriad i’w siwrnai drwy weddill y degawd yn ‘*Golygfa 5*’, a gwelwn ei hamgyffred o’i chenedl ei hun yn newid yn ystod yr olygfa nesaf. Sylweddola’r ferch fod ei chyd-Gymry, a arferai fod yn wan a di-nod, wedi magu cryfder dinistriol. Nid yw’n eglur yn y gerdd a yw hynny’n beth cadarnhaol ai peidio. Wrth ddisgrifio’r Cymry gynt fel ‘cerrig llyfnion bychain / yn lluchio’n hunain fesul un yn erbyn y llanw, / yn ceisio cymaint o gamau â phosib / cyn boddi heb adael bedd’,<sup>449</sup> defnyddia Iwan ddelwedd a ddefnyddiodd o’r blaen yn ‘Sblas Fach’, un o gerddi *Sonedau Bore Sadwrn*, lle mae’n dychmygu ei hun fel ‘carreg lefn / yn sgimio’r dŵr / gan geisio / cymaint o gamau / ag sy’n bosib’ cyn diflannu.<sup>450</sup> Ond bellach mae’r rhod wedi troi, a’r Cymry eu hunain yw’r llanw nerthol sy’n ‘gwisgo’r graig yn gragen’ ac sy’n ‘malu’r tywod / a ddymchwel y gaer’. Gellir gweld trawiad Beiblaidd yma wrth inni ddwyn i gof ddameg y tŷ ar y graig a’r tŷ ar y tywod. Yn ôl y ddameg, safodd y tŷ ar y graig drwy’r tywydd garw, ond nid felly y bu hi yn hanes y tŷ ar y tywod:

A disgynnodd y glaw a daeth y llifogydd, a chwythodd y gwyntoedd a tharo yn erbyn y tŷ hwnnw, ac fe syrthiodd, a dirfawr oedd ei gwmp. (Mathew 7:27)

Llinell olaf y gerdd sy’n peri’r anhawster mwyaf gan na wyddom a oes symbolaeth fwriadol i’r gaer. Awgryma Guto Dafydd mai beirniadu’r Cymry taeog am ‘ddymchwel y gaer’ a wna’r

---

<sup>448</sup> William Owen Roberts, ‘“Gwreichion” Iwan Llwyd’, t. 38.

<sup>449</sup> Iwan Llwyd, ‘Gwreichion’, t. 40.

<sup>450</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn*, t. 13.



ferch yma, ac mai ‘trosiad yw hwn am bleidlais enbyd 1979’.<sup>451</sup> Mae Wiliam Owen Roberts a Geraint Williams, ar y llaw arall, yn ystyried y grym dinistriol newydd sy’n perthyn i’r genedl yn beth ffafriol. Chwedl Wiliam Owen Roberts, ‘mae tonnau’r môr wedi troi o’n plaid’,<sup>452</sup> ac mae Geraint Williams yn ystyried bod y gaer yn cynrychioli Prydeindod neu lywodraeth Thatcher.<sup>453</sup> Prif nod y gerdd, fodd bynnag, yw dangos newid yn agwedd, hunanhyder a chyfansoddiad y genedl er gwell neu er gwaeth.

Soniwyd eisoes mai cerddi a gyfansoddwyd yn ystod y 1980au sydd yn ‘Gwreichion’, a defnyddiodd Iwan fersiwn o ‘*Golygfa 7: Medi 1985 Cariad Drws Nesa*’ i’w darllen yn rhan o’r daith Cicio Ciwcymbars yn 1988 dan y teitl ‘Hogan Drws Nesa’.<sup>454</sup> Prin yw’r newidiadau a wnaed iddi cyn ei chynnwys yn y casgliad arobryn: ysgrifennwyd hi’n wreiddiol yn y person cyntaf gwrywaidd, a chariad y llefarydd yn ferch, ac felly rhaid oedd newid llais y llefarydd i fod yn llais benywaidd er mwyn ei chynnwys yn ‘Gwreichion’.

Cyn y tro pedol a welir yn y cerddi blaenorol, tra oedd hi’n dal yn gyfnod tywyll ar Gymru, roedd angen cwmni ar y ferch er mwyn iddi ddygymod â’r awyrgylch dryslyd o’i chwmpas. Sôn am hynny a wneir yn ‘*Golygfa 7*’ wrth inni ddeall fod y berthynas oedd gan y ferch â’i chariad ar ben ac mai angen rhywun i rannu baich y cyfnod yr oedd hi yn anad dim, cariad a fyddai’n ‘cadw cwmni / cyn i’r archoll gau’.<sup>455</sup> Cariad ifanc a diniwed a awgrymir gan ‘gariad drws nesa’, ond yn y cariad diniwed hwnnw roedd sefydlogrwydd a phatrwm i’w cael yn ystod blynyddoedd blin hanner cyntaf y 1980au. Y ‘darogan boreau rhyddid’ a gadwai’r ddau rhag plymio i iselder y cyfnod, ac mae i ryddid ei gysylltiadau ehangach, wrth gwrs, gyda siom y refferendwm yn gefnlen i’r cerddi. Mae’r ffaith fod y ddau yn ‘breuddwydio strydoedd a stondinau’n deffro / i ogla traffig’ yn fodd o ddarlunio llymder yr hinsawdd economaidd ar y pryd: dychmygu’r strydoedd yn byrlymu a wnânt, gan nad felly y mae hi mewn gwirionedd.

---

<sup>451</sup> Guto Dafydd, ‘Her Newydd yr Hen Siwrneiau’, *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 57.

<sup>452</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘“Gwreichion” Iwan Llwyd’, t. 38.

<sup>453</sup> Traethawd MPhil Geraint Siôn Williams, *Astudiaeth o farddoniaeth Iwan Llwyd* (Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2001), t. 141.

<sup>454</sup> Ymddengys ‘Hogan Drws Nesa’ mewn copi o sgript Cicio Ciwcymbars.

<sup>455</sup> Iwan Llwyd, ‘Gwreichion’, t. 41.

Gwyddom fod y berthynas ar ben rhwng y ddau gan y defnydd o ferfau yn yr amser gorffennol: 'roedd gen i gariad', a hel atgofion am y cyfnod hwnnw o ganlyn diniwed a wna'r ferch yn rhan gyntaf y gerdd. A'r llinellau a'r penillion yn goferu'n llithrig, daw diwedd i'r hel atgofion gydag atalnod llawn arwyddocaol, ac yna cyflwynir profiad diweddarach o lawer wrth i'r ferch sôn iddi weld ei chyn-gariad 'neithiwr ar fideo'r dafarn / yn syllu'n bell i wyll y bar'. Dyma ddwy linell sy'n ennill ystyr drwy hepgor unrhyw atalnodi. Gallwn, ar y naill law, ddychmygu'r llanc yn syllu'n wag ar sgrin y dafarn, yn ymgolli yn nelweddau'r cyfryngau rhag gorfod wynebu realiti. Ond mae 'fe'i gwelais ar fideo'r dafarn' ar ei ben ei hun yn awgrymu mai'r ferch yw'r un sy'n edrych ar y sgrin. Mae fel petai hi'n gwyllo'r olygfa o'r tu allan, yn gwyllo ei chyn-gariad ar ffilm. Nid yw'n glir felly ai safbwynt y ferch ar y tu allan ynteu safbwynt y bachgen yw'r realiti. Fe sonia Wiliam Owen Roberts yn y cyd-destun hwn am ddamcaniaeth Jean Baudrillard ynghylch *similacrum*: 'Yr hyn a olygir yw fod y ddelwedd a ddangosir ar y sgrin [*sic*] deledu yn real, hynny yw, dyna realiti. Nid yw'r bobol sy'n gwyllo ond delweddau goddefol sy'n tawel dderbyn gwirionedd y realiti'.<sup>456</sup> Gellir derbyn y ddamcaniaeth hon yn y ddau gyd-destun posib a nodwyd uchod, a'r cwestiwn felly yw p'un ai'r ferch ynteu'r bachgen sy'n oddefol ac sy'n derbyn realiti'r sgrin. Yn y fersiwn gynharach o'r gerdd, nid yw'r fath ddryswch yn bod gan mai gweld y cyn-gariad 'drwy fwg y dafarn' a wna'r llefarydd.

Erbyn ail hanner y gerdd, gwelwn y gwahaniaeth rhwng y ferch a'i chyn-gariad. Mae ef yn llonydd, wedi ei ddal yn iselder y cyfnod, fel yr awgryma'r '[Il]ygaidd llonydd' a chyffur y 1980au yn 'ceulo'i waed'. Daw'n amlwg fod hinsawdd wleidyddol ac economaidd y cyfnod wedi mynd yn drech nag ef ac awgryma Wiliam Owen Roberts mai 'symbol ydyw o'r llu di-waith a anghofwyd ac a aberthwyd gan "gatrodau'r toriadau"'.<sup>457</sup> Mae'r archoll wedi cau yn achos y ferch, fodd bynnag, ac mae hi'n ymdopi â symud ymlaen drwy'r cyfnod mewn ffordd wahanol, ac yn teimlo cysur yn y cyffyrddiad ysgafn â'i gorffennol:

... mynnais ei sylw am ennyd, am amrantiad  
cyffyrddais â godre pader yn llithro i'r nos.

---

<sup>456</sup> Wiliam Owen Roberts, "'Gwreichion" Iwan Llwyd', t. 37.

<sup>457</sup> *Ibid.*, tt. 37-8.

Daw i sylweddoli maes o law mai yn symlrwydd y pethau bychain y mae dod o hyd i hapusrwydd yn ystod y cyfnod tywyll y mae hi'n byw ynddo, yn y cyffyrddiadau ysgafn hynny ac yn y ddealltwriaeth gynnil rhwng dau. Dyna sy'n goleuo'r siwrnai drwy'r degawd. Daw i'r amlwg yn y cerddi dilynol mai dyna brif symbolaeth y gwreichion, fel sydd i'w weld yn 'Golygfa 9: Tachwedd 1987 Tân Gwyllt':

... y cyfan sy'n cyfri yn nhwllwch ein dyddiau gweddw  
yw'r gwreichion chwerthin sy'n disgyn  
yn gawod amryliw i oleuo'n taith adre.<sup>458</sup>

Wedi i'r ferch brofi'r gwreichionyn cyntaf hwnnw yn 'Golygfa 7', gwelwn fwy o'r 'gwreichion goleuadau' yn yr olygfa nesaf.<sup>459</sup> 'Golygfa 8: Hydref 1986 Cymudo' yw'r unig gerdd yn y casgliad sydd wedi ei chynnwys mewn cyfrol gan Iwan; fe'i gwelir dan y teitl 'Ffordd osgoi' yn y gyfrol *Dan Ddylanwad*.<sup>460</sup> Disgrifio taith adre ar hyd yr A55 a wneir, lle mae teimlad ar ddechrau'r gerdd fod y ferch yn aros yn ei hunfan. Mae rhwystrau yn ei hatal rhag medru cyflymu yn ei blaen ar y daith: 'mwg rhyngof a'r machlud' a char wedi torri i lawr ar y ffordd, ac mae hi 'ar gwt yr adar drycin' eraill ar y lôn, yn teithio'n arafach na phawb arall sy'n symud yn ddifeddwl 'ar siwrne i'r nos / a'i hafan ei hun'. Mae'n brofiad torfol sydd hefyd yn brofiad unigolyddol ar yr un pryd, yn union fel y profiad yn 'Mynd i lawr i Asunción' lle mae 'pob teithiwr talog ar sêr ar wahân'.<sup>461</sup> Caiff y ferch ddigon ar arafwch y daith, ac mae'n penderfynu cyflymu, ac o gyflymu, gwêl y 'gwreichion goleuadau' sy'n ei chynnal drwy weddill y siwrnai.

Yn ei feirniadaeth, dywed Alan Llwyd fod '*Tjuringa* yn glynu wrth ei mannau ystyrion. Y rhain sy'n rhoi ystyr a pherthyn iddi',<sup>462</sup> a chael ei thynnu'n ôl ar hyd ffordd gyfarwydd y mae hi yma wrth iddi deithio adre. Ni allwn chwaith beidio â meddwl am Iwan ei hun yn y cyd-destun hwn, a'r gerdd wedi ei lleoli 'ger Llanddulas' yn Nyffryn Conwy, sef bro ei

---

<sup>458</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 42.

<sup>459</sup> Ibid., tt. 41-2.

<sup>460</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 87.

<sup>461</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 132.

<sup>462</sup> Beirniadaeth Alan Llwyd ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cwm Rhymini 1990*, t. 36.

fagwraeth. Y daith, a'r syniad o symud ymlaen yn barhaus, sy'n bwysig yn y gerdd, ac mae hynny'n nodweddiadol o farddoniaeth Iwan ac o'i agwedd yn gyffredinol hefyd:

Dw i wastad wedi licio'r syniad o deithio a chyfansoddi wrth deithio [...] Does yna ddim dechrau, canol a diwedd. Doedd gynnwys ni ddim pendraw [*sic*] pendant. Y daith ei hun sy'n bwysig a dyna ydw i'n ei fwynhau.<sup>463</sup>

Awgryma Llion Jones fod i'r daith ar hyd yr A55 arwyddocâd yng nghyd-destun awen Iwan ei hun wrth iddo gyfuno hen draddodiadau a diwylliant cyfoes:

Yn y disgrifiad o'r modd y mae'r lôn honno yn torri ei llwybr rhwng bryniau Hiraethog a'r arfordir, rhwng cysgodion canrifoedd o draddodiad llenyddol a chrefyddol a goleuadau Rhyl a glannau Merswy, y mae awgrym clir o drywydd y llinell cân a fapiwyd gan Iwan Llwyd ei hun ...<sup>464</sup>

Bu'r daith ar hyd yr A55 yn destun cerdd arall gan Iwan yn ddiweddarach, a phrofiad cysurlon a hiraethus yw teithio ar hyd y lôn yn 'Taith adre'.<sup>465</sup> Er bod byrdwn y ddwy gerdd rywfaint yn wahanol, mae delweddau cyffredin yn y ddwy: goleuadau'r lôn, y mynyddoedd a'r bryniau, a'r cysylltiad corfforol, bron, sydd gan rywun â man arbennig.

Sylweddolodd y ferch fod y 'gwreichion goleuadau' sy'n ei chynnal i'w gweld yn gliriach, bellach, ac yn 'Golygfa 9: Tachwedd 1987 Tân Gwyllt' mae'n deall fod y gwreichion hynny wedi bodoli erioed heb iddi sylwi arnynt na'u gwerthfawrogi.<sup>466</sup> Hyd yn oed ar yr adegau tywyllaf, mae rhyw fân ddigwyddiadau, 'ambell gân, ambell gerdd, / ambell gyffyrddiad neu gyfarfyddiad' i godi gwên, dim ond i rywun sylwi arnynt. Mae'r gerdd yn llawn cyferbyniadau rhwng goleuni a thywyllwch. Er bod y lleuad yn loyw, mae'r ddinas islaw yn dywyll a theimlad o fygythiad yno 'a'r canhwylau wedi'u diffodd dan warchae / catrodau'r toriadau'. Mae yma gyfosod golygfa debyg i'r *blackout* yn ystod yr Ail Ryfel Byd a chaledi hinsawdd economaidd y 1980au. Magodd y ferch wytnwch a chaledwch gyda'r blynyddoedd ac mae teimlad ei bod wedi gwastraffu llawer o'r blynyddoedd 'amddifad'

---

<sup>463</sup> 'Chwilio am Eldorado', *Golwg* (26 Awst 1999), t. 19.

<sup>464</sup> Llion Jones, 'O Dir Neb i'r Tir Cyffredin', *Awen Iwan*, t. 173.

<sup>465</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (Llandysul, 2008), t. 14.

<sup>466</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 42.

hynny ym '[M]angor, Aberystwyth a Chaerdydd'. Dyma'r gerdd a ysgrifennodd Iwan ar gyfer pen-blwydd plentyn i ffrindiau iddo yn 1987, ac yntau'n ddeg ar hugain yn ystod yr un mis. Gallwn, felly, am ennyd ffeirio llais y ferch am lais Iwan ac mae rhywbeth hunangofiannol yn y sôn am Fangor, Aberystwyth a Chaerdydd, ac yntau wedi ymgartrefu yn yr union lefydd hynny ar wahanol adegau.<sup>467</sup> Mae'r cysylltiad rhwng Iwan ei hun a'r gerdd yn cryfhau'r cyferbyniad ynddi rhwng yr hen a'r ifanc. A'r ferch wedi dod i sylweddoli mai'r gyfrinach er mwyn goroesi'r cyfnodau tywyll yw i gofleidio'r eiliadau o lewyrch, rhanna'i doethineb a'i sylweddoliad â Rhys.

Soniodd Alan Llwyd yn ei feirniadaeth y gellir gweld cerddi 'Gwreichion' fel 'cerddi cyffesol',<sup>468</sup> ac yn y ddwy olygfa olaf cyn yr epillog y mae'r nodwedd honno amlycaf. Troi i gyfarch y cariad oedd ganddi a wna'r ferch yn '*Golygfa 10: Rhagfyr 1988 Carol*'.<sup>469</sup> Disgrifiodd Geraint Williams y gerdd yn 'gampwaith o ymatal';<sup>470</sup> wrth i'r ferch gymharu'r hyn a fu, sef 'boreau barugog y swta ffarwèl', â'r hyn y gallasai fod wedi ei gynnig i'w chariad, sef cariad a chwmni i rannu cyfrinachau ac i gydyfed gwin. Mae'r cyfan a allasai fod yn fyw yn ei dychymyg hi, a gofynna faddeuant ganddo am fethu cynnig y cyffyrddiadau a'r profiadau bychain sy'n gwreichioni goleuni i gynnal rhywun drwy gyfnodau tywyll. Yn olaf, mae'n gofyn am faddeuant am y 'dagrau na wylasom sy'n weddill yn rhywle / yng ngwaddod fy mêr'. Cawn argraff fod rhywbeth yn anorffenedig ynghylch y berthynas, ac mae teimlad o wacter ac o dristwch yn y ffaith fod rhywbeth na ddigwyddodd wedi ei blannu mor ddwfn ym mêr esgyrn y ferch. Camp Iwan yma yw rhoi geiriau i emosiwn sydd bron â bod y tu hwnt i fynegiant.

Cyffes dywyllach sydd yn '*Golygfa 11: Calan 1989 Calennig*',<sup>471</sup> bron i ddegawd wedi'r refferendwm, wrth i'r ferch gyfaddef wrth Rhys ei dymuniad i'w erthylu ar un adeg:

---

<sup>467</sup> I Fangor y symudodd teulu Iwan yn 1968 ac yno y derbyniodd ei addysg uwchradd cyn mynd yn fyfyrwr i Aberystwyth. Wedi graddio, bu'n byw yng Nghaerdydd yn gweithio i Wasg Prifysgol Cymru rhwng 1983 ac 1984.

<sup>468</sup> Beirniadaeth Alan Llwyd ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cwm Rhymni 1990*, t. 35.

<sup>469</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 43.

<sup>470</sup> Traethawd MPhil Geraint Siôn Williams, *Astudiaeth o farddoniaeth Iwan Llwyd*, t. 147.

<sup>471</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 43.

Mae gen i gyfaddefiad  
mor oer a marw â'r tymor ei hun:  
ddegad yn ôl erfyniais dy ddiffodd ...

Clywn adlais o 'Cilmeri' Gerallt Lloyd Owen yn yr ail linell, cerdd sydd, yn arwyddocaol, yn darlunio marwolaeth cenedl, a lleud Gerallt 'mor oer â'r marw ei hun'.<sup>472</sup> Cyflëir cywilydd a ffieidd-dra ar ddechrau'r gerdd, ac ni ddymuna'r ferch fod yr un sy'n esgor ar genhedlaeth newydd mewn degawd dieithr. Bron nad oedd am wadu iddi erioed genhedlu yn y lle cyntaf; dyhea am 'sgwrio o dan fy ngwinedd / rhag bod ôl dy fodolaeth yn llechu'. Ond ymatal rhag erthyly Rhys a wnaeth hi wrth i'r bachgen dyfu y tu mewn iddi ac wrth iddo ddod i gynrychioli cenedlaeth newydd a fyddai'n sicrhau parhad yr iaith a'r diwylliant. Erbyn diwedd y gerdd, down yn ôl at y presennol, ac mae'r ofn a deimlodd y fam gynt wedi troi ar ei ben i fod yn ddatliad o enedigaeth ei mab. A hithau'n 1989, ar drothwy degawd arall, mae Rhys yn ddigon hen ac wedi magu digon o hyder i wneud o'r degawd newydd beth a fynno, ei fowldio a'i '[g]leisio' fel y mynno. Er iddo ef a'i genhedlaeth gael magwraeth ddigon ansicr a sigledig, cânt aeddfedu mewn gwlad hyderus sy'n barod i fentro a'i diffinio ei hun o newydd.

Ailymwelwn â'r bod creadigol yn '*Epilog: Y Gân Olaf*', wrth i gylch y casgliad gau.<sup>473</sup> Dyma'r gerdd a ysgrifennodd Iwan yn wreiddiol fel teyrnged i Bruce Chatwin, a nododd hefyd fod y gerdd yn ymateb i ddarlun gan Berwyn Morris Jones.<sup>474</sup> Fel y cafwyd yn y prolog, mae'r gerdd yn ddatguddiad o'r bod creadigol sy'n 'dyfalu' ei greadigaeth. Creodd ryw symud ansicr, rhyw storm yn cyniwair ar y gorwel, a dyna afradu ei holl egni fwy neu lai yn llunio 'amlinell' y Gymru newydd. Darlunnir y creadur wedi ymddihatru, wedi ei stripio i'r byw a'i lanhau gan y trai; bron nad yw wedi mynd yn ôl i'w gyflwr cynhenid cyn cael ei 'gladdu'n / grawn dan y graean cras'. Gwelir syniad tebyg o buro pobl â dŵr a dychwelyd at graidd pethau yn 'Ffynhonnau', lle'r 'ymdrochwn yn y dŵr bywiol':

... golchi ein siniciaeth a'n cwrteisi

---

<sup>472</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cilmeri a cherddi eraill* (Caernarfon, 1991), t. 11.

<sup>473</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', t. 44.

<sup>474</sup> Roedd y darlun gan Berwyn Morris Jones yn un a ymddangosodd yn yr arddangosfa 'Gweld Llais a Chlywed Llundun' ym Mhlas Glyn-y-Weddw adeg Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog yn 1987 lle roedd cyfuniad o waith celf a barddoniaeth yn cael eu harddangos, y naill yn ymateb i'r llall.

yn y dyfroedd diniwed,  
bwrw'n blynyddoedd i'r pydew

a chamu'n ifanc o'r dwfn,  
a chariad yn glynu am eiliad  
am amlinell ein cyrff newydd.<sup>475</sup>

Gwelir yr un peth eto yn 'Y dŵr mawr', lle dywed Iwan wrth bawb am adael eu materoliaeth, eu gwleidyddiaeth a phopeth arall er mwyn profi 'lle mae'r enfys yn disgyn / a'r aur yn ymffurfio / o'r dŵr a'r goleuni'; 'sefwch yn ei ganol,' meddai, 'a chamu yn fud a dianaf yn ôl i'r goleuni'.<sup>476</sup> Felly y mae'r purdeb sy'n perthyn i'r bod creadigol; creïr rhyw syniad o dudalen lân ganddo ac yntau heb anadl, 'na thiriogaeth na thras'.

Fel yr hynafiaid ym mytholeg yr Aboriginaliaid a suddodd yn ôl i berfeddion y ddaear wedi iddynt ddatgan genedigaeth y gwahanol rywogaethau, mae'r bod creadigol yma'n cael ei gladdu ac yn 'llifo'n un â'r elfennau'. Ond cyn diflannu, mae yntau'n datgan ei greadigaeth, ac felly'n cwblhau'r weithred o greu:

... ond cyn llifo'n un â'r elfennau  
cleisiodd y glasddydd â bloedd,  
ag enfys rhwng y dyfroedd a darfod  
datganodd dy genhedlu ar goedd.

Cerdd yw hon, yn y bôn, sy'n cadarnhau'r dyfodol yn sgil yr ymlafnio hir yn y tir tywyll. Mae diwedd y gerdd olaf hon yn debyg iawn i'r delyneg 'Enw' a ysgrifennodd Iwan ar gyfer Talwrn y Beirdd rywbryd rhwng 1994 ac 1996. Amhosib yw anwybyddu'r cysylltiad â myth creu'r Aboriginaliaid yn y gerdd honno hefyd, a'r testun gosod, 'Enw', yn ei fenthyg ei hun i'r syniad o greu drwy enwi'r greadigaeth:

Ac yn y dechreuad  
pan nad oedd y lleuad ond llwch  
a'r moroedd â chramen o ewyn  
drostynt yn drwch,

---

<sup>475</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 97.

<sup>476</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado* (Llanrwst, 1999), t. 65.

hen haul yn tywynnu'n welw  
drwy gymylau'r lludw a'r llaid,  
a therfysg y llosg-fynyddoedd  
yn dwrw byddinoedd di-baid:  
cyn i drefn ddod i dawelu'r dyfroedd,  
a llunio llynnoedd, daeth llais  
i ruo drwy ferw'r dechreuad  
a'i alwad yn fedydd, yn glais.<sup>477</sup>

Er na ellir anwybyddu'r galar a'r teimlad o fod ar goll sy'n bresennol yn y casgliad, cerddi gobaith yw cerddi 'Gwreichion' sydd, yn eu hanfod, yn sôn am ganfod ffordd ymlaen. Dyna a wna'r ferch yn y casgliad, a dyna a wna Iwan yn nifer o'r cerddi a ysgrifennodd yn ystod y 1980au: 'he is more for moving than for mourning. Remember, yes, but move on,' chwedl Grahame Davies.<sup>478</sup> Roedd gan Iwan ei fwriad wrth roi'r casgliad at ei gilydd:

Ceir yma ymateb personol i ddigwyddiadau personol. Ceir yma ymgais i greu chwedl gyfoes, mabinogi i'r wythdegau; a cheir yma ymgais i ganu dyfodol newydd i ni fel pobol. Dwi'n gobeithio y bydd pawb yn dod at y cerddi o'u safbwynt eu hunain, ac y bydd eu profiadau eu hunain o'r cyfnod yn ychwanegu at eu hymateb i'r gwaith.

Â yn ei flaen:

Un o'r cymhellion y tu ôl i'r cerddi oedd ceisio dangos bod modd i Gymreictod oroesi hyd yn oed os yw rhai ffurfiau neu ddelweddau cyfarwydd ohono yn darfod.<sup>479</sup>

Bwriad arall gan Iwan wrth lunio'r casgliad oedd ceisio 'cyfleu'r cyfnod mewn modd mor grwn â phosib'.<sup>480</sup> Rhaid ystyried wrth ddarllen 'Gwreichion', yn arbennig felly gan fod pwyslais ar ddehongliad yr unigolyn, sut y mae'r cerddi yn cyflwyno'r 1980au i gynulleidfa na phrofodd y cyfnod ei hunan. Gellid dadlau bod ambell gerdd unigol o gyfrolau cyntaf Iwan yn dal naws y cyfnod wedi'r refferendwm yn fwy uniongyrchol na'r un o gerddi'r casgliad hwn, cerddi fel 'Darfod', 'Y seithfed don'<sup>481</sup> ac 'Mae'r cryman yn cau'.<sup>482</sup> Ond o ystyried

<sup>477</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Talwrn y Beirdd 8* (Caernarfon, 1996), t. 16.

<sup>478</sup> Grahame Davies, *Poetry Wales*, Vol.43, No.4 (Spring 2008), t. 67.

<sup>479</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', tt. 9, 10.

<sup>480</sup> *Ibid.*, t. 9.

<sup>481</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, tt. 45, 49.

<sup>482</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 63.



'Gwreichion' yn gyfanwaith, yn debyg i 'record hir', chwedl Iwan,<sup>483</sup> tystiwn i lu o emosiynau dwys a chawn ein tywys drwy gyfnodau o alar, siom, cywilydd, dryswch, anobaith, amheuaeth, edifeirwch, ac o sylweddoliadau. Gwelwn newid graddol wrth i'r ferch, gam wrth gam, ddod o hyd i'w llwybr a darganfod beth sy'n ei chynnal drwy adegau tywyll. Gellir ystyried 'Gwreichion', fel y farddoniaeth a ysgrifennodd Iwan yn ystod y degawd a ddilynodd 1979, yn fap (neu'n ganllaw) o'r broses seicolegol yng Nghymru dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Geni, nid galar, yw thema'r cerddi, ac yng ngenedigaeth Rhys y mae hanes, iaith a thraddodiadau'r Cymry yn cael eu diogelu. Ysgrifennodd Iwan englyn ar gyfer yr Ymryson ar ddydd Sadwrn olaf Eisteddfod Cwm Rhymini sy'n crynhoi hynny'n berffaith:

O raid mae fy nghyndeidiau – a'u holl hynt  
Yn llif fy ngwythiennau,  
O raid, yn fy mab, parhau  
Mae hanes fy myw innau.<sup>484</sup>

O farwor 1979 y gwreichionodd y Gymru newydd; ffenics a gododd o'r lludw hwnnw oedd y genhedlaeth hyderus a bleidleisiodd o blaid datganoli yn 1997. Roedd erledigaeth a llywodraethu anystyriol Thatcher a chyfres anffodus o ysgrifenyddion gwladol Cymru yn ystod y 1980au, ynghyd â hyder newydd y Cymry yn eu hunaniaeth amrywiol, yn sicr yn elfennau a gyfrannodd at y bleidlais gadarnhaol ddiweddarach. Roedd y bleidlais gadarnhaol a gafwyd yn refferendwm yr Alban wythnos cyn y bleidlais yng Nghymru hefyd yn ffactor a arweiniodd at ganlyniad cadarnhaol, yn ogystal â'r ffaith na fu fawr ddim ymgyrchu yn erbyn datganoli yr eildro, yn wahanol iawn i fel ag y bu hi yn 1979 a Neil Kinnock a Leo Abse yn wrthwynebwyr chwyrn i ddatganoli yng Nghymru.<sup>485</sup> Yn 1997, pleidleisiodd yr etholwyr o drwch blewyn o blaid Cynulliad i Gymru: 50.3% a bleidleisiodd o blaid datganoli, ond roedd yn ddigon i lacio rhywfaint ar afael San Steffan dros Gymru. Dyma'r Gymru newydd a oedd yn fagwrfa i Rhys a'i genhedlaeth.

---

<sup>483</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 9.

<sup>484</sup> Ymddengys yr englyn ym mhamffledyn *Y Bibell Lân* (Dydd Sadwrn, 11 Awst 1990), a hefyd yn Tegwyn Jones (gol.), *Deg Marci! Pigion Ymrysonau'r Babell Lân 1979-1998* (Llanrwst, 1999), t. 41.

<sup>485</sup> John Davies, *Hanes Cymru, Argraffiad newydd wedi ei ddiwygio* (London, 2007), t. 635.

## V

### 'Mae'r hen destament ar ben'

#### Cyrraedd cynulleidfa

Bu Iwan ar flaen y gad yn yr ymdrech i sicrhau bod cynulleidfa i farddoniaeth Gymraeg, ac roedd mynd â barddoniaeth at y bobl yn rhan hanfodol o'i weledigaeth er pan ddechreuodd ei yrfa fel bardd yn ystod y 1980au. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, roedd yn rhaid wrth ddau beth. Yn gyntaf, rhaid oedd i gynnwys ac i ieithwedd y cerddi fod yn ddeniadol ac yn gyfoes. Yn ail, roedd angen i feirdd fynd ati'n ymarferol i drefnu nosweithiau, trafod syniadau, ac amlygu bodolaeth y don newydd o feirdd ifainc a oedd yn codi ar y pryd drwy eu gwthio eu hunain i ganol cymdeithas a manteisio ar gyfryngau dylanwadol a ffasiynol. Dyma ddau beth a oedd yn medru tynnu'n groes i'w gilydd, fel y dywedodd Iwan ei hun:

Mae yna ddau beth yn pwysu ar unrhyw un sy'n sgwennu neu'n cynhyrchu rhywbeth trwy gyfrwng y Gymraeg: mae eisio trio bod yn ddidwyll ac yn gydnaws â'r hyn rydech eisio'i ddeud ond hefyd mae'r pwysau arnoch chi i drio cyrraedd cynulleidfa. Mae'r ddau beth yn aml iawn yn brwydro yn erbyn ei gilydd ...<sup>486</sup>

Lleisiodd Iwan ei farn ynghylch yr elfen gyntaf o ddiwygio ieithwedd ac arddull barddoniaeth yn yr erthyglau a ysgrifennodd ar y cyd â Wiliam Owen Roberts yn nechrau'r 1980au, lle dywed y ddau fod yn rhaid i lenyddiaeth Gymraeg ymateb i'r newidiadau cymdeithasol:

Ffolineb yw dweud bod yr iaith Gymraeg a'i 'thraddodiad' y tu allan i'r profiadau hyn. Rhaid newid ein hagwedd. Rhaid canfod dull llawer mwy ystwyth, goddefol a gonest, a llai ceidwadol a rhethregol, na dull y 'mil blynnyddoedd'.<sup>487</sup>

Dyma hefyd y cyfnod pryd y newidiodd arddull barddoniaeth Iwan ei hun. Gwahanol iawn oedd mynegiant y pryddestau alegoriol a ysgrifennodd pan oedd yn fyfyrwr, a dueddai i fod fymryn yn eiriog a blodeuog, o'i gymharu ag arddull cerddi *Sonedau Bore Sadwrn* a'u 'bold

---

<sup>486</sup> Iwan Llwyd, 'Y Bardd yn ei Archfarchnad', *Barn*, 355-6 (Awst/Medi 1992), t. 16.

<sup>487</sup> Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), t. 7.

political realism presented in stark, often ironic, free verse on the one hand, and a rich reflective lyricism on the other,' chwedl Jerry Hunter.<sup>488</sup>

Gwelwyd yr arddull ffres, gyfoes mewn print am y tro cyntaf yng nghyfrol Geraint Jarman, *Eira Cariad*, yn 1970,<sup>489</sup> ac yna gan Siôn Eirian yn *Plant Gadara*, yn 1975,<sup>490</sup> a dilynwyd honno gwta flwyddyn yn ddiweddarach gan y gyfrol gyntaf yng nghyfres Beirdd Answyddogol y Lolfa, *Trên y Chwyldro*.<sup>491</sup> Nod y gyfres Answyddogol, yn ôl perchennog gwasg Y Lolfa ac awdur y gyfrol gyntaf honno, Robat Gruffudd, oedd rhoi llwyfan i leisiau newydd nad oeddent yn perthyn i Barddas nac i Gyngor y Celfyddydau, a chyhoeddi 'stff gwleidyddol a stff *accessible* hefyd mewn arddull anllenyddol ac uniongyrchol'.<sup>492</sup> Ddeufis wedi i'r Lolfa gyhoeddi *Trên y Chwyldro*, cyhoeddodd Gwasg Gomer *Cerddi Alfred Street* gan Geraint Jarman, lle ceir yr un blas dinesig, cyfoes i'r farddoniaeth.<sup>493</sup> Ddwy flynedd wedi i'r Lolfa gyhoeddi'r gyfrol gyntaf honno dan faner answyddogol a gwrthsefydliadol glir, gwelwyd un o gyrff mwyaf sefydliadol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, yn derbyn ac yn gwobrwyo'r arddull newydd drwy goroni Siôn Eirian a'i 'Brofiadau Llencyndod' yn 1978. Coronwyd Siôn Aled dair blynedd yn ddiweddarach, yntau'n cofleidio'r mynegiant newydd wrth ddarlunio gîg Gymraeg: 'Ymfodda yn y cwrw a'r ddawns,' meddai wrth geisio denu merch, a'r ferch yn ymddodi'n drosiad o Gymru maes o law, yn butain sy'n gwrthod y Cymry a bleidleisiodd yn erbyn datganoli yn 1979.<sup>494</sup>

Roedd y gwahaniaeth rhwng arddull y beirdd hŷn traddodiadol a'r beirdd mwy anarchaidd yn dal yr un mor amlwg yng ngolwg Iwan yn 1993 pan adolygodd ddwy gyfrol a oedd, rhyngddynt, ochr yn ochr, yn amlinellu'r cyferbyniad rhwng dwy genhedlaeth. *Caneuon Talwrn y Beirdd a Dal Clêr* oedd y cyfrolau a adolygwyd, y naill yn cynnwys pigion y rhaglen radio wedi eu golygu gan Gerallt Lloyd Owen, un o sylfaenwyr y Gymdeithas Gerdd

---

<sup>488</sup> T. Gerald Hunter, 'Contemporary Welsh Poetry: 1969 –1996', *A Guide to Welsh Literature: c.1900-1996*, gol. Dafydd Johnston (Cardiff, 1998), t. 148.

<sup>489</sup> Geraint Jarman, *Eira Cariad* (Llyfrau'r Dryw, 1970).

<sup>490</sup> Siôn Eirian, *Plant Gadara* (Llandysul, 1975).

<sup>491</sup> Robat Gruffudd, *Trên y Chwyldro* (Talybont, 1976).

<sup>492</sup> 'Mae Englynion Fatha Sgampi', *Golwg* (7 Chwefror 1991), t. 23.

<sup>493</sup> Geraint Jarman, *Cerddi Alfred Street* (Llandysul, 1976).

<sup>494</sup> Siôn Aled, 'Wynebaw', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Maldwyn a'i Chyffiniau 1981* (Llandysul, 1981), tt. 31-7.

Dafod, a'r llall yn cyd-fynd â thaith Menna Elfyn, Ifor ap Glyn, Cyril Jones ac Elinor Wyn Reynolds, a ddigwyddodd ym mis Mai 1993:

Yr hyn sy'n wahanol rhwng y ddwy gyfrol yma sy'n taro rhywun yn syth. Mae caneuon y Talwrn yn eitha' traddodiadol eu naws. Blaenoriaid a hen lanciau, gwleidyddion a gwragedd ffarm. Dyna eu bwyd llwy. Mae'n hen draddodiad yng Nghymru – defnyddio mesurau poblogaidd i sylwi a sylwebu ar gymeriad neu ddigwyddiad arbennig. Adrodd rhyw droeon trwstan maen nhw ar y cyfan, gyda thro yn y gynffon, neu neges fach gyfoes neu ddychanol. A chan amlaf mae'r testun a osodir yn galw am gân o'r fath – 'Y Neuadd Bentref', 'Y Bore Coffi', 'Steddfod y Capel', 'Ethol Cadeirydd'.

Disgrifiad go wahanol oedd gan Iwan o *Dal Clêr*:

Mae eu pynciau nhw gan fwya' yn syrthio'n bendant i gategori y trendi a'r leffti. Mae Cyril Jones yn sôn am yr awen Gymraeg yn "dod o hyd i'w chlitoris" – wel ar f'encos i – byddai microffonau'r Talwrn yn popian o glywed y ffasiwn air a'r ffasiwn haeriad.<sup>495</sup>

Rhodddwyd rhywfaint o sylw i'r newid a fu o ran ieithwedd a mynegiant eisoes yn ail bennod y thesis, a hynny mewn goleuni gwleidyddol a chymdeithasol. Amlinellwyd yn fras hefyd, yng nghyd-destun swyddogaeth barddoniaeth, sut y credai Iwan y dylid poblogeiddio barddoniaeth Gymraeg. Bwriad y bennod hon yw ymhelaethu ar y sylwadau hynny a thrafod deunydd y cerddi a ddefnyddiodd Iwan yn ei ymdrechion i boblogeiddio barddoniaeth gan ganolbwyntio ar yr elfen berfformiadol.

Er bod pwyslais amlwg ar ddiwygio a moderneiddio barddoniaeth Gymraeg ar ddiwedd y 1970au ac yn ystod y 1980au yn bennaf, dychwelyd at wreiddiau barddoniaeth Gymraeg a wnaeth beirdd fel Ifor ap Glyn, Myrddin ap Dafydd, Menna Elfyn ac Iwan ei hun, mewn gwirionedd, wrth fynd â'u cerddi'n uniongyrchol at gynulleidfa. Roedd cyfnod y Cywyddwyr yn gyfnod pan oedd teithio a chlera yn rhan hanfodol o fywoliaeth bardd wrth iddo chwilio am nawdd mewn gwahanol lysoedd bonheddig neu dai eglwysig. Roedd Iwan yn bur gyfarwydd â beirdd ac â barddoniaeth y cyfnod hwnnw, a byddai'n dyfynnu o weithiau'r Cywyddwyr yn aml yn ei golofnau yn *Barddas* ac yn *Barn*. Yn ystod ei gyfnod fel

---

<sup>495</sup> Iwan Llwyd, 'Cyfrolau'r Perfformio Geiriau', *Golwg* (9 Rhagfyr 1993), t. 20.

myfyriwr ymchwil ymdrwythodd yn hanes y traddodiad teithiol a oedd yn ei anterth yn y bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg. Crisialodd beth o'r gwaith ymchwil hwnnw mewn darlith a draddododd yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog yn 1987, *Llwybro â Llafur at Lynllifon*, ac yn 1990 cyhoeddwyd copi o'r ddarlith sy'n cychwyn drwy olrhain taith Huw Machno i Blas Glynllifon. Mae'n amlwg fod teithiau'r beirdd yn apelio at ddychymyg Iwan a bod rhyw swyn i'r syniad o gyrchu cynulleidfa, fel y dengys y cyflwyniad atmosfferig ac apelgar hwn:

Pe gallem gael benthg blwch teliffon Dr Who a chamu'n ôl dros dri chan mlynedd a hanner i chwarter cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg, ac yna hedfan yn isel un nos Nadolig oer dros yr anialdir rhwng Tremadog a Nebo, lle tardd afon Dwyfor, fe welem ffigwr unig, myfyrgar, yn ymwithio'n araf ofalus rhwng y creigiau a'r rhaeadrau i gyfeiriad Bwlch Cwmdulyn. Beth am ddisgyn yn is, drwy'r niwl, i gael gwell golwg ar y cymeriad rhyfedd yma? Yn ddigon isel i weld wyneb un sy'n barod i fentro allan yn y fath dywydd a hithau'n wyliau Nadolig. Fflicio'n sydyn drwy gopi cyfleus o *Gydymaith* yr oes – un â darluniau o bob cymeriad o bwys – a dyna gadarnhau'r amheuan. Huw Machno, un o ffyddloniaid hen grefft y beirdd yw ef.<sup>496</sup>

Fel y gwelwn dro ar ôl tro, mae plethu'r diwylliant cyfoes a'r hen draddodiadau difyr, fel y cysyllta Dr Who a Huw Machno yma, yn gwbl nodweddiadol o Iwan ac o'i safle fel Cymro ar drothwy'r unfed ganrif ar hugain mewn hinsawdd ôl-fodernaidd. Bron nad yw cymryd darn o rywbeth sy'n gyfarwydd i'r gynulleidfa fodern, sef blwch Dr Who, a'i blannu mewn darn o hanes yn dangos elfen o'r *fragmentation* a ddefnyddir gan ôl-fodernwyr, ac mae'r ffaith fod y blwch hynod hwnnw yn ein galluogi i rannu ymwybyddiaeth rhwng dau gyfnod yn gwneud y darlun yn un fwy cymhleth eto. Yn ei restr o nodweddion beirniadaeth ôl-fodern, dywed Peter Barry: 'the postmodernist realises that the past must be revisited, but "with irony"',<sup>497</sup> ac mae hynny'n berthnasol i'w ystyried yng nghyd-destun agoriad darlith Iwan.

Ac yntau'n fardd ei hun, mae'n debyg i'r ymwybyddiaeth o'r hen draddodiad y perthynai iddo gael cryn argraff ar Iwan. Nid peth anarferol ganddo yw dyfynnu darn o farddoniaeth y Cywyddwyr yng nghanol adolygiadau ar fwytai a thafarnau a ysgrifennai i

---

<sup>496</sup> Iwan Llwyd Williams, *Llwybro â Llafur at Lynllifon* (Cyhoeddiadau Glynllifon, 1990), t. 1.

<sup>497</sup> Peter Barry, *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory*, Trydydd argraffiad (Manchester, 2009), t. 88.

*Barn*,<sup>498</sup> ac yn ôl Wiliam Owen Roberts, arferai ddechrau adrodd rhan o farwnad Guto'r Glyn i Lywelyn ab y Moel, 'Mae arch yn Ystrad Marchell ...' ar ganol ambell noson hwyliog mewn tafarn.<sup>499</sup> Mae'n bur debyg mai dylanwad traddodiad y clerwyr yw un o'r rhesymau dros geisio gosod barddoniaeth yng nghanol cyfundrefn cymdeithas unwaith yn rhagor, a thros fynd â barddoniaeth o le i le i'w chyflwyno gerbron cynulleidfa, yn union fel y gwnâi'r beirdd gynt. Rhan o boblogeiddio barddoniaeth y presennol oedd dilyn llwybrau hen draddodiad.

Dylanwad arall arno oedd poblogrwydd y traddodiad llafar Americanaidd yn Efrog Newydd ac yn San Francisco gyda beirdd *beat* fel Allen Ginsberg, William S. Burroughs a Jack Kerouac yn perfformio mewn tafarnau a chlybiau o ganol y 1950au ymlaen. Dechreuodd y traddodiad hwnnw gyda noson y *Six Gallery Reading* yn 1955 lle daeth pum bardd, gan gynnwys Ginsberg ei hun, ynghyd i ddarllen eu barddoniaeth o flaen cynulleidfa. Roedd Ginsberg yn dipyn o arwr gan Iwan, ac mae'n cydnabod dylanwad y bardd a chenhedlaeth y *beat* arno mewn ysgrif goffa iddo yn 1997:

... roedd y bardd barfog, gwalltog o Efrog Newydd yn gosod sialens i ddod â barddoniaeth allan o'r celloedd academiaidd ac i'r stryd a'r clwb a'r dafarn. Mewn ffordd ddiniwed, naïf, dyna yn union ein nod ar ddechrau'r wythdegau gyda theithiau cwblw ddi-drefn fel 'Fel yr Hed y Frân'.<sup>500</sup>

Yn yr un ysgrif, fe sonia Iwan am yr un tro y cafodd ysgwyd llaw Ginsberg ym maes parcio Neuadd Pantycelyn yn Aberystwyth, a'r bardd Americanaidd ar ymweliad ag Abertawe. Roedd wedi dod gyda Dafydd Rowlands i glywed barddoniaeth Gymraeg gaeth mewn ymryson yn ystod y Ffair Eiriau gyntaf yn Aberystwyth, a dyfynna Iwan eiriau Ginsberg wedi iddo fod yn gwrando ar y farddoniaeth, 'Is this some kind of rock'n roll thing?'.<sup>501</sup> Yn ystod y 1960au cododd beirdd Merswy oedd hefyd yn rhoi pwyslais ar berfformio cerddi a llacio

---

<sup>498</sup> Gwelir hyn yn ail gyfraniad Iwan i'r golofn fwyd yn *Barn*, 405 (Hydref 1996), t. 22, lle dyfynna bwt o gywydd mawl Lewys Môn i Wiliam ap Gruffudd ap Robin wrth sôn am y croeso a gâi'r beirdd yng Nghochwillan. Defnyddiodd linell gan Goronwy Owen yn deitl i'w drydydd cyfraniad, 'Pysg, adar, pob pasgedig', yn *Barn*, 406 (Tachwedd 1996), t. 22, a dyfynnodd yr un llinell eto yn ei golofn yn *Barn*, 423 (Ebrill 1998), t. 26. Yn ei golofn yn *Barn*, 435 (Ebrill 1999), t. 34, mae'n sôn am Dafydd Nanmor yn crwydro'r wlad yn gwledda yn nhai'r uchelwyr cyn dyfynnu llinell gan y bardd Gwilym Puw o'r ail ganrif ar bymtheg. Dim ond llond llaw o enghreifftiau a geir yma, wrth gwrs, ond gellid parhau i restru enghreifftiau sy'n dangos Iwan yn dyfynnu beirdd fel Guto'r Glyn ac Ieuan Brydydd Hir mewn manau eraill.

<sup>499</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Rhai atgofion coleg', *Iwan, ar Daith*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2010), t. 33.

<sup>500</sup> Iwan Llwyd, 'Allen Ginsberg 1926-1997', *Barddas*, 241 (Mehfein/Gorffennaf 1997), t. 32.

<sup>501</sup> *Ibid.*, t. 33.

arddull eu barddoniaeth. Soniodd Iwan amdanynt fel esiampI i'r beirdd yng Nghymru ar y rhaglen deledu 'Y Byd yn ei Le' gyda Vaughan Hughes:

Gesh i'r fraint yn ddiweddar o fynd i weld beirdd Merswy yng Nghaerdydd 'ma, beirdd – Roger McGough, a'r rhein naeth godi yn ystod y chwedegau, a be oeddau nhw yn ei gyflwyno oedd barddoniaeth oedd yn codi o'r bobl ac o'r gymdeithas oedd ar y pryd hynny, a'r gymdeithas y maen nhw'n rhan ohoni o hyd, ynde. Dyna'r math o farddoniaeth dwi isio'i weld yng Nghymru, math o farddoniaeth ehangach o ran ei apêl ac o ran ei ddylanwad.<sup>502</sup>

Nid cynnig adloniant ar gyfer y gynulleidfa yn unig oedd diben y nosweithiau o wrando ar farddoniaeth: roedd y beirdd eu hunain hefyd ar eu hennill o grwydro wrth iddynt ddwyn ysbrydoliaeth o leoedd ac o sgysiau newydd. Eglura Iwan: 'O rannu'r daith daw syniadau newydd a chynlluniau newydd, sydd yn eu tro yn rhoi cig ar esgyrn cerddi a chaneuon y sioe'.<sup>503</sup> Dywed Myrddin ap Dafydd rywbeth tebyg yn ei ysgrif 'Dilyn camau'r cywyddwyr', pan sonia am y gwerth sydd i'r teithio ei hun yn ogystal â'r cwmni:

Drwy ffeirio geiriau a chwmniaeth a syniadau a straeon, mae cryfder un ardal yn ei fenthyg ei hun i ardal arall a'r rhubanau'n tynhau.<sup>504</sup>

Cafodd y broses o ddychwelyd at wreiddiau'r traddodiad barddol ei thrafod gan Iwan yn yr ysgrif 'Cydnabod Cynulleidfa', lle sonia yn gyntaf am Guto'r Glyn fel yr enghraifft berffaith o fardd cymdeithasol. Geilw Guto'r Glyn y 'mwyaf dynol' o'r Cywyddwyr wrth iddo gyfarch a phortreadu'r bobl o'i gwmpas, a thybia i'r Cywyddwr o'r bymthegfed ganrif 'grynhoi teimladau bardd a fu'n hynod ymwybodol o'i gynulleidfa, ei gyfeillion a'i noddwyr ar hyd ei oes hir'. Â Iwan yn ei flaen i bwysleisio gwerth cymdeithasol barddoniaeth Gymraeg hyd ddiwedd oes aur y Cywyddwyr, a hyd yn oed wrth i'r gair printiedig ddod yn amlycach cyfrwng yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd emynwyr fel Williams Pantycelyn, Dafydd Jones o Gaeo ac Ehedydd Iâl yn dal i ddarparu yn benodol ar gyfer cynulleidfa fyw. Rhaid cofio hefyd mai dyma gyfnod yr anterliwtiau a'r baledwyr a oedd yn cynnal y diwylliant llafar ar y pryd, a'u pwyslais ar berfformiadau byw. Wrth iddo roi

---

<sup>502</sup> *Y Byd yn ei Le* (Darlledwyd: 29/03/85).

<sup>503</sup> Iwan Llwyd, 'Iwan Sant', *Barn*, 478 (Tachwedd 2002), t. 41.

<sup>504</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Dilyn camau'r cywyddwyr', *Iwan, ar Daith*, t. 46.

sylw maes o law i'r sefyllfa bresennol, mae'n cadarnhau mai atgyfodi'r traddodiad teithiol ac adfer y cyfrwng llafar oedd agenda'r to o feirdd a gododd yn ystod y 1980au:

Pan ddechreuodd criw ohonom deithio a pherfformio cerddi'n gyhoeddus yn nechrau'r 1980au, 'roeddem ni'n adweithio yn erbyn cyfnod hir arall lle'r oedd barddoniaeth i raddau helaeth wedi ei gyfyngu rhwng cloriau llyfrau a chylchgronau, neu'r ystafell ddo-barth a darlithio (ac eithrio traddodiad anrhydeddus yr ymrysonau yng nghefn gwlad Cymru wrth gwrs). I raddau 'roedden ni wedi ein sbarduno gan dueddiadau cyfoes yn Lloegr ac America, sef mynnu ymateb cynulleidfa fyw i gerddi a chaneuon o bob math, yn ddwys a doniol, uniongyrchol a chymhleth.<sup>505</sup>

Noda Myrddin ap Dafydd fod ymwneud Iwan â theithiau a nosweithiau barddol wedi cychwyn yn Eisteddfod Genedlaethol Môn yn Llangefni yn 1983.<sup>506</sup> Roedd yn rhan o ddifyrrwch Y Babell Glên, sesiynau adloniannol a gynhaliwyd yn ystod prynhawniau'r Eisteddfod yn nhafarn y Bull. Roedd hefyd yn rhan o daith y rifw Tros Ryddid, cymysgedd o gerddi ac o ganeuon gan Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovgreen a ganolbwyntiai ar Gymry a fu farw dan faner Prydain, ac a sonia'n arbennig am y milwyr Cymreig a laddwyd yn y Malvinas yn 1982. Trefnwyd y daith farddol gyntaf, Fel yr Hed y Frân, yn 1986 pan ymwelodd llu o 'feirdd ifainc' â gwahanol ganolfannau ledled y wlad yn ystod mis Mehefin gan obeithio 'rhoi peth o flas amrywiol barddoniaeth yr wythdegau yng Nghymru' i'r gynulleidfa.<sup>507</sup> Trefn ddigon llac oedd i'r nosweithiau hyn gyda'r beirdd a gymerai ran yn amrywio o noson i noson. Cyhoeddwyd llyfryn yn sgil y daith ac ynddo gerddi gan un ar ddeg o feirdd, a dwy o gerddi Iwan yn eu plith: 'Y Dywysogaeth', a gyhoeddwyd drachefn yn *Dan Fy Ngwynt*, a'r bryddest 'Diwedd Awst' a gafodd ei gosod yn y dosbarth cyntaf gan Dafydd Rowlands yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 1984. Fel y ceir mewn amryw o gerddi Iwan o'r cyfnod hwnnw, crynhoi'r diflastod a ddaeth yn sgil diweithdra sydd yn y bryddest. Braidd yn ddi-fflach yw'r gerdd erbyn hyn, ond derbyniodd ganmoliaeth gan Dafydd Rowlands, a nododd: 'O'r holl gerddi yn y gystadleuaeth, hon efallai a roes imi'r teimpladau dyfnaf a dwysaf'.<sup>508</sup> Cerdd i'w darllen yn hytrach na cherdd i wrando arni ydyw, fodd bynnag, yn wahanol i 'Y Dywysogaeth' sy'n gallu gweithio'r ddwy ffordd gyda'i harddull

<sup>505</sup> Iwan Llwyd, 'Cydnabod Cynulleidfa', *Barddas*, 277 (Mai/Mehefin 2004), t. 38.

<sup>506</sup> Cyflwyniad Myrddin ap Dafydd yn *Iwan, ar Daith*, t. 13.

<sup>507</sup> 'Cyflwyniad' yn Iwan Llwyd et al., *Fel yr Hed y Frân* (Cytgord, 1986).

<sup>508</sup> Beirniadaeth Dafydd Rowlands ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984* (Llandysul, 1984), t. 37.



uniongyrchol, ei throsiadau haws i'w llyncu, a'i hergyd ddeifiol amlwg wrth iddi drafod llofruddiaeth yng Nghaerdydd ochr yn ochr â marwolaeth yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.<sup>509</sup>

Yn dilyn taith Fel yr Hed y Frân, dechreuwyd traddodiad o deithiau barddol a bu Iwan yn rhan o nifer fawr ohonynt. Bu'n rhan o naw taith rhwng 1986 a 2002 lle bu criw o feirdd yn cynnal amryw sioeau: rhai'n thematig yn trafod diwylliant prynu a gwerthu'r byd masnachol, yn trafod Glyndŵr a seintiau ynysydd Prydain, yn mynd ar drywydd y blws neu'n sôn am daith i Dde America, a sioeau eraill heb thema benodol. Roedd cynnal y teithiau hyn, a chynnal nosweithiau unigol anffurfiol eu naws, yn ddatblygiad a ddaeth yn sgil y newid yn arddull barddoniaeth Gymraeg yn ystod diwedd y 1970au a'r 1980au. Nid oedd yn rhaid i farddoniaeth fod yn rhywbeth cymhleth i'w astudio a'i edmygu o bell, ac roedd y Beirdd Answyddogol wedi mynd ati i ddymchwel y syniad hwnnw eisoes. Mynd â barddoniaeth at y bobl fel adloniant oedd y nod. Wedi'r daith gyntaf honno yn 1986, datblygodd mwy o strwythur a gwelwyd mwy o ôl cynllunio ar y teithiau a'i dilynodd: cyhoeddwyd llyfrau i gyd-fynd ag ambell un a recordiwyd rhaglen deledu ochr yn ochr ag ambell sioe.

Cicio Ciwcymbars yn 1988 oedd yr ail daith i'w threfnu, gyda Menna Elfyn, Steve Eaves, Ifor ap Glyn, Elwyn Williams ac Iwan yn hawlio'r llwyfan. Teithiasant o Fôn i Gaerdydd yn ystod mis Tachwedd gan ymweld ag ysgolion yn ogystal â chanolfannau a thafarndai, ac aeth y cwmni teledu Criw Byw ati i gynhyrchu rhaglen a ddilynai'r daith ac a soniai am amcanion y beirdd wrth drefnu taith o'r fath. Roedd mwy o strwythur i Cicio Ciwcymbars gyda sgript a oedd yn nodi trefn y noson ac yn cofnodi cyfarwyddiadau llwyfan manwl i'r beirdd eu dilyn. Roedd hefyd set a ddyluniwyd gan Iwan Bala yn gefnlen i berfformiadau'r beirdd; cafwyd cyfeiliant gitâr i ambell gerdd a rhoddwyd pwyslais ar yr elfen weledol i'r cyflwyniadau. Pan holwyd Ifor ap Glyn pa fath o giwcymbars roedden nhw'n ceisio eu cicio ar y daith, 'rhai traddodiadol' oedd yr ateb.<sup>510</sup> Argraff Peredur Lynch oedd fod 'rhywun yn ymwybodol iawn fod y perfformwyr yn benderfynol o'n perswadio ni mai rhywbeth normal a di-lol sy'n eiddo i bawb yw barddoniaeth, ac nad yw beirdd ond bodau naturiol o gig a

---

<sup>509</sup> Trafodir y gerdd hon yn fanylach ym Mhennod 3.

<sup>510</sup> *Cicio Ciwcymbars* (Criw Byw, Darlledwyd: 9/04/1989).

gwaed fel chi a fi'.<sup>511</sup> Dywedodd Menna Elfyn, hithau, mai 'rhannu dynoliaeth' oedd y nod a rhannu profiadau sy'n gyffredin â'r gynulleidfa.<sup>512</sup>

Caiff nod arall i'r daith ei ddatgan yn nyluniad Iwan Bala ar gyfer clawr y rhaglen, lle ceir darlun o ŵr parchus yr olwg a'i ben mewn llyfr ac o'i enau daw bachgen noeth sy'n mwynhau ei ryddid.<sup>513</sup> Dyna amlinellu meddylfryd y beirdd nad peth i'w gaethiwo rhwng cloriau oedd barddoniaeth. Rhaid oedd codi'r geiriau oddi ar y ddalen a'u rhyddhau, fel petai. Roedd Iwan yn awyddus i ddangos nad oedd barddoniaeth yn ddim ond estyniad o'r hyn a wnâi wrth ysgrifennu geiriau caneuon, ac roedd honno'n ddisgyblaeth yr oedd wedi ei harfer pan oedd yn aelod o'r band Doctor, ac yn grefft a ddatblygodd wrth iddo barhau i ysgrifennu geiriau'n gyson i Geraint Lovgreen a'r Enw Da. Roedd y berthynas rhwng barddoniaeth a cherddoriaeth yn amlwg yn y sioe. Dechreuai'r noson gydag Iwan yn darllen cerdd Steve Eaves, 'Garej Lôn Glan Môr', i gyfeiliant gan Steve Eaves, Elwyn Williams a Richard Wyn Jones. Darllenai Ifor ap Glyn ei gerdd 'Lein Ddillad' i gyfeiliant banjo; roedd organ geg yn gefndir i gerdd Steve Eaves, 'Muddy Waters', wrth i Iwan ei darllen, ac roedd cyfeiliant hefyd i ddwy o gerddi Iwan ei hun, 'Y Fari(Wana)' a 'Tra Byddwn', a ddarllenwyd fesul rhan gan y pedwar bardd. Roedd y cydweithio a'r cyd-greu hwn hefyd yn greiddiol i gyflwyniad y sioe; roedd yn 'amcanu at ddryllio'r berthynas haearnidd sydd yna rhwng bardd a'i greadigaeth,' yng ngeiriau Peredur Lynch.<sup>514</sup>

Yn ôl un o'r sgrriptiau gwreiddiol ar gyfer y daith, rhai o'r cerddi y dewisodd Iwan eu cynnwys yn y sioe oedd 'Cerdd Dywyll', 'Chwarae Plant', 'Hogan Drws Nesa', 'Barddoni (yn Gymraeg)', 'Methu Cysgu', 'Y Dywysogaeth', 'Y Fari(Wana)', 'Grand Hotel', ac 'Y Seithfed Don'. Cerdd arall a ddarllenwyd ar y rhaglen deledu ond na chafodd ei chynnwys yn rhan o'r sgrript oedd 'Lliwiau'n hedfan', cerdd sy'n cyferbynnu arddangosiad milwrol *Trooping the Colour* â gŵyl liwgar amlddiwylliannol a oedd yn rhan o'r Greater London Council Festivals. Cyhoeddwyd y cerddi oll, ar wahân i 'Hogan Drws Nesa', yn *Sonedau Bore Sadwrn, Dan Anesthetig*, neu *Dan Fy Ngwynt*, ond nid cerdd anghyfarwydd mo 'Hogan Drws Nesa' chwaith a hithau'n fersiwn gynnar o un o gerddi 'Gwreichion'. Ceir yn y cerddi a restrwyd

---

<sup>511</sup> Peredur Lynch, 'Gwreiddiau Ciwycymbars!', *Golwg* (24 Tachwedd 1988), t. 23.

<sup>512</sup> Ken Owen, 'Ciwycymbars a cherddi eraill', *Golwg* (6 Hydref 1988), t. 22.

<sup>513</sup> Iwan Llwyd et al., *Cicio Ciwycymbars* (Llangefni, 1988).

<sup>514</sup> Peredur Lynch, 'Gwreiddiau Ciwycymbars!', t. 23.

gyfuniad o'r dwys a'r digri; ceir ambell gerdd ysgafn ddychanol ac ambell un ac iddi fwy o feirniadaeth ddeifiol. Mae'r rhan fwyaf, fodd bynnag, yn gerddi cymharol hawdd eu deall, a hynny wedi dim ond un gwrandawriad. Maent hefyd yn gerddi cyfoes a oedd yn ymdrin â materion gwleidyddol y dydd ac yn trin a thrafod pynciau y gallai cynulleidfa ymateb iddynt yn rhwydd.

Wedi arbrawf Fel yr Hed y Frân, efallai i Iwan sylweddoli sut gerddi oedd yn gweithio wrth eu perfformio ar lafar. Mae'n debyg iddo ddeall pwysigrwydd y ffaith mai un gwrandawriad sydd i gerdd mewn noson o'r fath, ac ni cheir cerdd fel 'Diwedd Awst' ganddo yn Cicio Ciwcymbars. Yn ei hastudiaeth o farddoniaeth Menna Elfyn, nodi Rhiannon Marks mai anos yw dadansoddi cerdd o'i chlywed yn hytrach na'i darllen:

... os yw'r gwrandawr wedi colli ambell linell, sy'n siŵr o ddigwydd, nid oes modd ailddarllen y perfformiad. Rhaid yn hytrach fodloni ar 'the pleasure of getting lost in language that surges forward, allowing the mind to wander in the presence of words', chwedl Charles Bernstein.<sup>515</sup>

Â yn ei blaen i sôn am bwysigrwydd sŵn cerdd ar draul ei hystyr mewn perfformiad byw: 'gwledd i'r glust ydyw yn hytrach na phos i'r llygad,' meddai.<sup>516</sup> Dywedodd Myrddin ap Dafydd yn ei ragair i *Cywyddau Cyhoeddus 2* y 'byddai cynulleidfa na chlywodd erioed air o Gymraeg yn medru ymateb i hynny [sef sŵn emosiwn mewn cerdd] ac ymateb i'r fydryddiaeth a'i miwsig'.<sup>517</sup> Gellid dyfynnu ambell linell o'r gerdd 'Hogan Drws Nesa' er mwyn canfod prydfferthwch sŵn geiriau, ac roedd y perfformiad rap gan Ifor ap Glyn ac Iwan o gywydd Dafydd ap Gwilym 'Trafferth mewn Tafarn' hefyd â'i bwyslais amlwg ar y sain. Ond efallai fod yr ymwybyddiaeth o sŵn cerddi yn amlycach yn y daith nesaf y bu Iwan ynghlwm â hi.

Taith a oedd yn canolbwyntio ar gyfalafiaeth ac ar ddiwylliant prynu a gwerthu archfarchnadoedd mawrion oedd Bol a Chyfri' Banc a ddigwyddodd yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 1995. Ifor ap Glyn, Myrddin ap Dafydd, Geraint Lovgreen ac Iwan oedd

---

<sup>515</sup> Rhiannon Marks, *'Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr': Golwg ar waith Menna Elfyn* (Caerdydd, 2013), t. 80.

<sup>516</sup> *Ibid.*, t. 81.

<sup>517</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2* (Llanrwst, 1996), t. 9.

y pedwar a aeth â'u cerddi a'u caneuon ar y daith honno, taith a gychwynnodd fel rhaglen deledu i gwmni Tafwys, cwmni teledu Ifor ap Glyn. Ffilmwyd 'Mae dyn yn fwy na Bol a Chyfri' Banc' cyn y daith, ac fe'i darlledwyd ym mis Rhagfyr.<sup>518</sup> Noddwyd y daith gan TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) a chan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac wedi cyflwyno'r noson gerbron cynulleidfaoedd o'r Bala i Gwmllynfell, fe atgyfodwyd y sioe ddwywaith yn 1996, unwaith yn nhafarn y Morgan Lloyd yng Nghaernarfon ar 14 Chwefror, a'r eildro yn Poetryfest Aberystwyth ar 8 Gorffennaf lle cafwyd fersiwn o'r sioe dan y teitl 'Bôl'. Yr un oedd amcan y daith hon â'r teithiau blaenorol, a chadarnhawyd hynny mewn adolygiad: 'Nod taith "Bol a Chyfri Banc" oedd defnyddio cerddi bachog a beiddgar i ddenu pobol go-iawn at farddoniaeth'.<sup>519</sup> Os oedd datblygiad wedi bod rhwng Fel yr Hed y Frân a Cicio Ciwcymbars, yna gwelwyd datblygiad pellach eto erbyn i Bol a Chyfri' Banc deithio clybiau a thafarndai Cymru. Roedd yn 'gynhyrchiad soffistigedig', a dyfynnu Iwan ei hun;<sup>520</sup> roedd gan y sioe ei thechnegydd ei hun, cafodd ei chyfarwyddo gan Wyn Williams, a dangoswyd clipiau fideo ar sgrin yn ystod y nosweithiau.

Argraffwyd cyfrol hefyd yn dilyn y daith, sy'n cynnwys y cerddi a ddarllenid gan y beirdd.<sup>521</sup> Ynddi ceir nifer o gerddi taith Iwan i America, crud cyfalafiaeth, cerddi sy'n llawn potensial o'u cyflwyno ar lafar. Wrth drafod cerddi taith T. H. Parry-Williams i America yn y gyfrol *Cerddi*, a nifer o'r rheiny'n sonedau, awgrymodd Angharad Price mai rhyw 'hanner odli' a geid yn rhai ohonynt wrth i Parry-Williams geisio '[c]anfod atseiniau rhwng ei ddiwylliant ei hun a'r byd dieithr y mae wedi glanio ynddo'. Ymhelaetha gan nodi:

Nid yw gofynion ffurf a chymhlethdod profiad yn bodloni ei gilydd bob amser yn nifer ohonynt, a theimlir y byddai wedi talu i Parry-Williams ymadael â ffurf y soned ar brydiau ac ildio i fydryddiaeth lacach.<sup>522</sup>

Dyna lle y llwyddodd Iwan. Ni chafodd ei gyfyngu na'i gaethiwo gan hualau mesurau yn ei gerddi taith i America. Gwlad rhyddid a gwlad hela breuddwydion oedd hon, ac mae'r cerddi'n ddrych o hynny i raddau. Er y ceir ambell gerdd fel 'Far Rockaway' a 'Nashville' sy'n

---

<sup>518</sup> *Achabachyn: Bol a Chyfri' Banc* (Tafwys, Darlledwyd: 22/12/95).

<sup>519</sup> Dylan Morus, 'Cerddi Roc a Rôl', *Golwg* (16 Tachwedd 1995), t. 16.

<sup>520</sup> Copi o neges ffacs gan Iwan at Ifor ap Glyn gyda'r pennawd 'Beirdd Cyf.' a anfonwyd ar 6/05/1998.

<sup>521</sup> Iwan Llwyd, Ifor ap Glyn a Myrddin ap Dafydd, *Bol a Chyfri' Banc* (Llanrwst, 1995).

<sup>522</sup> Rhagymadrodd Angharad Price yn T. H. Parry-Williams, *Cerddi* (Llandysul, 2011), tt. xii, xiii.

frith o odlau heb fod yn or-gaeth i rythm strwythuredig, cerddi penrhydd yw'r mwyafrif sy'n defnyddio odlau yma ac acw i gyflymu'r rhythm, i gyffroi ac i gyfleu cynnwrf ac ehangder America. Yn 'Efrog Newydd', er enghraifft, penrhydd yw'r ddau gymal cyntaf sy'n cyfleu'r naws anesmwyth yn y ddinas; dim ond wrth i'r bardd geisio cysur ac yntau'n methu cysgu y daw diogelwch yr odlau cyfarwydd, a byddai cynulleidfa yn synhwyro hynny hefyd, bid siŵr:

... 'does dim amdani ond gwylio'r teledu,  
y rhaglenni hwyr y nos nad ydan nhw byth yn cysgu,  
sy'n cynnig cyngor i barau priod  
neu'n datguddio'r efengyl fesul adnod;  
yn cynnig rhyw neu fenyw'n rhad,  
yn cynnig gwobr am ganu gwlad ...<sup>523</sup>

Teg dweud nad cerddi penrhydd fyddai'r cerddi amlycaf i'w darllen gerbron cynulleidfa fel rheol, heb sigl rhythm na sicrwydd odlau deniadol i'w diddanu, ond y rhain o bosib yw cerddi gorau Iwan yn y gyfrol *Bol a Chyfri' Banc*, ac nid ydynt heb eu hapêl i'r glust. Gall cerdd fel 'Ellis Island' ymddangos yn dwyllodrus o ryddieithol, a gall hynny adael i gynulleidfa werthfawrogi elfennau gwahanol yn y farddoniaeth, fel llun anghyfarwydd yr haul yn 'chwarae mig rhwng Lexington a 3rd Avenue'; gallent sawru'r enwau dieithr, ac wedyn werthfawrogi'n fwy gyfeiriadaeth gyfarwydd ond eironig y 'neuadd rhwng yr eang furiau'.<sup>524</sup> Mae nifer o'r cerddi taith hyn yn frith o enwau diddorol, llefydd fel Manhattan, Nashville, Wild Rose a Far Rockaway, enwau i'w clywed yn hytrach na'u darllen, a cheir ymadroddion fel 'byrgyrbars', 'freeway', 'coffi to-go' ac 'interstates' sy'n cynnig yr un wefr i'r glust. Ceir yn rhai o'r cerddi ddatganiad neu gyfarchiad sy'n gofyn am berfformiad llafar. Ystyrier diwedd 'Ellis Island':

... bloeddiwn ac [*sic*] un llais ym mhob iaith:  
'rwy'n Americanwr – rwy'n rhydd'.

Neu 'Harley Davidson', lle caiff y gynulleidfa ei chydabod a'i chyfarch yn uniongyrchol:

... 'dydi o'n rhyfedd –

---

<sup>523</sup> Iwan Llwyd et al., *Bol a Chyfri' Banc*, t. 13.

<sup>524</sup> *Ibid.*, tt. 11-12.

ystyriwch y peth:  
saith canrif yn ôl  
bu cofis dre  
yn crymu dan bwysau meini'r Sais ...<sup>525</sup>

Cafodd cerddi eraill eu cynnwys yn *Bol a Chyfri' Banc* sydd wedi eu lleoli'n nes at gartref, cerddi fel 'Genod y til', 'Trolïau', ac 'Ar ddarllen Brecht yn y bog'.<sup>526</sup> Yr hyn a geir yng ngherddi taith Iwan yw Cymro sy'n amsugno dylanwadau newydd, mynegiant newydd a delweddau ffres, ac wedi iddo ddychwelyd adref, ni all ddianc rhag dylanwad ei deithiau. Gwêl fod mwy i Gymru na Chymreictod, ac mae'n rhoi iddi ei lle yng nghanol dynoliaeth; mae'n sylwi ar sgysiau ac ar fynd a dod pobl gyffredin, ond eto heb anghofio am ei ddiwylliant unigryw fel Cymro. Yn 'Ar ddarllen Brecht yn y bog', er enghraifft, mae'n sôn amdanom yn 'llenwi / ein basgedi â phaté a bisgedi / caws Cymreig a *tagliatelle*', ac wrth iddo yntau wneud yr un fath, mae ei feddwl yn crwydro ac mae'n llunio llinell o gynghanedd – "neith honna'r tro / ar gyfer Talwrn nos 'fory,' meddylia.

Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o gerddi'r gyfrol *Bol a Chyfri' Banc* eisoes mewn cyfrolau eraill, ond ymddengys dwy gerdd gan Iwan nas argraffwyd yn ei gyfrolau ei hun. Cenir 'Ffarwél i Fangor Uchaf' gan Geraint Lovgreen ar y rhaglen deledu, ac mae sôn ynddi am arogl y tai bwyta Eidalaidd, Groegaidd ac Asiaidd ac am archfarchnad Safeway, a arferai fod ym Mangor Uchaf, sydd 'heno'n ddinas aur a'i muriau'n goch'.<sup>527</sup> Cyfansoddodd Iwan gerdd arall i'r archfarchnad honno ym Mangor a gyhoeddwyd yn ei gyfrol *Dan Fy Ngwynt* sydd, fel 'Ffarwél i Fangor Uchaf', yn darlunio'r archfarchnad fel lle cysurlon a diogel.<sup>528</sup> 'Tir neb' yw'r ail gerdd i weld golau dydd yn *Bol a Chyfri' Banc*, cerdd a gyfieithodd Iwan yn ddiweddarach ac a gynhwyswyd dan y teitl 'No Man's Land' yn y flodeugerdd *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*.<sup>529</sup> Er inni gylchdroi mewn byd masnachol lle mae popeth ar gael mewn amrantiad, sôn am bobl ddigartref ac am yr unigrwydd sydd yng Nghaerdydd a wneir yn y gerdd, ac mae rhyw anniddigrwydd tywyll yn perthyn i'r brifddinas:

---

<sup>525</sup> Ibid., tt. 12, 15.

<sup>526</sup> Ibid., tt. 22-4, 29-30, 73-4.

<sup>527</sup> Ibid., t. 64.

<sup>528</sup> Iwan Llwyd, 'Safeways', *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), tt. 42-5.

<sup>529</sup> Menna Elfyn a John Rowlands (gol.), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry* (Tarsset, 2003), tt. 350-1.

'Dydi hi byth yn nosi yma,  
fedri di ddim gweld y sêr  
uwch arwyddion neon Virgin a Chanolfan Dewi Sant,  
uwch y strydoedd plastig sy'n rhewi'r mêr ...<sup>530</sup>

Recordiwyd fersiwn ychydig yn wahanol o'r gerdd gan Dafydd Dafis a'i rhyddhau ar yr albwm *Ac adre' mor bell ag erioed*, llinell a gymerwyd o gerdd Iwan.<sup>531</sup> Cerddi wedi eu cyfansoddi i'w canu yw 'Ffarwél i Fangor Uchaf' a 'Tir Neb', yn ôl pob golwg, lle mae mydr ac odl ac ailadrodd llinellau neu benillion cyfan yn nodweddion amlwg.

Roedd thema'r daith yn un a weddai i Iwan i'r dim ac yntau mor ymwybodol o effaith globaleiddio ac o ddiwylliant mawr unffurf y byd masnachol cystadleuol. Soniodd yn benodol am ddiwylliant yr archfarchnad wrth iddo drafod beth oedd ystyr bod yn gyfoes mewn barddoniaeth:

Diwylliant yr archfarchnad a theledu rhyngwladol a recordiau pop rhyngwladol – dyma'r diwylliant torfol sy'n boddi pob diwylliant ar draws y byd i gyd. Un peth sy'n fy niddori ynglŷn ag archfarchnadoedd ydi mai dyna lle mae bobl [*sic*] erbyn hyn yn mynd ar bnawn dydd Sul, nid yn unig i siopio ond jyst i grwydro o gwmpas, neu i weld ffrindiau. Mae yna rywbeth sicr ynglŷn â'r lle, mae yna ryw sefydlogrwydd yn perthyn i siopau mawr erbyn hyn, lle roedd hynny er stalwm efallai yn perthyn i gapel.<sup>532</sup>

Ysfa pobl i brynu ac i gael gafael ar y nwyddau a'r teclynnau diweddaraf oedd testun ei fyfyrddod ar y rhaglen radio 'Sglein' yn 1993 hefyd:

Lle roedden ni ers talwm yn trosglwyddo dillad, poteli neu hyd yn oed focsys wyau o dad i fab, o nain i nith, erbyn hyn dydi hen bethau ddim yn ddigon da, mae'n rhaid fod pob dim yn newydd, yn wefreiddiol newydd sbon. 'Rhyw deid yn mynd miwn, rhyw deid yn mynd mas', dyna 'di bywyd meddai Twmi yng ngherdd enwog Nantlais, ond erbyn hyn, dod miwn a miwn a miwn mae teid bywyd, gan adael sbwriel di-feio-degradable y don ddwytha yn rimyn budr pan aiff y llanw nesa allan.<sup>533</sup>

---

<sup>530</sup> Iwan Llwyd et al., *Bol a Chyfri' Banc*, t. 79.

<sup>531</sup> Dafydd Dafis, *Ac adre' mor bell ag erioed* (Sain, 1995).

<sup>532</sup> Iwan Llwyd, 'Y Bardd yn ei Archfarchnad', *Barn*, 355-6 (Awst/Medi 1992), t. 16.

<sup>533</sup> Chwaraewyd clip o 'Sglein', a ddarlledwyd gyntaf yn 1993, ar y rhaglen *Cofio* (Darlledwyd: 29/09/2012).

Derbyniodd Iwan y diwylliant torfol: gwirionodd ar hwylustod yr 'Amtrak, playback, Burgerbars a Big-Mac',<sup>534</sup> ac edmygai feiciau modur Harley Davidson, ond, fel y dywed enw'r rhaglen deledu, 'Mae dyn yn fwy na Bol a Chyfri' Banc', ac roedd Iwan yn gwybod hynny hefyd yn ôl y tinc cyhuddgar sydd i'r myfyrdod uchod.

Y Felan a Finnau oedd y daith nesaf i Iwan fod yn rhan ohoni, taith gyda Steve Eaves ac Elwyn Williams yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill 1998. Archwilio dylanwad America a dylanwad y blws ar y tri oedd bwriad y sioe hon, a oedd yn gyfuniad o farddoniaeth, caneuon a cherddoriaeth. Y gobaith oedd apelio at gynulleidfa iau, a chynnal tua deuddeg o nosweithiau ar draws Cymru, yn ôl y datganiad i'r wasg. Cynhaliwyd y sioe yn y Bala, Llangefni, Llanystumdwy, Caerdydd, Craig Cefn Parc, Aberteifi a Chaernarfon, ac mae'n bosib fod mwy o nosweithiau wedi eu trefnu. Taith oedd hon a ddatblygodd oddi ar gigs Steve Eaves a'i Driawd lle byddai noson arferol yn cynnwys darlleniadau gan Iwan yn ogystal â chaneuon gan y band. Trefnwyd noson gyntaf Y Felan a Finnau yng Nghaernarfon cyn penderfynu teithio gyda'r sioe, ac yn sgil y noson gyntaf honno y creodd yr arlunydd Jac Jones gartwnau o'r tri a ddefnyddiwyd ar gyfer y poster i hyrwyddo'r daith.

Cerddi o'r gyfrol *Dan Ddylanwad* a cherddi a ysbrydolwyd gan daith i America gyda Nigel Jenkins a Menna Elfyn yn 1997 a ddefnyddiodd Iwan yn ystod y daith. Darllennai 'Far Rockaway', ymhlith cerddi blws eraill, i gyfeiliant gitâr ac organ geg, a chofia Elwyn Williams gyfeilio ar y piano wrth ganu cân Elvis 'You were always on my mind' ac Iwan yn darllen cerdd am Nashville neu Memphis. Iwan hefyd fyddai'n darllen cerddi Steve Eaves, 'Garej Lôn Glan Môr' a 'Muddy Waters', a Steve Eaves ac Elwyn Williams yn ymuno gyda'r gerddoriaeth gefndirol. Trefn syml oedd i'r noson, yn ôl Elwyn Williams, lle byddai 'chydig o gerddi a chaneuon yn eu tro – egwyl – mwy o'r cylch uchod a'r "finale" efo pawb yn rhan ohono'.<sup>535</sup> Byddai traciau o'r albwm *Muddy Waters, Folk Singer* yn cael eu chwarae yn ystod yr egwyl ac wrth i'r gynulleidfa gyrraedd ac ymadael. Cafodd y noson gyntaf ei hadolygu a'i chanmol yn fawr gan Bethan Gwanas, a soniodd yn benodol am un gerdd gan Iwan a oedd wedi cydio – 'does gen i ddim syniad beth yw enw'r gerdd, ond mae'n sôn am y wennol, rhegen yr yd a bôr mwya'r byd,' meddai, cyn ychwanegu:

---

<sup>534</sup> Iwan Llwyd, 'Dan Ddylanwad', *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), t. 14.

<sup>535</sup> Gohebiaeth rhyngof ac Elwyn Williams (27/08/15).



Mae'n debyg nad ydi hon wedi ei chyoeddi [*sic*], a dw i'n falch. Cerdd i'w chlywed ydi hon, un sy'n berffaith ar gyfer ei pherfformio mewn noson o'r fath. Fe ddaeth yr ysbrydoliaeth o'i waith fel cyfieithydd, sy'n swnio'n eitha' diflas o'i roi fel yna, ond yr hyn yr oedd o'n ei gyfieithu sy'n bwysig: enwau Cymraeg hynafol a hyfryd ar adar a blodau. Mae hon yn berl, ac mi allwn wrando arni drosodd a throsodd. Mwy os gwelwch yn dda!<sup>536</sup>

Teg dweud yr ystyr id Iwan yn un o hoelion wyth sin y blws yng Nghymru. Iwan a adolygodd lyfr John Barnie, *Y Felan a Finnau: Golwg ar Hanes y Blws*;<sup>537</sup> grwpiau barddoniaeth a blws oedd 'Y Bechgyn Drwg' a 'Llaeth Mwnci Madog' y bu'n aelod ohonynt, ac yn 2008 cyflwynodd raglen ar Radio Cymru, 'Canu Dan y Felan', a oedd yn olrhain dylanwad y blws ar gerddorion o Gymru.<sup>538</sup> Daw i gof hefyd ambell deitl cerdd fel 'Blŵs Carolina', 'Blŵs bananas',<sup>539</sup> "'Talkin' Tyddewi Blŵs'",<sup>540</sup> a 'Blws #9'<sup>541</sup> sy'n dangos dylanwad y gerddoriaeth arno. Mae sŵn hiraethus y blws i'w glywed yn '*Golygfa 4: Mehefin 1982 Hwiangerdd*' o gasgliad 'Gwreichion' hefyd:

Clyw gnul y tonnau'n torri fel sianti'r meirw  
dan leuad y gorllewin, fel brathiad y blŵs ...<sup>542</sup>

fel ag y mae yn 'Cân':

... ac mae'r cysur sy'n y blŵs,  
y cysur o ddod yn ôl bob tro  
i'r lle cyntaf,  
y cynildeb sy'n gwasgu  
pob ystyr diwastraff  
o'r patrymau moel;

yn torri trwy'r gwyll,

---

<sup>536</sup> Bethan Gwanas, 'Mae'n Werth Gwranddo', *Golwg* (26 Mawrth 1998), t. 13.

<sup>537</sup> Iwan Llwyd, 'Canu o'r Galon', *Golwg*, (10 Rhagfyr 1992), t. 19.

<sup>538</sup> *Canu Dan y Felan* (Darlledwyd: 8/11/08).

<sup>539</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), tt. 49, 131-2.

<sup>540</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (Llandysul, 2008), t. 66.

<sup>541</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst, 2009), t. 51.

<sup>542</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llandysul, 1990), t. 39.

ac yn ei golau,  
clywaf y blŵs yn cadw'r tafod yn ifanc ...<sup>543</sup>

Ddeufis yn ddiweddarach, roedd taith arall ar y gweill. Teithiodd Y Ffwlonti Barddol yn ystod mis Mehefin 1998, a gwnaethpwyd cais unwaith yn rhagor am nawdd gan TAC er mwyn cyllido'r daith. Fel hyn yr amlinellodd Ifor ap Glyn ar y ffurflen gais gyfraniad a gwerth sioe o'r fath:

Nod y daith yw ymweld â chymaint o rannau o Gymru â phosib, gan ganolbwyntio ar ardaloedd lle na fu 'Taith Farddol' yn y gorffennol. Bydd yna gyfuniad o'r dwys a'r ysgafn, a gobeithiwn ddenu cynulleidfa iau fydd yn medru uniaethu â'r gerddoriaeth a'r farddoniaeth. Yr ydym yn anelu gwneud 12 noson, ond os yw'r daith yn llwyddo tu hwnt i'n disgwyliadau, mae'n ddigon hyblyg i'w chyflwyno yn ôl y galw.<sup>544</sup>

Myrddin ap Dafydd, Ifor ap Glyn, Geraint Lovgreen, Iwan ac Edwin Humphreys oedd yn cyfrannu tuag at y nosweithiau. Yn wahanol i Bol a Chyfri' Banc, nid oedd fawr o thema i Y Ffwlonti Barddol, ac unig arwyddocâd teitl y daith oedd fod y ffilm boblogaidd *The Full Monty* wedi ei rhyddhau gwta flwyddyn ynghynt. Cyfeirir at y teitl hefyd mewn datganiad i'r wasg wrth hysbysebu'r daith:

Mae'r "Ffwlonti Barddol" ar y ffordd! Yn lle "dangos eu doniau" mewn ardaloedd sydd wedi "gweld o i gyd o'r blaen", bydd y "Ffwlonti Barddol" yn mynd "ôl-ddywê" er mwyn cyflwyno barddoniaeth i gynulleidfaeodd newydd.<sup>545</sup>

Ychwanegir wedyn, wrth gyfeirio at addasiad o lun da Vinci ar glawr llyfryn y daith, mai 'Y nod yw cynnig llond trôns Leonardo o amrywiaeth, er mwyn sicrhau bod pob un o'r cynulleidfaeodd yn profi'r "ffwlonti" .....barddol!'

Cychwynnodd y daith ym Mlaenau Ffestiniog fel rhan o Wyl Car Gwylt, cyn ymweld â Rhydymain, y Bala, Bae Colwyn, Treorci ac Aberteifi. Fel y nodir yn y datganiad i'r wasg, roedd hon yn sioe symlach na Bol a Chyfri' Banc, heb glipiau fideo na llwyfan ar gyfer y

---

<sup>543</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 51.

<sup>544</sup> Ffurflen gais Cronfa Nawdd TAC wedi ei llenwi gan Ifor ap Glyn yn ceisio nawdd ar gyfer y daith Bol a Chyfri' Banc.

<sup>545</sup> Copi o ddatganiad i'r wasg.

perfformiadau. Cadw pethau'n syml oedd y syniad, a gadael i bobl leol a fyddai'n yfed yn y tafarndai fel rheol flasau rhywfaint ar farddoniaeth a chaneuon, 'a'r cyfan am bris peint (wel, peint a hanner)'.<sup>546</sup> Nid oedd hynny'n golygu nad oedd trefn bendant i'r noson, fodd bynnag, ac mewn copïau amrywiol o'r sgript, sydd â'r geiriau 'Trefn yr oedfa' yn deitl eironig iddynt, ceir rhestr o'r cerddi a ddarllenai Iwan, cerddi fel 'Haf Bach Mihangel 1997', 'Mawrth 1af, 1997', 'Ym mae Ceredigion', 'Llanfair ym Muallt – Mehefin 1998', a 'Cysgodion(I)' sydd i gyd wedi eu cyhoeddi yn *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*.<sup>547</sup> Ymddengys rhai cerddi eraill anghyfarwydd yn y sgript, fel 'Baled Mansel a Mi', sydd bellach yn cael ei chanu gan Geraint Lovgreen a'r Enw Da. Cerdd ddoniol mewn mydr ac odl yw hon am loriau Mansel Davies ar yr A470, a cherdd sy'n gofyn am dipyn llai o ddealltwriaeth o'i chymharu â'r cerddi uchod:

Mae 'na rhywbeth [*sic*] personol  
rhwng Mansel a mi,  
rhyw edmygedd troëdig,  
fel rhwng postyn lamp a chi ...

Cerdd arall na chafodd ei chyhoeddi oedd 'Mullahs Môn', sy'n feirniadaeth ar y gweinidog Calfinaidd John Williams Brynsiencyn am iddo annog bechgyn i ymrestru â'r fyddin yn ystod y Rhyfel Mawr. Cyfochri John Williams Brynsiencyn ag awyrlu'r Fali a wneir yma, ac er bod rhai o'r cyfeiriadau ynddi yn dywyll heb eglurhad, rhyw awgrym deifiol sydd yma y dylid atgyfodi'r gweinidog er mwyn iddo gael recriwtio wyrion ac wyresau y bechgyn a aeth i'w beddau oherwydd ei ddylanwad a'i awdurdod fel gweinidog.<sup>548</sup>

Ifor ap Glyn oedd yn bennaf cyfrifol am drefnu taith Y Ffwlmoni Barddol, ac mewn neges ffacs ato gan Iwan, sy'n cynnwys cerddi posib i'w defnyddio ar gyfer y daith ceir ambell gerdd arall nas gwelwyd mewn cyfrol wedyn. Mae'n bosib i'r cerddi hynny gael eu darllen yn y slot a benodwyd i Iwan yn y sgript lle nad oes enwi cerddi penodol. Un o'r cerddi hyn yw 'Y Trafeiliwr', sy'n sôn am daith ac am grefft bardd: 'Mae'r lôn yn gymar unig / i deithiwr a bardd / yn pedlera'i grefft', meddai. Ymddangosodd y gerdd yn *Tu Chwith* yn ddiweddarach yn rhan o ddilyniant a oedd 'i mewn am y Goron' yn Eisteddfod Genedlaethol

<sup>546</sup> Rhaglen taith *Y Ffwlmoni Barddol*.

<sup>547</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 103, 33-4, 34, 73-4, 16-17.

<sup>548</sup> Anfonodd Iwan neges ffacs at Ifor ap Glyn ar 03/06/1998 gyda'r pwnc 'Cerddi' ar flaen y neges. Yno ceir copi anorffenedig o 'Baled Mansel a mi' a chopi o 'Mullahs Môn', 'Y Trafeiliwr', ac 'Y Rebel'.

Llanelli yn 2000.<sup>549</sup> Mae 'Y Rebel' yn gerdd arall o'r dilyniant hwn, cerdd o'r un anian â rhai o gerddi *Dan Anesthetig*, sy'n sôn am dyfu'n hŷn a gadael blynyddoedd ieuencid. Henwr unig mewn tafarn yw'r rebel yn y gerdd sy'n mynnu byw yn y gorffennol, yn garcharor i'w atgofion ac yn rhannu hen straeon a hanesion gyda'r meddwyn wrth y bar. Mae rhyw debygrwydd rhwng y rebel hwn a chariad y ferch yn 'Gwreichion', sydd hefyd yn eistedd mewn tafarn yn mwytho'i atgofion, y naill yn '[c]ydio yng ngwaddod peint ei atgofion' a'r llall yn 'ysgwyd gwaddod degad o freuddwydion / a'u corddi yng ngwaelod ei làs'.<sup>550</sup> Cerddi eraill yr awgrymodd Iwan y gellid eu cynnwys yn y sioe oedd 'Glöyn byw ar sêt gefn y car', "'You're not from these parts?'"', 'Teithio',<sup>551</sup> a 'Cariadon',<sup>552</sup> a'r rhain i gyd yn gerddi a ymddangosodd mewn print maes o law. Yn y llyfryn melyn a oedd yn gydymaith i'r daith, mae cerdd arall mewn mydr ac odl gan Iwan na welwyd mohoni o'r blaen. 'O Steddfod i Steddfod' yw'r gerdd honno, a dywedir yn y pennill olaf na ddylid ystyried yr Eisteddfod fel yr unig le i glywed barddoniaeth yn cael ei darllen unwaith y flwyddyn yn unig. A dyna nodi diben taith fel Y Ffwlmoni ei hun:

... rhwng steddfod a steddfod  
mae 'na bethau i'w gwneud,  
mae 'na lôn i'w thrafeilio  
mae 'na eiriau i'w dweud.<sup>553</sup>

Yr hyn a welir yng ngherddi'r daith hon yw fod mwy o fwch rhwng y dwys a'r ysgafn. Nid oes angen llawer o waith meddwl er mwyn deall 'Baled Mansel a Mi'; mae mydr ac odl 'Mullahs Môn' yn cario'r gerdd honno, ac mae'n bosib fod rhamant y disgrifiadau o'r trafeiliwr a'r rebel yn ddigon i ddal dychymyg cynulleidfa. Er ei bod yn sicr yn bosib amgyffred dealltwriaeth arwynebol o gerddi eraill mwy dwys wedi un gwrandawriad, efallai fod rheswm pam y cyhoeddwyd y rheiny mewn cyfrolau maes o law. Os oedd cynnwys cerddi'r ddau begwn yn dangos unrhyw beth, roedd yn brawf nad oedd Iwan yn tanbriso dealltwriaeth ei gynulleidfa. Er bod ei ddisgwyliadau'n uwch wrth iddo gyflwyno cerdd sy'n gofyn gwrandawriad mwy astud, byddai'n mentro ei chyflwyno beth bynnag a gobeithio'r

<sup>549</sup> *Tu Chwith*, 14 (Gaeaf 2000), tt. 13-19.

<sup>550</sup> Iwan Llwyd, 'Gwreichion', *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llandysul, 1990), t. 41.

<sup>551</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 90, 35, 151-2.

<sup>552</sup> Iwan Llwyd et al., *Bol a Chyfri' Banc*, t. 83. Hefyd yn Iwan Llwyd et al., *Pac o Feirdd* (Llanrwst, 2002), t. 19.

<sup>553</sup> Rhaglen taith *Y Ffwlmoni Barddol*.

gorau. I'r perwyl hwnnw, soniodd Steve Eaves fel yr oedd Iwan yn 'trin ei gerddi i gyd yr un fath – yn gyhoeddus o leiaf':

Roedd Iwan yn ymwybodol iawn na fyddai'r darlleniad llafar yn para ond am funud neu ddau, a fyddai dim cyfle gan y gynulleidfa i werthfawrogi'r holl haenau ynddi. Ac eto roedd o'n mwynhau'r her ynglŷn â hynna, ac roedd yn ddigon parod i gyflwyno cerddi dwys, treiddgar ar lafar. Roedd o yn ei elfen yn perfformio'i gerddi, ac yn cymryd hynny yn hollol o ddifri. Efallai bod ganddo ffydd yng ngallu'r geiriau i gyrraedd eu nod ar sawl lefel, a bod y darlleniad llafar yn cyfathrebu ar ryw lefel braidd yn wahanol i'r gerdd brintiedig. Eto –dyfalu ydw'i, cofiwch.<sup>554</sup>

Yn dilyn taith Twm Morys ac Iwan i Dde America yn ystod misoedd Hydref a Thachwedd 1998, ac yn dilyn ffilmio'r gyfres deledu *Eldorado*, trefnwyd taith o'r un enw i'w chynnal ym mis Tachwedd 1999. Roedd y gyfrol ar y cyd, *Eldorado*,<sup>555</sup> hefyd yn ffrwyth y daith i Dde America a dyna'r cerddi a ddefnyddiwyd yn ystod y daith, mae'n debyg. Cynhaliwyd y sioe am y tro cyntaf yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999 cyn iddi deithio'n ddiweddarach i Nefyn, Cerrigydrudion, Aberteifi, y Coed Duon, Craig Cefn Parc, Bodelwyddan, Aberystwyth ac yna ymweld â Bangor ym mis Chwefror 2000. Y profiadau a'r digwyddiadau anghyffredin ar hyd y daith o Ecwadôr i'r Wladfa oedd sail nifer o gerddi prosiect 'Eldorado', 'pobol, llefydd, bwyd, tywydd, adfeilion a chwedlau,' fel y disgrifiodd Twm Morys yr hyn a'u hysbrydolodd.<sup>556</sup> Mae yn y gyfrol a oedd yn gysylltiedig â'r daith fwy o gerddi ar fydr ac odl neu gerddi caeth nag sydd o gerddi penrhydd, ac mae hynny'n ddigon naturiol o gofio mai cerddi i'w hadrodd ar gyfer y rhaglenni teledu oedd nifer ohonynt i gychwyn. Mae nifer o'r cerddi hefyd yn cael eu rhagflaenu gan esboniad yn y gyfrol, ac felly gellid dychmygu y byddai cyfle i adrodd yr un hanesion o flaen cynulleidfa er mwyn cynnig rhaff i'r gwrandawyr yn ystod nosweithiau'r daith.

Taith i nodi chwechanmlwyddiant gwrthryfel Owain Glyndŵr oedd Syched am Sycharth, a bu'r beirdd yn teithio ar draws Cymru yn ystod mis Medi 2000 gan gyrraedd Machynlleth ar Ddydd Owain Glyndŵr, ar 16 Medi. Cyhoeddwyd cyfrol yn ei sgil sy'n nodi mai amcan y daith oedd 'cynnwys cerddi a chaneuon dwys a doniol, hanesyddol a chyfoes

---

<sup>554</sup> Gohebiaeth rhyngof â Steve Eaves (16/08/15).

<sup>555</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado* (Llanrwst, 1999).

<sup>556</sup> 'Chwilio am Eldorado', *Golwg*, (26 Awst 1999), t. 18.

gan ddangos cymaint – a chyn lleied – sydd wedi newid yng Nghymru dros y 600 mlynedd diwethaf'.<sup>557</sup> Dilyn ôl traed beirdd fel Iolo Goch a Gruffudd Llwyd a ganai gerddi i Lyndŵr a wnaeth Ifor ap Glyn, Twm Morys, Geraint Lovgreen, Myrddin ap Dafydd ac Iwan, ac roedd y cerddi a ddefnyddiwyd yn amrywio o noson i noson. Mae'r gyfrol yn cynnwys ugain o gerddi Iwan, pedair ar ddeg ohonynt yn gerddi a gyfansoddodd ar gais y Llyfrgell Genedlaethol fel ymateb i'r arddangosfa a oedd hefyd yn nodi chwechanmlwyddiant dechrau'r gwrthryfel. Defnyddiwyd nifer o'r cerddi hynny yn ystod y daith fel y dengys un o'r sgrïptiau, cerddi fel 'Y Wers', 'Y Crydd', 'Tua'r Senedd', 'Ar herw', a 'Taid'.<sup>558</sup>

Mae'n bosib mai cerddi wedi eu cyfansoddi yn arbennig ar gyfer y daith oedd y chwe cherdd arall a gyhoeddwyd yn y gyfrol, ac maent yn tueddu i fod yn llacach eu mydryddiaeth na'r pedair cerdd ar ddeg a gyfansoddwyd ar gais y Llyfrgell Genedlaethol. Efallai fod mwy o grefft yn perthyn i gerddi arddangosfa'r Llyfrgell, ac mai cerddi i lenwi bwlch neu i fodloni criteria'r cerddi ysgafnach yw rhai o gerddi eraill Iwan yn y gyfrol. Ymysg cerddi arddangosfa'r Llyfrgell fe geir amrywiaeth o fesurau – y gyfres o englynion 'Ar herw', y gyfres o englynion milwr 'Brain', y soned 'Iaith y Groes', y cywydd 'Glyndyfrdwy', y gerdd mewn mydr ac odl strwythuredig 'Tua'r Senedd', a'r rhigwm 'Y Wers'.<sup>559</sup> Ceir hefyd gip ar gyfeiriadaeth lenyddol neu ysgrythurol yn rhai o'r cerddi, yn 'Baneri' yn arbennig lle dyfynnir am yn ail â llinellau'r gerdd rannau o Efengyl Mathew (6:28 a 6:34), o Lyfr Eiseia (40:7), ac o Salm 103 (adnod 15). Mae adlais ysgrythurol yn 'Y Crydd' hefyd o hanes Iesu yn glanhau'r deml gyda'r sôn yn y gerdd am 'stondinau ar chwâl a llestri'n chwilfriw', a chaiff ymosodiad Glyndŵr ar dref Rhuthun ei ddisgrifio fel 'sêr yn syrthio', sy'n cyfeirio at farwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn ap Gruffudd. Tynnu ar rannau o'r Gododdin a wneir yn 'Cadw'r ffin', lle mae cyfeirio at frwydrau'r Cymry yn y gorffennol a'r milwyr yn 'meddwi blwyddyn, yn feddw fawr', ac mae sôn am 'gleddyfau'n atseinio / yng nghân y beirdd' yn hytrach nag ym mhennau mamau. Cawn ein tywys at ail gainc y Mabinogi ar ddiwedd y gerdd 'Brain', a'r chwe merch o deulu Glyndŵr a gipiwyd yng Nghastell Harlech yn 1409 yn cael eu cyffelybu i 'chwe Branwen / yn y tŵr heb herwr, heb Ben, / yn adar mud, di-ddrudwen'.<sup>560</sup>

---

<sup>557</sup> Iwan Llwyd et al., *Syched am Sycharth* (Llanrwst, 2001), t. 6.

<sup>558</sup> Ymddengys y cerddi hyn yn y gyfrol *Syched am Sycharth*, ond maent hefyd i'w gweld yn *Owain Glyndŵr: 1400-2000* (Aberystwyth, 2000).

<sup>559</sup> Iwan Llwyd et al., *Syched am Sycharth*, tt. 55, 52, 46, 23, 40-1, 12.

<sup>560</sup> *Ibid.*, tt. 51, 30-1, 16, 52.

O'r chwe cherdd arall yn y gyfrol, mae dwy yn cael eu harddel gan Iwan yn ei gyfrolau ei hun, sef 'Dwy Daith'<sup>561</sup> a "'You're not from these parts?'"<sup>562</sup>. Dyma ddwy gerdd arall sy'n ymddangos yn y sgript ar gyfer un o'r nosweithiau. Mae i'r ddwy ryw fath o batrwm odli, er nad yw'r patrwm hwnnw yn gwbl amlwg yn y naill na'r llall. Ymddengys yn 'Dwy Daith' fod patrwm odli rheolaidd i'r pum pennill cyntaf cyn i'r strwythur fynd ar chwâl. Nodwedd arall a fyddai'n ychwanegu at sŵn y gerdd yw'r cyffyrddiadau cynganeddol a geir ynddi, y gynghanedd sain, er enghraifft, yn y llinell gyntaf, 'Yn foliog deuai'r swyddog o Sais', a'r gynghanedd draws 'glynai'n dynn yn y glannau' yn yr ail bennill. Odli anghyson sydd yn "'You're not from these parts?'" hefyd, a gallai'r geiriau 'cariad', 'dwad', 'clywed' a 'cerdded' i gyd odli pe dymunai Iwan eu hynganu ag acen Bangor. Mae mwy o rythm i'r gerdd hon hefyd, a'r curiad yn cyflymu wrth i'r gerdd fynd rhagddi:

... bûm foda, bûm farcud, yn brin ond yn beryg,  
bûm dlws, bûm Daliesin, bûm yn crwydro Rhos Helyg,  
bûm garw, bûm gorrach, bûm yma yn niwyg  
pregethwr, tafarnwr, breuddwydiwr a bardd ...

Cwpledi odledig heb fawr o strwythur rhythm sydd yn 'Lliwiau'r Cynulliad', cerdd arall a ddarllenodd Iwan, yn ôl y sgript y cyfeiriwyd ati.<sup>563</sup> Cerdd ddigon ffwrdd-â-hi ydyw, sy'n dychmygu'r dathlu a ddylai fod wedi digwydd wedi i Gymru ennill Cynulliad yn 1997. Recordiwyd Iwan yn darllen y gerdd hon ar gyfer rhaglen gan Gwmni Da, *Cerddi Agor y Cynulliad*, lle cafwyd hefyd gerddi gan Myrddin ap Dafydd, Geraint Lovgreen ac Ifor ap Glyn – dyna gyrraedd cynulleidfa ehangach eto.<sup>564</sup> Adroddwyd 'Pwy sy'n cadw...?' gan Iwan a Twm Morys yn ôl y sgript.<sup>565</sup> Ceir yma gyfres o gwestiynau sydd ar un olwg yn dychanu sefydliad Cadw, ond sydd hefyd yn holi mewn difri pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu safleoedd hanesyddol sydd o bwys i hanes y Cymry, llefydd fel meysydd brwydrau Hyddgen a Bryn Glas, a chestyll Harlech, Conwy ac Aberystwyth a fu dan reolaeth Glyndŵr am gyfnod. Penillion tair llinell sydd yma, gydag odl yn gyson i'r tair llinell, a chynghanedd yn y ddwy

<sup>561</sup> Gwelir y gerdd yn *Syched am Sycharth*, tt. 17-18, ac yn *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 12.

<sup>562</sup> Gwelir y gerdd yn *Syched am Sycharth*, t.63, ac yn *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 35.

<sup>563</sup> Iwan Llwyd et al., *Syched am Sycharth*, tt. 86-7.

<sup>564</sup> Traethawd M.A. Nia Wyn Hughes, *O'r Steddfod i'r Sgrin: Deongliadau fideo y Sioe Gelf o gerddi arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol 1997-2003* (Prifysgol Bangor, 2009), tt. 4-5.

<sup>565</sup> Iwan Llwyd et al., *Syched am Sycharth*, t. 58.

linell olaf – mae'n fesur nid annhebyg i gyfres o englynion milwr ac yn swynol i'r glust o'r herwydd. Cerddi ysgafn, dychanol a mwy arwynebol yw 'Rowndabowts' ac 'Mae Cymru ar agor...', a cherddi i'w perfformio, yn fwy felly na'r un o'r cerddi eraill.<sup>566</sup>

Yn 2002 a 2003, tro'r Bechgyn Drwg oedd mynd â'u barddoniaeth ar daith, grŵp a oedd yn cynnwys Iwan, Twm Morys, John Barnie a Nigel Jenkins. Blŵz oedd enw'r sioe, a sillafiad y teitl yn dangos dylanwad Americanaidd yn ogystal â dylanwad Cymraeg. Roedd y nosweithiau'n cynnwys cyfuniad o farddoniaeth a blws, a'r pedwar bardd hefyd yn gerddorion medrus: Iwan ar y gitâr, Twm Morys ar y piano a'r gitâr, John Barnie a'i gitâr, a Nigel Jenkins yn canu'r harmonica. Roedd y pedwar hefyd yn aelodau o fandiau eraill: Twm Morys gyda Bob Delyn a'r Ebillion, Iwan yn aelod o fand Geraint Lovgreen ac o fand Steve Eaves, a Nigel Jenkins a John Barnie yn aelodau o'r triawd The Salubrious Rhythm Company. Roedd Iwan eisoes wedi bod ar daith ac iddi thema debyg yn 1998, Y Felan a Finnau, ond yn wahanol i'r daith honno gyda Steve Eaves ac Elwyn Williams, roedd Blŵz yn daith ddwyieithog. John Barnie oedd yn gyfrifol am drefnu'r teithiau ac ef a luniodd y datganiad i'w anfon at wahanol drefnwyr er mwyn hysbysebu'r sioe:

Four poet/musicians – Twm Morys, Iwan Llwyd, Nigel Jenkins and John Barnie – team together for a unique bi-lingual evening of poetry, blues, comedy, and downright b a d n e s s. Why are the airport authorities so keen to trace passengers Gospelport and Valentine? Why is it “so cold in China”? The Bad Boys have the answers.<sup>567</sup>

Cyfeirio at gerdd Iwan, 'Gospelport' a cherdd Twm Morys, 'Valentine', ac at gân Nigel Jenkins, 'So Cold in China', y mae'r datganiad.

Ffurfiwyd Y Bechgyn Drwg pan sylweddolodd y beirdd eu bod ill pedwar wedi derbyn gwahoddiad i ddarllen eu cerddi yn Syracuse yn Nhalaith Efrog Newydd, a dyna benderfynu dod ynghyd i greu rhywbeth o'r newydd.<sup>568</sup> Mis Mehefin 2002 oedd hi pan aeth Y Bechgyn Drwg â'u sioe i ddiddanu'r Americanwyr ac fe gofnodwyd rhannau o'r daith ar ffilm. Creu

---

<sup>566</sup> Ibid., tt. 75-7, 96-8.

<sup>567</sup> Copi o ebost a anfonodd John Barnie at drefnwyr y noson yng nghanolfan Sefydliad y Glowyr yn y Coed Duon.

<sup>568</sup> 'Y beirdd yn gweld y blŵs', *Golwg* (28 Mawrth 2002), t. 17.



rhaglen deledu gan Gwmni Chwarel oedd y bwriad, a Sioned Wyn Morys, gwraig Twm, yn ffilmio'r cyfan. Er bod y ffilm yn debycach i fideo cartref nag i raglen deledu broffesiynol, mae'n gofnod difyr a doniol o'r daith, yn dangos ymwneud y beirdd â'i gilydd, yn dal naws Syracuse ac yn cofnodi ambell gerdd na chlywyd sôn amdani na chynt nac wedyn. Mae'n dangos clipiau o'r noson Blŵz a gynhaliwyd yno lle mae un o'r Bechgyn Drwg ar goll (yn llythrennol); roedd Iwan wedi diflannu cyn dechrau'r sioe, a'r tri arall yn methu deall i ble roedd o wedi mynd. Bu'n rhaid iddynt gynnal y noson hebdo gan adael Twm Morys i gymryd rhannau Iwan yn y sioe. Y bore trannoeth, ceir clip yn y ffilm lle daw Twm o hyd i Iwan yn eistedd ar riniog drws, ac fe adroddir y gerdd fer cwestiwn ac ateb hon sy'n adleisio 'Mab Annwyl dy Fam' ac 'Yr Hen Wŵr Mwyn':<sup>569</sup>

Twm: Lle buost ti neithiwr yr hen wŵr mwyn,  
A'r miloedd yn disgwyl, yn uchel eu cwyn?

Iwan: Mi fues i'n gorwedd ar wely oer  
A deffro'n ddigysur yng ngolau'r lloer.

Twm: Ma' 'na rei yn deud mai clo ar y drws  
Sy'n dy gadw di rhag canu'r blws.

Iwan: Odd y drws ar agor a neb yn dod,  
Mae 'na lefydd is na'r blws yn bod.

Twm: Ma' 'na rei yn deud mai hogan glws  
Sy'n dy gadw di rhag canu'r blws.

Iwan: Odd y genod tlws ymhell, bell, bell,  
Yn gwrando ar eiriau prifeirdd gwell.

Twm: Ma' 'na rei yn honni, de, mai gormod o bŵs  
Sy'n dy gadw di rhag canu'r blws.

Iwan: Ar waelod y botel mae'r byd yn troi,  
A'r holl gelwyddau i gyd yn ffoi.<sup>570</sup>

---

<sup>569</sup> Defnyddiodd Twm Morys yr un llinell sy'n gyfuniad o'r ddwy alaw werin yng ngeiriau'r gân 'Hen Wŵr Mwyn' a ryddhawyd ar albwm Bob Delyn a'r Ebillion, *Dore* (Sain, 2003).

<sup>570</sup> Geiriau wedi eu trawsgrifio o'r ffilm 'Blŵz yn Syracuse' (copi a fenthycwyd gan John Barnie).

Yn dilyn y perfformiad yn Syracuse, teithiodd y sioe gan ymweld ag Aberystwyth, Abertawe, Llanfyllin, Caerdydd, Coleg Balliol yn Rhydychen ar gais myfyrwyr Cymdeithas Dafydd ap Gwilym, Llanfair-ym-Muallt, y Coed Duon, a Rhosllannerchrugog.<sup>571</sup> Yn ystod y nosweithiau hyn, byddai Iwan a Twm Morys yn darllen eu cerddi yn Gymraeg yn gyntaf cyn darllen eu cyfieithiadau eu hunain o'u cerddi, a John Barnie a Nigel Jenkins yn darllen yn Saesneg. Cyhoeddwyd llyfryn o gerddi'r daith,<sup>572</sup> a dilyn trefn y llyfryn a wna'r nosweithiau, fwy neu lai, gan agor gyda'r pedwar yn darllen rhannau o 'What is the Blŵz?' i gyfeiliant gitâr ac yn cloi yn yr un modd gyda fersiwn arall o 'What is the Blŵz?'. Er nad yw'n nodi yn y llyfryn pwy biau pa rannau o'r cerddi hyn, gellid mentro dyfalu mai diffiniad Iwan o'r blws yw hwnnw sy'n sôn am Geredigion ac am Guinness Iwerddon, ac sy'n cynnwys ambell linell o gynghanedd:

... y blŵz ydi ...  
ei gadael hi yn yr orsaf  
i rywun arall ei charu,  
yw oglau'r môr yn Nhregaron  
a'r Guinness oer yn rhy gynnes –  
'di twrw caled torri calon ...<sup>573</sup>

Ceir yn y llyfryn Blŵz bedair o gerddi Iwan, dwy yn Gymraeg gyda chyfieithiadau oddi tanynt, sef y rhigwm ffwrdd-â-hi 'Caeth/Captive' a'r gerdd benrhydd 'Enwau/Names' sy'n cysylltu America a Chymru gyda'r enwau lleoedd cyffredin fel 'Bethel' a 'Capel Cerrig'.<sup>574</sup> Mae'r ddwy gerdd arall, 'Far Rockaway' a 'Gospelport', yn ymddangos yn Saesneg yn unig. Er na chawsant eu cynnwys yn y llyfryn, mae'n debyg i 'Blŵs bananas'<sup>575</sup> a 'Hen drefn'<sup>576</sup> hefyd ymddangos yn y sioe fel caneuon.

Cydweithiodd Iwan â John Barnie a Nigel Jenkins eto yn 2005 pan ffurfiodd y tri y grŵp Llaeth Mwnci Madog, neu Madog's Moonshine, grŵp tebyg iawn i'r Bechgyn Drwg a

---

<sup>571</sup> Gohebiaeth rhyngof a John Barnie (23/06/15).

<sup>572</sup> Y Bechgyn Drwg, *Blŵz* (Cyhoeddiad preifat, 2002).

<sup>573</sup> *Ibid.*, t. 27.

<sup>574</sup> Trafodwyd y gerdd 'Caeth/Captive' gennyf ochr yn ochr â cherdd Twm Morys, 'Rhydd/Free', cerdd arall oedd yn gynnyrch y daith, yn *Tu Chwith*, 40 (Awst 2014), tt. 41-8.

<sup>575</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 131-2.

<sup>576</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*, t. 102.

oedd yn cyfuno blws a barddoniaeth. Teithiodd y grŵp gan gynnal nosweithiau yng Nghaerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Chorwen yn ystod mis Mehefin y flwyddyn honno, lle cawsant gwmi'r bardd Americanaidd-Gymreig David Lloyd. Yr un oedd y drefn ag oedd i daith Blŵz: Iwan a John Barnie ar y gitâr a Nigel Jenkins yn canu'r harmonica, ac fel yn y daith flaenorol, byddai Iwan yn darllen ei gerddi yn Gymraeg yn gyntaf cyn darllen cyfieithiad. Mae'r rhan fwyaf o'r cerddi a ddarllenodd Iwan yn ystod y nosweithiau gyda Llaeth Mwnci Madog i'w gweld yn ei gyfrolau ac yn sôn am deithio yng Ngogledd a De America, a hynny'n gydnaws ag enw'r grŵp, sy'n deyrnged i'r Tywysog Madog a hwyliodd i America yn y ddeuddegfed ganrif yn ôl y chwedl. Mae blas anghymreig arnynt er bod cysylltiad Cymreig yn nifer o'r cerddi fel sydd yn 'Enwau', 'Y Weddi',<sup>577</sup> 'Y Dafarn Las', 'La Boca',<sup>578</sup> a 'Corris'.<sup>579</sup> Gan fod nosweithiau Llaeth Mwnci Madog yn rhai dwyieithog, perthnasol oedd i Iwan gynnwys 'Caru Dwy' yn rhan o'r stoc, cerdd sy'n dilyn patrwm odli ac sy'n sôn am y berthynas rhwng dwy iaith wrth gyfieithu o un i'r llall:

... hanfod cyfieithydd  
yw cydnabod y ffaith  
bod i brydferthwch hualau  
ac i ryddid iaith.<sup>580</sup>

Cân y byddai Iwan yn ei chanu gyda'i gitâr oedd 'Y Dieithryn' sy'n sôn am deithiwr â'i 'sgidiau o Sao Paolo / a het o Bogota'.<sup>581</sup> Mae'r teithiwr hwn yn ddieithryn i bawb o'i gwmpas, a daw i gof linell arall o un o gerddi taith Iwan sy'n sôn am 'y wefr o fod yn nabod neb' yn 'Far Rockaway'.<sup>582</sup> Fel nifer o eiriau caneuon Iwan, ni chafodd 'Y Dieithryn' ei chynnwys mewn cyfrol ganddo, ond mae'r geiriau bellach i'w gweld yn y gyfrol *Iwan, ar Daith* lle sonia Geraint Lovgreen amdani:

Wnes i ddim ei holi o pwy oedd y "Dieithryn". Roedd o wrth ei fodd yn sylwi ar hen gymeriadau mewn tafarn ac yn tynnu sgwrs, ac mae'n debyg bod hwn yn un o'r adar

<sup>577</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 46-7, 146.

<sup>578</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Pnawn Sul*, tt. 23, 21.

<sup>579</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 59-60.

<sup>580</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant* (Bodedern, 2007), tt. 50-1.

<sup>581</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*, t. 14.

<sup>582</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 17.

brith rheiny. Ond, a hwyrach mai fi oedd yn ddwl, erbyn hyn dwi'n synhwyro mai rhyw estyniad ohono fo'i hun oedd y rhan fwyaf o'r cymeriadau yn ei ganeuon.<sup>583</sup>

Cân arall a oedd yn rhan o sgrïpt Llaeth Mwnci Madog oedd 'Blws'. Geiriau syml, ailadroddus sydd iddi yn driw i arddull y blws, ac fel yn 'Y Weddi' sy'n dyfynnu T. H. Parry-Williams, unwaith eto ceir cysylltiad Cymreig yma gyda'r cyfeiriad at deitl nofel Caradog Prichard:

Un nos ola' leuad, a'i chysgod ar y llyn  
un nos ola' leuad o dan gymylau gwyn,  
un nos ola' leuad yn fedydd yn y dŵr  
yn blant yn dal bwganod o dan Bont y Tŵr ...<sup>584</sup>

Bid a fo am Laeth Mwnci Madog, Taith y Saith Sant, yn 2002, oedd y daith ffurfiol olaf i Iwan gymryd rhan ynddi. Cyflwynwyd y sioe yn gyntaf yng Nghlwb Rygbi Tyddewi yn Eisteddfod Tyddewi y flwyddyn honno, ac aethpwyd â hi ar daith drwy Gymru benbaladr rhwng mis Hydref a chanol Rhagfyr. Cychwynnodd y daith yng Ngwesty'r Emlyn yn Nhanygroes, gan deithio i Flaenau Ffestiniog, Abertawe, Llanfihangel-yng-Ngwynfa, Aberystwyth, Caernarfon, Efailnewydd, Caerdydd a Phentrefoelas. Lleoliad yr eisteddfod y flwyddyn honno a ysbrydolodd thema'r daith, a'r syniad oedd dilyn ôl llwybrau'r seintiau wrth i saith o feirdd a cherddorion gynrychioli sant yr un a phob un yn cystadlu i fod yn nawddsant newydd i Gymru yn rhan gyntaf y sioe. Cafodd Teilo Sant ei gynrychioli gan Mei Mac, Dyfrig Sant gan Ifor ap Glyn, Geraint Lovgreen yn briodol iawn a wisgodd fantell St Elfys, roedd Twm Morys yn cynrychioli Beuno Sant, Sant Pŷr o Ynys Bŷr oedd Myrddin ap Dafydd a Sant Declan o Iwerddon oedd Iwan. Fel yn nhaith Y Ffwlmoni Barddol, ac Edwin Humphreys yn cael ei gyflwyno fel yr 'Arglwydd Snedley o'r Fron', y sacsaffonydd oedd y cyff gwawd unwaith eto wrth iddo gynrychioli Sant Twitmajor. Roedd ail ran y sioe yn fwy cyfoes lle roedd y beirdd yn holi pwy a fyddai'n haeddu cael ei alw'n nawddsant y Gymru gyfoes.<sup>585</sup>

Ar gychwyn y sioe, byddai Iwan yn adrodd hanes Declan yn colli ei gloch. Sylwodd Declan wrth iddo groesi'r môr o Gymru i Iwerddon ei fod wedi colli ei gloch yn rhywle yng Nghymru, ond wrth iddo hwylio yn ôl am yr Ynys Werdd sylwodd ar garreg fawr yn

---

<sup>583</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*, t. 14.

<sup>584</sup> Ymddengys geiriau'r gân mewn copi o sgrïpt nosweithiau Llaeth Mwnci Madog.

<sup>585</sup> 'Dilyn Dewi', *Golwg* (10 Hydref 2002), t. 21.

goddiweddyd ei gwch ac arni roedd y gloch goll. ‘Paddy Mac’s’ oedd y gerdd y byddai Iwan yn ei darllen ar ôl adrodd hanes Declan, cerdd ddoniol, ddychanol sy’n dychmygu sut y cafodd Declan afael ar y gloch yn y lle cyntaf. Yn ôl chwedl ddychmygus Iwan ac yn groes i’r ddelwedd arferol o sant, cloch tafarn i nodi amser cau oedd y gloch arbennig hon, a’r awgrym yw i gyfaill Declan dynnu sylw’r ferch tu ôl i’r bar er mwyn i Declan ddwyn y gloch. Mae hi’n gerdd hwyliog mewn mydr ac odl strwythuredig gydag odl fewnol a phatrwm odli ABAB ym mhob pennill. Gweler y pennill olaf, er enghraifft, lle mae ‘tân’ a ‘gusan’, ‘boch’ a ‘gloch’, a ‘mân’ a ‘Declan’ i gyd yn odli:

... a chyn i’r gwres ffarwelio â’r tân,  
rhoes Padraig gusan ar ei boch,  
a rhywbryd yn yr oriau mân  
dihangodd Declan gyda’r gloch!<sup>586</sup>

Wyth sill sydd i fod ym mhob llinell, ond gwyrir oddi wrth y rheol honno mewn ambell linell o edrych arni mewn print, fel yn llinell gyntaf y pennill olaf: ‘a chyn i’r gwres ffarwelio â’r tân’. Mae’n bur debyg mai cerdd a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer y sioe oedd hon; ac fel cerdd i’w darllen ar lafar, mae’n bosib maddau sillaf yn ormod mewn llinell os yw rhythm y darlleniad yn caniatáu hynny.

‘Abergwesyn’ oedd ail gyfraniad Iwan i’r sioe, cerdd sydd erbyn hyn yn cael ei chanu gan Twm Morys. Wrth iddo ei chanu mewn noson yng Nghaernarfon ym mis Chwefror 2014, eglurodd fod ‘Abergwesyn’ yn gerdd a adroddai Iwan yn aml mewn nosweithiau barddol pan oedd y beirdd yn dechrau mynd yn brin o ddeunydd. Bathodd y beirdd derm ar gyfer achlysur, neu argyfwng, o’r fath, fel y dywed Twm: ‘Mi oedd gennan ni ferf yn doedd, ei Habergwesynu hi, llenwi rhyw fwch’.<sup>587</sup> Fe’i hysgrifennwyd yn sgil cyhoeddi’r ‘Wales Power List’ yn y *Western Mail* yn 2002, ac ynddi mae’r awgrym mai ehangder y byd a natur anghyson, amhosib ei ragweld yw’r grym mawr mewn gwirionedd:

... ar gomin Abergwesyn  
y grym yw deilen grin

---

<sup>586</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant*, tt. 56-7.

<sup>587</sup> <https://www.youtube.com/watch?v=PUIPBmkCCPE> (Cyrchwyd: 26/02/16).

a thrydan caeth y rhedyn –  
y gwenwyn yn y gwin ...<sup>588</sup>

Er mai penillion mewn mydr ac odl sydd yma, mae nifer fawr o linellau'r gerdd mewn cynghanedd, fel y tair llinell olaf yn y pennill uchod. Gan nad cerdd gaeth mohoni, gellir maddau'r bai Proest i'r Odl yn y drydedd linell – y sŵn sy'n hawlio'r prif sylw yn hytrach na chywirdeb y gynghanedd.

Wrth i ail ran y sioe fynd rhagddi, a'r beirdd yn ceisio dod o hyd i sant teilwng ar gyfer y Gymru gyfoes, noda'r sgrïpt y darllenai Iwan gerdd o'r enw 'Rhodri', sef 'Llys Rhys Gryg yn y Dryslwyn', y gerdd i Rhodri Williams, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith ar y pryd.<sup>589</sup> Y gerdd olaf a ddarllenai Iwan yn Nhaith y Saith Sant oedd 'Y Pibydd Brith', cerdd na fu sôn amdani wedyn – ni chafodd ei chyhoeddi na'i chofnodi yn y sgrïpt.

Bwriadwyd cynnal taith arall yn 2007 ar thema'r Gododdin ar ôl i Ifor ap Glyn, Geraint Lovgreen ac Iwan berfformio noson debyg ar yr un thema yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd fis Tachwedd 2006. Enw'r daith a fwriadwyd oedd *Catraeth: Daeth Un yn Ôl*, a chysodwyd llyfr ac iddo'r un teitl, a oedd yn cynnwys cerddi'r daith, i'w gyhoeddi gan Wasg Carreg Gwalch.<sup>590</sup> Ni orffennwyd y gwaith o olygu a rhoi'r llyfr at ei gilydd, heb sôn am ei gyhoeddi, ond mae modd gweld yn y deipysgrif anorffenedig rai o'r cerddi y byddai Iwan wedi eu defnyddio yn y sioe, sef 'Catraeth',<sup>591</sup> 'Aneirin',<sup>592</sup> 'Mis Du',<sup>593</sup> 'Y Fam', un o gerddi'r dilyniant a oedd 'i mewn am y Goron' yn 2000 ac a gyhoeddwyd yn *Tu Chwith*,<sup>594</sup> ac 'Y Groesffordd'. Sôn am fyddin y Gododdin yn gorfod gadael am frwydr *Catraeth* wedi'r flwyddyn o wledda ac o feddwi a wna'r gerdd olaf honno, ac er bod angen golygu a chysoni rhywfaint arni, mae hi'n adrodd yr hanes yn gryno ac yn ddealladwy:

Roedd hi'n flwyddyn hir uwch byrddau'r medd,

---

<sup>588</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant*, t. 27.

<sup>589</sup> *Ibid.*, tt. 22-3.

<sup>590</sup> Sonia Myrddin ap Dafydd yn fras am y daith hon yn ei bennod "'Un frân o ddifri o hyd'", *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), tt. 133-5.

<sup>591</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 191.

<sup>592</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 22.

<sup>593</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 60.

<sup>594</sup> *Tu Chwith*, 14 (Gaeaf 2000), t. 16.

pob un â'i stori, pob un â'i gledd:

roedd 'na chwerthin gwirion, roedd 'na rannu sgwrs,  
roedd 'na hen alawon a chusan wrth gwrs:

roedd 'na ffraeo weithiau, a chwffio â mêt,  
roedd 'na oriau digalon ac eiliadau grêt:

yna cyhoeddodd rhywun, neb yn cofio pwy,  
bod y daith ar droed,  
bod 'na'm meddwi mwy:

Roedd o'n fore anodd, a'r haul yn ddi-liw,  
a blas 'di chwerwi ar dafodau'r criw:

dyma gychwyn eto ar siwrne i'r de,  
yn flêr a blinedig, ond yn fyddin gre: [sic]<sup>595</sup>

Mae cysylltiad 'Y Fam' a 'Mis du' â'r Gododdin a Brwydr Catraeth yn annelwig, a chan na ddigwyddodd y daith, amhosib yw gosod cyd-destun i'r cerddi. Er mai cerdd yn wreiddiol am un o gymeriadau tafarn yng Nghaernarfon oedd 'Y Fam', gallai gyfeirio at fam un o filwyr y frwydr, neu hyd yn oed at fam i filwr heddiw. Darlunnir ynddi wraig sydd wedi dioddef:

Roedd ganddi lygaid bocsar,  
a rheini'n greithiau i gyd,  
ar ôl bod yn chwilio cwffas  
â dyrnau brwnt y byd ...

Mae'n bosib fod y fam hon wedi dod o hyd i'w chysur yn y ffydd Gatholig ar ddiwedd y gerdd, neu efallai mai medru uniaethu â'r Forwyn Fair y mae hi, a'r ddwy wedi gweld eu meibion yn cael eu haberthu:

... roedd ganddi stori'n rhywle,  
pe rhoddai air wrth air,  
a phan yn caru rhannai  
fendith y Forwyn Fair.

---

<sup>595</sup> Llawysgrif anorffenedig *Catraeth: Daeth Un yn Ôl* (2007).

Dilyn patrwm odli tebyg i 'Paddy Mac's' a wna 'Mis Du' sy'n enwi nifer o lefydd ar arfordir Sir Benfro. Mae'n anodd gweld mwy iddi na cherdd delynegol sy'n dangos fel y daw mis Tachwedd a'i batrymau cyfarwydd yn ei ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn:

... mae'n Dachwedd, ac mae'r dail o hyd  
yn hel ar stryd a heol:  
'does dim yn ein byd bach moethus ni  
a wna 'leni yn wahanol.<sup>596</sup>

Yn ogystal â chymryd rhan flaenllaw yn y teithiau barddol, roedd Iwan hefyd yn un o feirdd nosweithiau'r Cywyddau Cyhoeddus a drefnwyd gan Myrddin ap Dafydd ac a gynhaliwyd mewn tafarnau ar hyd a lled y wlad rhwng 1994 ac 1998. Cynhaliwyd y gyntaf yn Nhafarn y Werin yng Nghaernarfon i gyd-fynd â lansio'r gyfrol gyntaf, a'r olaf yn nhafarn y Duke yn y Bontfaen adeg Eisteddfod Genedlaethol Bro Ogwr. Byddai deg cywyddwr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y nosweithiau, a'r drefn arferol fyddai rhannu'r noson yn ddwy: byddai'r beirdd yn darllen cywydd addas ar gyfer cynulleidfa yn rhan gyntaf y noson, ac yn darllen cywydd newydd na chlywyd erioed mohono o'r blaen yn ystod yr ail ran. Rhoi llwyfan cyhoeddus i'r gynghanedd a wnâi'r nosweithiau hyn gan ddychwelyd at ffurf gynhenid y traddodiad llafar Cymraeg a phrofi fod y gynghanedd yn dal i allu diddanu cynulleidfa. Cyhoeddwyd tair cyfrol a oedd yn cynnwys rhai o gywyddau'r nosweithiau hyn, ac roedd Iwan yn olygydd ar y cyd â Myrddin ap Dafydd ar y gyfrol gyntaf o'r tair. Mewn adolygiad, sylwodd Dafydd Johnston ar glawr y llyfr sy'n gartŵn gan Mei Mac o beiriant ffacs – teclyn newydd ar y pryd – ac ohono mae copi o farwnad Siôn y Glyn gan Lewys Glyn Cothi yn cael ei argraffu.<sup>597</sup> Dyna ddangos mai bwriad y gyfrol, fel bwriad y nosweithiau, oedd cyfuno'r hen a'r newydd, defnyddio mesur caeth traddodiadol er mwyn dweud rhywbeth cyfoes.

Er i'r cerddi gael eu caethiwo mewn print drwy eu cyhoeddi rhwng cloriau, nid aeth y berthynas rhwng y beirdd a'u cynulleidfa yn angof. Mae broliant y gyfrol gyntaf yn datgan yn

---

<sup>596</sup> Ibid.

<sup>597</sup> Dafydd Johnston, 'Traddodiad Cyfoes', *Taliesin*, 88 (Gaeaf 1994), t. 116.



glir mai 'lleisiau ag iddynt ymwybod cryf o gynulleidfa fyw' yw lleisiau'r cywyddwyr,<sup>598</sup> a rhoddodd sawl adolygydd sylw i'r ymwybyddiaeth honno. Nododd Alan Llwyd mai 'un agwedd amlwg ar waith y genhedlaeth newydd o gynganeddwyr ydi mai rhywbeth i'w berfformio ydi barddoniaeth iddi'.<sup>599</sup> Yn yr un modd, dywedodd Gwynn ap Gwilym mai 'canu i gynulleidfa y maent, ac y maent yn gwbl hyderus fod cynulleidfa ar gael a chan y gynulleidfa honno chwaeth amrywiol hefyd'.<sup>600</sup>

Cynhwyswyd dau gywydd gan Iwan yn y gyfrol gyntaf honno, sef 'Anadl Llywelyn' a 'Tafarn y Werin'.<sup>601</sup> Mae'r cyntaf yn enghraifft dda o gerdd sy'n elwa o gael ei chyhoeddi mewn print ond a all fod yn llwyddiannus o'i pherfformio hefyd. Mae'n bosib ei bod yn gerdd a oedd yn gofyn am bwt o eglurhad cyn i Iwan ei hadrodd a bod cyfle iddo sôn wrth y gynulleidfa am hanes Llywelyn yn curo drysau Llanfair-ym-Muallt yn ofer. O graffu ar y gerdd fwy nag unwaith mewn print, mae modd ei dehongli'n fanylach, ac fe drafodwyd cynnwys y gerdd yn y drydedd bennod. Go brin y byddai cynulleidfa fyw yn cysylltu 'anadl' ag 'iaith' ar unwaith, nac yn sylwi ar gymhlethdod y cyfosodiad 'ein tir neb' wedi dim ond un gwrandawriad, ond byddent yn sicr o fedru ymateb i'r rhestr hir o ddelweddau a geir yn y cywydd:

Rwy'n ei dal, ei dyfalu  
yn law plwm, yn wely plu,  
ein henaid, ein cyfrinach,  
yn wrid byw, yn gariad bach ...

Ceir rhestr debyg o ddyfaliadau yn 'Traeth', cywydd o ail gyfrol *Cywyddau Cyhoeddus*:

Mae'n gwlad fel troad y traeth  
yn haenau o wahaniaeth:  
yn graig, yn dwr o gregyn,  
  
yn gae o ronynnau gwyn,  
yn ydlan wleb a mwdlyd,

---

<sup>598</sup> Broliant ar glawr cefn Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus* (Llanrwst, 1994).

<sup>599</sup> Alan Llwyd, 'Cywyddau'r Ieuainc Heddiw', *Barddas*, 214 (Chwefror 1995), t. 22.

<sup>600</sup> Gwynn ap Gwilym, 'Lot o Hwyl y To Iau', *Barn*, 378-9 (Gorffennaf/Awst 1994), t. 91.

<sup>601</sup> Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus*, tt. 53-4, 55-6.

yn gnawd gwymonog, yn yd

llaith yng ngwres prynhawn llethol,  
neu wylan wen yn galw'n ôl ...<sup>602</sup>

Dyma gerdd arall sy'n elwa o'i gweld mewn print gan fod y cywydd wedi ei rannu'n benillion. Sylwa Jerry Hunter ar effaith hynny, gan nodi fod y 'penillion hyn yn ynysu – ac felly'n tynnu sylw at – y delweddau syml unigol, ond ar yr un pryd mae odlau'r cwpledi gwahanedig yn ieuo'r penillion ynghyd'.<sup>603</sup> Mae cyflwyno rhestr o ddelweddau fel hyn yn dechneg sy'n gweithio'n dda mewn cerdd i'w hadrodd o flaen cynulleidfa; mae'n bytiog ac yn rhoi lle i'r gwrandawyr ystyried pob delwedd unigol. Ceir ambell restr arall yma ac acw mewn cywyddau eraill yn y gyfres, rhestrau sy'n cynnwys ailadrodd fel a welir yn 'Dau', lle disgrifia Iwan daith y telynor a'r bardd:

... ar y lôn ddireol aeth  
eu hanes yn chwedloniaeth,  
y ddau eog, dau ddewin,  
yn caru'r gwyll, caru'r gwin,  
yn caru'r crac oherwydd  
dawn y rhain yw bod yn rhydd,  
yw caru'r gân wahanol,  
yw caru iaith roc a rôl.<sup>604</sup>

Ceir enghraifft arall yn ail ran 'Dulyn':

... pob drudwen ffraeth yn gennad,  
pob bar hwyr yn gân parhad;  
pob gwlad yn Wlad fy Nhadau,  
pob syndod yn dod fesul dau,  
pob cwlwm yn gwllwm gwâr  
yn dew gan odlau daear:  
pob cusan yn gynghanedd  
a phob mul yn geffyl gwedd.<sup>605</sup>

---

<sup>602</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2*, t. 81.

<sup>603</sup> Jerry Hunter, 'Tafarnau'r Canu Cyfoes', *Taliesin*, 95 (Hydref 1996), t. 121.

<sup>604</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 3* (Llanrwst, 1998), t. 67.

<sup>605</sup> *Ibid.*, t. 70.

Gan mor fyr yw pob dyfaliad, mae hynny'n sicrhau nad oes gormod o oferu rhwng llinellau, rhywbeth nad yw'n cael ei groesawu mewn cerdd gaeth sydd i'w hadrodd ar lafar, yn ôl Angharad Price:

Tripheth nas cerir gan glustiau, waeth beth yw gofynion y gynghanedd: geirfa astrus; cystrawen sy'n hollol wahanol i'r gystrawen lafar, a gormod o'r goferu. Gyda'r olaf, mae'r glust yn addasu i dderbyn patrymau sŵn y gynghanedd ymhob llinell; straen ychwanegol wedyn yw ceisio dirnad ystyr pan fo brawddeg a'r llinell fydryddol ddim yn cyd-redeg ac yn ffurfio gwrthbwynt anodd.<sup>606</sup>

Nid yw Iwan yn osgoi goferu yn gyfan gwbl yn ei gywyddau cyhoeddus chwaith, ac er nad yw effaith y goferu ym mhennill cyntaf 'Penrhyn Llŷn' yn rhy hirwyntog, mae'n enghraifft o'r hyn y cyfeiria Angharad Price ato:

Y mae Awst yn ymestyn  
cyhyrau ei goesau gwyn  
ar hyd trum ansicr y traeth,  
a huodledd cenedlaeth  
ifanc yn tasgu nofio  
'n torri hafn drwy'r pyllau tro ...<sup>607</sup>

Rhydd Angharad Price bwyslais ar yr angen am iaith ddealladwy, fel y gwna Myrddin ap Dafydd pan ddywed fod y 'pwyslais ar y llafar a'r ystwyth, ar iaith bob dydd a dweud heddiw' yng nghywyddau'r drydedd gyfrol.<sup>608</sup> Gellir dyfynnu rhannau o'r cywyddau perfformiadol hyn sy'n dangos defnydd Iwan o iaith lafar, bob dydd. Yn 'Nambè', er enghraifft, pan yw'n hepgor yr 'f' ar ddiwedd 'gaeaf' a 'haf' er y byddai'r odl yr un fath o'i chynnwys ac ni fyddai'n rhwystr i'r gynghanedd:

daeth newid, daeth yn aea'  
oer a hir, bu farw'r ha' ...<sup>609</sup>

---

<sup>606</sup> Angharad Price, 'O'r Llafar i'r Llyfr', *Barn*, 404 (Medi 1996), t. 33.

<sup>607</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2*, t. 85.

<sup>608</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 3*, t. 9.

<sup>609</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2*, t. 78.

Mae dechrau 'Tref' hefyd yn llifo'n rhwydd:

Hen siment ar balmentydd  
a sbwriel a rwbel rhydd,  
a thrwch o lwch wna i le  
edrych fel 'tae neb adre ...<sup>610</sup>

Mae'n debyg mai fel cerddi i'w gweld mewn print y bwriadwyd nifer o gywyddau Iwan yn y tair cyfrol, ond o'u darllen daw rhywun o hyd i ambell linell sy'n plygu rheolau'r cywydd gydag un sill yn ychwanegol i'r saith arferol. Gerbron cynulleidfa, mae'n bur debyg y byddai sill yn ormod mewn llinell fel 'a Charlo'n ei gadach eurlaes'<sup>611</sup> neu 'yn Nambè'n yr hwyr synhwyrais'<sup>612</sup> yn mynd dros gof neu'n llithro heibio clust nifer o'r gwrandawyr.

Ynghlwm wrth elfen lafar, gyhoeddus barddoniaeth roedd ymroddiad Iwan i dimau talwrn ac ymryson. Bu'n aelod o dîm talwrn Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth i ddechrau – tîm na pharodd yn hwy na'r gyfres gyntaf, mae'n debyg – cyn ymuno â thîm Caerdydd pan symudodd yno i weithio ddechrau'r 1980au. Yn y tîm hwnnw gydag ef oedd Ifor ap Glyn, T. Arfon Williams, Ynyr Williams, a Wiliam Owen Roberts. Wedi iddo symud i fyw i Fangor Uchaf, ymunodd â thîm talwrn Bangor gyda Twm Morys, Menna Baines a Siân Esmor, ac erbyn diwedd y 1980au roedd yn aelod o dîm Beirdd y Byd, tîm a oedd yn cynnwys Ifor ap Glyn, Llion Jones, Gwynfor ab Ifor, Geraint Lovgreen a Twm Morys yn eu tro. Cerddi rhydd a thelynegion a gyfrannai yn bennaf fel aelod o'r tîm hwnnw, gydag ambell englyn neu gwpled wedi eu cynnwys yng nghyfrolau *Pigion Talwrn y Beirdd*. Dyna'r englyn am yr Iddew cefnog, er enghraifft:

Ar yacht ger Lanzarote – hen Iddew  
gyhoeddodd cyn boddi:  
'yn liras neu ddoleri –  
newid mân ydyw i mi!<sup>613</sup>

---

<sup>610</sup> Ibid., t. 82.

<sup>611</sup> 'Tafarn y Werin' yn Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus*, t. 55.

<sup>612</sup> 'Nambè' yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2*, t. 79.

<sup>613</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd 6* (Caernarfon, 1992), t. 135.

Er iddo ysgrifennu cwpled yn un o'r talyrnau rhwng 1990 ac 1992 yn dweud mai 'Rhyddhau enaid barddoniaeth / Yw rhoi cân ar fesur caeth',<sup>614</sup> mae'n amlwg mai yn y mesurau rhydd yr oedd Iwan fwyaf cyfforddus yn ystod ei gyfnod yn nhîm Beirdd y Byd. O'r holl gerddi a gyhoeddwyd yng nghyfrolau *Pigion Talwrn y Beirdd*, dwy delyneg yn unig a gyhoeddwyd hefyd yng nghyfrolau Iwan ei hun, sef 'Call a ffôl', sydd i'w gweld yn *Dan Fy Ngwynt* ac yn *Rhyw Deid yn Dod Miwn*,<sup>615</sup> a 'Rhestr siopa' yn *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, er mai 'Trychineb' oedd teitl gwreiddiol y gerdd ar gyfer y Talwrn.<sup>616</sup> Mae'n bosib fod hynny'n brawf ynddo'i hun nad cynnyrch gorau'r bardd oedd y cerddi a ysgrifennai ar gyfer Talwrn y Beirdd. Ceir yn eu mysg gerddi gwirebol digon ysgafn, fel 'Ger Twll yn y Wal',<sup>617</sup> 'Parch' neu 'Bardd Gwlad',<sup>618</sup> a thelynegion eraill yn nes ymlaen sydd ychydig yn fwy dwys, ond sydd yr un mor ddealladwy i gynulleidfa o wrandawyr.

Bu Iwan yn aelod o dîm Beirdd y Byd tan gyfres 1994/1995, cyn ymuno â thîm Penrhosgarnedd ar gyfer cyfres 1998/1999 gyda Llion Jones, John Ogwen, John Gwilym Jones, Lyn Davies a Morien Phillips. Erbyn hynny, roedd yn amlwg yn fwy medrus yn y mesurau caeth ac yn gyfrifol am lunio'r cywyddau ynghyd ag ambell englyn a thelyneg ar gyfer y tîm. Noda Llion Jones, fodd bynnag, fod symudiad Iwan o'r mesurau rhydd i'r mesurau caeth ar y Talwrn yn 'fwy o adlewyrchiad o gyfansoddiad gweddill aelodau'r timau na symudiad bwriadol ar ei ran'.<sup>619</sup> Ychwanega fod tîm Penrhosgarnedd yn 'rhoi mwy o bwyslais hefyd ar gyfarfod i gydweithio ar rai o'r tasgau byrrach', a chaiff hynny sylw pellach ganddo yn ei ysgrif goffa i Iwan.<sup>620</sup> Bu Iwan yn talyrna hyd y diwedd, ac mae ei gyfraniadau olaf yng ngornest 2010 i'w gweld ar wefan Talwrn y Beirdd: cywydd i gofio Hywel Teifi a thelyneg drist sy'n holi pam mae rhywun yn cyflawni hunanladdiad a pham mae'r bardd ei hun yn amau 'yr edau rhwng cariadon'.<sup>621</sup>

---

<sup>614</sup> Ibid., t. 53.

<sup>615</sup> Gwelir y gerdd yn *Pigion Talwrn y Beirdd 6*, t. 108; yn Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 69, ac yn Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 57.

<sup>616</sup> Gwelir y gerdd yn Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Talwrn y Beirdd 8* (Caernarfon, 1996), t. 39, ac yn Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 171.

<sup>617</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Talwrn y Beirdd 8*, t. 120.

<sup>618</sup> Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion Talwrn y Beirdd 7* (Caernarfon, 1994), tt. 52, 125.

<sup>619</sup> Gohebiaeth rhyngof a Llion Jones (27/01/16).

<sup>620</sup> Llion Jones, 'Wncwl Lyn a Ginsberg', *Iwan, ar Daith*, tt. 50-3.

<sup>621</sup> [http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/talwrn/2010/21\\_02\\_10mynytho.shtml](http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/talwrn/2010/21_02_10mynytho.shtml) (Cyrchwyd: 26/02/16).

Roedd Iwan hefyd yn cymryd rhan yn ymrysonau'r Eisteddfod Genedlaethol, ac yn aelod o dîm ymryson Morgannwg i ddechrau cyn bod yn aelod o dîm Gweddill Cymru a fu, ar wahanol adegau, yn cynnwys Twm Morys, Myrddin ap Dafydd, Ifor ap Glyn, Peredur Lynch a Llion Jones. Ni chyhoeddwyd ond pedwar englyn ganddo yn y gyfrol *10 Marc!*,<sup>622</sup> a gwelwyd dau ohonynt yn *Y Bibell Lân*, taflen o bigion dyddiol y Babell Lân a argraffwyd yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol 1990 ac a noddwyd gan Fwrdd Dŵr Cymru.<sup>623</sup> Ceir englynion a chwpledi eraill sy'n gynnyrch yr ymryson ar dudalennau cylchgrawn *Barddas*, fel y cwpled hwn o ymryson Eisteddfod 1985, sy'n nodweddiadol o lais Iwan ar y pryd:

Naid ef o drobwl y dôl  
I bair y ffair gyffuriol.<sup>624</sup>

Ennill clust, yn ogystal ag ennill marciau, yw nod beirdd wrth ymrysona, ac fel mewn talwrn mae ymateb y gynulleidfa yn gallu dylanwadu ar y marc a roddir am y gerdd. Mae'n debyg y byddai Iwan wedi bod wrth ei fodd gyda'r ymateb a dderbyniodd Twm Morys ac yntau i'r englyn cywaith 'Glaw' a ysgrifennodd y ddau mewn ymryson yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd, 1994. Roedd yn englyn 'a dalodd am gwrw dau fardd am weddill yr ŵyl,' yn ôl Twm Morys.<sup>625</sup>

Glaw mawr sy dros Gilmeri; – glaw yn llafn,  
Glaw yn llawn picelli,  
Glaw yn arf yn ein gŵyl ni,  
Glaw a laddai arglwyddi.<sup>626</sup>

Tipyn ysgafnach na'r talwrn a'r ymryson yw'r stomp, ac roedd Iwan i'w weld ar y llwyfan hwnnw hefyd. Mae tair allan o bedair o'i gerddi a argraffwyd yn *Stwff y Stomp* yn gerddi a gyhoeddwyd mewn cyfrolau eraill. Mae'n arwyddocaol mai un o dasgau'r talwrn

---

<sup>622</sup> Tegwyn Jones (gol.), *Deg Marc!: Pigion Ymrysonau'r Babell Lân 1979-1998* (Llanrwst, 1999), tt. 38, 41, 46, 58.

<sup>623</sup> Mae'n debyg mai am ddwy flynedd yn unig y cyhoeddwyd *Y Bibell Lân* a hynny yn 1989 ac 1990. Ar frig cyhoeddiadau 1989 ceir englyn i'r Bwrdd Dŵr gan Gerallt Lloyd Owen, ac yn 1990 Dic Jones a gyfansoddodd yr englyn i ddiolch am y nawdd.

<sup>624</sup> 'Pigion Ymryson y Beirdd', *Barddas*, 102 (Hydref 1985), t. 8.

<sup>625</sup> Twm Morys, 'Felly Iwan: rhai agweddau ar gyfeiriadaeth, delwedd a gair mwys ym marddoniaeth Iwan Llwyd', *Awen Iwan*, t. 79.

<sup>626</sup> *Ibid.*

oedd y cywydd 'Diolch am Rodd', a gyhoeddwyd maes o law yn *Pigion y Talwrn 11*,<sup>627</sup> ac mai un o gerddi taith Syched am Sycharth oedd 'Mae Cymru ar agor...'.<sup>628</sup> Cerdd storiol ddoniol a dychanol yw 'Y Cythrel Parcio', yr unig gerdd i weld golau dydd yn y gyfrol hon yn unig, ac er mai cwpledi odledig sydd yn y gerdd, mae'r ffaith i'r bardd ddefnyddio'r un gair i odli ag o'i hun yn y cwpled cyntaf yn brawf nad ar y grefft y mae'r prif bwyslais ond yn hytrach ar y sŵn ac ar yr adloniant:

Er gwaethaf pob anghyfiawnder fe ddaeth y Wal i lawr  
a rhyw lun o heddwch i deyrnasu ar hyd wyneb daear lawr,  
aeth Reagan 'nôl i'r gorllewin i fyw ar laeth a mêl  
a Thatcher i Dŷ'r Arglwyddi i gael tê 'fo Dafydd Êl ...<sup>629</sup>

Mae arddull a safon y cerddi perfformiadol yn amrywio, fel y profir yma, a hynny mae'n debyg yn gymorth er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol ac ymestyn apêl barddoniaeth.

Ffordd arall o ehangu gorwelion barddoniaeth, fel y gwelwyd yn rhai o'r teithiau barddol, oedd cyfuno barddoniaeth a cherddoriaeth. Roedd y ddau beth yn cysylltu'n naturiol yng ngolwg Iwan, ac yntau'n chwaraewr gitâr fas ac yn aelod o sawl band ers ei gyfnod yn y coleg yn Aberystwyth. Er bod y sîn roc a phop yng Nghymru yn ffynnu yn ystod y 1980au ac yn cynnig adloniant a diwylliant Cymraeg cyfoes i genhedlaeth newydd, roedd y bwlch rhwng barddoniaeth a geiriau caneuon yn gyndyn o gau, fel y profodd Steve Eaves yn ei ragymadrodd i *Y Trên Olaf Adref*, casgliad o eiriau caneuon:

Y peth cyntaf i'w ddweud wrth gyflwyno'r casgliad hwn yw nad llyfr o farddoniaeth mohono. Anghymwynas â'r awduron fyddai beirniadu'r caneuon hyn yn ôl y safonau a chanllawiau a roir ar waith mewn beirniadaeth lenyddol draddodiadol. Cyfrwng mynegiant unigryw yw'r canu pop Cymraeg, ac y mae amodau creu'r caneuon hyn, a'u hamcanion hefyd, yn bur wahanol i'r hyn a gewch mewn ffurfiau llenyddol.<sup>630</sup>

---

<sup>627</sup> Gwelir y gerdd yn *Stwff y Stomp* (Llanrwst, 2002), t. 18, ac yn Gerallt Lloyd Owen (gol.), *Pigion y Talwrn 11* (Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 214.

<sup>628</sup> Gwelir y gerdd yn *Stwff y Stomp*, tt. 48-50, ac yn Iwan Llwyd et al., *Syched am Sycharth*, tt. 96-8.

<sup>629</sup> *Stwff y Stomp*, t. 82.

<sup>630</sup> Steve Eaves (gol.), *Y Trên Olaf Adref* (Talybont, 1984), t. 5.

Roedd Iwan yn ymwybodol iawn o'r bwlch hwn, a dywedodd wrth adolygu rhai o gyfrolau Cyfres Beirdd Answyddogol y Lolfa ei bod yn 'hen bryd dymchwel yr "apartheid" rhwng y celfyddydau. Gellir cyfoethogi ac ychwanegu llawer at effaith barddoniaeth o'i gyfuno ag elfennau gweledol neu gerddorol'.<sup>631</sup> Dywedodd eto bron i naw mlynedd yn ddiweddarach fod yn 'rhaid cyfuno barddoniaeth â chyfryngau eraill – gweledol neu gerddorol – mewn cyflwyniadau byw, er mwyn gwneud y profiad o wyllo a gwrando'r beirdd yn un cyffrous yn ein byd aml-gyfryngol'.<sup>632</sup> Yn 1998, croesawodd y ffaith i'r Eisteddfod Genedlaethol gomisiynu Emyr Lewis i ddarllen y cerddi a enillodd iddo'r Goron y flwyddyn honno i gyfeiliant sacsoffon.<sup>633</sup> Nid oes ond rhaid agor cyfrol fel *Dan Anesthetig, Dan Fy Ngwynt, Hanner Cant, Rhyw Deid yn Dod Miwn*, neu *Sonedau Pnawn Sul* er mwyn sylwi ar y berthynas a oedd gan farddoniaeth Iwan â'r gweledol. Mae'n werth rhoi sylw, wrth basio, i waith celf Catrin Williams sy'n ymddangos rhwng cerddi *Sonedau Pnawn Sul*, a nodi mai darluniau yn ymateb i gerddoriaeth y cerddor Huw Warren yw'r gwaith celf. Ar y clawr mae llun gitâr a ffidil, a dyna gyfuno cerddoriaeth, celf a barddoniaeth mewn un gyfrol.

Cyfrwng roc a rôl oedd yn mynd â bryd Iwan. Bu'n aelod o'r band Doctor, Nos Sadwrn Fach, Geraint Lovgreen a'r Enw Da, a Steve Eaves a'i Driawd. Does ryfedd, felly, iddo gael ei ddisgrifio gan Hefin Wyn fel 'y roc-fardd Iwan Llwyd',<sup>634</sup> a chan Peredur Lynch fel 'yr angel syrthiedig o fardd a gyweiriodd ei wely yn isfyd myglyd y sîn roc Gymraeg'.<sup>635</sup> Soniodd Iwan mewn amryw o ysgrifau am y berthynas glòs rhwng cerddoriaeth a barddoniaeth:

There has always been this close if fraught relationship between poetry and rock music. Not the poetry of Poet Laureates or academic anthologies but the gut poetry of people living at society's leading edge, trying to breach the boundaries of expression and 'culture'.<sup>636</sup>

---

<sup>631</sup> Iwan Llwyd, 'Iwan Llwyd yn adolygu Cyfres Beirdd Answyddogol y Lolfa', *Barddas*, 118 (Chwefror 1987), t. 14.

<sup>632</sup> Iwan Llwyd, 'Roc a Rôl a Barddoniaeth', *Barddas*, 224-5 (Rhagfyr/Ionawr 1995-96), t. 41.

<sup>633</sup> Iwan Llwyd, 'Croesi Pontydd', *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), t. 43.

<sup>634</sup> Hefin Wyn, *Ble Wyt Ti Rhwng?: Hanes canu poblogaidd Cymraeg 1980-2000* (Talybont, 2006), t. 373.

<sup>635</sup> Peredur Lynch, 'Y Beirdd Gwâr a Blin', *Barn*, 360-1 (Ionawr/Chwefror 1993), t. 89.

<sup>636</sup> Iwan Llwyd, 'If you can sing it, it's a song, if you can't, it's a poem', *Poetry Wales*, Vol.26, 4 (April 1991), t. 36.



Daw'r dyfyniad o erthygl yn *Poetry Wales*, sy'n dwyn y teitl 'If you can sing it, it's a song, if you can't, it's a poem', geiriau Bob Dylan a ddyfynnid gan Iwan yn aml. Yno mae Iwan yn sôn am sut y cychwynnodd Brecht ysgrifennu cerddi i gyfeiliant gitâr, ac mae'n crybwyll beirdd Beat America yn ystod y 1950au yn defnyddio cerddoriaeth jazz yn y cefndir, a dylanwad hynny ar fardd fel Allen Ginsberg. Â yn ei flaen i enwi Bob Dylan, Leonard Cohen, John Lennon a Jim Morrison yn gerddorion y gellid ystyried geiriau eu caneuon yn farddoniaeth, cyn mynd ar drywydd Cymreig, lle nodâ'r cysylltiad oedd gan Siôn Eirian, Meic Povey a Myrddin ap Dafydd â'r diwylliant canu roc a phop yng Nghymru. Rhoddodd Gerwyn Williams yntau sylw i'r cysylltiad rhwng cerddoriaeth a'r don newydd o feirdd Answyddogol gan ddweud:

Nid yw'n syndod darllen ar gefn un o gyfrolau diweddaraf un y gyfres Answyddogol fod Alun Llwyd yn weithiwr amser llawn â label Ankst: mae gan o leiaf bump o feirdd y gyfres gyswllt â'r byd canu cyfoes boed nhw'n ganwyr neu'n drefnwyr neu'n awduron caneuon.<sup>637</sup>

Diddorol hefyd yw nodi fod Iwan ynghyd â nifer o feirdd, llenorion a chantorion eraill, gan gynnwys Twm Morys a Myrddin ap Dafydd, wedi cyfrannu at ddigwyddiad a drefnwyd gan yr Academi ym mis Ionawr 2006 pan wahoddwyd y cyfranwyr i drafod y 'Gair ar Gân', y berthynas rhwng llenyddiaeth a cherddoriaeth, yng ngwesty'r Talbot yn Nhregaron.<sup>638</sup>

Er bod diddordeb Iwan mewn perfformio ei farddoniaeth a'i ddiddordeb mewn ysgrifennu geiriau caneuon wedi cydredeg o'r cychwyn, ni chlosiodd y ddwy ddisgyblaeth yn syth ganddo. Mae arddull 'Diwedd Awst', a berfformiwyd yn Fel yr Hed y Frân, yn wahanol iawn i arddull geiriau caneuon Doctor, er enghraifft. Ffurfiwyd Doctor yn ystod dyddiau Iwan yn y coleg yn Aberystwyth ac fe ysgrifennodd y geiriau i nifer o'u caneuon. Arddull gwbl rydd sydd i'r geiriau hynny: maent yn llafar ac yn arwynebol, ond hwyrach mai dyna oedd yn apelio ynghylch y cyfrwng; roedd y tu allan i unrhyw feirniadaeth lenyddol draddodiadol, fel y nododd Steve Eaves yn ei ragair i *Y Trên Olaf Adref*. Cafodd rhai o eiriau Iwan ar gyfer

---

<sup>637</sup> Gerwyn Williams, 'Darlunio'r Tirlun Cyflawn', *Sgleftrio ar Eiriau*, gol. John Rowlands (Llandysul, 1992), t. 146.

<sup>638</sup> Hysbyseb ar gyfer y digwyddiad yn *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' 'mlaen yn llên Cymru?*, 36 (Tachwedd/Rhagfyr 2005), t. 10.

Doctor eu cynnwys yn y gyfrol honno, ac o droi'n ôl at ragair Steve Eaves, rhydd sylw i arddull geiriau caneuon o'i chymharu ag arddull barddoniaeth:

Ychydig funudau yn unig yw hyd perfformiad cân, ac yn ystod yr amser hwnnw gofynnir i'r gynulleidfa rannu ei sylw rhwng y geiriau, y miwsig a holl naws ac ysbryd y cyfanwaith. Ni cheir cyfle i bwysu a mesur rhin llinellau unigol. Wrth reswm, felly, mynegiant symlach a mwy uniongyrchol sydd raid o'i gymharu â barddoniaeth.<sup>639</sup>

'Merch o Ddonegal' oedd y gân a roddodd y teitl i record gyntaf y band, cân sy'n cychwyn â'r geiriau arwyddocaol 'Rwy'n credu mewn *reggae* Cymraeg'.<sup>640</sup> Mae hynny ynddo'i hun yn dangos awydd Iwan i ddod o hyd i fynegiant Cymraeg a oedd yn tynnu ar ddylanwadau Americanaidd ffasiynol. Er nad oes fawr o ddyfnder i'r gân, mae ynddi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa wleidyddol a oedd ohoni, ac mae llinellau fel 'Tori'aid yn mynd dan fy nghroen' a 'O be di'r ots pwy sy'n priodi Prins Charles?' yn dangos anfodlonrwydd mewn ffordd ysgafn. Codi pac a dianc i Iwerddon i 'Syrthio mewn cariad â merch o Ddonegal' ydi'r syniad, a dyna'r cyfeiriad cyntaf yng ngwaith Iwan, mae'n debyg, at y swyn a'r dynfa a berthynai i'r Ynys Werdd.

Gosod y sefyllfa fel ag yr oedd hi a wna 'Bois Maesgeirchen' o'r ail record hefyd.<sup>641</sup> Nid oes yma unrhyw arddull farddonol ar gyfyl y geiriau:

Bois Maesgeirchen yn byw tai cyngor,  
Bwyta tsips ac yn yfed gormod.  
Ar nos Sadwrn mynd draw i'r disgo  
Trio'u lwc gyda genod yno.  
Dôl, pan ddaw bore Llun  
Ac wsnos nesa'n fain.  
Does dim ar ôl ond cwrdd â'r bois  
Yn yr *Antelope* am saith.

---

<sup>639</sup> Steve Eaves (gol.), *Y Trên Olaf Adref*, t. 5.

<sup>640</sup> Albwm Doctor, *Merch o Ddonegal* (Recordiau Coch, 1981). Ceir trawsgrifiad o'r geiriau yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, 'Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997' (Prifysgol Bangor, 1998), t. 346.

<sup>641</sup> Albwm Doctor, *Bois Maesgeirchen* (Recordiau Coch, 1981). Ceir trawsgrifiad o'r geiriau yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, *Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997*, t. 347.

Roedd dechrau'r 1980au yn gyfnod o sôn am arfau niwclear; cychwynnodd rhyfel rhwng Irac ac Iran yn 1980, ac yn 1981 y dechreuodd y brotest gan y merched yng Nghomin Greenham yn erbyn arfau niwclear. Mae rhyfel yn gefndir i rai o ganeuon Doctor, caneuon fel 'Neb ar ôl', 'Cân y Bom', 'Calon' ac 'Arwr'.<sup>642</sup> Fel yn ei gerddi yn *Sonedau Bore Sadwrn*, ymateb mae geiriau caneuon Iwan i'r byd o'i gwmpas ac i'r hyn a deimlir ganddo ef a'i gyfoedion ar y pryd. Mae prinder swyddi yn beth amlwg arall ganddo wrth iddo sôn am y dôl yn 'Bois Maesgeirchen' ac unwaith eto yn 'Arwr', lle mae hi'n anodd i'r milwr ddod o hyd i swydd arall pan ddaw adref:

Ni ddaw'n ôl,  
does dim lle yn y llety  
i'r arwr di-waith  
yn ciwio yn y glaw.

Ysgrifennai Iwan eiriau caneuon maes o law i Geraint Lovgreen a'r Enw Da ac i Dafydd Dafis, ac mae'r caneuon hynny yn gynnyrch dipyn aeddfetach sy'n rhoi mwy o sylw i rythm ac i odl. Er i Iwan gydnabod bod ysgrifennu geiriau caneuon yn 'ddisgyblaeth arall, wahanol' i ysgrifennu barddoniaeth, roedd hefyd yn cydnabod bod yr arddull a ddefnyddiai wrth ysgrifennu geiriau caneuon yn dylanwadu ar arddull ei farddoniaeth.<sup>643</sup> Ac mae'n debyg fod ei farddoniaeth yn ei benthg ei hun i'r geiriau caneuon hefyd. Gwelir enghraifft glir o hynny o edrych ar 'Y glöwr', cerdd a ysgrifennodd yn 1995,<sup>644</sup> lle benthyciodd y llinell a ailadroddir yno, 'Babi, ty'd i mewn o'r glaw' ar gyfer geiriau cân a ddaeth yn un o ganeuon poblogaidd Geraint Lovgreen a'r Enw Da. Sylwodd Damian Walford Davies nad oedd yn rhaid ystyried y ddau gyfrwng yn bethau cyfan gwbl ar wahân i'w gilydd, gan ddweud:

Yr un yw'r posibiladau i grefft eiriol y canu pop ag i 'Farddoniaeth', er mor aneglur y llefaru weithiau, ac er mor fyddar ein clustiau. Un o ganlyniadau ffurf gryno'r canu yw natur gywasgedig, gynnill rhai o'r cerddi a genir. Nid ar chwarae bach y mae nifer o artistiaid y canu pop wedi bwrw ati i'w creu, a chofiwn mai'r geiriau a ddaw gyntaf yn aml yn y broses greadigol.<sup>645</sup>

<sup>642</sup> Ceir geiriau 'Cân y Bom', 'Neb ar ôl' ac 'Arwr' yn *Y Trên Olaf Adref*, tt. 63, 66, 66, ac mae geiriau 'Calon' i'w gweld yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, tt. 348-9.

<sup>643</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', *Barddas*, 161 (Medi 1990), t. 9.

<sup>644</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 108-9.

<sup>645</sup> Damian Walford Davies, "'Ailysgrifennu y Llyfraith": Barddoniaeth y Canu Pop', *Taliesin*, 90 (Haf 1995), t. 13.

Un o'r caneuon enwocaf yr ysgrifennodd Iwan y geiriau iddi yw 'Tŷ Coz', cân y cystadlodd Iwan ac Elwyn Williams gyda hi yng nghystadleuaeth Cân i Gymru. Mae hi'n enghraifft dda o gân gynnil sy'n paentio llun trwy ddisgrifiadau telynegol, tlws:

Mi wn am dŷ ym Montroulez  
A mwg coed tân yn llenwi'r lle  
Merched teg yn yfed gwin  
Ac ar eu min mae seithfed ne' ...<sup>646</sup>

Roedd mwy o feddwl a mwy o grefft tu ôl i'r caneuon wedi dyddiau Doctor, a gellid dyfynnu o nifer o ganeuon Iwan er mwyn profi'r farddoniaeth a oedd yn y geiriau. Dyna 'Syched', er enghraifft, cân a ysgrifennwyd yn 1985 mewn cyfnod o newid agwedd, rhwng diflastod 1979 a symud ymlaen i gyfnod newydd:

Ond mae'r stori wedi newid canwch gân,  
Gyda'ch gilydd bore newydd gwyn a glân,  
Mae'r hen destament ar ben,  
Ac mae drws yfory ar agor led y pen.<sup>647</sup>

Neu 'Tŷ hanner ffordd', sy'n sôn am y dafarn o'r un enw rhwng Bangor a Chaernarfon, a'r gŵr sydd yno ar ei ben ei hun yn cael ei rwygo ddwy ffordd:

... dyma fo ar hanner ffordd i unman,  
hanner ffordd i golli'r cyfan,  
hanner ffordd rhwng meddwi a maddau,  
hanner ffordd rhwng dwrn a dagrau,  
yn canu'i gân ei hun mewn tŷ hanner ffordd.<sup>648</sup>

Gan fod modd gwerthfawrogi estheteg yn ogystal ag ystyr geiriau fel hyn, mae'n syndod na chafodd mwy o eiriau caneuon Iwan eu cyhoeddi fel cerddi. Gellir clywed 'Ar hyd ffordd

---

<sup>646</sup> Albwm Dafydd Dafis, *Ac adre' mor bell ag erioed*. Ceir trawsgrifiad o'r geiriau yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, *Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997*, t. 352.

<sup>647</sup> Albwm Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Geraint Lovgreen a'r Enw Da* (Sain, 1985). Ceir trawsgrifiad o'r geiriau yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, tt. 355-6.

<sup>648</sup> Albwm Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Be Ddigwyddodd i Bulgaria* (Crai, 1993). Ceir trawsgrifiad o'r geiriau yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, tt. 351-2.

arall' ar albwm Dafydd Dafis, *Ac adre' mor bell ag erioed*, a'i darllen yn *Dan Fy Ngwynt*.<sup>649</sup> Yn yr un modd, recordiwyd Iwan yn canu 'Y Weddi' ar albwm Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Busnes Anorffenedig*, a chyhoeddwyd hi yn *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*.<sup>650</sup> Yn y gyfrol honno hefyd y cyhoeddwyd 'Eldorado', a gafodd ei mabwysiadu'n gân gan Iona ac Andy.<sup>651</sup> Dyna'r unig dair cân i Iwan eu cynnwys fel cerddi yn ei gyfrolau ei hun. Gwelwyd geiriau'r gân 'Sgrifen yn y tywod' yn y gyfrol *Sbectol Inc*,<sup>652</sup> a fersiwn o 'Tir neb' yn *Bol a Chyfri' Banc*.<sup>653</sup> Tybed felly a oedd Iwan, er pregethu y dylid chwalu'r ffin rhwng y ddau gyfrwng, yn gwahaniaethu'n fwriadol rhwng ei gerddi a'i ganeuon?

Wrth drafod barddoniaeth berfformiadol sy'n dod law yn llaw â chaneuon, soniodd Gerwyn Williams am y peryg sy'n wynebu beirdd o ysgrifennu cerddi rhy arwynebol a rhy hawdd eu deall. Soniodd hefyd y gallai hi fod yn anodd troi at ysgrifennu cerddi hir unwaith y mae bardd yn arfer ag ysgrifennu caneuon byr a bachog:

Ond beth am sgil-efeithiau'r eglurder a'r poblogeiddio a'r moderneiddio hwn? Un o flaglau peryclâ'r canu uniongyrchol gyfathrebol yw slicrwydd a chlyfrwch arwynebol. Mae'r ddisgyblaeth a ddaw drwy dalyrna neu lunio geiriau i ganeuon, sef saernïo cynhyrchion byr o reidrwydd, hefyd yn gallu peri problemau o ran cynllunio cerdd estynedig. Gall y pwyslais mawr ar ddifyrru, codi hwyliau a chynnal morâl hefyd esgor ar ganu teimladol anghytwys a deallusol glaeur.<sup>654</sup>

Mae'n wir mai cymharol fyr yw geiriau'r rhan fwyaf o ganeuon Iwan, ond wedyn nid oedd yn fardd i ysgrifennu cerddi estynedig ar y gorau, ac eithrio ei bryddestau cynnar. Tystiodd wedi iddo ennill y goron yn 1990 na 'fues i rioed yn un â digon o ddyfalbarhad i draethu cerdd hir ar un gwynt'.<sup>655</sup> Ni ellir osgoi'r ffaith mai'r alaw sy'n gyfrifol am lwyddiant rhai o'r caneuon a ysgrifennodd Iwan, gydag ambell linell yn unig yn aros yn y cof, ond pan fo modd darllen geiriau caneuon ar ddu a gwyn a'u gwerthfawrogi heb erioed glywed y gerddoriaeth, yna peth braf yw gallu gwneud hynny. Peth da, felly, oedd cyhoeddi'r geiriau i chwech o

---

<sup>649</sup> Albwm Dafydd Dafis, *Ac adre' mor bell ag erioed*; Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 50.

<sup>650</sup> Albwm Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Busnes Anorffenedig* (Sain, 2008); Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 146.

<sup>651</sup> Albwm Iona ac Andy, *Eldorado* (Sain, 2000); Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 121-2.

<sup>652</sup> Albwm Amrywiol, *Clyw Leisiau'r Plant* (Crai, 2003); Eleri Ellis Jones (gol.), *Sbectol Inc* (Talybont, 1995), t. 122.

<sup>653</sup> Albwm Dafydd Dafis, *Ac adre' mor bell ag erioed*; Iwan Llwyd et al., *Bol a Chyfri' Banc*, t. 79.

<sup>654</sup> Gerwyn Williams, 'Yng Nghampfa'r Cynganeddion', *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1994), t. 6.

<sup>655</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 8.

ganeuon Iwan yn *Iwan, ar Daith*. Dyma eiriau sy'n werth eu darllen. Gellid yn hawdd gamgymryd i 'Trydar' fod yn gerdd o'r cychwyn:

Mae 'na ysgwydd i grio arni  
ym mhob tafarn oer,  
mae 'na ynys i nofio ati  
yn llynnoedd unig y lloer:  
mae llais yn galw drwy'r holl dywydd garw  
a glannau newydd lle'r â'r haul i lawr,  
alawon tirion yn torri drwy'r twrw,  
fydd fory'n atgyfodi'n fawr:

a gawn ni siarad cariad  
yng nghlustiau'n gilydd  
tra bo dau,  
a gawn ni weu breuddwydion  
drwy hunllefau'n gilydd  
cyn i'n llygaid gau.<sup>656</sup>

Nid yw'r hyn a gaiff ei ddweud yn 'Trydar' yn annhebyg i'r hyn a geir yn y gerdd 'Y cynnig'; ystyrier dechrau'r gerdd honno:

Mae ynom oll yr ysfa am gysgod,  
am law i'w gwasgu,  
am ysgwydd i dorri'r garw,  
am wireddu heddiw hiraeth yfory ...<sup>657</sup>

Yr unig beth i'w nodi yw fod mwy o rythm i'r naill nag sydd i'r llall. Dyna'r unig wahaniaeth sydd rhwng cân a cherdd yma.

Nid yw geiriau caneuon Iwan yn gymhleth o gwbl, ac maent yn hawdd eu deall ar y gwrandawriad (neu ddarlleniad) cyntaf, yn wahanol i rai o'i gerddi sy'n aml yn amwys ac yn rhoi rhyddid i ddehongliad y darllenydd. Yr hyn a ddaw'n amlwg yn ei ganeuon gorau yw'r delweddau y mae'n eu creu: y geiriau sy'n 'llenwi'r gofod / rhwng y trawstiau gweigion yn fy

---

<sup>656</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*, t. 180.

<sup>657</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 11.

mhen' yn 'Syched',<sup>658</sup> yr hen ddyn sydd fel 'hen gi'n hercian adre ei hun' yn 'Hen drefn',<sup>659</sup> ac yn 'Treginnis' mae'r 'niwl fel angylion / yn dod mewn o'r môr'.<sup>660</sup> Roedd yn ymwybodol o'r angen am ddelweddau mewn cerddi perfformiadol, fel y dywedodd un tro: 'Mae darllen gwaith yn gyhoeddus yn eich gwneud yn hynod ymwybodol o'r ddelwedd drawiadol, weledol a phwysigrwydd rhythm ac odl',<sup>661</sup> ac mae'r dyfyniad hwnnw yr un mor berthnasol yng nghyd-destun geiriau caneuon. Mae'r rhestr o ddelweddau a geir yn 'Treginnis' unwaith eto'n nodweddiadol o eiriau a gyfansoddwyd er mwyn eu perfformio, fel y gwelwyd eisoes gyda rhai o gerddi'r teithiau barddol a cherddi'r Cywyddau Cyhoeddus :

Dim ond hollt yn y graig,  
dim ond deigr yn a gwên,  
dim ond cusan fy ngwraig,  
dim ond fi'n mynd yn hen,  
dim ond gweddill hen bennill  
ar ddiwedd y daith,  
dim ond colyn hen wenwyn  
yn gadael ei graith.

Mae'r un nodwedd yn perthyn i 'Sŵn', telyneg a ysgrifennodd Iwan ar gefn cerdyn post a anfonodd o São Paulo, ac a gafodd ei throi'n gân gan Twm Morys. Gwelir yn aml mai yn y geiriau syml a'r delweddau synhwyrus y mae Iwan ar ei orau wrth ysgrifennu geiriau caneuon:

Sŵn y glaw am bump y bore,  
Sŵn y sêr ar ddiwedd siwrne,  
Sŵn cyfarfod a chyfathrach,  
Sŵn y rhai sy'm yma bellach ...<sup>662</sup>

Ymroddodd Iwan yn llwyr i'r ymdrech i gyrraedd cynulleidfaoedd a chynnig barddoniaeth fel adloniant i bobl gyffredin trwy gerddi dwys, cerddi ysgafn a geiriau ar gyfer caneuon. Digwyddiadau cymdeithasol a hwyliog oedd y teithiau a'r nosweithiau a drefnwyd,

<sup>658</sup> Ceir trawsgrifiad o'r geiriau yn atodiad traethawd PhD Nia Heledd Jones, tt. 355-6.

<sup>659</sup> Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*, t. 102.

<sup>660</sup> <http://stiwidiogwellt.com/track/treginnis> (Cyrchwyd: 26/02/16).

<sup>661</sup> Iwan Llwyd, 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', t. 9.

<sup>662</sup> Ceir llun o'r cerdyn post yn Myrddin ap Dafydd (gol.), *Iwan, ar Daith*, t. 71.

ac roeddent yn gyfleon i'r beirdd ddod ynghyd i fwynhau cwmni ei gilydd ac i fwynhau ymateb cynulleidfa fyw. Roedd y ddau beth hynny'n bwysig i Iwan, ac roedd cydweithio â beirdd eraill yn ychwanegu at her y noson wrth iddynt orfod dod o hyd i ryw gydbwysedd rhwng y dwys a'r doniol:

Mae darllen gwaith yn gyhoeddus yn cynnig her wahanol i fardd. 'Does dim lle i falu awyr. Rhaid bod yn gynnil ac yn effeithiol. Rhaid dal diddordeb cynulleidfa drwy gyfuniad o sŵn a synnwyr. Rhaid creu a chynnal naws cerdd, a lle mae nifer o feirdd yn cyflwyno eu gwaith rhaid medru cydweithio, a medru cydbwysu amrywiaeth o arddulliau ac o deimlad. 'Dwi'n credu bod yr holl elfennau hyn yn ddylanwadau pwysig wrth i fardd feithrin ei grefft a'i lais ei hun. Yn fwy na dim, mewn gwlad sy'n dal yn ddiffygiol iawn o ran rhoi ymateb beirniadol i farddoniaeth, mae darllen gerbron cynulleidfa yn cynnig y feirniadaeth eithaf – fe fyddwch yn gwybod yn ddigon buan os yw'ch cerdd yn gweithio neu ddim.<sup>663</sup>

Er i'r teithiau a'r nosweithiau ddatblygu i fod yn fwy strwythuredig fesul un, roedd gan Iwan syniadau pendant ynghylch sut yr hoffai ffurfioli'r broses o drefnu'r math yma o nosweithiau. Ym mis Mai 1998, anfonodd neges ffacs at ei gyfeillion o feirdd yn cynnig y syniad o sefydlu 'Beirdd Cyf.'. A chymryd y byddai modd ennill grant tair blynedd o gronfa'r Loteri Genedlaethol, y syniad oedd sefydlu cwmni a fyddai'n gallu cynnig digwyddiadau neu nosweithiau barddol ar alw. Mae'r cynllun yn un manwl, yn sôn am y syniad o rannu swyddfa yng Nghaernarfon ac yn rhestru enwau'r aelodau a fyddai'n barod i gymryd rhan mewn nosweithiau barddol. Mae'n rhestru'r holl offer technolegol y byddai angen eu prynu ac yn cynnig creu llyfryn a fyddai'n nodi'r ddarpariaeth fyddai ar gael, o sesiynau mewn ysgolion i nosweithiau unigol, o deithiau o amgylch Cymru i brosiectau tramor. Mae hyd yn oed yn crybwyll y posibilrwydd hirdymor o gynhyrchu fideos, CD Roms, pecynnau addysgol, rhaglenni teledu, poster, crysau-t a chapiau. Roedd yn syniad uchelgeisiol, yn rhy uchelgeisiol o bosib, ac ni sefydlwyd 'Beirdd Cyf.' yn y diwedd; ond nid dyna ddiwedd y gân. Flwyddyn yn ddiweddarach, ym Mai 1999, sefydlodd Myrddin ap Dafydd ac Iwan fenter debyg o'r enw 'Meifod', menter ychydig yn llai heriol ond a oedd yn cynnig yr un gwasanaeth yn y bôn. Sonia Myrddin ap Dafydd fel yr oedd ef ac Iwan yn aml yn cael eu gwahodd ar y cyd i gymryd sesiwn mewn dosbarth, ac ehangu a hwyluso hynny oedd y tu ôl

---

<sup>663</sup> Iwan Llwyd, 'Cydnabod Cynulleidfa', tt. 38-9.



i sefydlu 'Meifod', lle aethant ati i hyrwyddo gweithdai a sesiynau gan fanteisio ar eu cysylltiadau:

Gan ein bod yn nabod nifer o feirdd a chyfansoddwyr eraill oedd yn hunangyflogedig, roeddem yn medru cynnig tîm o gydweithwyr oedd yn medru cynnal wythnos gyfan o weithdai barddoniaeth mewn lleoliadau arbennig. Doedd y trefnwyr ddim ond yn gorfod gwneud un alwad ffôn, nodi dyddiadau a byddem ninnau'n trefnu'r gweddill.<sup>664</sup>

Nid ar chwarae bach yr aeth Iwan ati i boblogeiddio barddoniaeth; roedd yn eithriadol o uchelgeisiol ac yn cymryd y dasg o ddifri. Roedd gwerth cymdeithasol mewn diwygio'r hen draddodiad barddol Cymraeg, ei gyfuno â cherddoriaeth ac estyn tuag at gynulleidfa oedd newydd:

Y sialens i'r beirdd yng Nghymru yw mynd â'u cerddi yn ôl allan i'r stryd, i'r neuaddau a'r clybiau, y capeli a'r tafarnau, yr ysgolion a'r colegau – oherwydd yn y bôn 'does 'na ddim yn fwy cyffrous na bardd yn agor ei galon drwy'i gerddi. Dyna'r roc a rôl yng Nghymru heddiw.<sup>665</sup>

Dyma her a oedd yn dyrchafu barddoniaeth unwaith yn rhagor. Go brin y byddai'r nosweithiau anffurfiol o farddoniaeth sy'n digwydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn bodoli heb i'r to o feirdd y perthynai Iwan iddo fynd ati i godi barddoniaeth oddi ar y dudalen: nosweithiau fel 'lolo!' yn Eisteddfod Bro Morgannwg 2012, 'Siwper Cêt ac ambell fêt' yn Ninbych yn 2013, 'Yn y Coch' yn Llanelli yn 2014, ac 'Anntastic!' ym Meifod yn 2015, lle gwelwyd ystafell lawn, a phob un wedi ymgynnull i fwynhau barddoniaeth dros beint neu wydraid o win. Prawf o lwyddiant yr ymdrech i boblogeiddio barddoniaeth yw hynny, heb os, a phrawf fod roc a rôl yn perthyn i farddoniaeth Gymraeg o hyd.

---

<sup>664</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Iwan, y Bardd Plant', *Iwan, ar Daith*, t. 154.

<sup>665</sup> Iwan Llwyd, 'Roc a Rôl a Barddoniaeth', t. 41.

## VI

### ‘Y lôn ei hun ydi’r freuddwyd’

#### Cerddi taith

Ni fyddai unrhyw drafodaeth ar farddoniaeth Iwan Llwyd yn gyflawn heb roi talp go helaeth o sylw i’r cerddi a ysgrifennodd yn sgil ei deithiau i Ogledd a De America, Canada, gwledydd yn Ewrop, a’i deithiau i Iwerddon ac o amgylch Cymru. Edrychir yma yn gyntaf ar ysgogiad Iwan i deithio ac ystyrir rhai o’r dylanwadau arno. Archwilir y cerddi a gyfansoddodd yn sgil teithiau i Ogledd America, Canada a De America cyn troi at y cerddi sy’n sôn am Gymru, ac yna rhoddir sylw bras i gerddi Iwerddon.

Ni ellir dianc rhag y cyfeiriadau yng ngherddi ac yn ysgrifau Iwan at y lôn ac at deithio. Dyma ei thema fawr, boed yn daith lythrennol ar hyd y lonydd neu’n daith drwy amser, fel y ceir yn y casgliad ‘Gwreichion’ ac yn ei gyfrol *Be ‘di blwyddyn rhwng ffrindia?* sy’n ein tywys drwy’r misoedd ac yn mapio degawd o fywyd y bardd. Nid oes byth sôn am ben y daith; nid y cyrraedd na’r gadael sy’n bwysig ganddo, ond y daith ei hun:

Y fflachiadau o gyfarfyddiadau mewn bar neu gaffe, yr oedi dros nos mewn gwestai na welwch chi fyth mohonyn nhw eto; y cymeriadau sy’n bodio, y gweledigaethau wrth fynd heibio. Ac yn fwy na dim, fel mae Van Brock yn ei awgrymu, yr helyntion a’r hanesion sy’n perthyn i’r lleoedd ar hyd y lôn.<sup>666</sup>

Dyma’r pethau a oedd yn gyrru awen Iwan ar ôl i holl dyndra’r 1980au gael ei wyntyllu ganddo. *Dan Fy Ngwynt* yw’r gyfrol sy’n dal y newid yn ei farddoniaeth. Dyma gyfrol sy’n fan cwrdd rhwng cerddi dadrithiad y 1980au a cherddi sy’n chwilio am ddelfrydau a delweddu newydd, a hynny wrth iddo gael ei ddylanwadu fwyfwy gan yr ysfa i deithio. Mae yma fwy o gerddi wedi eu lleoli yn Iwerddon; mae ‘Gadael Albertville’ a ‘Ternay’<sup>667</sup> yn gerddi sy’n deillio o brofiadau yn Ffrainc; cawn gerddi i ynys Creta, ac mae rhyw ddelfryd Americanaidd i’w gweld yn ‘Fel Jack Nicholson’, lle mae Iwan yn breuddwydio am gael ‘rhuo i ffwrdd ar Harley-

---

<sup>666</sup> Iwan Llwyd, ‘Far Rockaway yn y Galon’, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, gol. M. Wynn Thomas (Caerdydd, 2001), t. 236.

<sup>667</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992), tt. 48-9, 56.

Davidson efo ti / yn gafael fel gelen am fy nghanol i'.<sup>668</sup> Erbyn cyhoeddi *Dan Ddylanwad*, roedd cywair newydd ei farddoniaeth wedi ei sefydlu'n llawn, a cherddi taith yn unig a ymddengys yma mewn gwirionedd, hyd yn oed wrth iddo ysgrifennu am Gymru. Dyma'r gyfrol sy'n dangos Iwan yn 'dod i delerau ag America,' chwedl Gwyn Thomas. Â yn ei flaen i nodi fod gan y Cymry dri dewis yn wyneb dylanwad cynyddol America yn niwedd yr ugeinfed ganrif: y dewis cyntaf yw ei hanwybyddu, yr ail yw ei chofleidio ac anghofio am y Gymraeg yn gyfan gwbl, a'r trydydd yw 'gwneud i'r Gymraeg ymdopi â phrofiadau newydd, gan wneud i'r newydd ymdreiddio i hen iaith, ac addasu'r hen iaith fel ei bod hi'n lliwio'r newyddfyd yn ei ffordd ei hun'.<sup>669</sup> Dyna a wnaeth Iwan.

Credai Iwan fod teithio yn ei waed, a'i daid o ochr ei fam wedi gweithio fel prif beiriannydd yn y llynges fasnachol: 'rwyf innau'n hoff iawn o grwydro, a rhyw anniddigrwydd ynof o hyd,' meddai.<sup>670</sup> Roedd ei dad hefyd yn un yr oedd yn well ganddo'r siwrnai na chyrraedd pen y daith, ac yn un a oedd wedi hen arfer mynd ar deithiau pregethu:

Roedd gan fy nhad ryw arfer od, ymhlith llawer. Bob tro y byddem ni fel teulu yn mynd i alw heibio ein perthnasau ym Môn, ei ddymuniad o oedd, 'Dowch i ni gyrraedd er mwyn cael cychwyn adref!' Prin nad oedd o drwy ddrws y tŷ nad oedd o'n cyhoeddi, 'Wel, mae'n bryd ei throï hi!' Ac mae yna ryw elfen felly yn perthyn i'r 'lôn'. Nid y cychwyn na'r cyrraedd sy'n bwysig, ond y daith ei hun.<sup>671</sup>

Cafodd Iwan yntau ei gydnabod fel teithiwr. Disgrifiodd Alan Llwyd ef fel 'Bardd Aflonydd y Lonydd',<sup>672</sup> a soniodd Twm Morys mewn awdl (ac iddi orgraff ffug-hynafol) am yr ysfa a oedd ynddo i deithio:

Dŷn y bydd chwedl amdano'n – y gwledydd,  
Un sy â'i drywydd yn llawn straeon,  
A dŷn â'i wlâd yn un lôn – i'w theithio,  
A'i lawenydd o yn olwynion.<sup>673</sup>

---

<sup>668</sup> Ibid., t. 19.

<sup>669</sup> Gwyn Thomas, 'Iwan Llwyd, Pererin', *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 31.

<sup>670</sup> Iwan Llwyd, 'Darnau ohonof ar wasgar', *Y Garthen* (Hydref 1990), t. 1.

<sup>671</sup> Iwan Llwyd, 'Far Rockaway yn y Galon', t. 236.

<sup>672</sup> Alan Llwyd, 'Bardd Aflonydd y Lonydd', *Barddas*, 246 (Mai/Mehefin 1998), t. 37.

Mae englyn teyrnged Twm iddo wedi ei farwolaeth hefyd yn sôn am yr olwynion sy'n gynrychioliadol o'r daith:

Nid oes awr i dewi â sôn! – Ni allaf  
Dy ollwng o'm calon  
Mwy nag y gall olwynion  
Roi heddwch i lwch y lôn.<sup>674</sup>

Teitl gweddus i'r gyfrol deyrnged a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth yn 2010 oedd *Iwan, ar Daith*, ac yn brawf o'i deithiau niferus mae ynndi luniau o gardiau post a anfonodd Iwan at ei gyfeillion o wahanol wledydd, i gyd yn cynnwys englyn neu bwt o gerdd ar y cefn. Yno hefyd y mae sawl cyfaill iddo'n sôn am ei hoffter o deithio, ac yn eu mysg Karen Owen, a ddywedodd mai 'dyn ar daith oedd Iwan Llwyd. Doedd pellter ddim yn ffactor. Doedd prinder arian byth yn rhwystr. Doedd neidio ar fws neu drên neu awyren ddim yn broblem'.<sup>675</sup> Fel y dywedodd Iwan ei hun yn ei gerdd 'Teithio':

Mae'r drefn yn hawdd,  
y llyfnder wedi ei gynllunio –  
o'r car i'r trên  
i'r awyren sy'n aros...<sup>676</sup>

Roedd crwydro yn nhraddodiad y clerwyr gynt yn syniad pur ramantaidd gan Iwan, ac roedd gwybod fod cenedlaethau wedi troedio'r un tir ag o wrth gyrchu llys yn ychwanegu rhyw sglein at ei brofiad ei hun o deithio:

Beirdd, byddinoedd, offeiriaid a phorthmyn. Mae lonydd Cymru wedi cael eu teithio gan bob lliw a llun ar draws y canrifoedd. A rhan o'r daith yn ceisio lloches a chysur yma ac acw.

---

<sup>673</sup> Twm Morys, 'Awdyl i Iwan Llwyd o'r Tai Newyddion' yn 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 100 (Gaeaf 1997), t. 7.

<sup>674</sup> Twm Morys, 'Ar ôl Eisteddfod ryfedd Glyn Ebwy', *Iwan, ar Daith*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2010), t. 39.

<sup>675</sup> Karen Owen, 'Y daith olaf', *Iwan, ar Daith*, t. 128.

<sup>676</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), t. 151.

Disgrifiad o gyrraedd y lloches honno sydd ganddo ar ddechrau'r ysgrif hon, lle mae'n cydnabod mai rhyw olygfa ystrydebol gyfarwydd yw honno o gyrraedd tafarn glyd ar noson arw. Ond mae'r disgrifiad yn un manwl ac apelgar, ac ni ellir peidio â dychmygu mai dyma'r math o sefyllfa neu ddelfryd yr oedd Iwan yn ei chysylltu â chrwydro yn ddieithryn o le i le:

Mae'r olygfa'n gyfarwydd. Ystafell fyglyd mewn tŷ tafarn ar noson aeafol. Y dynion yn glystyrau cynllwyngar. Rhai'n rhannu stori ac yn pwffian chwerthin. Bwrdd arall yn chwarae cardiau ac yn cil-edrych yn fygythiol ar ei gilydd. Gwraig y tŷ'n teyrnasu y tu ôl i'r bar, a'r hen gymeriad yn wargrwm yn doethinebu, ac yn tynnu ar ei getyn.

Yna chwa o wynt oer y gaeaf yn codi mwg o'r tân. Saeth o olau dyfrllyd yn taro ar yr olygfa, a'r teithiwr diarth yn cerdded i mewn i'r stafell. Distawrwydd. Clec o gyfeiriad y tân. Pob llygad melyn yn y lle yn craffu tan gap ar y gŵr diarth. Gan sgubo'r glaw oddi ar ei sgwyddau, mae'n camu at y bar ac yn archebu peint o'r cwrw gorau a bowlenaid o'r cawl crasboeth sy'n crogi uwch y tân.

Does neb arall yn torri gair. Dim ond sylu'n amheus. O'r diwedd mae gwraig y tŷ'n gofyn o le daeth ar noson fel hon. 'O'r gogledd', meddai'r dieithryn, drwy gegiad o'r cwrw, 'ond does gynnon ni ddim cwrw i guro'r melyn 'ma.' Gwên gan wraig y tŷ. Ac mae'r hen gymeriad yn tynnu ffidil o'i boced ac yn dechrau dawnsio. Mae gwawr o chwerthin yn torri drwy'r dafarn. Ac mae'r croeso'n fawr.<sup>677</sup>

Daw i gof wrth ddarllen y disgrifiad uchod gerdd Iwan "You're not from these parts". Yno, y teithiwr a ddaw 'o dalaith / ymhell i'r gogledd' yw llefarydd y gerdd, ac yntau'n cyrraedd tafarn ym mherfeddion Ceredigion. Dyma gerdd sy'n dangos ymwybyddiaeth Iwan o'r cysylltiad sydd rhwng ei deithiau ei hun a llwybrau'r cenedlaethau o'i flaen. Fe deimla'r teithiwr yn gyfforddus mewn lle dieithr gan fod 'golwg hynafiaid / yn cyfeirio fy nhaith' ac mae'n clywed 'clec sodlau y beirdd wrth iddyn nhw gerdded / o noddwr i noddwr, o gwmwd i ganrtef'. Wrth iddo yntau ddilyn yr un llwybrau, mae'n dod yn rhan o'r traddodiad ac yn dod yn un â hanes. Mae'n sôn am 'pan ddo'i'n ôl i'r fro 'ma eilwaith', ond nid yr un teithiwr a ddaw yn ei ôl eilwaith o reidrwydd ond crwydryn arall, a bydd hwnnw, fel y teithwyr eraill o'i flaen, yn medru uniaethu â'r sawl a fu'n crwydro'r un tir ag o, a bydd yntau'n ychwanegu haen arall eto at y traddodiad:

... mae pob taith eilwaith yn gwlwm  
â'r ddoe sy'n ddechreuad, â fory ers talwm ...

---

<sup>677</sup> Iwan Llwyd, 'Ar y ffordd', *Barn*, 405 (Hydref 1996), t. 22.

Hynny yw, mae'r daith yn creu cysylltiad rhwng y presennol, y gorffennol a'r dyfodol, ac mae gwybod hynny ynddo'i hun yn cyfoethogi profiad pob teithiwr. Ac nid uniaethu â'r beirdd crwydrol yn unig a wna'r teithiwr yn y gerdd: mae'n ystyried y teithwyr eraill a fu'n gwneud yr un siwrne, yn adar, yn gymeriadau chwedlonol a hanesyddol, ac mae'n cofio am y bardd B. T. Hopkins, awdur y gerdd 'Rhos Helyg' ac un o feirdd y Mynydd Bach.<sup>678</sup>

Roedd teithio yn mynd law yn llaw â bod yn fardd ym meddwl Iwan, ac mae hynny i'w weld yn llinellau agoriadol 'Bardd':

Fuodd o 'rioed yn un i aros yn llonydd yn hir iawn.  
Deuai'r anniddigrwydd heibio'n amlach wrth fynd yn hŷn.  
Llifai'r môr drwy'i wythiennau.  
Roedd crwydro yn ei waed fel curiad sodlau i lawr coridorau gwag.<sup>679</sup>

Nid teithio Cymru benbaladr yn unig a wnâi, chwaith. Byddai'n sôn yn ei ysgrifau yn *Barddas* a *Barn* am gyfnod Guto'r Glyn fel milwr yn Ffrainc, ac roedd dilyn llwybrau ei arwr mawr, T. H. Parry-Williams, dros y môr i America yn freuddwyd a gafodd ei gwireddu ganddo ym mis Mai 1994, pan deithiodd yntau i'r Unol Daleithiau i ffilmio'r gyfres deledu *Dan Ddylanwad* gyda chwmni Telegraffiti. Bwriad y gyfres oedd cyflwyno argraffiadau cyntaf Iwan o'r Unol Daleithiau wrth iddo deithio i rai o ddinasoedd mawr America. Mae'n debyg mai cofnodi'r argraffiadau hyn mewn nodiadau yn ei lyfr bach du a wnaeth yn ystod y daith, ac nad ysgrifennodd y cerddi yn llawn nes dychwelyd i Gymru.<sup>680</sup> Cafodd nifer o'r cerddi a ddefnyddiwyd ar gyfer y gyfres eu cyhoeddi yn y gyfrol *Dan Ddylanwad* maes o law, cyfrol a rannwyd yn dair: 'Cerddi 'Mericia, Canada a Chymru', a chyfrol a enillodd wobwr Llyfr y Flwyddyn yn 1998.

Dilynwn Iwan yn ei gerddi i America o Fangor, Gwynedd i Fangor, Maine, 'o Fangor i Fangor,' chwedl yntau.<sup>681</sup> Cychwynna ar ei daith i'r maes awyr yn 'Ar y trê'n o Fangor', lle mae'n sylwi ar 'chwech o genod Bangor' yn teithio i Fanceinion i siopa am y dydd. Dyma un

<sup>678</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 35.

<sup>679</sup> *Ibid.*, t. 101.

<sup>680</sup> Michael Bayley Hughes, 'Ar y lôn efo Iwan', *Iwan, ar Daith*, t. 62.

<sup>681</sup> Iwan Llwyd, 'Dan ddylanwad', *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), t. 15.

o'r 'fflachiadau o gyfarfyddiadau' lle mae llwybr Iwan a llwybr y merched ysgol yn cyfarfod am ennyd cyn gwahanu eto am byth. Mae'n cymharu anturiaeth y merched ifanc, sy'n dechrau profi rhyddid y lôn am y tro cyntaf, â'i antur ei hun i Efrog Newydd, ac yntau'n hen gyfarwydd â phosibiliadau taith erbyn hyn. Cyfeiria Guto Dafydd at yr eironi o feddwl mai'r 'bardd sydd ehangaf ei brofiadau o'r byd modern' yn hytrach na'r merched ifanc.<sup>682</sup> Nid edliw yr eironi a wna Iwan yn y gerdd ond yn hytrach 'gwenu'n ddistaw bach / am ben eu hieuentid prysur / a'u diniweitrwydd iach'.<sup>683</sup> Rhywbeth arall y mae Iwan yn sylwi arno ar y trê'n yw fod y Gymraeg yn cael ei chludo dros y ffin i Loegr, ac mae'r syniad o gario ei ddiwylliant Cymraeg a Chymreig gydag o i ble bynnag yr â yn un a welir sawl gwaith drwy'r gyfrol. Yn wir, dyna a geir yn ail gerdd y gyfrol, 'Wrth wrando Bob Delyn ym maes awyr Manceinion'. Yno, mae'r teimlad o fod yn ddieithryn a'r 'wefr o fod yn nabod neb' yn dechrau cydio, a phrofiad Iwan o'r daith yn cael ei oreuro wrth iddo wrando ar ganeuon cyfarwydd Bob Delyn a'r Ebillion:

... ym mhrysurdeb Maes Awyr Manceinion  
mae ei ganeuon yn fy nghlustiau  
a gwên ar fy wyneb,

fel tawn i wedi ffwandro  
neu'n rhannu cyfrinach ...<sup>684</sup>

Mae'r gerddoriaeth yn ei glustiau ef yn unig, yn dalp o'i ddiwylliant lleiafrifol, cyfoethog ei hun sy'n gysur ac yn destun hiraeth ar yr un pryd wrth i eiriau'r gân 'dorri craith ar fy nghalon'.

Wrth iddo blymio i ganol ehangder America, profodd Iwan yr holl haenau sy'n ffurfio'r Unol Daleithiau cymhleth a lliwgar. Er iddo deithio yno yn meddwl am y delweddau disgwylidig, sylwodd ar fwy na'r elfennau ystrydebol, corfforaethol, yr 'Amtrak, playback, Burgerbars a Big-Mac', a gwelodd heibio i 'haul mawr melyn' twyllodrus Manhattan:<sup>685</sup>

---

<sup>682</sup> Guto Dafydd, 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', *Taliesin*, 143 (Haf 2011), t. 130.

<sup>683</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 11.

<sup>684</sup> *Ibid.*, t. 13.

<sup>685</sup> 'Dan ddylanwad' ac 'Ellis Island', *Ibid.*, tt. 14, 19.

Roeddwn yn hedfan yno â'm pen yn llawn delweddau ystrydebol. Fe ddois i oddi yno wedi fy ysbrydoli. Wrth gwrs roedd y delweddau disgwylidig i gyd yno – Big Macs a Mickey Mouse, rhagfarnau hiliol, cyfalafiaeth remp, trais a chwac-grefyddda – ond roedd yno hefyd lonydd llydan yn arwain i dwn-i-ddim-lle, brwdfrydedd am lenyddiaeth a barddoniaeth, cymdeithas amlddiwylliannol, amlieithog, rhyw obaith diniwed ond eto anorchfygol.<sup>686</sup>

Mae'n cyfaddef yn y gerdd 'Dan ddylanwad' mai 'dim ond gweld rhan o'r darlun' a wnaeth cyn cyrraedd ac mai cyrchu rhyw freuddwyd Americanaidd ddall yr oedd, 'yn breuddwydio am yrru / mewn Mustang soft-top ar Highway 61'. Ond â yn ei flaen i restru'r holl ddelweddau a oedd yn aros amdano wedi iddo lanio, i gyd wedi eu cloi 'dan haen o rew, dan oerni'r iâ' ac yntau'n hedfan filoedd o droedfeddi uwch y ddaear. Dyma gyrraedd 'gwlad yr addewid, yr Eden eitha' sy'n llawn o enwau hudolus, o eilunod fel 'Elvis frenin, Martin Luther King a JFK', ond gwlad hefyd sy'n gartref i'r brodorion, 'gwlad gorthrwm a chwlwm a chwalfa'.<sup>687</sup> Archwilio'r delweddau hyn yn fanylach y mae gweddill cerddi America yn y gyfrol.

Yn ei bennod 'Far Rockaway yn y Galon', fe sonia Iwan am yr hyn a oedd yn atyniadol iddo ynghylch America. Er mwyn deall yr atyniad mae'n ein tywys yn ôl at ei fagwraeth draddodiadol, at ddeffroad ifanc grwpiau roc Cymraeg y 1970au, at ymateb gwantan Cymru i refferendwm 1979, ac at y mynegiant newydd roedd yn rhaid i lenorion ei ganfod er mwyn gallu cyfleu'r oes a oedd ohoni. Roedd y mynegiant newydd hwnnw yn nes at ganeuon Bob Dylan a Bruce Springsteen nag ydoedd at unrhyw beth y gellir dod o hyd iddo yn y Gymraeg. Roedd Cymry ifanc y 1980au yn gallu uniaethu'n well â geiriau'r Americanwyr nag â geiriau'r beirdd gwladdaidd Cymraeg:

Roeddem ninnau'n rhan o'r un byd ansefydlog, anniddig, a'r farchnad waith yn mynnu nad oedd y ffasiwn beth â swydd am oes, bod yn rhaid dal 'Traws Cambria' Steve Eaves a dilyn y lôn i pwy a wŷr ble.

Yn gysylltiedig â'r syniad fod yn rhaid chwilio cyfleoedd, dadwreiddio'r hunan, a theithio cryn dipyn i ddod o hyd i rywbeth gwell o hyd, dywed Iwan yn yr un ysgrif mai

---

<sup>686</sup> Iwan Llwyd, 'Far Rockaway yn y Galon', t. 234.

<sup>687</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 14-15.



rhan fawr o wefr America i mi yw bod rhywun yn teithio'n ddifagej, yn ddi-gof chwedl Ferlinghetti. Mae yna ymdeimlad yna o hyd bod pob bore newydd yn dod â phosibiliadau newydd. Mae pawb rywsut yn ymfudwr – yn dianc rhag rhywbeth, yn chwilio am rywbeth – a rhwng y ddau begwn yna mae yna gymaint o bosibiliadau.<sup>688</sup>

Dyma'n union a gawn yn 'Ellis Island': y syniad rhamantaidd o chwilio am ryddid neu am orwelion newydd wrth ymfudo i'r Unol Daleithiau. Rhwng diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chanol yr ugeinfed ganrif, Ellis Island oedd y man lle câi ymfudwyr eu harchwilio a'u derbyn i'r wlad, ac yno y daeth pobl o bob cwr o'r byd o hyd i'w rhyddid, gan gynnwys y Cymry:

yn Bwyliaid a Groegiaid, Gwyddelod a chaethweision rhydd,  
yn Gymry ar y ffordd i sefydlu Caersalem lân  
yn Wild Rose, Wisconsin ...<sup>689</sup>

Fel yn amryw o'r cerddi i America, mae'r haul yn symbol o ryddid yn 'Ellis Island': 'fedr yr haul ddim cuddio, / er gwaetha'i hun, mae o'n llachar a noeth a hardd / fel rhyddid'. Mae'n tywynnu ar yr ymfudwyr, yn eu croesawu ac yn eu gwahodd i 'ymdrochi yng nghawod ei belydrau'. Mae Iwan yn cymharu'r haul yn Ellis Island â haul Manhattan, sy'n cuddio bob hyn a hyn 'rhwng y tyrau gwydr a choncrid a dur'; mae'n tywynnu dros y blociau unffurf o strydoedd ac yn cynnig cipolwg ar yr hyn sydd ar gael cyn cael ei guddio eto, gan atgoffa pawb fod pris ar bopeth, hyd yn oed yr haul: 'chewch chi ddim byd yn y byd ma am ddim', na merch na siwrne taci. Dyma ni ym myd y busnesau mawrion, corfforaethol; y byd global, drud sy'n llawn corneli tywyll, a'r byd sy'n llyncu unrhyw un nad yw ei freuddwyd yn fawr. Yr un teimlad oeraidd a geir yn 'Efrog Newydd', lle mae cyfalafiaeth wedi hen fodd diwylliant *retro* y cowbois a roc a rôl. Yn lle gweld cyfle newydd i bob un gyda phob toriad gwawr, rhyw deimlad mai 'trechaf treisied' yw hi yn y ddinas drachwantus hon lle mae 'pob anadliad yn edliw mai nhw biau'r bore'.<sup>690</sup>

---

<sup>688</sup> Iwan Llwyd, 'Far Rockaway yn y Galon', tt. 231, 229.

<sup>689</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 20.

<sup>690</sup> *Ibid.*, t. 21.

Erbyn ymweliad diweddarach ag Efrog Newydd yn 1999, fodd bynnag, roedd Iwan fel petai wedi cynhesu at y lle; mae'n disgrifio goleuadau Manhattan 'yn real yn pefrio drwy fwg yr arogldarth', ac mae'n ymgynefino â phrysurdeb 24/7 y ddinas lle safai dau dŵr bryd hynny yn 'Bore Sul yn Efrog Newydd':

... wrth i'r wawr dorri'n ara'  
dros gyfnewidfa fwya'r byd,  
mae'r tywyllwch fel eira'n  
cuddio cynnwrf cynnar y stryd ...<sup>691</sup>

Mae'n ymdeimlo â chysylltiad Dylan Thomas â'r ddinas wrth sôn am 'dafarn y Ceffyl Gwyn', sef tafarn y White Horse lle'r âi Dylan Thomas iddi'n rheolaidd a lle ceir llun ohono ar y wal erbyn hyn. Dyna Iwan yn ymwybodol unwaith eto ei fod yn dilyn trywydd bardd ac eilun iddo, ac yn cyfoethogi ei ymweliad ei hun â'r ddinas o'r herwydd. Cyfansoddodd y gerdd hon yn sgil y profiad o fod yn yr Orange Bear Bar yn Downtown yn cymryd rhan mewn sesiwn meic agored, lle bu'n sgwrsio â'r trigolion 'am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac am Fietnam. A doedd neb yn yr Orange Bear Bar am weld Fietnam arall'.<sup>692</sup> Aeth Iwan yn ôl i'r Orange Bear Bar ar ymweliad arall ag Efrog Newydd yn 2002, y ddau dŵr wedi disgyn erbyn hynny a'r naws yn wahanol yn y ddinas. Mae'n cofnodi'r profiad mewn tair cerdd yn y gyfrol *Hon: Ynys y Galon*, 'Eleni', 'In transit' a 'Torwyr Beddi',<sup>693</sup> y tair yn sôn am y gweithwyr a oedd yn clirio'r rwbwl wedi'r drychineb ac yn dod yn ddefodol i'r dafarn i gael rhywfaint o seibiant yng nghwmni Eleni, y ferch hardd a oedd yn gweini tu ôl i'r bar. Ysgrifennodd gwpled ar gefn mat cwrw am yr Orange Bear Bar, ac mae llun o'r mat cwrw hwnnw i'w weld yn *Iwan, ar Daith*, gyda'r teitl 'John, Sioned a Twm' yn cyfeirio at ei gyd-deithwyr ar y pryd, mae'n debyg: John Barnie, Twm Morys a'i wraig, Sioned Morys. Eleni sy'n hawlio ei sylw yn y cwpled:

mae'r hogan ddel yn hy'i thatws  
tu ôl i'r bar yn canu'r Blws[.]<sup>694</sup>

<sup>691</sup> Iwan Llwyd, 'Bore Sul yn Efrog Newydd', *Hanner Cant* (Bodedern, 2007), tt. 74, 76.

<sup>692</sup> Iwan Llwyd, 'Wythnos yng Ngwales', *Hon: Ynys y Galon*, gol. Iwan Bala (Llandysul, 2007), t. 48.

<sup>693</sup> *Ibid.*, tt. 52, 53-4, 55-6.

<sup>694</sup> *Iwan, ar Daith*, t. 67.

Er i argraff Iwan o Efrog Newydd newid ers y tro cyntaf hwnnw yn 1994, nid oedd yn ddall o bell ffordd i'r ochr gorfforaethol, global a synthetig a oedd yn perthyn i'r lle, fel y profa 'UDA', cerdd a ysgrifennodd yn sgil ymweliad yn 2007, lle gwêl nad oes 'dim diwedd bellach / ar ei thrachwant hi'.<sup>695</sup> Yn ystod yr un ymweliad, daeth ar draws tafarn Wyddelig o'r enw The Perfect Pint, ac yn wahanol iawn i naws y gerdd flaenorol, mae'n canfod rhyw glydwch yno lle 'mae 'na groeso i Gymro':

... lle bynnag yr ei di  
yn hyn o fyd,  
mae 'na hafan a harbwr  
yn rhywle o hyd.<sup>696</sup>

Ond trown am y tro yn ôl at daith gyntaf Iwan i America. Gwahanol iawn oedd argraff gyntaf Iwan o 'strydoedd treisiol, cystadleuol y ddinas' yn Efrog Newydd, a'u synau 'yn llawn bygythiadau a braw', i'w ddisgrifiad o rywle fel Nashville, lle 'mae'n rhaid troi'r clocioau'n ôl / i oes pan oedd pawb yn credu breuddwyd roc a rôl' a lle mae sŵn canu gwlad i'w glywed yn dod o'r bariau *honky tonk*.<sup>697</sup> Cawn yr argraff mai yn y math hwnnw o le y mae Iwan fwyaf cartrefol: yn mwynhau arafwch Nashville neu yng nghanol blws Memphis yn gwyllo 'hen ddyn Memphis yn dawnsio yng ngwres y prynhawn'. Daliwyd naws y ddinas honno yn y gerdd 'Memphis', sydd wedi ei chyfansoddi yn arddull y blws, yn syml ac yn ailadroddus, ac yn sôn am ryddid wedi caethiwed hir:

Mae o'n clywed sŵn y cadwynau  
mae o'n clywed clicied y clo,  
mae cwlwm yr hualau  
yn cau am ei anadl o:

ond mae hen ddyn Memphis yn troi ei wedd at y wawr,  
mae hen ddyn Memphis yn troi ei wedd at y wawr,  
mae yfory yn ei lygaid, mae ei freuddwyd o'n fawr.<sup>698</sup>

---

<sup>695</sup> Iwan Llwyd, 'Dwy Ddinas', *Taliesin*, 133 (Gwanwyn 2008), t. 46.

<sup>696</sup> *Ibid.*, t. 47.

<sup>697</sup> Iwan Llwyd, 'Efrog Newydd' a Nashville', *Dan Ddylanwad*, tt. 21, 30.

<sup>698</sup> *Ibid.*, t. 34.

Dyna un wedd ar y freuddwyd Americanaidd yng ngolwg Iwan. Mae'r agwedd arall ar y freuddwyd yn un fwy materol sy'n perthyn yn nes i'r byd cyfalafol, a dyna a geir yn 'Harley Davidson', sef y syniad ei fod 'o'n ddiwydiant erbyn hyn – / cynhyrchu'r freuddwyd'.<sup>699</sup> Soniwyd eisoes am gerdd gynharach Iwan, 'Fel Jack Nicholson', lle mae'n dychmygu reidio ar gefn beic modur Harley Davidson tua'r machlud gyda'i gariad,<sup>700</sup> ond yn ystod taith i'r ffatri sy'n creu'r beiciau modur yn 'Harley Davidson', caiff ei ddadurthio. Nid oes unrhyw beth yn hudol ynghylch 'cynhyrchu'r freuddwyd' hon; proses fecanyddol a llafur y dosbarth gweithiol sy'n gyfrifol am foddhad prynwyr y beiciau modur yn y pen draw, ac mae gofyn am waith caled cyn i'r peiriannau weld llwch y lôn. Crëir cysylltiad yn y gerdd rhwng y gweithwyr yn y ffatri a'r Cymry yng Nghaernarfon a fu'n codi castell Edward I iddo – y ddau weithlu yn llafurio ar gyfer dosbarth uwch, fel yr awgryma Guto Dafydd.<sup>701</sup> Caiff y cysylltiad ei amlygu drachefn wrth i'r cyfeiriad at '[B]ont y Porth Aur' ein hatgoffa o Borth yr Aur yng Nghaernarfon. Ond nid yw'r dadurthiad a brofa Iwan yn golygu fod y freuddwyd wedi ei chwalu'n llwyr; mae bellach yn ei gweld mewn golau gwahanol, yn gweld sut mae 'troi'r ffantasi'n ffaith'. Ac mae'r gweithwyr hwythau yn 'hanner balch, hanner bodlon' o weld ffrwyth eu llafur yn troi yn freuddwyd i rywun, yn 'cludo / un cwsmer hapus arall / i hollti'r gwynt' ar hyd y lonydd llydan.

Un o'r lonydd hynny sy'n ymgorffori'r freuddwyd Americanaidd yw Route 66, y brif ffordd a oedd yn torri ar draws yr Unol Daleithiau cyn i'r *freeways* a'r *interstates* ddod i hwyluso teithiau'r cymudwyr. Soniodd Iwan unwaith am y wefr a brofodd o weld arwydd ffordd a'r geiriau 'Route 66' arno: roedd 'fel cael cip ar Forfudd yn cerdded muriau castell Aberystwyth – cael cip ar chwedl neu fyth,' meddai:

Dyma'r wythïen fawr oedd mor ganolog i'r breuddwyd Americanaidd. 'Roedd yn cynrychioli hen ysbryd y 'frontier' a'r paith, a'r daith ddi-ben-draw tua'r gorllewin a'r haul ac aur Califfornia.'<sup>702</sup>

---

<sup>699</sup> Ibid., t. 28.

<sup>700</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 19.

<sup>701</sup> Guto Dafydd, 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', *Awen Iwan*, tt. 50-1.

<sup>702</sup> Iwan Llwyd, 'Route 66 ac ŵy Burrito', *Barddas*, 209-10 (Medi/Hydref 1994), t. 42.

Yn y gerdd 'Route 66' ceisia glymu Cymru ac America unwaith yn rhagor drwy gyfochri ysfa'r Celtiaid i deithio mor bell ag y gallent i orllewin Ewrop, gan ymsefydlu ym Mhrydain, ac ysfa'r Americanwyr i deithio i ben draw eu cyfandir hwythau i'r gorllewin eithaf:

... beth a ddaeth â ni,  
yn ôl pan oedd hanes yn ifanc,  
i'r tiroedd tlawd ar gyrion Ewrop,  
i'r ynysoedd bychain a'u mynyddoedd balch?  
onid yr ysfa i wynebu pen draw'r llwybyr, [sic]  
i orfod ystyried troi'n ôl?

yr un chwilfrydedd  
a dorrodd graith Route 66  
ar draws ein brawd mawr o gyfandir ...<sup>703</sup>

Dod o hyd i le newydd, cyfleoedd newydd a heriau newydd oedd y freuddwyd a oedd ynghlwm â Route 66 yn wreiddiol, ond fel y dywed Iwan yn y gerdd, 'fe drodd y daith ei hun yn freuddwyd'. Bod ar y lôn chwedlonol ei hun oedd y ddelfryd, maes o law, a threulio 'nosweithiau effro mewn motels llychlyd', neu fwyta 'burrito i frecwast', fel y gwnaeth Iwan ei hun mewn 'Route 66 Diner' un tro.<sup>704</sup> Er bod Route 66 wedi ei thagu gan y lonydd newydd erbyn hyn, yr un yw'r ddelfryd, sef gyrru tua'r gorwel, ac mae hynny'n dal i fod yn rhan o ddychymyg America:

Mae lonydd llydain America, eu trefi a'u dinasoedd, ac yn fwy na dim, eu teithwyr brith, wedi mynd yn rhan o gymeriad y cyfandir mawr hwnnw erbyn hyn. Ac yn fwy na dim yr ysfa i deithio'r lôn tua'r gorllewin, lle mae'r haul yn machlud. I orfod ystyried troi'n ôl. Mor aml, mewn ffilm a chân, y lôn yw'r ddihangfa, lle mae yna ffin i'w chroesi tuag at ryddid, neu gyfiawnder, neu fywyd newydd.<sup>705</sup>

Y lôn ei hun sy'n aros ym meddwl Iwan, fel y gwelwn yn 'Woodstock'. Gŵyl oedd Woodstock a gynhaliwyd mewn tref o'r enw Bethel yn Efrog Newydd ym mis Awst 1969, ond nid sôn am yr ŵyl a wna yn y gerdd, ond yn hytrach sôn am y siwrne i'r fan lle cynhaliwyd yr ŵyl, a'r siom o ganfod nad yn nhref Woodstock ei hun yr oedd hynny. Awgryma'r llinellau gwirebol

<sup>703</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 39.

<sup>704</sup> Iwan Llwyd, 'Route 66 ac ŵyl Burrito', tt. 42-3.

<sup>705</sup> Iwan Llwyd, 'Far Rockaway yn y Galon', t. 236.

sy'n cloi'r gerdd fod pen y daith, y ddelfryd neu'r rhyddid terfynol, yn wastad y tu hwnt i'n gafael, yn orwel amhosib ei gyrraedd:

... pan wyt ti'n chwilio am Woodstock, dim ots ym mhle  
y dywedodd rhywun y cei hyd iddo fo:  
mae Woodstock yn y cae nesa bob tro.<sup>706</sup>

Y wefr o deithio lonydd America i Iwan oedd fod gwahanol ddiwylliannau yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd ar y ffordd. Mae'r syniad o lôn yn medru ein tywys i unrhyw gyfeiriad, fel y dengys y cywydd 'Y lôn'. Gall ein harwain at roc a rôl 'Elvis a'i gân' neu gall fod yn 'lôn y caethweision' tuag at eu rhyddid; gall ein tywys i diroedd brodorion America, i New Orleans 'i fyd oer y Fwdw hyll', neu at lewyrch sgleiniog San Ffransisco.<sup>707</sup> Wrth gyrraedd New Orleans, dechreua Iwan sylwi ar yr ochr estron sy'n perthyn i Ogledd America. Yn 'Dinasoedd y meirw', enw cyffredin ar fynwentydd New Orleans, fe sonia am y beddrodau tal sy'n fwriadol felly gan mor aml y mae'r Mississippi yn gorlifo ac yn boddi'r tir. Darlunnir y ddinas fel lle paganaidd lle mae 'isel furmur y Fwdw' yn anesmwytho rhywun â'i rythm dwfn.<sup>708</sup> Rhyw guriad felly sydd i 'New Orleans', lle caiff y ddinas ei gweld fel pair iachusol lle mae defodau, swynion a dŵr du y Mississippi yn medru glanhau unrhyw bechadur o'i ffaeleddau:

Tyrd â'th holl bechodau,  
dy chwant a'th gyfrinachau,  
ac fe wna'i eu derbyn nhw i gyd:

tyrd â'th ofnau a'th eiddigedd,  
tyrd ar fyrder i'r ffair wagedd  
ym mhwill maddeuant y byd ...<sup>709</sup>

Y ddinas ei hun sy'n siarad yn y gerdd hon, a bron nad yw hi'n cael ei phortreadu fel un o feistresi'r Fwdw, gyda'i rhybudd nad lle i aros yno'n rhy hir yw New Orleans 'rhag i ti a'th holl bechodau / gael eu dal gan fy nhir'. Ni chawn wybod ai oherwydd y gorlifo cyson y

---

<sup>706</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 23.

<sup>707</sup> *Ibid.*, t. 27.

<sup>708</sup> *Ibid.*, t. 38.

<sup>709</sup> *Ibid.*, t. 36.

mae'n rhaid gadael y ddinas ynteu a oes rheswm mwy sinistr a dirgel y tu ôl i'r rhybudd. Yr un math o ddarlun o New Orleans a gawn yn yr englyn hwn gan Iwan:

Mae estron dwrw'r meistri – a'u gwatwar  
yn gotwm amdani,  
a siâp y Mississippi  
sy i'r groes ar ei gwar hi.<sup>710</sup>

Parha Iwan â'i daith i'r gorllewin, ac mae 'Diwedd y daith', fel 'Y lôn', yn darlunio'r gwahanol ddiwylliannau a geir yng Ngogledd America, i gyd yn cyd-fyw ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'n debyg mai cyfeirio at y Santa Fe Trail, y ffordd rhwng Franklin, Missouri a Santa Fe yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a wna ar ddechrau'r gerdd:

Roedd adeg pan mai Santa Fe  
oedd diwedd y daith,  
y man lle'r oedd llwybrau'r dyn gwyn  
yn cwrdd â'r paith:

lle'r oedd ei fyd newydd, anghyfarwydd e  
yn dirwyn i ben,  
a hen fyd y Nambè a'r Pojoaque  
yn sbecian dan gwr y llen ...<sup>711</sup>

Cerdd am drefedigaethu tiroedd y Pueblos, y llwythau brodorol, yw 'Diwedd y daith' yn ei hanfod, ac mae'n sôn am y dyn gwyn yn dod â'i chwedlau ei hun am gowbois ac anturiaethwyr i ddisodli chwedlau'r brodorion am 'y Coyote a'r Bison'. Recordiwyd sgwrs ag un o lwyth y Nambè ar gyfer un o raglenni'r gyfres *Dan Ddylanwad*, ac wrth i'r brodor sôn am ddirywiad eu hiaith, fe adroddodd chwedl am y Coyote:

Fe fynnodd y Coyote fod y Kikada yn dysgu ei gân iddo yn dâl am ei fywyd. Deirgwaith fe'i dysgodd a'i hanghofio. Aeth yn ôl a mynnu fod y Kikada yn ei dysgu eto, y tro hwn nid atebodd. Neidiodd y Coyote arno a'i larpio, ond doedd y Kikada ddim yno, dim ond cragen wag ei hen groen.<sup>712</sup>

---

<sup>710</sup> Iwan Llwyd, 'New Orleans', *Barddas*, 231-2 (Gorffennaf/Awst 1996), t. 43.

<sup>711</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 51.

<sup>712</sup> Rhaglen deledu *Dan Ddylanwad: Dal y freuddwyd* (Telegraffiti, Darlledwyd: 22/09/94).

Mae gwladychu tiroedd y brodorion Americanaidd yn rhywbeth y sylwa Iwan arno'n gyson wrth iddo ymweld â gwahanol lwythau. Wedi iddo ymweld â llwyth y Nambè, mae'n cydymdeimlo â'r dirywiad yn eu hiaith, ac yn gweld mai ymyrraeth y gwladychwyr sy'n gyfrifol am y dirywiad hwnnw:

... daeth newid, daeth yn aea  
oer a hir, bu farw'r ha;  
rhoes gynnau goresgynwyr  
daw ar gân a hyder gwŷr  
ifanc huawdl eu tafod,  
daeth rhyw fan dieithr i fod.<sup>713</sup>

Roedd ôl gormes y dyn gwyn i'w weld hyd yn oed yng ngŵyl y Pow Wow ar gyrion Santa Fe, gŵyl yr Indiaid Cochion, lle roedd maes tebyg i faes yr Eisteddfod a phebyll yno yn gwerthu pob math o drugareddau. Synnodd Iwan, wrth ymweld â'r ŵyl a oedd yn berwi o ddiwylliant lliwgar y brodorion, eu bod yn 'diweddu'r noson yn talu teyrnged i faner y sêr a'r sribedi, ac yn canu anthem y dyn gwyn'.<sup>714</sup>

Nid yw'n syndod i Iwan sylwi ar y trefedigaethu a oedd wedi gadael ei ôl ar y llwythau brodorol ac yntau mor ymwybodol o ormes y Saeson ar y Cymry er 1282, gormes a arweiniai maes o law at ddiffyg hyder ym mhleidlais 1979, at gau'r pyllau glo, ac at sefyllfa lom diweithdra yng Nghymru'r 1980au. Er nad oedd sefyllfa Cymru hanner cynddrwg â sefyllfa'r Americanwyr brodorol a ormeswyd yn raddol gan y Sbaenwyr ers y bymthegfed ganrif, gallai Iwan gydymdeimlo â'u profiad. Yng nghyd-destun syniadaeth Edward Said yn *Orientalism*, gellir ystyried bod y brodorion Americanaidd a'r Cymry yn gynrychioladol o'r 'arall' ar un adeg.

Roedd cysylltu ei brofiad o America â'i brofiad o fod yn Gymro yn rhywbeth a wnâi yn gyson, fel y gwelir yn 'Efrog Newydd' wrth iddo gyffelybu'r ymfudwyr a ddaw i Efrog Newydd i'r dynion a ddaeth yn fud o bair y dadeni. Defnyddir yr un cysylltiad yn 'Hiawatha',

---

<sup>713</sup> Iwan Llwyd, 'Nambè', *Dan Ddylanwad*, t. 44.

<sup>714</sup> Iwan Llwyd, 'Pow Wow', *Barddas*, 274 (Medi/Hydref/Tachwedd 2003), t. 61.



Ile gwêl debygrwydd rhwng Dafydd Iwan a Hiawatha, arweinydd chwedlonol yr Americanwyr brodorol, a lle cymhara ein Llywelyn ni â'u Sitting Bull nhw. Mae'r enwau Cymraeg sy'n frith dros Philadelphia hefyd yn creu rhyw swyn yn nychymyg Iwan yn 'Cymry Philadelphia'.<sup>715</sup> Dyma enghraifft nodweddiadol o Iwan yn cadw at ei fanifesto barddol, ac yn 'ceisio'i orau i asio'r hen a'r newydd, er mwyn creu sŵn newydd, delweddau newydd, barddoniaeth newydd'.<sup>716</sup> Wrth iddo'i ddadwreiddio ei hunan a hel ei bac am America, mae'n dadwreiddio ei ddelweddau Cymreig hefyd, ac yn eu hail-leoli mewn cyd-destunau anghymreig er mwyn i ni eu gweld a'u gwerthfawrogi o'r newydd:

... wrth fwynhau teithio'r cyfandir enfawr i'r gorllewin, roedd rhywun yn dal i dynnu cymariaethau a chyffelybiaethau â'n gwlad fach ni ar gyrion Ewrop.

Falle mai arwydd o wendid yw mynnu cyfeirio'n ôl drwy'r amser at ein sefyllfa yma yng Nghymru. Eto dyma fy mhrofiad cyntaf, fy llinell gynhyrchu. Wrth deithio eangderau America roedd sawl thema yn codi'i phen â chyffyrddiadau cyfarwydd – pam bod yna ysfa ynom erioed i deithio tua machlud haul – tua'r gorllewin? Sut mae cyfiawnhau gormes y dyn gwyn – yn Gymry a Gwyddelod, Saeson, Almaenwyr, Sbaeniaid a Llychlynwyr, ar lwythau brodorol cyfandir America – llwythau a'u hathroniaeth a'u patrwm byw mor wahanol i'n rhai ni â'r haul a'r lloer. Ac eto, pa mor wahanol?<sup>717</sup>

Llwyth arall y daeth Iwan ar eu traws ar gyrion Santa Fe oedd y Jemez, a hynny ger Los Amos, lle mae un o ganolfannau arfau niwclear yr Unol Daleithiau. Dyma un o'r llwythau a ddaliodd eu tir gadarnaf yn erbyn dylanwad y Sbaenwyr. Yn wahanol i'r Nambè, doedd y Jemez ddim yn awyddus i drafod eu hiaith frodorol gyda'r criw teledu:

Yr oedden ni am eu ffilmio nhw, a recordio eu hiaith unigryw nhw, y llwyth olaf i ildio i rym y Sbaenwyr yn y rhan yma o America. Ond 'chaen ni ddim. 'Doedden nhw ddim am i ni ddwyn eu cysgod nhw na'u tafodau. Eu cyfrinach fach nhw oedd eu hiaith.<sup>718</sup>

Dyna gefndir y gerdd 'Jemez', lle hola pennaeth y llwyth:

---

<sup>715</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 21, 31, 24-5.

<sup>716</sup> Iwan Llwyd, 'Dalen Lân', *Barddas*, 229-30 (Mai/Mehefin 1996), t. 7.

<sup>717</sup> Iwan Llwyd, 'Dan Draed', *Barn*, 402-3 (Gorffennaf/Awst 1996), t. 67.

<sup>718</sup> Iwan Llwyd, 'Arddel troednodiadau', *Barddas*, 260 (Rhagfyr/Ionawr 2000-01), t. 44.

... fy mrawd, pam wyt ti'n dymuno  
dwyn fy mlynnyddoedd  
trwy ddwyn fy nghysgod?

fy mrawd, pam wyt ti'n deisyfu  
rhewi fy nhafod  
yn eiriau oer ar glawr?

ni chawsom ein dymuniad,  
y twristiaid hy  
a wnaeth eu diwylliant mewn pnawn ...<sup>719</sup>

Drwy gydol yr amser a dreuliodd Iwan yng nghwmni'r brodorion, roedd yn ymwybodol mai ymwelydd o'r tu allan ydoedd, ac y 'medrwn "wneud" eu diwylliant mewn bore / wrth basio drwy Santa Fe,' fel y dywed unwaith eto yn 'Diwedd y daith'.<sup>720</sup> Pwysleisia hynny drachefn yn 'Ga'i fod yn indian, mam?' wrth i'r 'bachgen bach penfelyn' wirioni ar ddiwylliant yr Indiaid Cochion ac wrth iddo ysu am gael bod yn un o'r llwyth. Ond mae hyd yn oed y ffaith fod gan y bachgen wallt melyn yn ddigon i'w ddieithrio oddi wrth y brodorion a'u croen a'u gwallt tywyll, ac eglura ei fam wrtho:

... ymwelydd yr ymylon wyt ti,  
yn gwyllo ar gyrion y cylch cyfrin:  
wyddost ti ddim am ganrifoedd eu doethineb  
na dyfnderoedd eu galar ...<sup>721</sup>

Cerdd yn deillio o brofiad Iwan yn ymweld â gŵyl y Pow Wow yw hon. Cafodd ei atgoffa gan gwestiwn y bachgen o'i blentyndod yntau wrth iddo chwarae Cowbois ac Indians, a neb eisiau bod yn Indian gan mai nhw oedd y bobl ddrwg. Eglura'r hanes tu ôl i'r gerdd a'r arwyddocâd a oedd i gwestiwn diniwed y bachgen:

Ynghudd yng nghwestiwn y bachgen bach roedd canrifoedd o hanes a gormes a diffyg deall. "Na chei," meddai ei fam, "rwy'ti'n wahanol iddyn nhw." 'Doedd hi ddim yn bod yn greulon nac yn rhagfarnllyd. Roedd hi'n gwybod yn iawn na fedrai'r bachgen bach fod yn indian. 'Fedrai o fyth ddeall holl gyfoeth a chymhlethdod eu

---

<sup>719</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 41.

<sup>720</sup> *Ibid.*, t. 52.

<sup>721</sup> *Ibid.*, t. 46.

hanes. Roedd ei ben melyn a lliw ei groen yn ei wneud yn wahanol. Eto, roedd cwestiwn y bachgen bach yn llawn gobaith at y dyfodol. Roedd o'n ddalen lân, yn un a fedrai ddyheu am fod yr un fath â phlant bach y brodorion – a fedrai ddechrau dysgu a deall eu hanes a'u traddodiadau.<sup>722</sup>

Er cydnabod na fydd modd iddo uniaethu'n llwyr â'r llwythau brodorol, mae Iwan yn mynnu gweld tebygrwydd rhyngddynt a'i genedl ei hun dro ar ôl tro, yn yr un modd, bron, ag y gwna Nigel Jenkins yn ei gerdd 'Colonial'.<sup>723</sup> Er mai sôn am Morocco mae Nigel Jenkins, mae sylw Daniel G. Williams ar y gerdd yr un mor berthnasol wrth inni feddwl am agwedd Iwan:

It is of course common for Western tourists to lament the increasing homogenization of the world's cultures, while contributing to that very process by their presence, and here differences of geography, economy and culture are momentarily transcended as the colonial mentality of the Welsh is made equivalent to that of the Moroccans.<sup>724</sup>

Cerdd sy'n arddangos agwedd Iwan yn hynny o beth, yn anad yr un arall, yw 'lawn, gei di ofyn cwestiwn personol', sy'n addasiad o'r gerdd 'Sure You Can Ask Me A Personal Question' gan Diane Burns, un o feirdd llwyth yr Ojibwa. Cafodd Iwan ei atgoffa o gerdd Diane Burns pan ofynnodd y ferch a oedd yn gweini yn y Route 66 Diner iddo ai Awstraliad ydoedd: 'Er gwaetha'n hiaith a'n hacenion, 'roedden ni'n edrych fel Saeson – beth bynnag yw hynny erbyn hyn,' meddai.<sup>725</sup> Nod y ddau fardd yw cyfleu nad yw eu diwylliannau lleiafrifol yn eu cyfyngu nac yn eu gwneud yn fath o arteffactau cyntefig; mae'r ddau yn perthyn i fyd llawer mwy na'u diwylliannau eu hunain. Caiff Diane Burns yr un drafferth ag a gawn ninnau'r Cymry wrth geisio egluro'i thras brodorol i bobl o'r tu allan:

How do you do?  
No, I am not Chinese.  
No, not Spanish.  
No, I am American Indian, Native American.

---

<sup>722</sup> Iwan Llwyd, *Pair Ceridwen*, gol. Gwyn Thomas (Llangefni, 1995), t. 44.

<sup>723</sup> Nigel Jenkins, *Acts of Union: Selected Poems 1974-1989* (Llandysul, 1990), t. 99.

<sup>724</sup> Daniel G. Williams, *Wales Unchained: Literature, Politics and Identity in the American Century* (Cardiff, 2015), t. 127.

<sup>725</sup> Iwan Llwyd, 'Route 66 ac ŵy Burrito', t. 42.

No, not from India.  
No, not Apache  
No, not Navajo.  
No, not Sioux.  
No, we are not extinct.  
Yes, Indian.<sup>726</sup>

Dilynodd Iwan union batrwm cerdd Diane Burns, gan Gymreigio'r delweddau a gwawdio'r ystrydebau Cymreig. Cymharer dechrau cerdd Diane Burns uchod â dechrau addasiad Iwan:

S'mai?  
Na, dydw i ddim yn Wyddel.  
Na, nid Llychlynwr.  
Na, dwi'n Gymro, yn Gymro Cymraeg.  
Na, nid o'r Iseldiroedd.  
Na, nid o Cumbria.  
Na, nid o Gernyw.  
Na, nid Sais.  
Na, dydan ni ddim wedi darfod amdanom.  
Ia, Cymro ...<sup>727</sup>

Un o nodweddion dwyreinoldeb (*orientalism*) yw fod gan y rhai sydd y tu allan i'r grŵp gorthrymedig eu syniadau ystrydebol ynghylch yr 'arall', syniadau sy'n deillio o anwybodaeth. Mae cerdd Iwan yn mynd rhagddi i chwalu'r syniad fod gan bob Cymro wybodaeth drylwyr o waith Dylan Thomas, fod y dynion i gyd yn aelodau o gorau meibion, a bod pawb yn chwaraewyr rygbi neu'n gweithio yn y pyllau glo.

“Meet me at the St Francis” yw'r olaf o gerddi America yn *Dan Ddylanwad*; cyfeiriad yw teitl y gerdd at ymadrodd a glywir yn aml yn San Francisco. Mae'n debyg fod gwesty'r St Francis yn Union Square, neu ger cloc y gwesty a bod yn fanwl, yn fan cyfarfod poblogaidd, mor boblogaidd nes bod awgrymu cyfarfod yno yn ddihareb enwog ynddi'i hun erbyn hyn. Mae'n ddigon posib nad yw'r cysylltiad hwnnw o dragwyddol bwys yng nghyd-destun y gerdd, ond wrth i Iwan droi am adre, mae rhyw addewid yn y geiriau y daw yn ei ôl ryw

---

<sup>726</sup> [http://blog.bestamericanpoetry.com/the\\_best\\_american\\_poetry/2010/04/diane-burnss-sure-you-can-ask-me-a-personal-question-terence-winch.html](http://blog.bestamericanpoetry.com/the_best_american_poetry/2010/04/diane-burnss-sure-you-can-ask-me-a-personal-question-terence-winch.html) (Cyrchwyd: 1/03/16).

<sup>727</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 48.

ddydd i gadw'r oed. Edrycha'n ôl dros ei brofiadau amrywiol o Ogledd America gan lunio darlun tebyg i gerdyn post yn crynhoi ei daith. Mae'n cofio am ymfudwyr Ellis Island, yr enwau Cymraeg ar lefydd yn Philadelphia, yr Harley Davidsons, Route 66, y gŵr yn dawnsio yn Memphis, New Orleans, y llwythau brodorol a'r cowbois – pob llun yn wahanol ond pob un yn cynrychioli rhan o'r freuddwyd Americanaidd. Ac yntau wedi cychwyn ar ei siwrne adre, fe sylwa wrth edrych yn ôl mai'r un yw'r freuddwyd yn ei hanfod, er mor wahanol yw pob dehongliad ohoni. Chwilio am ryddid terfynol, am fan gwyn man draw, ac am gyfle y mae pawb yn y diwedd. Yn rhagnodyn i'r gerdd mae'r geiriau a geir ar ddrych car sy'n nodi fod y gwrthrychau yn y drych yn dwyllodrus o agos, ac felly y gwêl Iwan y freuddwyd Americanaidd:

Yn y drych maen nhw'n nes  
nag y mae rhywun yn ei feddwl,  
y breuddwydion a barodd i ni heidio  
drwy dwll nodwydd y Porth Aur.<sup>728</sup>

Mae'n bosib mai adlais o'r Ysgrythur sydd yn y ddelwedd o'r twll nodwydd. Fe'i ceir yn Mathew 19:24 pan ddywed Iesu wrth ei ddisgyblion ei bod yn 'haws i gamel fynd trwy grau nodwydd nag i rywun cyfoethog fynd i mewn i deyrnas Dduw'. Efallai mai cyfleu syniad o gyrraedd yr ochr arall y mae Iwan, hynny yw, bod y delfrydau a'r breuddwydion Americanaidd yn arwain pob un at ei nefoedd neu ei iwfforia ei hun yn y pen draw.

Cael ei ysbrydoli gan lwyth brodorol arall a wnaeth Iwan yng Nghanada, sef llwyth y Cree, un o'r grwpiau mwyaf o Americanwyr brodorol, a llwyth sydd, fel llwythau'r Unol Daleithiau, wedi dioddef ymyrraeth a threfedigaethu'r dyn gwyn. Mae'r cerddi a gynhwyswyd yn yr adran 'Cerddi Canada' yn *Dan Ddylanwad* yn gynnwys taith yno ym Mai 1995 gyda Twm Morys, John Barnie, Robert Minhinnick, Hilary Llewellyn-Williams a David Lloyd ar gyfer Gŵyl Lenyddiaeth Saskatchewan. Darlunio'r newid a ddaeth i diroedd a gwerysilloedd y Cree gyda dyfodiad y lonydd hirfaith a diwydiant y gwladychwyr Ewropeaidd a wna'r englynion cyntaf yng nghyfres Cerddi Canada:

---

<sup>728</sup> Ibid., t. 56.

Lle bu'r Cree yn chwyrlio – a'u chwedlau  
yn warchodlu'n dawnsio,  
mae'r paith maith yn ymwithio  
llwybrau'i draffig unig o.<sup>729</sup>

Llun o le anial, gwastad ac iddo lonydd unionsyth a gawn yn nifer o'r cerddi hyn, ac felly yng nghanol 'mudandod llwm y paith',<sup>730</sup> mae'r ysgeintiadau o liw a geir yma ac acw yn y cyfarfyddiadau ac yn y trefi bychain yn cydio yn nychymyg Iwan. Atgyfnerthu ei argraff o undonedd y tir a wna ei ddisgrifiad o yrru ar hyd y paith rai misoedd wedi'r daith:

Does dim dwywaith bod yna fawredd diderfyn yn perthyn i'r paith yn Saskatchewan ac Alberta, Canada. I rywun a fagwyd mewn gwlad fechan lle mae'r gorwel cyn agosed â'r bryniau neu'r goedwig neu'r arfordir heibio'r gornel nesaf, roedd cychwyn mewn car i gyfeiriad Calgary yn y gorllewin, a dim am gannoedd o filltir [*sic*] ond priffordd syth fel ergyd gwn, ar draws erwau ar erwau o yd a cheirch a chnydau eraill o bob lliw, yn brofiad unwaith ac am byth. Ar ôl gyrru am rai oriau, roedd rhywun yn ysu am gael gweld y tyrau yd lliwgar a godai bob hyn a hyn yn arwydd o fodolaeth rhyw fath o gymuned yng nghanol yr anialwch ffrwythlon. Er mor drawiadol oedd yr awyr enfawr a ymestynnai o orwel diderfyn hyd orwel diderfyn, roedd rhywun yn chwilio am unrhyw amrywiaeth yn y tirlun a roddai gyd-destun i'r gwastadedd maith. Unrhyw bant neu hafn neu ddyffryn a dorrai ar yr undonedd.<sup>731</sup>

Un o'r llyfydd a dorrai ar ddiffeithwch y paith oedd Dundurn yn Saskatchewan, ac mae Iwan yn chwarae ar enw'r dref yn nheiti y gerdd 'Dwndwr'. Gwêl fod y 'lliwiâu'n llafar yma', hyd yn oed os lliw'r bws ysgol neu liw'r sguboriau sy'n deffro'r dref. Mae hen ffordd o fyw a chymuned glôs yn perthyn i'r lle; gellir gweld hynny yn syth gyda'r cyfeiriad at berchnogion bwty yno – 'bwty George a Nesta', ond rhagweld dirywiad i gymunedau tebyg sy'n britho'r paith a wna Iwan gyda datblygiad y lonydd:

... bydd yd y gwastadeddau  
cyn hir yn goddiweddyd y trenau trwm,  
yn reidio'r lorïau  
ar y draffordd i'r dinasoedd concridd,  
gan adael y paith unwaith eto

---

<sup>729</sup> 'Cree', *ibid.*, t. 58.

<sup>730</sup> 'Dwndwr', *ibid.*, t. 61.

<sup>731</sup> Iwan Llwyd, 'Croesi'r Paith', *Taliesin*, 90 (Haf 1995), t. 124.

i'r mudandod glas.<sup>732</sup>

Dyna'n union a ddigwyddodd yn nhref Drumheller, yn ôl Iwan: 'Dyma'r tir marw,' meddai, 'yr hollt yn y paith / lle nad oes awel / na gorwel chwaith'.<sup>733</sup>

Yn ystod y daith, cyfarfu Iwan â thair merch y canodd gerddi iddynt, y tair yn cynrychioli'r gwahanol gefndiroedd a geir yn Saskatchewan: Linda yn un o lwyth y Cree, Jeanne-Marie yn fardd o dras Ffrengig, a Monica yn 'un o'r Mètis' – yr enw a roddir ar bobl o dras gymysg, yn hanner Americanaes Indiaidd, hanner gwyn. Tafla Twm Morys oleuni ar ddwy o'r cerddi gan ymhelaethu rywfaint ar yr hanesion y tu ôl i'r delweddau. Ac yntau'n cyd-deithio ag Iwan, mae'r nodiadau a gadwodd o'i argraffiadau ar y ffordd gystal â dim er mwyn egluro cerddi Iwan a phrofi mai delweddau diriaethol sydd yn y cerddi hynny.<sup>734</sup> Mae'r gerdd 'Chwarae golff', er enghraifft, yn sôn am un o lwyth y Cree yn byw ar gyrion dinas Saskatoon 'rhwng y ddinas a'r gwastadedd', a dyna Twm Morys yn egluro mai enw'r fflat lle roedd hi, Linda, a'i gŵr yn byw oedd 'Golf Course View'. Noda mai ystyr enw brodorol Linda oedd 'Gweithred Arth yn Amddiffyn ei Chywion', ac fe ymddengys cyfeiriad at hynny yng ngerdd Iwan hefyd. Byrdwn y gerdd unwaith eto yw dangos y dirywiad yn niwylliant brodorol y Cree yn sgil 'gwareiddiad' y dyn gwyn, ac mae'r cwrs golff yn cynrychioli'r 'gwareiddiad' hwnnw. Yno, ar gyrion Saskatoon, 'lle daw'r paith i gwrdd â'r ddinas', mae Iwan yn cydymdeimlo â cholled Linda, a hithau yn dal i gydio yn y darnau lleiaf o'i diwylliant brodorol:

... buom yn gwrando lleisiau'r Cree  
yn llawn angladdau a drychiolaethau,  
a gwrando dy ddagrau dithau  
am dy genedl goll ...<sup>735</sup>

Mae Jeanne-Marie, ar y llaw arall, yn un o ddisgynyddion yr ymfudwyr Ewropeaidd, yn mwynhau llonyddwch y paith ac yn hawlio darn ohono i'w ffermio. Ymhelaetha Twm

---

<sup>732</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 61, 62.

<sup>733</sup> 'Drumheller', *ibid.*, t. 72.

<sup>734</sup> Twm Morys, 'Felly Iwan: rhai agweddau ar gyfeiriadaeth, delwedd a gair mwys ym marddoniaeth Iwan Llwyd', *Awen Iwan*, tt. 91-7.

<sup>735</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 63, 64.

Morys gan ddweud mai Hillview Farm oedd enw ffarm y bardd a'i gŵr, ac mae'n sôn am fynd yno ac yfed cwrw oer o amgylch y tân cyn mynd i orwedd o dan Oleuadau'r Gogledd ar y paith. Dyna lle y dywedodd Jeanne-Marie wrthynt ei bod yn arfer gorwedd yn noeth yn yr union fan, a dyna lle caiff Iwan ei brif ddelwedd i'w gerdd. Mae'n bosib mai awgrym o'i pherchnogaeth ar y tir sydd ynghlwm â'r ddelwedd, ond wrth i dractor ei gŵr aredig y tir hwnnw, ni all Iwan ond dychmygu y daw diwedd i'r byw bras ar gnwd a thawelwch y paith:

... ac yn y pellter  
mae tractor ei gŵr  
yn torri cwys araf –

yn troi'r tir cyn i'r haf  
ddiflasu ar undonedd y paith,  
diflasu ar acenion Ffrengig Jean Marie,

ei chorff lluniaidd, gwelw,  
a'i llond pen o ganhwyllau pêr,  
cyn i'r gwastadedd hawlio'r cyfan yn ôl ...<sup>736</sup>

Fel Jeanne-Marie, pryd golau sydd gan Monica er ei bod yn hanner Indiad, ac mae hi'n ymgorfforiad o'r ddau ddiwylliant cyfochrog â'i '[g]wreiddiau / ar dir y ffin rhwng dau fyd':

... byd tywyll y Cree  
a'u cread yn crebachu  
dan haul y dwyrain,

a byd y golau newydd,  
a'r acenion Ffrengig  
a dreiddiodd dros ymyl y paith ...<sup>737</sup>

Twm Morys oedd cydymaith Iwan hefyd ar ei daith i chwech o wledydd De America yn ystod Hydref a Thachwedd 1998 pan oeddent yn ffilmio'r gyfres 'Eldorado'. Cafodd y cerddi a gyfansoddwyd gan y ddau yn sgil y daith eu cyhoeddi yn y gyfrol *Eldorado*, ac yno y cawn ddilyn llwybrau'r 'daith fwya' rhyfeddol a fu dros bennau dau fardd o Gymro

---

<sup>736</sup> 'Jean-Marie', *ibid.*, t. 66. Er mai 'Jean-Marie' yw teitl cerdd Iwan, 'Jeanne' yw'r sillafiad cywir o enw'r bardd.

<sup>737</sup> 'Monica', *ibid.*, t. 68.



erioed'.<sup>738</sup> Ni nodir yn y gyfrol pwy a ysgrifennodd pa gerddi, ond fe ailgyhoeddwyd nifer o rai Iwan yn ei gyfrol ei hun, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, maes o law, ac fe geir hefyd yn *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* rai o gerddi'r daith na chyhoeddwyd mohonynt yn *Eldorado* ond a ddefnyddiwyd ar gyfer y gyfres deledu. Fel yn nifer o gerddi taith eraill Iwan i gyfandir enfawr America, gwelwn yma eto yn Ne America effaith amlwg y trefedigaethu Ewropeaidd ar y diwylliannau brodorol. Roedd nifer o'r llefydd yr ymwelodd y ddau fardd â nhw yn ystod y daith yn rhan o hen ymerodraeth yr Inca cyn concwest y Sbaenwyr yn yr unfed ganrif ar bymtheg; dyna pryd y disodlwyd crefydd yr Inca gan Gristnogaeth Gatholig ac mae hynny i'w weld yn y cefndir yn nifer o gerddi Iwan. Ceir ambell gyfeiriad yn ei gerddi at yr ieithoedd a'r chwedlau brodorol y clywsant amdanynt ar y daith, a chaiff gwleidyddiaeth eithafol rhai o'r gwledydd sylw mewn cerddi fel 'Olion Bysedd' ac 'Y Diflanedig'.<sup>739</sup>

Ac yntau ond hogyn ysgol ar y pryd, cafodd Iwan ei swyno gan gerddi 'O Ddyddlyfr Taith' T. H. Parry-Williams, y cerddi a ysgrifennodd y bardd yn ystod ei fordaith i Dde America. Roedd cyfrol gyntaf T. H. Parry-Williams, *Cerddi*, lle'r ymddengys y cerddi taith hyn, yn rhan o'r maes llafur Lefel A pan oedd Iwan yn fyfyrwr chweched dosbarth, a dyna sylweddoli "does dim rhaid i iaith neu ddiwylliant gyfyngu eich mynegiant na phynciau cerddi na straeon. Mae modd dehongli ac ymateb i'r byd crwn cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg".<sup>740</sup>

Teyrnged i Parry-Williams a geir yn 'Y Weddi', lle defnyddia Iwan bennill o'i waith ef fel cytgan yng nghanol ei benillion ei hun. Cyfleu'r un hiraeth ag a deimlodd Parry-Williams yn ei weddi yntau a wna Iwan yn y gerdd wrth sôn am y 'gwesty diarth, llygaid hardd, / llais y pellter yng nghalon bardd'. Un o gerddi Patagonia yw 'Y Weddi' ac mae hynny'n goleuo llinellau olaf cerdd Iwan:

... ond rhwng y nos a'r gawod sêr  
fe ddaeth yr iaith fel ffarmwr blêr.<sup>741</sup>

---

<sup>738</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado* (Llanrwst, 1999), t. 9.

<sup>739</sup> *Ibid.*, tt. 43-4, 78-80.

<sup>740</sup> Iwan Llwyd, 'Y Teithiwr Talog', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 35 (Medi/Hydref 2005), t. 5.

<sup>741</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado*, t. 89.

Wrth sôn am y gerdd hon, eglurodd Twm Morys rai o gyfeiriadau'r gerdd:

Llefydd yn y Wladfa ydi 'Llain Las' a 'Bryn Crwn'. Mae'n ffaith hefyd inni weld cawod sêr, ac i hen ffarmwr landio yn ein hymyl ni yn hwyr un noson, yn llwch drosto a heb eglurhad yn y byd, a siarad Cymraeg.<sup>742</sup>

Mae cysur i'w gael yn y pethau cyfarwydd, ac mae clywed y Gymraeg yn lleddfu ac yn dwysáu'r hiraeth ar yr un pryd, fel yn 'Mapio (II)' lle 'daw syndod clywed sŵn / yr iaith fel agor hen greithiau'.<sup>743</sup> Wrth deimlo'r felan yn ail bennill 'Y Weddi', fe sonnir am '[g]ur / y diflanedig', sy'n ein tywys at gerdd arall a ysgrifennodd Iwan wedi iddo ymweld â'r Ariannin, 'Y Diflanedig'.

Ar lawr sgwâr y Plaza de Mayo yn Buenos Aires, o gylch cofeb y Pirámide de Mayo, mae llinellau gwynion yn cynrychioli'r 30,000 o bobl a ddiflannodd dan law'r llywodraeth filwrol yn yr Ariannin rhwng 1976 a 1983. Mae'n debyg fod enwau rhai o'r bobl hyn ynghyd â dyddiad eu diflaniad wedi eu cofnodi ar y sgwâr pan fu Iwan yno ym mis Tachwedd 1998, a dychmygu hanes pump ohonynt a wna yn y gerdd, eu darlunio fel pobl yn hytrach nag fel enwau yn unig. Ond er bod gormes y llywodraeth unbenaethol wedi hen ddod i ben erbyn i Iwan ymweld â'r Ariannin, sylwodd fod y dyddiadau a oedd wrth ochr rhai o'r enwau yn ddychrynlyd o ddiweddar. Wrth ragymadroddi rhywfaint ynghylch eu profiad yn yr Ariannin, sonia Twm Morys am y cymeriadau lliwgar y daethant ar eu traws, ac un ohonynt yn 'wêtar mewn restront oedd yr un ffunud â Dylan Thomas'.<sup>744</sup> Roedd hynny wedi cydio yn nychymyg Iwan, ac mae'n cyfuno cymeriad y gweinydd hwnnw ag enw un o'r bobl ddiflanedig a gollwyd ychydig dros flwyddyn yn unig cyn ei ymweliad ef a Twm:

*Damien Esquivel (29.1.97)*  
Edrychai fel Dylan Thomas  
yn gweini mewn café,  
a phob bwydlen yn ddarlleniad,  
yn gyflwyniad llafar ...

---

<sup>742</sup> Iwan, *ar Daith*, t. 182.

<sup>743</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 160.

<sup>744</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado*, t. 77.

Mae gwybod bod y gŵr hwnnw a oedd yn gweini yn berson go iawn y sylwodd y ddau fardd arno yn ychwanegu at effaith y gerdd, rywsut, ac yn profi mai pobl o gig a gwaed, pobl ddiniwed oedd â swyddi a theuluoedd oedd y bobl a gafodd eu cipio neu eu llofruddio gan filwyr y llywodraeth. Cafodd sgwâr y Plaza de Mayo ei fomio yn 1955 gan awyrlu'r Ariannin gan ladd nifer o gefnogwyr yr Arlywydd ar y pryd, Juan Perón, ac mae Iwan yn cofio am hynny hefyd ar ddiwedd ei gerdd. Yr awgrym ganddo yw fod y diflaniadau dros dri degawd y 1970au, yr 1980au a'r 1990au yn gyfwerth â marwolaeth:

Enwau mewn paent  
yn cylchu cofeb  
yw'r cyfan sy'n aros:  
a lle bu llinellau bywyd  
yn gweu patrymau amryliw  
ar strydoedd y ddinas,  
mae amlinell wen a dyddiad  
ar bafin y Plaza de Mayo  
mor derfynol â'r cysgod sy'n weddill  
ar ôl y bom.<sup>745</sup>

Roedd gwleidyddiaeth asgell dde eithafol yn llechu dan yr wyneb yn nifer o wledydd De America, yn ôl Iwan, yn arbennig felly ym Molifia, lle roedd Hugo Banzer, y cyn-gadfridog, yn Arlywydd ar y pryd:

Ym mhob un o'r gwledydd yr aethom trwyddyn nhw, 'doedd Hugo ddim yn bell o dan yr wyneb. Er bod pob un o'r gwledydd hyn, o Ecwador draw i'r Ariannin, bellach yn arddel democratiaeth, mae'n amlwg bod gan yr heddlu a'r lluoedd arfog ddylanwad mawr o hyd.<sup>746</sup>

Mae hynny i'w weld yn 'Awyr denau', sy'n sôn am orymdaith y daeth Iwan ar ei thraws yn La Paz, Bolifia, lle roedd milwyr a chadfridogion yn dilyn delw o'r Santes Fatima tuag at yr eglwys gadeiriol. Cyfeirio mae teitl y gerdd at uchder dinas La Paz, sydd bron i ddeuddeg mil o droedfeddi uwch lefel y môr, ac yno mae'n darlunio pererin 'penysgafn' yn gwyllo

---

<sup>745</sup> Ibid., tt. 79, 80.

<sup>746</sup> Iwan Llwyd, 'Y dynion gwellt', *Barn*, 431-2 (Ionawr 1999), t. 13.

gorymdaith 'Fatima, / a'i gosgordd o ynnau'.<sup>747</sup> Yr un pryd â'r orymdaith rwysgfawr honno, roedd gorymdaith arall yn digwydd yn La Paz, 'gorymdaith liwgar, dorfol gan y *campesinos*, dan lygaid bygythiol heddlu a milwyr arfog a oedd yn cadw'r orymdaith at rai strydoedd yn unig' rhag i unrhyw helynt godi rhwng y brodorion a'r lluoedd arfog.<sup>748</sup> Er nad cerdd uniongyrchol am drefedigaethu'r brodorion a gwladychu Bolifia yw hon, mae hi'n dangos sgil-effeithiau'r goncwest. Y grefydd Babyddol sy'n cael ei harddel gan mwyaf yno fel y prawf gorymdaith y milwyr, ac mae'r gyfeiriadaeth ysgrythurol drwy'r gerdd yn ategu'r ensyniad mai crefydd wedi ei gorfodi ar y wlad yw Cristnogaeth, a Christnogaeth wedi ei herwgipio gan wladwriaeth ormesol. Dyna'r pererin yn 'gwadu sancteiddrwydd y stryd' wedi tri chaniad, fel y gwadodd Simon Pedr Iesu dair gwaith cyn i'r ceiliog ganu (gweler Mathew 26:34), ac yna mae'n dilyn sŵn yr orymdaith sydd 'fel band pres yn croesi'r lorddonen'.<sup>749</sup> Gwelir wedyn ddelwedd debyg i'r hyn a geir yn Genesis gyda'r sôn am ddilyw ac am arch, a gall y 'lle uchel' hefyd fod â chysylltiadau Cristnogol.<sup>750</sup> Fel yr achubwyd yr anifeiliaid ar arch Noa, awgrymir mai pobl o statws yw'r rhai cadwedig, breintiedig sy'n cael lle yn yr arch hon:

... ac o'r arch,  
fesul dau, fesul pedwar, fesul chwech,  
daw milwyr a chadfridogion,

offeiriaid ac arlywyddion,  
i gyd wedi eu harbed rhag y dilyw  
sy'n golchi'n ffyrnig  
ar lethrau'r lle uchel hwn ...<sup>751</sup>

Sychder eithriadol oedd y broblem yn nhiroedd uchel Bolifia ar y pryd, yn hytrach na dilyw, fodd bynnag:

---

<sup>747</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 130.

<sup>748</sup> Iwan Llwyd, 'Y dynion gwellt', t. 13.

<sup>749</sup> Ceir nifer o gyfeiriadau at afon yr lorddonen yn y Beibl, ond gellir cysylltu 'croesi'r lorddonen' un ai â hanes pobl Israel yn croesi'r lorddonen i Wlad yr Addewid yn yr Hen Destament (Josua 3) neu â'r defnydd a wneir o'r ymadrodd gan emynwyr fel trosiad am y daith o'r byd hwn i'r byd a ddaw. Gweler, er enghraifft, emyn Pantycelyn 'O am nerth i dreulio 'nyddiau'.

<sup>750</sup> Gall y 'lle uchel' fod yn gyfeiriad at y nefoedd, fel a geir yn Esei 57:15: 'Er fy mod yn trigo mewn uchelder sanctaidd...'. Rhyw arwyddocâd tebyg, mae'n debyg, sydd i'r ymadrodd yng nghân Bob Delyn a'r Ebillion, 'Y Sŵn'.

<sup>751</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 130.

Tra roeddem yn La Paz, Bolifia, roedd cryn anniddigrwydd ymhlith y llwythau brodorol. Maen nhw, fel y rhan fwyaf o drigolion gwledig y byd, yn cael eu gwasgu gan rymoedd y farchnad. Roedd eu prif gnwd, coca, yn cael ei effeithio gan y frwydr fyd-eang yn erbyn cyffuriau, ac roedd gwerth eu tiroedd yn disgyn yn gyson. Ar ben hyn i gyd, roedd El Nino wedi achosi sychder mawr ar yr *altiplano*, paith uchel Bolifia, ac roedd y llywodraeth yn ara' deg iawn yn gyrru cymorth.<sup>752</sup>

Cyfeiriadau cynnil at Gristnogaeth sydd hefyd yn 'Y Llyn a'r Brwyn' er mwyn awgrymu'r gwladychu a fu ar ymerodraeth yr Inca. Wrth sôn am gyfnod 'cyn i'r llanw droi / y dŵr yn win chwerw', darlunio cyfnod cyn gwladychu tiroedd America a wneir, cyfnod cyn i'r Pabyddion gyrraedd glannau America gyda'u straeon am Iesu'n troi dŵr yn win. Aros ar gyrion Bolifia a wnawn yma a sôn am hanes geni yr Inca cyntaf a wneir yn y gerdd, a hynny ar Ynys yr Haul yng nghanol llyn Titicaca sy'n llawn brwyn:

... a thrwy groen difrycheuyn y wawr  
torrai cri gyntaf  
y baban yn y brwyn.<sup>753</sup>

Ni ellir gwadu'r tebygrwydd eironig yma i hanes baban arall a gafodd ei osod yng nghanol y brwyn yn ôl y traddodiad Cristnogol. Yng ngeiriau Exodus 2:3, gosodwyd Moses gan ei fam yn y 'gawell wedi ei wneud o lafrwyn a'i ddwbio â chlai a phyg; rhoddodd y plentyn ynddo a'i osod ymysg yr hesg ar lan y Neil'. Hyd yn oed wrth sôn am un o hanesion creiddiol a chynhenid yr Inca, ni ellir ei glywed heb feddwl am y gyfatebiaeth Gristnogol, bellach.

Mae'n amlwg nad yw'r chwedlau a'r hanesion a berthynai i'r cyfnod cyn dyfodiad Columbus i'r cyfandir wedi mynd yn angof gyda'r canrifoedd. Yn wir, tueddu i ymwithio fwyfwy o dan yr wyneb mae lleisiau'r brodorion yn aml iawn, yn ôl argraff Iwan. Gwelwn eto yn 'Aur Periw' orymdaith gan y brodorion yn cystadlu yn erbyn gorymdaith swyddogol 'dan warchae gynnau'r heddlu', ac ystyfnigrwydd yr Americanwyr cynhenid yn herio trefn y concwerwyr, trefn sy'n dechrau dadfeilio. Cyfansoddodd Twm Morys gân yn sgil eu hymweliad â Pheriw, 'Mae'n Well ar y Chwith';<sup>754</sup> sôn am ba ochr o'r trê'n y cynghorwyd

---

<sup>752</sup> Iwan Llwyd, 'Y dynion gwellt', t. 13.

<sup>753</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado*, t. 41.

<sup>754</sup> *Ibid.*, tt. 36-7.

Iwan ac yntau i eistedd arni y mae, ond mae arwyddocâd dyfnach na hynny iddi. Cefnogi Plaid Gomiwnyddol Periw, a adwaenir fel Y Llwybr Disglair, y mae'r brodorion sy'n gorymdeithio gyda'u lliwiau a'u masgiau, â'u golwg ar lawer mwy nag aur:

... o dan y masg  
mae'r wynebau brodorol  
yn syllu'n ôl yn herfeiddiol,  
a llwybr disglair yn arwain  
drwy dywyllwch y 'pueblos jóvenes'  
tua gwlad sy'n werthfawrocach  
nag aur Periw.<sup>755</sup>

Yn 'Olion Bysedd', mae'r ddau ddiwylliant eto yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn mhentref Chucuíto, Periw. Dyma 'lle mae cloc haul yr Inca / yn trio'i ora' / i gadw'r oria' / yn fwy cywir na chloch yr eglwys', a 'lle mae tyrau'r eglwysi / yn trio'u gora' / i fwrw'u cysgod / ar demlau'r Inca'. Ac wrth gwrs, mae'r heddlu arfog unwaith eto'n bresennol, a hithau'n ddiwrnod etholiad yno a 'democratiaeth yn orfodol'.<sup>756</sup> Ychydig yn wahanol oedd y sefyllfa ym Mharagwái, lle daliodd y llwyth brodorol eu tir yn erbyn concwest y Sbaenwyr a lle mae'r iaith frodorol, Guarani, yn un o ieithoedd swyddogol y wlad. Er bod Paragwái wedi dioddef colledion enbyd mewn rhyfeloedd a bod hawliau dynol yn rhemp yno yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, mae'r diwylliant a'r iaith frodorol yn bethau i gydio'n dynn ynddynt. Cymhara Iwan yr iaith Guarani â'r blancedi lliwgar a oedd yn cael eu gwau gan wragedd yn sgwâr y Plaza de los Héroes. Dywed yn ei gyfres o englynion milwr 'Blancedi (Gwaranî)' mai 'cysgodion briw' ydi'r lliwiau yn y blancedi mewn gwirionedd a bod 'pob edefyn â'i luniau', ond ynddynt hefyd mae'r 'paith trwy dro y pwythau' a 'gwead traddodiadol / yr hen iaith yn bwrw'n ôl'.<sup>757</sup> Mae'n ddarlun tebyg iawn i un Gerallt Lloyd Owen o'r hen wraig yn gwau yn ei englynion 'Llwydwyll Gwareiddiad Llydaw':

Aeth cur i'r plethau cywrain, hir waedu  
Aeth i'r brodwaith mirain,  
A'r llaw a bwythai'r lliain

<sup>755</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 120.

<sup>756</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado*, t. 43.

<sup>757</sup> *Ibid.*, t. 61.

Sylwodd Iwan fod modd 'ffeindio Eldorado mewn sawl lle',<sup>759</sup> ac fe ddaeth o hyd i gyfran o'r aur ar y ffin rhwng Paragwái, Brasil a'r Ariannin, lle mae rhaeadr Iguazu yn puro'r byd. Yn 'Y Dŵr Mawr', sydd eto'n gerdd â nifer o gyfeiriadau ysgrythurol ynddi, cyfleu'r syniad o fynd yn ôl at y pethau cynhenid a wna Iwan. Cawn ein hatgoffa o'n meidroldeb ac o ba mor ddibwys yw materoliaeth a phenderfyniadau gwleidyddol o'u cymharu â grym natur, sy'n llawer hŷn ac yn llawer mwy nag unrhyw beth a gafodd ei greu gan feidrolion erioed. 'Yn y dechreuad yr oedd y dŵr,' meddai, gan chwarae ag adnod agoriadol efengyl loan, ac mae mawredd a natur arhosol y rhaeadr yn amlygu mor fach yw gweithredoedd pobl:

... rhedwch  
o'ch penderfyniadau digywilydd  
am fomio'r gwledydd,  
disodli'r arlywydd hwn,  
y cadfridog acw,  
rhedwch  
rhag eich polisiau  
a gwacter eich gweddïau,  
tyrrwch  
yn gardinaliaid  
a darlledwyr dienaidd,  
cythrwch fel moch Gadara  
ac fe welwch lle mae'r enfys yn disgyn  
a'r aur yn ymffurfio  
o'r dŵr a'r goleuni ...<sup>760</sup>

Daw'r cyfeiriad at foch Gadara o Marc 5, lle mae'r ysbrydion aflan a oedd yn meddiannu dyn yno yn mynd i mewn i'r moch, a'r moch wedyn yn rhuthro am y môr ac yn boddi. Mae teitl y gerdd yn gyfeiriad at enw'r rhaeadr: ystyr Iguazu yn yr iaith Guarani yw *dŵr mawr*, ond gallai'r teitl hefyd fod yn gyfeiriad Beiblaidd arall, y tro hwn at Eseia 17:13, lle mae'r 'bobloedd yn rhuo fel rhuad dyfroedd mawrion' cyn cael eu ceryddu gan Dduw nes eu bod 'fel plu ysgall o flaen corwynt'. Rhywbeth tebyg sydd yn y gerdd wrth i'r bobl adael eu holl

---

<sup>758</sup> Gerallt Lloyd Owen, *Cilmeri a cherddi eraill* (Caernarfon, 1991), t. 58.

<sup>759</sup> 'Chwilio am Eldorado', *Golwg* (26 Awst 1999), t. 18.

<sup>760</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado*, tt. 64-5.

bwerau a'u holl wrthrychau materol er mwyn cael eu hatgoffa o'u lle a chael eu golchi'n bur gan ryfeddod y rhaeadr. Caiff yr un syniad ei ailadrodd yn 'Ffynhonnau', un o gerddi'r daith ar draws Cymru:

... mentrwn ar fore segur  
i ganol y lli,  
ymdrochwn yn y dŵr bywiol

a bwrw llwch y daith,  
oglau'r petrol a'r sigaréts  
i ddyfnder y ffynnon ...<sup>761</sup>

Unwaith i'r bobl ildio i ryfeddod natur yn 'Y Dŵr Mawr', maent fel petaent yn cael eu hadfywio ym mhair dadeni'r rhaeadr:

... bu yma o'r cychwyn,  
yn bair yn berwi:

sefwch yn ei ganol  
a chamu yn fud a dianaf  
yn ôl i'r goleuni ...

Caiff y bobl hynny eu cymharu â'r meirw a gafodd eu taflu i'r pair dadeni yn ail gainc y Mabinogi, ac a ddaeth allan ohono yn fyw ond yn fud. Mae'r gerdd yn cloi â chyfeiriad at Salm 42:1, sy'n awgrymu bod profi mawredd y rhaeadr yn diwallu syched meidrolion:

... rhedwch  
a chriwch;  
fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd.<sup>762</sup>

Mae'n debyg mai rhan o fwriad yr holl gyfeiriadau Beiblaidd yng ngherddi Iwan yw ein hatgoffa mai gwledydd wedi eu trefedigaethu gan yr Ewropeaid yw gwledydd De America, gwledydd a gafodd eu cymathu i dderbyn crefydd Babyddol y concwerwyr. Un o arwyddion amlycaf y cymathiad hwn, ac o lwyddiant hirdymor y goncwest, yw'r ddelw o

---

<sup>761</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 96.

<sup>762</sup> Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado*, t. 65.



Grist a saif yn Rio de Janeiro. Dyma un rhyfeddod na welodd T. H. Parry-Williams mohono ar ei daith yn 1925 gan mai yn 1931 y cwblhawyd y cerflun. Sylwi ar y twristiaid ar draeth Copacabana ac ar y modd y mae'r elfennau brodorol i gyd wedi eu colli yn Rio a wna Iwan yn y gerdd 'Crist Copacabana'. O'r merched sy'n torheulo'n hanner noeth i arogl 'mwig y mariwana, / yn felys a chyfalafol', o'r lluniau twristaidd i'r ddelw o Grist ei hun, 'does dim sy'n gynhenid yno, bellach:

... mae O mor gyntefig  
â chroes a hoelion,  
a bargaen y genod  
rhwng y gemau a'r gwymon.<sup>763</sup>

Ymwelodd Iwan â Brasil eto yn 2007 wedi iddo deithio i Efrog Newydd, a chyfansoddodd rigwm i ddinas enfawr São Paulo, a'i anfon ar gerdyn post at Twm Morys cyn ei gyhoeddi drachefn yn y cylchgrawn *Taliesin*:

Sŵn y glaw am bump o bore,  
sŵn y sêr ar ddiwedd siwrne,  
sŵn cyfarfod a chyfathrach,  
sŵn y rhai sy'm yma bellach,  
sŵn y galar yn y galon,  
sŵn y trêr a sŵn hen ddynion,  
sŵn y tafod aur yn toddi,  
sŵn y taw ar ddiwedd stori,  
sŵn y Beatles, sŵn barddoniaeth,  
sŵn caneuon a chwedloniaeth:  
dyma'r sŵn sy'n gyrru rhywun  
gam yn nes tuag at y dibyn.<sup>764</sup>

Yn symlrwydd y geiriau y mae Iwan yn llwyddo i ddal rhyw swyn, ac yn hynny o beth gellid cymharu'r delyneg ag 'Y Ferch ar y Cei yn Rio' T. H. Parry-Williams. Disgrifiodd R. Gerallt Jones gerdd Parry-Williams fel cân, cyn ei disgrifio fel 'mynegiant uniongyrchol o

---

<sup>763</sup> Ibid., t.71.

<sup>764</sup> Dyma'r fersiwn a geir ar y cerdyn post yn *Iwan, ar Daith*, t. 71. Ceir mân amrywiadau yn y fersiwn brintiedig yn 'Dwy Ddinas', t. 50.

gyflwr emosiynol'.<sup>765</sup> Gellir cymhwysu'r union ddisgrifiad hwnnw i gerdd Iwan, ac yn wir fe addasodd Twm Morys hi'n gân wrth osod alaw swynol o syml i'r geiriau; bellach mae 'Sŵn y Cerdyn Post' yn gân a glywir yn aml mewn nosweithiau yng nghwmni Bob Delyn a'r Ebillion. Mae'n werth dyfynnu rhagor o eiriau R. Gerallt Jones yma, gan mor briodol yw ei sylwadau yng nghyd-destun cerdd Iwan:

Nid yw hon yn gerdd a dalai i'w dadansoddi'n rhy fanwl. Y mae ynnddi rin barddoniaeth ac, fel llinellau Keats i'r 'Charmed, magic casements, opening on the foam of perilous seas, in faery lands forlorn,' neu linellau Wordsworth am 'old, unhappy, far-off things / And battles long ago ...', y mae'r cyfuniad o'r dweud syml a'r miwsig cynnil a chymhleth yn cyfleu rhyw bethau wrthym sydd y tu hwnt i'r geiriau eu hunain.<sup>766</sup>

Wrth barhau â'i daith drwy Dde America, sylwodd Iwan mai rhywbeth a ddaw yn sgil concwerwyr, fel arfer, yw mapiau. Sylwodd hefyd nad oes ar frodorion eu hangen:

Yn ystod ein taith ar draws cyfandir de America y llynedd, droeon 'roeddem yn synnu cyn lleied o fapiau cywir a oedd ar gael, ond eto, ar ganol y paith mwyaf anial fe fyddai yna bobl yn sefyll, yn cerdded, yn rhedeg. 'Roedden nhw'n amlwg yn gwybod lle'r oedden nhw ac i ble'r oedden nhw'n mynd.<sup>767</sup>

Gwelwn un o'r brodorion hynny yn 'Mapio (I)' yn gwyllo'r bobl ddiarth yn eu cerbydau yn dilyn eu mapiau manwl o Quito, Ecwador, tra oedd yntau'n 'dilyn ei reddf / a llwybrau'r arwyddion llafar', yn debyg iawn i *songlines* yr Aboriginaliaid.<sup>768</sup> Gwelir yr un ddibyniaeth ar fapiau gan yr ymwelwyr a'r dieithriaid yn Ecwador yn 'Mwg', pan gaiff un ffordd ei chau gan yr heddlu arfog. Mae hynny'n drysu'r daith yn llwyr i'r bobl ddieithr, ond i'r brodorion, sydd â'r tir yn rhan o'u cyfansoddiad, nid yw'n effeithio dim ar eu siwrne:

... does arnyn nhw ddim angen lôn,  
maen nhw'n gwybod y ffordd adre,  
er na fedran nhw mo'i disgrifio i neb arall;  
fe wyddan nhw'r ffordd adre:

---

<sup>765</sup> R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams* (Caerdydd, 1999), t. 134.

<sup>766</sup> *Ibid.*, tt. 134-5.

<sup>767</sup> Iwan Llwyd, 'Bryniau a Phantiau', *Barddas*, 253 (Gorffennaf/Awst 1999), t. 11.

<sup>768</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 113.

does dim cerrig milltir ar y paith,  
nac arwyddbyst drwy'r mynyddoedd,  
dim ond y llwybrau  
a wewyd gan y canrifoedd  
yn frodwaith cyfarwydd;  
a wasgwyd yn ddyfn  
yn datŵs ar groen yr hen ddaear  
gan draed y llwythau ...<sup>769</sup>

Yr un yw hanes yr Archentwyr ym Mhatagonia yn 'Mapio (II)'. Maent yn medru marchogaeth eu ceffylau gan ddilyn 'cwmpawd y sêr', yn wahanol i'r ymwelwyr yn eu ceir 'heb neb i'n harwain, / heb ddeall yr arwyddion'. Mae teithiau'r brodorion yn creu eu llwybrau eu hunain yma hefyd: 'maen nhw'n gadael / acenion llwybrau newydd yn y llwch llwyd', yn canu'r llwybrau i fodolaeth, fel y gwnaeth yr Aboriginaliaid yn ôl eu chwedloniaeth.<sup>770</sup> Nid i'r Americanwyr brodorol yn unig y perthyn yr adnabyddiaeth gynhenid o'u tirwedd eu hunain: roedd y Cymry'n meddu ar yr un crebwyll yn nyddiau Owain Glyndŵr, fel y gwelwn gan Iwan yn 'Dwy Daith'. Yno mae'r 'swyddog o Sais', y dieithryn, yn cadw at lwybrau diogel yr arfordir, a'r porthmyn a'r beirdd yn mentro llwybrau cyfarwydd y berfeddwlad.<sup>771</sup>

Y syniad y tu ôl i'r daith i Dde America oedd dod o hyd i Eldorado, ac yn y gân 'Eldorado' a gyfansoddwyd gan Iwan ac Elwyn Williams ar gyfer y ddeuawd Iona ac Andy, gwelwn eto'r teithio ar hyd lonydd anghyfarwydd:

... fe aeth yr arwydd diwetha' heibio  
rhyw ddau gan milltir yn ôl,  
mae'n rhy hwyr i newid cyfeiriad,  
yn rhy hwyr meddwl troi'n ôl;  
ddo'i fyth y ffordd yma eto,  
'rioed 'di dod ffordd hyn o'r blaen,  
ac fe wn i hynny heno,  
fe â'r gorwel a'r llinell wen yn eu blaen ...

---

<sup>769</sup> Ibid., t. 116.

<sup>770</sup> Ibid., tt. 159-60.

<sup>771</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (Llandysul, 2008), t. 12. Cyfeirir at y gerdd hon ym mhenodau 2 a 5.

Ac ar y lôn y daw'r sylweddoliad, tebyg i'r sylweddoliad yn y gerdd 'Route 66', mai'r daith yw'r peth gwerthfawr, ac mai dyna Eldorado yn y pen draw:

... ac mae'n gwawrio arna'i o'r diwedd, boi,  
yng ngoleuadau'r strydoedd oll  
mai'r lôn ei hun ydi'r freuddwyd,  
y lôn ydi'r ddinas goll ...<sup>772</sup>

Teithiodd Iwan i Dde America eto yn 2004, ac yn ôl Karen Owen roedd wedi casglu cerddi'r daith honno ynghyd gyda'r bwriad o'u cyhoeddi mewn cyfrol o'r enw *Dyddiau'r Cicada*.<sup>773</sup> Mae'n debyg mai sonedau a gyfansoddwyd yn sgil y daith honno yw 'La Boca', 'Y Dafarn Las' a 'Buenos Aires', a gyhoeddwyd yn *Sonedau Pnawn Sul*.<sup>774</sup> Pan ymwelodd â Buenos Aires yn 1998, llaw drom y llywodraeth a aeth â'i sylw, ac mae olion hynny yn dal i'w gweld yno ar ei ail ymweliad ac 'ôl ambell fom ac ambell fwled / yn mesur lle bu'r fyddin fesul llath'. Ond y tlodi yno sy'n ei daro fwyaf yn 'Buenos Aires' yn 2004:

... mae plismyn arfog yn gwarchod drws y banc,  
mae plant â chysgod tlodi ar eu gwedd –  
heddiw nid grym y gwn sy' yn rheoli,  
ond gormes didrugaredd ein doleri.<sup>775</sup>

Roedd yr holl deithiau dros fôr yr Iwerydd yn sicr yn sbarduno cerddi, a dywedodd Iwan unwaith mai 'chwilio dylanwadau i'r gorllewin yn hytrach nag i'r dwyrain o hyd' y byddai'n ei wneud wrth ysgrifennu.<sup>776</sup> Cadwodd yn driw, felly, i'r syniad a gyflwynodd ar y cyd â Wiliam Owen Roberts ar dudalennau'r *Faner* yn 1984 pan holodd y ddau: 'Onid yw'n bryd i'r Cymry fwrw'u golygon y tu hwnt i "draddodiad miloedd blynyddoedd" Ewrop am gymheiriaid llenyddol?'.<sup>777</sup> Wedi i Iwan hel yr holl ddylanwadau gorllewinol hynny i sach, cariodd nhw gydag ef ar ei gefn yn ôl i Gymru a dechrau crwydro ei wlad ei hun fel teithiwr o'r tu allan:

<sup>772</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, tt. 121-2.

<sup>773</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn* (Cyhoeddwyd gan Karen Owen, 2014), t. 8.

<sup>774</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst, 2009), tt. 21, 23, 27.

<sup>775</sup> *Ibid.*, t. 27.

<sup>776</sup> Iwan Llwyd, 'Beirdd y Ganrif', *Taliesin*, 103 (Hydref 1998), t. 108.

<sup>777</sup> Iwan Llwyd a Wiliam Owen Roberts, 'Mae'n bwrw yn Toremolinos', *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), t. 7.

Ar ôl mwynhau, ac elwa yn greadigol ar y profiad o deithio America dyma feddwl, beth am ddod adre, fel dyn diarth, i Gymru 1995. Pa ryfeddodau fyddai yn fy nisgwyl, pa ddelweddau a ddeuai'n amlwg.<sup>778</sup>

Dyna oedd y syniad y tu ôl i'r gyfres deledu *Dan Draed* a ddarllledwyd ddiwedd Medi 1996. Soniodd Iwan mai cyrraedd Cymru o Iwerddon oedd y bwriad cyn teithio o'r gogledd i'r de, ac mae'r cerddi a gyfansoddodd ar gyfer y tair rhaglen i gyd wedi eu cyhoeddi yn y gyfrol *Dan Ddylanwad* dan y pennawd 'Cerddi Cymru'. Rhennir y cerddi hyn ymhellach a'u gosod dan liwiau Cymru, yn goch, gwyn neu wyrdd. Mae'n debyg y cynrychiola'r lliwiau Gymru, cyd-ddyn a Christ, a gellir dosbarthu'r cerddi'n fras yn ôl y themâu hynny. Cân Iwan am 'ddelweddau gweledol o'r Gymru gyfoes – melinoedd (hen a newydd) yng ngorllewin Môn, yr A55, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Rhyl, hen fynachlogydd, Tryweryn, cefn gwlad Ceredigion, Port Talbot, yr M4, Caerdydd, Pont Hafren'.<sup>779</sup> Ond ymysg y cerddi hyn sy'n darlunio man a lle penodol, mae cerddi eraill sy'n parhau i ddarlunio'r daith, cerddi fel 'Y golomen (1)', 'Cyrraedd glan', 'Aderyn diarth', 'Best of a bad bunch' ac 'Y golomen (2)'.<sup>780</sup> Yn y cerddi hynny y mae Iwan yn rhagori.

Troi ei olygon yn ôl tuag America a wna Iwan yn y gerdd gyntaf o'r cerddi i Gymru, ac er na nodir hynny yn y gyfrol, yr esboniad byr a roddir yn y rhaglen deledu yw mai cerdd wedi ei chyfansoddi wrth nodi 500 mlynedd ers i Christopher Columbus ddarganfod America yw 'Y Golomen (1)'. Defnyddir y golomen gan y concwerwyr yn yr un modd ag y defnyddiodd Noa hi yn yr Hen Destament i chwilio am arwydd o dir sych. Y brodorion Americanaidd sy'n llefaru yn y gerdd, yn gweld y golomen yn hedfan tuag atynt o'r dwyrain 'ac ôl y siwrne'n hallt ar ei phlu'. Rhoddant ddeilen yn ei phig a chaiff ddychwelyd at y concwerwyr 'yn gennad fod y lan / o fewn tafliad anadl'. Nid y gyfatebiaeth ysgrythurol yw'r unig sail dros ddefnyddio'r golomen yn y gerdd; yn ôl teithlyfr Columbus, mae'n debyg mai un o'r arwyddion cyntaf ei fod o fewn cyrraedd i dir America oedd iddo weld haid o adar yn hedfan dros y môr. Mae'n debyg hefyd fod y croeso a gafodd gan y brodorion yn un cyfeillgar: 'dos i baratoi'r byrddau / a hwylio gwledd i genedl a ddaw / i ganlyn y golomen,' meddai'r

---

<sup>778</sup> Iwan Llwyd, 'Dan Draed', t. 67.

<sup>779</sup> Ibid.

<sup>780</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 77-8, 80, 112-13, 123-4, 126.

brodorion, heb ddeall y byddai'r ymwelydd, 'y brawd afradlon', yn cymryd mantais o'u croeso maes o law.<sup>781</sup>

Wrth droi at America unwaith eto cyn dechrau troedio tir Cymru, mae Iwan yn gosod cyd-destun i'r cerddi sydd i ddilyn: cerddi gan rywun sy'n darganfod y tir dan ei draed o newydd ydynt, yn hytrach na cherddi sy'n ailgylchu'r un hen syniadau o'r hyn yw Cymru. Yn ogystal â bod yn gerdd am ddarganfod America, mae 'Y golomen (1)' yn gerdd am ddarganfod Cymru o safbwynt Americanaidd, ac mae'r ail gerdd, 'Cyrraedd glan', yn ategu'r syniad hwnnw:

... fe ddois i fel dieithryn  
yn ôl i ngwlad fy hun,  
a cheisio ail adnabod  
y lliwiau yn y llun:

ac o gyfeiriad arall  
o'r tu chwith fel tae,  
cyrhaeddais Memphis a Graceland  
a Boston yn y bae.<sup>782</sup>

Yn y cerddi i America, a'r cerddi i Ganada i raddau, gwelsom yn aml ymateb Cymro; hynny yw, doedd y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig byth yn bell. Gallwn feddwl am yr enwau Cymraeg a oedd yn britho Philadelphia a wnaeth gryn argraff ar Iwan, am y cyfeiriad at y pair dadeni yn 'Efrog Newydd' ac yn 'Y dŵr mawr', am y tebygrwydd a wêl rhwng gweithwyr y ffatri Harley Davidson a'r Cymry a fu'n codi castell Caernarfon, Rhiannon y Mabinogi mewn tacsï yn 'Haight Ashbury' a Dafydd Iwan yn canu mewn bar yn Nashville. Yn 'Corris', un o gerddi Canada, mae'n clymu Saskatchewan a Chymru: 'Does 'na'r un tro yn lonydd Saskatchewan / yn cymharu â'r tro yng Nghorris,' meddai, a'r gerdd wedi ei chyflwyno i'r Americanwr a'r bardd David Lloyd, sydd â'i wreiddiau yng Nghorris. Â yn ei flaen ynddi i gyfarch David Lloyd gan ddweud fod y tro hwnnw yng Nghorris 'yn gwllwm yn dy galon' ac yn llawn o gysylltiadau Cymreig.<sup>783</sup>

---

<sup>781</sup> Ibid., tt. 77-8.

<sup>782</sup> Ibid., t. 80.

<sup>783</sup> Ibid., tt. 59-60.

Y gwrthwyneb y ceisir ei gyfleu yng ngherddi Cymru, gyda'r profiadau o America yn goleuo'r lluniau o Gymru; gweld adlewyrchiadau o Memphis, Graceland a Boston yng Nghymru a wna yn 'Cyrraedd Glan'. Ni chaiff y cymariaethau hyn ag America eu cynnal drwy'r cerddi, fodd bynnag, a thestunau'r cerddi, yn hytrach na'u harddull neu eu cyfeiriadaeth, sy'n gyfrifol am greu'r delweddau newydd. Sylwodd nad hawdd oedd dod 'fel dieithryn / yn ôl i ngwlad fy hun':

'Doedd o ddim yn ymarferiad hawdd. Er cymaint mae rhywun yn dymuno, fedr rhywun sy'n amlwg wedi ei fagu yng Nghymru, wedi treulio ei oes yng Nghymru, ddim ymddihatru oddi wrth y clymau clos hynny.<sup>784</sup>

Er bod llwch y daith i America i'w weld yn 'Olion' gyda gwaddol y diwydiant cloddio ym Mynydd Parys 'fel olion hen demlau ger y môr glas / lle chwery'r cychod bach a'r morloi',<sup>785</sup> ac Iwan ei hun yn cydnabod fod Mynydd Parys a'i liwiau arallfydol yn ei atgoffa o anialwch Mecsico Newydd,<sup>786</sup> rhyw adlais o 'Llyn y Gadair' T. H. Parry-Williams sy'n mynnu dod i'r cof. Dyna Parry-Williams yn gweld harddwch 'mewn rhyw ddarn o lyn' yn ei soned, ac yn gweld prydferthwch yn yr olion diwydiannol:

Ond mae rhyw ddewin â dieflig hud  
Yn gwneuthur gweld ei wyneb i mi'n nef,  
Er nad oes dim gogoniant yn ei bryd,  
Na godidowgrwydd ar ei lannau ef –  
Dim byd ond mawnog a'i boncyffion brau,  
Dau glogwyn, a dwy chwarel wedi cau.<sup>787</sup>

Gwelodd Iwan yntau rywbeth tebyg iawn ym Mynydd Parys ac ym Mhorthwen yn Ynys Môn:

... llifodd gwaed drwy'r copor a'r clai  
i greu yr harddwch hagr hwn,  
am fod ynom yr ynni i greu hanes

---

<sup>784</sup> Iwan Llwyd, 'Dan Draed', t. 67.

<sup>785</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 85.

<sup>786</sup> Iwan Llwyd, 'Dan Draed', t. 68.

<sup>787</sup> T. H. Parry-Williams, *Cerddi*, Ail argraffiad (Aberystwyth, 1948), t. 53.

i grafangu drwy'r gwaed a'r gwres  
a chyrraedd paradwys:  
diffaith pob tirlun lle na cheir olion  
hen ddiwydiant a hen freuddwydion.<sup>788</sup>

Mynd ar drywydd y Gymru go iawn a wna Iwan yn nifer o'r cerddi gan chwilio am y lluniau sy'n aml yn cuddio 'dan golur y delweddau', fel petai:

Mae'n rhy hawdd eistedd yn ôl a bodloni ar hen ddelweddau o Gymru. Mae'n hawdd iawn hefyd derbyn heip y 'Gymru newydd' sy'n llawn siaradwyr Cymraeg, busnesau uwch-dechnoleg, a grwpiau sy'n canu yn Saesneg. Yn rhywle yn y canol mae yna Gymru liwgar, ddifyr, wahanol, gwreiddiol [sic], drist a chyffrous sy'n erfyn cael ei gweld a'i chlywed.<sup>789</sup>

O chwilio'r delweddau hyn, daw o hyd i eglwys Efengylaidd yn yr Wyddgrug lle mae'r emynau modern yn cael eu canu i gyfeiliant band a'r geiriau'n ymddangos ar sgrin o flaen y gynulleidfa, 'a phob haleliwia ac amen / wedi ei raglennu ymlaen llaw'.<sup>790</sup> Mae'n debyg fod y ddelwedd yn un ffres mewn barddoniaeth Gymraeg, ond mynnu troi'n ôl at ei ddiwylliant Cymraeg traddodiadol a wna Iwan wrth ymuniaethu â Dafydd ap Gwilym a'i gerdd 'Merched Llanbadarn'. Fel y bu i Ddafydd ap Gwilym syllu dros ei blu ar y ferch hardd yn yr eglwys, a'i gefn at yr allor, mae Iwan hefyd yn methu ymuno yn y canu ac yn 'methu disgyn ar fy ngliniau'; yr hyn sy'n mynd â'i fryd yn lle hynny yw'r ferch sy'n canu'r clarinét yn y band.

Delwedd anarferol arall y daw ar ei thraws yw honno o'r hen gerbydau trên yn un rhes wedi cael eu gadael i rydu yng Nghynwyl Elfed ac yng Ngheredigion. Ceir un o'r cerbydau hyn, sydd bellach wedi ei droi'n llety i ymwelwyr, yn Aber-porth ar y llethr sy'n wynebu'r môr, a hwyrach mai dyna'r olygfa a welodd Iwan yng Ngheredigion:

... dyma ddiwedd y lein,  
lle mae'r môr a'r tir mawr yn cusanu,  
a'r gerbydres yn garafan

---

<sup>788</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 86.

<sup>789</sup> Iwan Llwyd, 'Dan Draed', t. 68.

<sup>790</sup> Iwan Llwyd, 'Y Crist karaoke', *Dan Ddylanwad*, t. 98.



ar ddibyn yn datgymalu ...<sup>791</sup>

Dyma gerdd sy'n darlunio diwedd taith ac yn diriaethu diwedd cyfnod, yn bur wahanol i agwedd gyffredinol Iwan yn ei gerddi sy'n tueddu i ddarlunio'r 'hewl ddi-ddychwel i rywle'.<sup>792</sup> Yr unig beth sy'n arhosol yw'r amgylchedd naturiol o'n cwmpas, syniad nid yn annhebyg i'r hyn a geir yn 'Jean-Marie', lle mae'n rhagweld y bydd gwastadedd paith enfawr Saskatchewan yn 'hawlio'r cyfan yn ôl' ryw ddydd:

... dyma ddiwedd y lein  
i beiriant a bardd,  
lle'r aiff ein byd mecanyddol  
yn ôl i ofal yr ardd ...<sup>793</sup>

Er mwyn cyflwyno darlun o Gymru a oedd mor agos at y gwir â phosib, rhaid oedd codi'r caead ar y corneli tywyll hefyd, a dyna a wneir yn 'Melodïau'. Dadorchuddir yma'r broblem gyffuriau amlwg yng ngorllewin y Rhyl, gan sôn am ddigwyddiad lle canfuwyd dau riant a'u mab deunaw mis oed yn farw mewn fflat yno ym mis Rhagfyr 1994.<sup>794</sup> Roedd y bachgen ifanc wedi cael ei adael yn amddifad a'i rieni wedi marw ar ôl gor-ddefnydd o heroin. Daeth cymydog o hyd i'r tri yn farw fis yn ddiweddarach, y bychan wedi ceisio datod ei gewyn ac wedi marw o syched, y teledu ymlaen a'r tân trydan yn dal i losgi:

... heibio i'r goeden nadolig blastig  
a'r trimins a losgodd yn ulw,  
gorweddaï'r baban yn ei gadachau  
mor llonydd â'r flwyddyn:

medrwn aroglï marwolaeth  
fel llond stabal o gachu,  
yn felys a chwerw a chiaidd  
a didrugaredd ...<sup>795</sup>

---

<sup>791</sup> 'Diwedd y lein', *ibid.*, t. 108.

<sup>792</sup> 'Y golomen (2)' *ibid.*, t. 126.

<sup>793</sup> *Ibid.*, t. 108.

<sup>794</sup> <http://www.independent.co.uk/news/in-desperation-he-had-torn-at-his-soiled-nappy-the-baby-died-of-dehydration-1617460.html> (Cyrchwyd: 1/03/16).

<sup>795</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 90-2.

Mae gweld y drasiedi yng ngoleuni tymor y Nadolig yn greulon o bwerus yma. Ond nid sôn am dristwch y digwyddiad yn unig a wna'r gerdd; mae hefyd yn dangos y diffyg ymdeimlad o gymdogaeth mewn rhai ardaloedd. Er i lefarydd y gerdd amau fod rhywbeth o'i le yn y fflat yn Stryd Kinmel a cheisio ffonio'r Awdurdod Iechyd, nid oedd ganddo 'yr arian mân cymdogol / i ddal ar y lein'.

Wrth gyflwyno'r holl ddelweddau newydd hyn, fe gyfranna Iwan at y broses o ganu Cymru newydd i fodolaeth. O wneud hynny, rhaid yw ffarwelio â'r hen ddelweddau a throï ei olygon am ymlaen, er mor gysurus weithiau yw ymgolli mewn hiraeth am yr hen ddyddiau. Cyfleu hynny a wna'r gerdd 'Best of a bad bunch'. Sôn am hel atgofion am yr hen ddelweddau o Gymru gynt 'mewn tafarn wag dros fflag a pheint' a wna ar ddechrau'r gerdd, ond ni thâl hi ddim i gofleidio'r hiraeth yn ormodol: rhaid 'troi allan eto i wlad ddiarth' lle nad yw'r hen ddelweddau cyfarwydd yn bodoli, bellach. Rhaid gadael bathodynau'r gorffennol a byw yn y presennol:

... lle bynnag yr awn ni  
ar grwydr o'n llochesi dirgel,  
wrth i ni ysgwyd y llwch o'n gwalltiau  
a gwlychu gwefus,

yn unig, ar herw neu'n arwrol,  
a'n golwg tua'r gorwel,  
daeth dyddiau diosg bathodynau  
a byw.<sup>796</sup>

Cyflëir yr un syniad mewn cerdd sy'n cyd-fynd ag un o ddarluniau Iwan Bala, 'delwedd o ynys ar ffurf fenywaidd yn rhoi genedigaeth i'r dyfodol,' fel y disgrifiodd yr artist ei hun y llun 'Gwales (*Ararat*)'.<sup>797</sup> Mae 'Aber Henfelen' yn un o'r cerddi a gyfansoddwyd ar gyfer arddangosfa celf a chreffft Eisteddfod Genedlaethol y Bala yn 1997, ac mae cerddi'r arddangosfa i gyd yn cyflwyno 'Delweddau o Gymru' yn yr un modd ag y gwna Cerddi Cymru yn *Dan Ddylanwad*. Mae agor y drws tuag Aber Henfelen yma yn gyfystyr â gadael delweddau'r gorffennol ac wynebu'r dyfodol. Defnyddia Iwan hefyd y syniad o enedigaeth

---

<sup>796</sup> Ibid., tt. 123, 124.

<sup>797</sup> Iwan Bala, 'Atgofion Ynys Gwales', *Awen Iwan*, t. 111.

er mwyn cyfleu'r symudiad tua'r dyfodol, ond yn wahanol i syniad Iwan Bala mae'r enedigaeth yn y gerdd yn gymysg â phrofiad rhywiol. Disgrifir y syniad o ymgolli mewn nostalgia fel bod 'ar arch ein pleserau', ac wrth inni deimlo'r hiraeth hwnnw ar ei gryfaf, fel cyrraedd uchafbwynt rhywiol, dyna pryd y bydd y drws yn agor a'r enedigaeth yn digwydd. Oddi yno ni fydd troi'n ôl rhag cyrraedd y 'dŵr croyw', lle cawn gyfle i ddiffinio Cymru o'r newydd heb i hualau'r gorffennol liwio gormod ar y llun.<sup>798</sup> Yng ngherdd nesaf y casgliad, sy'n ymateb i ddarn o gelf gan Marcelle Davies, mae sôn am y daith wedi'r enedigaeth, y 'dyddiadur gwag' sydd wedi agor o'n blaenau yn barod i'w lenwi â'r 'manion, y gwmnïaeth, / gwridd a dagrau ein taith':

... wrth eu cofnodi  
rhoddwn enwau iddynt,  
lle a lliw i'w diffinio,

tra bod y gorwel  
yn dal heb ei fedyddio,  
yn ein disgwyl yn dawel ...<sup>799</sup>

Ar un llaw, roedd cofnodi 'lle a lliw' er mwyn diffinio'r daith yn hollbwysig yng ngolwg Iwan, a thybiai mai un o hanfodion barddoni oedd 'medru cysylltu profiad neu deimlad â lle ac adeg benodol. Dyma un ffordd o wneud y teimlad a'r profiad hwnnw yn hygyrch i gynulleidfa neu ddarllenwr unigol.'<sup>800</sup> Ond ar y llaw arall, gwêl mai llyffethair oedd ysfa'r Cymry i sefydlu perthynas â llyfudd penodol, ac mae'n edmygu agwedd beirdd Beat America a oedd yn ymhyfrydu yn rhyddid y daith. Dywed yn ddigon beirniadol yn 1997 mai:

Y daith ei hun yw'r rhyfeddod a'r sialens. Mewn gwlad fel Cymru, yn y cyfnod diweddar, mae'r fath agwedd yn ddiarth. Mae'n rhaid angori popeth mewn man a lle a chyfnod.<sup>801</sup>

Ond yna, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae'n tristáu o sylweddoli fod pobl wedi colli cysylltiad â'u gwreiddiau:

---

<sup>798</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 81.

<sup>799</sup> 'Patrymau', *ibid.*, t. 82.

<sup>800</sup> Iwan Llwyd, 'O le i le', *Barddas*, 287 (Ebrill/Mai 2006), t. 26.

<sup>801</sup> Iwan Llwyd, 'Allen Ginsberg 1926-1997', *Barddas*, 241 (Mehefin/Gorffennaf, 1997), t. 32.

Ond dan gochl moderniaeth a chyfoesedd mae pobl wedi colli golwg ar eu cysylltiad â man a lle a llwyth. Maen nhw wedi colli cysylltiad â'r tir o dan y tarmac, y llwybrau o dan y concriid.<sup>802</sup>

Dyna wedd ar y tyndra yng nghymeriad Iwan wrth iddo ymrafael â'r croestynnu rhwng yr ymdeimlad cryf o Gymreictod a oedd ganddo a'r ysfa i ddianc a theithio a chwilio gorwelion newydd. Sylwodd Karen Owen hefyd ar y tyndra hwn:

Yr oedd yna o leiaf ddau Iwan. Y naill yn driw i'r stereoteip o Fab y Mans a godwyd yn sŵn drama'r festri; a'r llall oedd bron â marw eisiau torri pob ffenestr yn y capel efo cerrig roc-a-rôl. A dyna lle'r oedd Iwan yn pendilio – rhwng yr hen ffordd Gymreig (a chul, weithiau) o fyw, a'r posibiladau newydd a fyddai'n dod o deithio ac arbrofi a chicio'n erbyn y tresi.<sup>803</sup>

Roedd gwreiddio ei gerddi mewn mannau penodol yn rhywbeth a wnâi Iwan yn gyson, fel y dangoswyd eisoes yn yr ail bennod. Mae ganddo sawl cerdd sydd ag enw lle fel teitl, a hyd yn oed pan nad yw'r gerdd yn sôn am fan penodol, cawn wybod yn aml mewn nodyn pryd a lle y'i cyfansoddwyd. Wrth geisio diffinio beth yw barddoniaeth yn y gerdd 'Y wers', un ateb a gynigia yw hwn:

... 'barddoniaeth yw dal hud wyneb a lle,  
o Aber Mawddach i gefnfor y de,

gwneud map o'r enwau sy o'n cwmpas ni  
yn gloddfa o chwedlau' ...<sup>804</sup>

Roedd enwau lleoedd yn bethau gwerthfawr yng ngolwg Iwan, yn 'faeth o'r gorffennol i'r dyfodol, yn amddiffynfa rhag yr anffurfiaeth a wthid arnom gan genhedloedd mawr y byd,' yng ngeiriau Alan Llwyd.<sup>805</sup> Gallent gynnig rhywfaint o oleuni ar natur y tirwedd neu ar chwedlau lleol, neu gallent fod yn gysylltiedig â digwyddiad hanesyddol neu â llenyddiaeth Gymraeg.

---

<sup>802</sup> Iwan Llwyd, 'Y naill ochr i'r wal', *Barddas*, 294 (Awst/Medi/Hydref 2007), t. 62.

<sup>803</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn*, t. 6.

<sup>804</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant*, t. 30.

<sup>805</sup> Alan Llwyd, 'Iwan Llwyd fel Colofnydd Barddas', *Awen Iwan*, t. 199.

'Mae i bob enw lle, pob ffermdy, pob llan ei stori, sy'n hŷn nag unrhyw fap,' meddai Iwan,<sup>806</sup> ac roedd gweld yr enwau hynny yn gallu dod â chysur iddo, fel y gwelwn yn ei gerdd 'Taith adre', lle 'mae'r enwau fel bwledi o ddryll /yn agor clwyfau yn fy nghalon i / ac eto'n llawn o esmwythâd y lli'.<sup>807</sup> Soniodd Iwan mewn colofn unwaith iddo ddod ar draws map llenyddol o Brydain ym mhapur newydd yr *Independent* a oedd yn holi pa lenorion a gafodd eu hysbrydoli gan eu cynefin; map heb iddo ddim ond un cyfeiriad at Gymru, a hwnnw at Abertawe Dylan Thomas, wrth gwrs. Ysgogodd hynny gerdd, ac fe'i hanfonodd at olygyddion y papur er mwyn dangos mor arwyddocaol yw lleoedd i'r llenorion o Gymru:

Mae map Cymru'n wag,  
heblaw am un rhif, dau-ddeg-wyth,  
yr Uplands a'r Antelope yn y Mwmbwls  
lle yfodd Dylan lwyth:

be ddigwyddodd i'r Llanfair ar y Bryn  
a Llanfair Mathafarn,  
Rhyd-ddu, Pwlleri ac Ystrad Fflur,  
i ble'r aeth Manafon ac Abercuawg,  
y pentrefi llechi a'r terasau dur?

Mae map Cymru'n wag,  
'dydi 'lle' ddim yn sillafu 'llên',  
dim Aberdaron na Chynan,  
dim Aberffraw na Jên:

dim Daniel Owen na'i Wyddgrug,  
dim Lleifior, dim Capel y Ffin,  
dim Wrecsam, dim Siôn Eirian,  
dim Trefan na Threfin:

mae Cymru'n wag, gyfeillion,  
anialwch ydi'r wlad,  
lle nad oes beirdd na llenorion  
na chantorion, neno'r tad:

---

<sup>806</sup> Iwan Llwyd, 'Bryniau a Phantiau', t. 12.

<sup>807</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 14.

felly dowch i ni ailgoloneiddio'r lle  
ar frys o Fynwy i Fôn,  
a gadael ôl ein hodlau ni'n  
llinell wen ar bob un lôn:

o Glenelg i Lyme Regis,  
o Aberdeen i'r Dales,  
'does dim oll i'w gymharu  
â diffeithwch geiriol 'Wales'.<sup>808</sup>

Daeth yr ymlyniad hwn at enwau lleoedd yn obsesiwn gan Iwan maes o law, a sonia Karen Owen am y ddefod a oedd ganddo yn ystod y flwyddyn cyn ei farwolaeth o gerdded yr un llwybr, 'taith fugeiliol ei ddiweddar dad', unwaith bob wythnos gan ei bod hi'n 'bwysig i Iwan weld bod Tyddyn Solomon yn dal yno, a Phen-y-bonc, Y Wern, 'Fodol a'r Hafod... Enwau'n clymu ddoe, heddiw a fory oedden nhw'.<sup>809</sup>

*Rhyw Deid yn Dod Miwn* yw'r gyfrol amlycaf yng nghyd-destun mapio a chofnodi enwau lleoedd drwy gyfrwng cerddi. Taith o gylch arfordir Cymru a geir ynddi, yn cychwyn yn sir y Fflint ac yn gorffen yng Nghaerllion ar Wysg. Yng nghefn y gyfrol, ceir map sy'n nodi union leoliad cerddi Iwan a ffotograffau Aled Rhys Hughes ar hyd y daith. Soniwyd eisoes am ymwybyddiaeth Iwan o deithiau'r gorffennol ar hyd llwybrau'r wlad, ac roedd yr ymwybyddiaeth honno yr un mor gryf wrth iddo ystyried llwybrau'r arfordir:

Ar hyd yr arfordir hwn yr ymsefydlodd ein cyndeidiau pell filoedd o flynyddoedd yn ôl, gan adael eu treceiri o Forgannwg i Fôn, a'r arfordir hwn oedd eu cwmpawd wrth i'r brodorion cynnar fasnachu ag Iwerddon a chyfandiroedd y tu hwnt i'r gorwel. Mae'r arfordir yn cadw cyfrinachau'r teithiau cynnar hynny, heb sôn am holl deithiau'r morwyr a'r carnladron, yr ymfudwyr a'r cenhadon a fentrodd o'r glannau hyn, a thorri ar dir newydd. Mae hefyd yn tystio i'r tonnau o wledydd eraill a laniodd ar ein traethau.<sup>810</sup>

---

<sup>808</sup> Iwan Llwyd, 'O le i le', tt. 26-7.

<sup>809</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn*, t. 6.

<sup>810</sup> Broliant gan Iwan ar du mewn y siaced lwch, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*. Addasiad yw'r geiriau a ddyfynnir yma o ddarn o ysgrif Iwan 'Draw dros y don...', *Barddas*, 295 (Tachwedd/Rhagfyr 2007), t. 44.

Ceisio cerddi'r gyfrol ddal rhywfaint o naws yr arfordir a'r hanes sy'n perthyn i rai mannau arbennig. Sonnir am yr arteffactau o'r Oes Haearn a ddarganfuwyd yn Llyn Cerrig Bach yn Ynys Môn, am yr eglwys fawreddog yng Nghlynnog Fawr, ac am Owain Glyndŵr yn cipio Castell Aberystwyth yn 1404. Caiff y bobl sy'n byw yn wyneb y môr eu lle ganddo hefyd mewn cerddi fel 'Y Casglwyr Cocos', 'Ynyswyr', a 'Brodorion', lle mae'n gwahaniaethu rhwng brodorion Aberteifi 'a chwithdod eu dwyieithrwydd' yn y dafarn leol a'r ymfudwyr 'unsill' sy'n siopa yn yr archfarchnad y tu allan i'r dref. Caiff y llanw ymwelwyr sylw hefyd yn y cywydd 'Abersoch yn y gaea', a hwythau wedi gadael eu cytiau glan y môr lliwgar dros dymor y gaeaf, yn union fel adar yn mudo.<sup>811</sup>

Gwelwyd nifer o gerddi'r gyfrol hon yng nghyfrolau cynharach Iwan, ac mae rhai o'r cerddi newydd ynddi yn delynegion sy'n darlunio, yn ddiaphael braidd, le neu'r teimlad sydd i le. Yr argraff a gafwyd yn *Dan Ddylanwad* oedd fod Iwan am chwilio o dan yr wyneb am ei ddeunydd wrth ysgrifennu am Gymru. Fe lwyddodd yno i gyflwyno darluniau diddorol a chymariaethau a oedd yn taro deuddeg, ond erbyn cyhoeddi *Rhyw Deid yn Dod Miwn* dros ddeng mlynedd yn ddiweddarach, fe gollodd y newydd-deb a'r sglein a oedd yn perthyn i'w gerddi blaenorol. Wrth sôn unwaith am yrru ar hyd yr A55 ar arfordir y gogledd gyda'r nos, dyfynnodd Iwan o 'Garej Lôn Glan Môr' Steve Eaves: 'a "goleuadau'r arfordir yn pefrio yn y pellter fel mwclis", chwedl Steve Eaves, i hogyn o Fangor mae 'na ryw hud o hyd yn perthyn i drefi diarth yr arfordir'.<sup>812</sup> Er iddo ddal yr hud hwnnw'n berffaith yn 'Taith adre', lle mae'n profi 'cyfrinach / y golau sy'n treiglo'n garedig drwy'r glaw' ar ei daith ar yr A55,<sup>813</sup> mae'n drueni na chafwyd mwy o'r un swyn yng ngweddill y cerddi.

Ar wahân i Gymru a chyfandir America, mae un wlad arall a hawliodd nifer o gerddi gan Iwan yma ac acw, ac Iwerddon yw honno. Ymwelodd â'r Ynys Werdd am y tro cyntaf yn ystod haf 1979 gyda llond car yn ceisio 'dianc rhag y felan ar ôl methiant Datganoli a buddugoliaeth Margaret Hilda (a'i chi bach, K. Best)',<sup>814</sup> a bu sawl ymweliad wedi hynny er

---

<sup>811</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, tt. 16, 22, 56, 37. Cyhoeddwyd 'Ynyswyr' yn gynharach yn *Dan Fy Ngwynt*, t. 35.

<sup>812</sup> Iwan Llwyd, 'Costa gastronomica', *Barn*, 435 (Ebrill 1999), t. 34.

<sup>813</sup> Iwan Llwyd, *Rhyw Deid yn Dod Miwn*, t. 14.

<sup>814</sup> Iwan Llwyd, 'Yn Ôl i Dir na N'og', *Barddas*, 263 (Mehffin/Gorffennaf 2001), t. 28.

mwyn profi'r 'crac – y Guinness du, y gerddoriaeth, a'r cwmni difyr'.<sup>815</sup> Er iddo gydnabod bod dinasoedd Iwerddon wedi datblygu'n sylweddol ers yr ymweliad cyntaf hwnnw, diolch i'r grantiau Ewropeaidd, a chydabod hefyd y terfysg yng Ngogledd Iwerddon yn 'Tommy Reilly',<sup>816</sup> 'Pasg yn Nulyn',<sup>817</sup> a 'Corcaigh',<sup>818</sup> mae ei argraff gyffredinol o'r ynys yn gyson ramantaidd. Ceir y cyfeiriad cyntaf o'r fath yn y gân 'Merch o Ddonegal' a gyfansoddodd Iwan i'w rhyddhau ar albwm gyntaf Doctor yn 1981, lle mae'n breuddwydio am 'syrthio mewn cariad â merch o Ddonegal'.<sup>819</sup> Gellir canfod yr ail gyfeiriad yn *Sonedau Bore Sadwrn* yn y gerdd 'Connemara', lle mae'r machlud 'yn harddach nac [sic] yng Nghymru', a lle mae'r byd yn arafach:

Yng Nghonnemara mae'r machlud yn hardd:  
trol fawn yn troi am adre;  
pysgotwr yn rhwydo'r haul  
a gwahodd y gwynt i'w hwylie.<sup>820</sup>

Bymtheng mlynedd wedi cyhoeddi 'Connemara', mae'r disgrifiadau o Iwerddon yr un mor delynegol a rhamantaidd. 'Mae'r Ynys Werdd yn gerdd i gyd,' meddai yn ei gywydd 'Dulyn', ac mae'r un arafwch yn cael ei ddarlunio wrth i'r ewyn ar dop y Guinness 'setlo heb frys'. Mae'r rhamant ar ei anterth yng nghwpled clo'r cywydd, ac Iwan yn amlwg yn gweld Iwerddon drwy wydrau lliw, gan weld 'pob cusan yn gynghanedd / a phob mul yn geffyl gwedd'.<sup>821</sup> Cywydd arall yw 'Gweld Iwerddon' sy'n cychwyn yn debyg iawn i 'Dulyn' gyda'r un gynghanedd, fwy neu lai: 'Mae cerdd ym môr Iwerddon'. Er mai edrych ar Iwerddon o Gymru a wna yn y gerdd hon, yn hytrach na chanu am yr ynys, mae rhythm y tonnau a'r gerddoriaeth a glyw yn dod o'r môr yn peri iddo '[w]eld y wefr sy'n sigl y don, / gweld harddwch, gweld Iwerddon'.<sup>822</sup> Roedd gan Iwerddon, a Dulyn yn benodol, ryw afael arno, gymaint felly nes iddo ddweud mai 'y trafferth [sic] mwyaf efo Dulyn yw gorfod gadael'.<sup>823</sup>

---

<sup>815</sup> Iwan Llwyd, 'Cynhaliaeth a chrac yn Nulyn', *Barn*, 409 (Chwefror 1997), t. 25.

<sup>816</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 23.

<sup>817</sup> Iwan Llwyd, *Dan Fy Ngwynt*, t. 54.

<sup>818</sup> Iwan Llwyd, *Hanner Cant*, t. 59.

<sup>819</sup> Albwm Doctor, *Merch o Ddonegal* (Recordiau Coch, 1981).

<sup>820</sup> Iwan Llwyd, *Sonedau Bore Sadwrn* (Talybont, 1983), t. 17.

<sup>821</sup> Iwan Llwyd, *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 23.

<sup>822</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, tt. 83-4.

<sup>823</sup> Iwan Llwyd, 'Cynhaliaeth a chrac yn Nulyn', t. 25.



Roedd teithio yn sicr yn cynhyrfu rhywbeth yn Iwan a oedd yn ei sbarduno i ysgrifennu. Cafodd cerddi taith T. H. Parry-Williams gryn argraff arno wrth iddo eu hastudio yn yr ysgol, ac roedd yn hoff iawn o lyfr taith Ambrose Bebb, *Llydaw*, a gyhoeddwyd yn 1929.<sup>824</sup> Gwyddai mai pwrpas ysgrifennu taith yn nechrau'r ugeinfed ganrif oedd 'cyflwyno llefydd newydd, diarth, i gynulleidfa nad oedden nhw, ac mae'n bosib iawn na fydden nhw, byth yn eu gweld na'u profi'.<sup>825</sup> Fe hola wedyn beth yw diben ysgrifennu taith erbyn hyn, a theithio wedi dod yn beth cyffredin i bawb. Heddiw, i ni'r gynulleidfa fodern, mae golygfeydd o wledydd pell o fewn clic ar y cyfrifiadur, ac felly mae'r cwestiwn yn fwy perthnasol fyth. Soniodd Iwan yn yr un ysgrif mai trwy fynd o dan groen y bobl a'r brodorion y mae dod i adnabod gwlad yn iawn, ac mae'r bobl yn aml yn ganolbwynt i'w gerddi taith ei hun: 'diffaith pob tirlun lle na cheir olion / hen ddiwydiant a hen freuddwydion,' meddai yn 'Olion'.<sup>826</sup> Efallai, felly, fod gwerth o hyd mewn cyflwyno'r bobl, eu hagweddau a'u diwylliannau, gerbron y gynulleidfa fodern, yn fwy felly na chyflwyno'r golygfeydd a'r adeiladau hanesyddol y gallwn eu gweld ein hunain ar y we.

Prif amcan Iwan wrth ysgrifennu cerddi taith, fodd bynnag, oedd dod o hyd i ddelweddau ac i ieithwedd newydd. Roedd teithio ynddo'i hun hefyd yn bwysig iddo er mwyn iddo fodloni ei anniddigrwydd, er mwyn ymryddhau o gaethiwed bywyd bob dydd a lleddfu'r ofn o orfod 'gweld y tŷ haearn yn cau amdano'.<sup>827</sup> Fel y dywedodd Karen Owen, roedd teithio'n ffordd iddo ddianc: 'Weithiau, roedd y dorf, y criw, y clic a phawb, yn pwysu'n rhy drwm ar Iwan, ac roedd o angen bod ar ei ben ei hun. Roedd bod mewn dinas, a "nabod neb" yn cynrychioli rhyddid nad oedd i'w gael yn y Gymru Gymraeg'.<sup>828</sup> Ac i Iwan, ar y lôn roedd profi'r rhyddid eithaf hwnnw.

---

<sup>824</sup> Iwan Llwyd, 'Ar Daith', *Barddas*, 288 (Mehefin/Gorffennaf 2006), t. 34.

<sup>825</sup> Ibid.

<sup>826</sup> Iwan Llwyd, *Dan Ddylanwad*, t. 86.

<sup>827</sup> Iwan Llwyd, 'Bardd', *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?*, t. 101.

<sup>828</sup> Karen Owen, *Cerddi Ofn*, t. 8.

## DIWEDDGLO

### ‘Y lôn ddi-droi’n ôl’

Gellid yn hawdd agor unrhyw un o gyfrolau Iwan a dewis cerdd ar hap i’w darllen a’i mwynhau. Saif ei gerddi i gyd ar wahân, rhai yn fwy llwyddiannus na’i gilydd, rhai yn wirioneddol athrylithgar. Ond hyd yn oed pe digwyddid baglu dros un o’i gerddi gorau, nid wrth gerdd unigol y mae mesur mawredd Iwan fel bardd. Buan y sylweddola’r rhai sy’n ymgyfarwyddo â’i waith mai drwy edrych ar gyfangorff ei farddoniaeth y mae gwerthfawrogi ei grefft yn llawn. Er bod ei gerddi’n sefyll ar eu pennau eu hunain, maent hefyd yn bwydo ystyr i’w gilydd, yn benthyc delweddau gan ei gilydd ac yn cynnig taith ddi-dor drwy gyfnod arwyddocaol yn hanes Cymru. O fodio cyfrolau Iwan yn gronolegol, camwn drwy oriel y 1980au a’r 1990au, a gwelwn gyfnod pwysig o newid agwedd ymysg y Cymry, o newid yn y diwylliant Cymraeg ac yn yr ieithwedd a ddefnyddir o fewn y diwylliant hwnnw. Adlewyrchu cyfnod a wna barddoniaeth Iwan, a hwnnw’n gyfnod o rwystredigaeth ac o ailddiffinio. Ond nid adlewyrchu’r newidiadau hyn yn unig a wna cerddi Iwan chwaith: maent hefyd yn cyfrannu at y newid a’r ailddiffinio. Trafododd yn fwriadol bynciau sensitif yn *Sonedau Bore Sadwrn* er mwyn llusgo’r Gymraeg i’r corneli tywyll, a lluniodd chwedl gyfoes drwy gerddi ‘Gwreichion’ er mwyn tywys y Cymry drwy’r 1980au at hyder newydd.

Er mai llenyddiaeth sy’n adlewyrchu cyfnod penodol ar drothwy’r unfed ganrif ar hugain yw cyfran o farddoniaeth Iwan, mae hefyd yn ei gerddi ganrifoedd o draddodiad. Mae lleisiau beirdd ar daith yn atseinio yn ei eiriau, p’un a ydyw’n cyfeirio’n benodol at deithiau’r Cywyddwyr fel y gwna yn ‘Bardd’ ac yn ‘Dwy daith’ neu’n ysgrifennu ei gerddi taith ei hun i’r Unol Daleithiau, i Ganada neu i Dde America. Nid yw’n daith o le i le bob amser chwaith; gall fod yn daith drwy gyfnod arbennig, fel sydd yn ‘Gwreichion’ neu yn *Be ‘di blwyddyn rhwng ffrindia?*, neu gall hyd yn oed deithio drwy amser fel y sylwa Guto Dafydd wrth drafod “‘You’re not from these parts?’”:

... wrth deithio, a dilyn y llwybrau a gofnodwyd gan feirdd y gorffennol, mae'n teimlo'i fod yn rhan o'u stori nhw, yn rhannu eu dealltwriaeth nhw o'r wlad. Gall edrych ar bethau gyda phersbectif y traddodiad.<sup>829</sup>

Daw'r hen a'r newydd ynghyd yng ngherddi Iwan. Roedd meddwl am farddoniaeth gyfoes fel haen arall i'w hychwanegu at yr hen draddodiad barddol Cymraeg yn rhoi gwerth a pherthnasedd ehangach i'r cerddi, ond heb newydd-deb ieithwedd, delweddau a themâu, nid oedd cynulleidfa i'r fath gelfyddyd. Dyna lle daw'r paradocs rhwng yr hen a'r newydd ynghyd i greu rhywbeth sy'n apelio at gynulleidfa heddiw.

Roedd Iwan yn ffigur canolog yn yr ymdrech i boblogeiddio barddoniaeth, fel y dangoswyd yn y thesis hwn. Credai fod gwerth i farddoniaeth, nid yn unig fel rhywbeth adloniannol ond fel cyfrwng i drafod y byd, i ddiffinio'n greadigol a chynnal trafodaethau ar wleidyddiaeth. Ond pa ddiben barddoni heb fod cynulleidfa ar gael i wrando? Os oedd barddoni yn Gymraeg 'fel bod mewn pub yn Llundan',<sup>830</sup> yna rhaid oedd gwneud rhywbeth am y peth a newid agwedd pobl tuag at farddoniaeth. Gwnaed hynny drwy ddefnyddio ieithwedd ddealladwy, mynegiant ffres, heb fod yn farddonllyd ond eto heb golli'r rhin ddychmygus gyfareddol, drwy wneud defnydd o gyfryngau ffasiynol, a thrwy fynd allan at y gynulleidfa gyda nosweithiau a sioeau barddol. Un o amcanion yr astudiaeth hon yw cofnodi a chloriannu cyfraniad helaeth Iwan i'r holl elfennau hynny er mwyn sicrhau fod gan feirdd eu llais o fewn cymdeithas.

Er mai poblogeiddio barddoniaeth oedd un o brif gyfraniadau Iwan i ddiwylliant Cymraeg, roedd i hynny ei baradocsau. Yn groes i natur gyhoeddus y bardd Cymreig, mwynhâi fod yn wyneb dienw ar gyfandir arall, yn profi traddodiadau a diwylliannau gwahanol ac yn ymhyfrydu yn eu dieithrwch. Mewn gwlad arall, gallai'n hawdd ei ailddyfeisio ei hun yn fardd taith, yn gowboi sy'n cyrchu'r gorwel o hyd, cyn dychwelyd adref yn ddieithryn ei hun. Eto, fel gwrthbwynt i'r bardd cyhoeddus, ceir y darlun a dafluniodd Iwan o'r bardd fel rhywun unig yn gweithio'i grefft liw nos. Er bod modd sôn am Iwan fel

---

<sup>829</sup> Guto Dafydd, 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', *Awen Iwan*, gol. Twm Morys (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 62.

<sup>830</sup> Iwan Llwyd, 'Barddoni (yn Gymraeg)', *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987), t. 2.

bardd 'haul mawr melyn' Efrog Newydd,<sup>831</sup> ar y cyfan 'bardd y nos oedd o, y sêr, y cilfachau tywyll mewn tafarnau bach myglyd yng nghefn gwlad Ceredigion, Iwerddon neu Lydaw,' fel y dywed Geraint Lovgreen.<sup>832</sup> Ond ychwanegu at apêl y cerddi a wna paradocsau o'r fath yn hytrach na drysu'r darllenydd.

Gobeithir bod yr astudiaeth hon yn cynnig golwg ar farddoniaeth Iwan fel cyfanwaith. Ceisiwyd dewis a dethol cerddi sy'n goleuo ei gilydd, cyfod cerddi sy'n trafod pynciau tebyg, cynnig dehongliadau a chrynhoi gyrfa bardd sy'n cynrychioli, yn anad neb, y to o feirdd a gododd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Gadawodd waddol gwerthfawr, yn gofnod o naws y 1980au yng Nghymru ar gyfer haneswyr y dyfodol, argraffiadau Cymro wrth deithio'r byd, a hynny mewn arddull ac ieithwedd addas ar gyfer cyfleu profiadau heddiw yn y Gymraeg. Ond y prif beth a adawodd oedd ffordd glir i Gymry diwedd yr ugeinfed ganrif ei throedio fel y mynnent heb orfod poeni gormod am ddiffinio Cymreictod a chanfod mynegiant didwyll i'w profiadau cyfoes. Trafodwyd cyfraniad Iwan i'r broses o lunio Cymru newydd yn y thesis, ond aethpwyd ati hefyd i drafod Iwan fel unigolyn, gan olrhain ei brentisiaeth farddol, y dylanwadau a fu arno, a'r gyfeiriadaeth yn ei waith, yn arbennig felly'r gyfeiriadaeth ysgrythurol. Ond fel y soniodd Twm Morys am gerddi Iwan fel 'llond coed yn canu o adar',<sup>833</sup> mae mwy o le eto i archwilio'r cyfeiriadau yn ei waith. Mae lle, bid siŵr, i rywun â gwell amgyffred na mi o ganeuon Bob Dylan, Bruce Springsteen a'r cantorion blws Americanaidd ganfod y cyfeiriadau at ganeuon yr artistiaid hynny yn ei gerddi, er enghraifft. Cyffyrddwyd yn yr astudiaeth â'r elfen ôl-drefedigaethol yng ngerddi Iwan, nid yn unig yng nghyd-destun ei gerddi taith, lle gwêl ddiwylliannau cyntefig dan orthrwm gormeswyr, ond hefyd mewn perthynas â Chymru a deimla bwysau parhaus o du Lloegr, a diau fod lle i archwilio ymhellach agweddau theoretig ar y farddoniaeth.

Roedd marwolaeth Iwan ar 28 Mai 2010 yn ddigwyddiad o bwys, yn newyddion ac yn destun galar cenedlaethol ac yntau ond yn 52 oed. Galwyd Iwan yn ystod ei oes yn '[f]ardd mawr ei genhedlaeth',<sup>834</sup> yn 'roc-fardd',<sup>835</sup> ac yn brifardd, ac yn dilyn ei farwolaeth daeth y

---

<sup>831</sup> Iwan Llwyd, 'Ellis Island', *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997), t. 19.

<sup>832</sup> Geraint Lovgreen, 'Iwan yn y Band', *Iwan, ar Daith* (Llanrwst, 2010), t. 97.

<sup>833</sup> Twm Morys, 'Felly Iwan: rhai agweddau ar gyfeiriadaeth, delwedd a gair mwys ym marddoniaeth Iwan Llwyd', *Awen Iwan*, t. 89.

<sup>834</sup> Robert Rhys, 'Bardd mawr ei genhedlaeth', *Barn*, 419-20 (Ionawr 1998), t. 72.

teyrngedau'n llif gan gadarnhau ei fod, yn wir, yn un o feirdd mwyaf medrus diwedd yr ugeinfed ganrif. Galwodd Meic Stephens ef yn 'Inspirational writer who popularised Welsh poetry',<sup>836</sup> ac awgrymodd Mei Mac: 'Os oes un bardd fydd yn aros ar glawr ac ar lafar yn y canrifoedd i ddod – Iwan Llwyd fydd hwnnw'.<sup>837</sup> Crynhodd Wiliam Owen Roberts amcanion Iwan yn ystod ei yrfa farddol yn ei deyrnged yntau:

Cenhadaeth fawr gyrfa Iwan oedd canfod iaith a mynegiant allai chwythu anadl o'r newydd i brydyddiaeth ein cyfnod a magu diddordeb ehangach ynddi.<sup>838</sup>

Cyhoeddwyd cerddi ac ysgrifau coffa iddo gan amryw o'i gyfeillion yn *Barddas, Barn, Taliesin* a *Poetry Wales*; trefnwyd noson o 'gerddi, caneuon ac atgofion' i gofio amdano yn Eisteddfod Glyn Ebwy yn 2010,<sup>839</sup> ac aethpwyd â'r sioe ar daith ar hyd a lled Cymru'n fuan wedyn. Cyhoeddwyd cynnyrch y nosweithiau hynny yn *Iwan, ar Daith* – cyfrol a neilltuwyd yn llwyr i goffáu un bardd.

Mae tueddiad, pan fo rhywun yn marw'n sydyn ac yn gynamserol, i awgrymu bod tristwch yn y ffaith fod gan yr unigolyn hwnnw fwy i'w gyfrannu a mwy i'w ddweud, ond yr argraff a geir o edrych ar yrfa farddol Iwan yw ei fod, yn ymwybodol neu'n anymwybodol, wedi cau pen y mwdwl yn daclus ar ei yrfa, ac wedi cyfannu'r cylch. Llion Jones a ddywedodd rai blynyddoedd cyn marwolaeth Iwan fod 'rhyw gymesuredd annisgwyl i'w ganfod yn ei yrfa lenyddol',<sup>840</sup> ac roedd hynny'n bendant yn dal i'w weld pan gyhoeddwyd ei gyfrol olaf, *Sonedau Pnawn Sul*, yn 2009, o gofio mai teitl ei gyfrol gyntaf oedd *Sonedau Bore Sadwrn*. Dychwelodd yn ei gyfrol olaf at ffurf y soned, y mesur a'i denodd at farddoniaeth yn y lle cyntaf ac a ddefnyddiodd ei hun wrth fwrw ei brentisiaeth. Nodwyd yng nghyflwyniad y thesis hwn pam na thrafodwyd rhyw lawer ar gerddi *Sonedau Pnawn Sul* yma – nid yw'r sonedau'n adeiladu ar ei brif themâu ac nid ydynt mor loyw a ffres â'i gerddi blaenorol. Efallai, felly, fod Iwan wedi dweud ei ddweud, ac mai ei ailadrodd ei hun a wnâi pe bai wedi

---

<sup>835</sup> Hefin Wyn, *Ble Wyt Ti Rhwng?: Hanes canu poblogaidd Cymraeg 1980-2000* (Talybont, 2006), t. 373.

<sup>836</sup> <http://www.independent.co.uk/news/obituaries/iwan-llwyd-inspirational-writer-who-popularised-welsh-poetry-2036148.html> (Cyrchwyd: 6/03/16).

<sup>837</sup> [http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_8710000/newsid\\_8712500/8712543.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_8710000/newsid_8712500/8712543.stm) (Cyrchwyd: 6/03/16).

<sup>838</sup> Wiliam Owen Roberts, 'Rhai atgofion coleg', *Iwan, ar Daith*, t. 35.

<sup>839</sup> Myrddin ap Dafydd, 'Cyflwyniad', *ibid.*, t. 9.

<sup>840</sup> Llion Jones, 'Iwan Llwyd', *Y Patrwm Amryliw*, Cyfrol 2, gol. Robert Rhys (Cyhoeddiadau Barddas, 2006), t. 248.

cael byw i ddweud mwy. Ni fyddai rhygnu ymlaen ar yr un tant wedi gwneud y tro o gwbl ganddo:

Dydw i ddim yn hoff iawn o 'nyfynnu fy hun. A dweud y gwir, 'dwi'n credu y dylai unrhyw un creadigol edrych ymlaen, tua'r dyfodol bob tro, a pheidio ag ailbobi hen syniadau, hen ddelweddau, hen brofiadau. Unwaith y mae'r broses greadigol honno yn dod i ben, unwaith y mae'n haws chwilio'r cypyrddau am syniad a weithiodd unwaith, ac a fyddai'n gweithio eto o'i ailbacedu'n llwyddiannus, yn hytrach na chrafu pen a bogail a chalon er mwyn dod o hyd i syniad newydd, yna gwell rhoi'r prosesydd geiriau yn y to a chilio i ryw draeth cyfforddus i wyllo'r llanw'n troi.<sup>841</sup>

O edrych ar ddiwedd gyrfa Iwan, gwelir ambell gyfeiriad dychrynlyd o broffwydol ganddo yn argoeli ei farwolaeth ei hun. Mae ganddo ddwy gerdd yn y rhifyn o *Barddas* a gyhoeddwyd yn fuan wedi ei farwolaeth, y gyntaf yn gerdd a ysgrifennodd ddwy flynedd ynghynt. 'Ffarwelio' yw'r gerdd honno, sy'n sôn am adael Lerpwl. Mae'n dwyn i gof John Lennon a'r Beatles drwy sôn am 'Menlove Avenue' a 'Penny Lane' ac yn cyfeirio hefyd at gapel Cymraeg Heathfield Road yn y ddinas. Mae'r syniad o fod ar y ffin rhwng dau beth yn ganolog i'r gerdd wrth i Iwan osod y Beatles yn nesaf at y traddodiad Anghydfurfiol Cymreig, ac mae'r cyflwr o fod ar y ffin rhwng dau beth yn cael ei sefydlu'n syth yn y llinellau agoriadol:

Rhwng Menlove Avenue a Penny Lane,  
ar y tir cyfarwydd rhwng deigrin a gwên,  
lle mae'r alaw yn ifanc a'r cefndryd yn hen  
fe ddywedais i ffarwél ...<sup>842</sup>

Ymddengys 'Ffarwelio' eto yn *Iwan, ar Daith*, lle'r eglura Geraint Lovgreen iddo dderbyn y gerdd gan Iwan i wneud cân ohoni, wedi iddo ei hysgrifennu ar ôl iddo fod mewn angladd teuluol yn Lerpwl.<sup>843</sup> Eglura hynny'r sôn am ddagrau ac am emynau 'yn llawn o barch a hiraeth a chariad a chlod'. Fel mewn ffilmiau, mae hi o hyd yn glawio yn yr angladdau y sonia Iwan amdanynt; awgrymodd fod diffinio llenyddiaeth Gymraeg yn ôl y traddodiad 'yn brofiad nid annhebyg i fochel dan ambarél mewn angladd a dau neu dri yn "waraidd

---

<sup>841</sup> Iwan Llwyd, 'Cyrchu Gwlad Arall', *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), t. 129.

<sup>842</sup> *Barddas*, 307 (Ebrill/Mai/Mehfin 2010), t. 31.

<sup>843</sup> Geraint Lovgreen, *Iwan, ar Daith*, t. 103.

ddiogel” tra bo gweddill y galarwyr yn wlyb at eu crwyn’.<sup>844</sup> Yn y disgrifiad o angladd Richard Burton yn ‘Richard Jenkins’, cyfeirir at y ‘môr ymbarelog’;<sup>845</sup> gwelir y ‘môr ymbarelog’ eto yn angladd y ffermwr yng ngolygfa gyntaf ‘Gwreichion’,<sup>846</sup> ac yma yn ‘Ffarwelio’ gwelir ‘agor yr ymbarél’ eto.

Yr ail gerdd i ymddangos yn *Barddas* oedd ‘Kenavo’, sef y gair Llydaweg am ‘ffarwél’. Cafodd ei chyflwyno ‘i Twm’, ac ynddi mae Iwan yn cynnig cysur ac atgofion i’w gyfaill unwaith y bydd wedi ymadael. Mae’n chwarae â’r gân werin ‘Bwthyn fy Nain’, cân y cofia Wiliam Owen Roberts ef yn ei chanu ar chwiw dros swper yn Sardinia ryw dro.<sup>847</sup> Dywed yn y gerdd fod ‘lliw marwolaeth’ ar bawennau’r gath. Ychwanega fod ‘arch newydd yn barod ‘sti’, a phan fydd ei gyfaill ‘ar y bryn ‘na sy’n llawn hiraeth’, mae am iddo gofio am y nosweithiau hwyliog yng nghwmni ei gilydd yn adrodd hen benillion. Mae’n ei gysuro drwy ei atgoffa bod “na rai ar ôl sy’n dal yn ffyddlon / i weddillion ein halawon ni’, ac yn ymddiried ynddo: ‘ti yw’r ffrind sy’n dal i ‘neall i’. Cymharu llymder oeraidd a chariad a wna ar ddiwedd y gerdd drwy gyfosod y concwerwr Sbaenaidd, Francisco Pizarro, a ormesodd ymerodraeth yr Inca ym Mheriw, a Christ. Sonnir am Pizarro yn *Eldorado*, y gyfrol a luniwyd ar y cyd rhwng Iwan a Twm Morys, ac mae’n bosib fod y cyfeiriad yn y gerdd hefyd yn fodd o atgoffa’i gyfaill am y daith honno i Dde America. Ond cyfeillgarwch a theyrngarwch Twm sy’n cael eu dyrchafu yn y diwedd: ‘un a alwodd ei gydfforddolion yn gyfeillion, / un teyrngar ei gusan – un fel chdi’.<sup>848</sup>

Geraint Lovgreen a ddaeth o hyd i gorff Iwan yn ei gartref ym Mangor yn gorwedd rhwng y wal a’r gwely, a chyfeiria at eiriau’r gân ‘Hen drefn’ a ysgrifennodd Iwan flynyddoedd cyn ei farwolaeth, lle mae ‘hen syrthio rhwng y pared a’r plu’ a ‘hen gnoi lawr yng ngwaelod fy stumog’.<sup>849</sup> Ac o gofio mai briw ar ei stumog a laddodd Iwan yn y pen draw,

---

<sup>844</sup> Wiliam Owen Roberts ac Iwan Llwyd Williams, ‘Mae’n bwrw yn Toremolinos’, *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), t. 6.

<sup>845</sup> Iwan Llwyd, *Dan Anesthetig*, t. 25.

<sup>846</sup> Iwan Llwyd, ‘Gwreichion’, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llandysul, 1990), t. 38.

<sup>847</sup> Wiliam Owen Roberts, ‘Rhai atgofion coleg’, t. 33.

<sup>848</sup> *Barddas*, 307 (Ebrill/Mai/Mehefin 2010), t. 36.

<sup>849</sup> Geraint Lovgreen yn sgwrsio ar y rhaglen deledu *Iwan Llwyd, rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul* (Teleg, Darlledwyd: 9/3/14).

mae'r gân 'mor broffwydol nes bod yn hollol ysgytwol,' medd Geraint Lovgreen.<sup>850</sup> Ni ellir ond dyfalu a oes sail i'r holl argoelion hyn, ac efallai mai cyd-ddigwyddiad ydynt, ond mae'r cyfan yn sicr yn ychwanegu at y dirgelwch a oedd yn perthyn i'r bardd.

Er nad astudiaeth gofiannol mo hon, anodd yw cadw bywyd bardd a'i farddoniaeth ar wahân ar brydiau. Ac yn achos Iwan, ceir yr argraff fod ei farddoniaeth yn agor y drws yn weddol lydan ar ei gymeriad a'i brofiadau. Trwy ei gerddi, down i adnabod un sy'n teimlo i'r byw, un sy'n cydymdeimlo â'r di-lais, ac un sy'n gwirioneddol boeni am sefyllfa wleidyddol ac ieithyddol ei wlad. Trwy ei gerddi, ceisiodd Iwan sicrhau dyfodol i'r Gymraeg a'i diwylliant, a sicrhau dyfodol i Rhys a'i genhedlaeth. Dangosodd mai un cyfeiriad sydd i'r daith – y daith honno ar hyd y 'lôn ddi-droi'n-ôl / a'i roc a rôl yn rhuo / tua'r gorwel o hyd ...'<sup>851</sup>

---

<sup>850</sup> Geraint Lovgreen, *Iwan, ar Daith*, t. 102.

<sup>851</sup> Iwan Llwyd, 'Bwtsh a Syndans', *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003), t. 158.



# LLYFRYDDIAETH

## DEUNYDDIAU CREADIGOL GAN IWAN LLWYD

### Cyfrolau unigol:

Llwyd, Iwan, *Sonedau Bore Sadwrn* (Talybont, 1983).

– *Dan Anesthetig* (Caerdydd, 1987).

– *Dan Fy Ngwynt* (Caerdydd, 1992).

– *Dan Ddylanwad* (Bodedern, 1997).

– *Be 'di blwyddyn rhwng ffrindia?* (Bodedern, 2003).

– *Hanner Cant* (Bodedern, 2007).

– *Rhyw Deid yn Dod Miwn* (Llandysul, 2008).

– *Sonedau Pnawn Sul* (Llanrwst, 2009).

### Cyfrolau eraill sy'n cynnwys gwaith Iwan Llwyd:

Bala, Iwan (gol.), *Darllen Delweddu: Beirdd ac Artistiaid* (Llanrwst, 2000).

Cerddi gan ddisgyblion gyda'r prifeirdd Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd, *Cri'r Barcud Coch/Cry of the Red Kite* (Cardiau Cefn Gwlad, 2004).

ap Dafydd, Myrddin (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus 2* (Llanrwst, 1996).

– *Cywyddau Cyhoeddus 3* (Llanrwst, 1998).

– (gol.), *Iwan, ar Daith* (Llanrwst, 2010).

Eaves, Steve (gol.), *Y Trên Olaf Adref* (Talybont, 1984).

Elfyn, Menna, a Rowlands, John (gol.), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20<sup>th</sup>-century Welsh-language poetry in translation* (Tarsset, 2003).

Hughes, J. Cyril (gol.), *Cyfansoddiadau Llenyddol Buddugol Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Bro Colwyn 1980* (Aberystwyth, 1980).

- Jones, Mairwen, a Spink, John (gol.), *Say That Again* (Llandysul, 1997).
- Jones, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Cwm Rhymni 1990* (Llandysul, 1990).
- Llwyd, Iwan, et al., *Fel yr Hed y Frân* (Cytgord, 1986).
- et al., *Cicio Ciwcymbars* (Llangefni, 1988).
  - ac ap Dafydd, Myrddin (gol.), *Cywyddau Cyhoeddus*, 1 (Llanrwst, 1994).
  - ac ap Glyn, Ifor, ac ap Dafydd, Myrddin, *Bol a Chyfri' Banc* (Llanrwst, 1995).
  - *Far Rockaway* (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 1997).
  - *Eldorado* (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 2000).
  - et al., *Syched am Sycharth* (Llanrwst, 2001).
  - ‘O Dal-y-bont i Dal-y-bont’, *Pac o Feirdd*, gol. Myrddin ap Dafydd (Llanrwst, 2002), tt. 11-13.
  - *Da Bangor a Bangor* (Faenza, 2003).
  - ‘Wythnos yng Ngwales’, *Hon: Ynys y galon*, gol. Iwan Bala (Llandysul, 2007), tt. 44-58.
- Minhinnick, Robert (gol.), *The Adulterer's Tongue: Six Welsh Poets: A Facing-Text Anthology* (Manchester, 2003).
- Morys, Twm, a Llwyd, Iwan, *Eldorado* (Llanrwst, 1999).
- Rowlands, Sioned Puw (gol.), *I Nuovi Bardi: poesia gallese contemporanea* (Faenza, 1999).
- Wack, Amy, a Davies, Grahame (gol.), *Oxygen: Beirdd Newydd o Gymru/New Poets from Wales* (Bridgend, 2000).
- Y Bechgyn Drwg, *Blŵz* (Cyhoeddiad preifat, 2002).

#### **Cerddi unigol mewn cylchgronau a chyfrolau:**

- Llwyd, Iwan, Englyn i Saeson y Coleg, *Yr Utgorn*, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, 6 (2/11/79).
- ‘i wyn roberts as’, *Yr Utgorn*, 7 (16/11/79).
  - ‘Meddwyn’ ac ‘I Alun Geufronnydd (ar ôl sgorio tair gol [sic])’, *Yr Utgorn*, Undeb Myfyrwyr

Cymraeg Aberystwyth, 8 (23/11/79).

- ‘Y Chwyldroadwr’, *Yr Utgorn*, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, 9 (30/11/79).
- ‘Atgof’, ‘Rhyfelgan Dafydd ap Gruffudd’, a ‘Gwanwyn 1293’, *Y Ddraig*, Cylchgrawn Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (1980), tt. 6-7, 16, 17-18.
- ‘Y Lefiad’, *Y Faner* (31 Hydref 1980), t. 20.
- ‘Wedi’r Wyl’, *Y Faner* (28 Awst 1981), t. 20.
- ‘Soar y Mynydd’, *Y Faner* (30 Hydref 1981), t. 20.
- ‘Sloganau’, *Y Faner* (26 Mawrth 1982), t. 20.
- Casgliad o gerddi ar y thema ‘Aberth’, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Môn: Cylch y Garn 1982* (Llys Eisteddfod Môn, 1982), tt. 15-22.
- Cwpled ar gyfer ymryson yn ‘Pigion Ymryson y Beirdd’, *Barddas*, 102 (Hydref 1985), t. 8.
- ‘Moelni’, *Barddas*, 135-7 (Gorffennaf/Awst/Medi 1988), t. 48.
- Englyn ‘O raid mae fy nghyndeidiau...’, *Y Bibell Lên* (Dydd Sadwrn, 11 Awst 1990).
- Penillion telyn ‘Y mae’r mawrion heddiw’n gwybod...’ a’r englyn ‘Ar yacht ger Lanzarote...’, *Pigion Talwrn y Beirdd 6*, gol. Gerallt Lloyd Owen (Caernarfon, 1992), tt. 108, 135.
- ‘Parch’ ac ‘Y Bardd Gwlad’, *Pigion Talwrn y Beirdd 7*, gol. Gerallt Lloyd Owen (Caernarfon, 1994), tt. 52, 125.
- ‘Aderyn Diarth’ *Barddas*, 223 (Tachwedd 1995), t. 12.
- ‘Sgifen yn y tywod’, *Sbectol Inc*, gol. Eleri Ellis Jones (Talybont, 1995), t. 122.
- ‘Enw’, ‘Trychineb’, a ‘Ger Twll yn y Wal’, *Talwrn y Beirdd 8*, gol. Gerallt Lloyd Owen (Caernarfon, 1996), tt. 16, 39, 120.
- ‘New Orleans’, *Barddas*, 231-2 (Gorffennaf/Awst 1996), t. 43.
- Englynion ‘Draw’n y bae, o drin bywyd...’, ‘O raid mae fy nghyndeidiau...’, ‘Wedi holl ymrafael dyn...’, ac ‘Yr oes hon ni wŷr synnu’, *Deg Marc!: Pigion Ymrysonau’r Babell Lên 1979-1998*, gol. Tegwyn Jones (Llanrwst, 1999), tt. 38, 41, 46, 58.
- ‘Tywod’, *Tu Chwith*, 14 (Gaeaf 2000), tt. 13-19.

- ‘Diolch am rodd’, ‘Mae Cymru ar agor...’, ac ‘Y Cythrel Parcio’, *Stwff y Stomp* (Llanrwst, 2002), tt. 18, 48-50, 82-3.
  - ‘Egni’, *Barddas*, 279 (Medi/Hydref/Tachwedd 2004), tt. 30-2.
  - ‘Diolch am Rodd’, *Pigion y Talwrn 11*, gol. Gerallt Lloyd Owen (Cyhoeddiadau Barddas, 2010), t. 214.
  - ‘Ffarwelio’, *Barddas*, 307 (Ebrill/Mai/Mehefin 2010), t. 31.
  - ‘Kenavo’, *Barddas*, 307 (Ebrill/Mai/Mehefin 2010), t. 36.
- Williams, Iwan Ll., ‘Swm [sic] y Gaeaf’, *The New Dominican*, 88 (1973), t. 22.
- ‘Y Fenai’, *The New Dominican*, 89 (1974), t. 15.
  - ‘Caethiwed’, ‘Symlwydd’, ac ‘Yr R.A.F yn gorymdeithio fel rhydd-ddinasyddion Bangor’, *The Dominican*, 90 (1975), t. 22.
  - ‘Rhybudd’, ‘Y Proffwyd’, ‘Y Teledu’, ac ‘Wedi’r Ddrama’, *The New Dominican*, 91 (1976), tt. 15, 15, 16, 16.
  - ‘Y Ffynnon’, *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-Golegol Bangor 1979* (Argraffdy Arfon, 1979), tt. 3-4.
  - ‘Atgof’, *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe 1980* (Abertawe, 1980), t. 3.
  - ‘Yr Arwr’, *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe 1980* (Abertawe, 1980), t. 8.
  - ‘Y Mochyn’, *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-golegol Abertawe 1980* (Abertawe, 1980), t. 9.
  - ‘11.12.82’, *Barddas*, 70 (Ionawr 1983), t. 3.

## YSGRIFAU, ERTHYGLAU, ADOLYGIADAU A PHENODAU GAN IWAN LLWYD

- Llwyd, Iwan, Adolygiad o gyfrol y Cyfansoddiadau yn 'Yr Eisteddfod Ryng-golegol – 1981', *Y Faner* (27 Mawrth 1981), t. 6.
- Llythyr yn *Y Faner* (5 Mawrth 1982), t. 3.
  - 'Nid niwlogrwydd na Thraddodiad Marwol', *Y Faner* (10 Mehefin 1983), t. 11.
  - 'Barn y Dyfodol Pell', *Barddas*, 83-4 (Mawrth/Ebrill 1984), t. 10.
  - 'Ceidwadaeth Ystyfnig ein Beirdd "Cyfoes"', *Y Faner* (8 Mehefin 1984), t. 2.
  - 'Myth y Brifwyl Anwleidyddol', *Y Faner* (5 Hydref 1984), t. 9.
  - 'Addysg Aml-ddiwylliant yng Nghymru', *Y Faner* (2 Tachwedd 1984), t. 6.
  - 'Cyfarwyddyd Newydd', *Barddas*, 99-100 (Gorffennaf/Awst 1985), t. 24.
  - Iwan Llwyd yn adolygu *Cyfres Beirdd Answyddogol y Lolfa*, *Barddas*, 118 (Chwefror 1987), tt. 14-15.
  - 'Barddas yn Holi Iwan Llwyd', *Barddas*, 161 (Medi 1990), tt. 8-11.
  - 'Darnau ohonof ar Wasgar', *Y Garthen* (Hydref 1990), t. 1.
  - 'If you can sing it, it's a song, if you can't, it's a poem', *Poetry Wales*, Vol.26, 4 (April 1991), tt. 36-8.
  - 'Perthyn i Gymru'n ei Gwae', *Barddas*, 180 (Ebrill 1992), tt. 20-1.
  - 'Y Bardd yn ei Archfarchnad', *Barn*, 355-6 (Awst/Medi 1992), tt. 15-18.
  - 'Canu o'r Galon', *Golwg*, (10 Rhagfyr 1992), t. 19.
  - 'Gwlad Beirdd ac Arwerthwyr', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), tt. 113-16.
  - 'Pa Bris Tawelwch?', *Barddas*, 198 (Hydref 1993), t. 19.
  - 'Cyfrolau'r Perfformio Geiriau', *Golwg* (9 Rhagfyr 1993), t. 20.
  - 'Torri'r Brethyn yn ôl ein Gallu', *Taliesin*, 85 (Gwanwyn 1994), tt. 135-7.
  - 'Hud ar Ddyfed', *Taliesin*, 86 (Haf 1994), tt. 11-24.
  - 'Route 66 ac wŷ Burrrito', *Barddas*, 209-10 (Medi/Hydref 1994), tt. 42-3.

- ‘Ymestyn y ffiniau’, *Barddas*, 211 (Tachwedd 1994), tt. 18-19.
- ‘Telynegu Gwleidyddiaeth’, *Barddas*, 214 (Chwefror 1995), tt. 3-4.
- ‘Cysgod Hedd Wyn’, *Barn*, 385 (Chwefror 1995), tt. 35-6.
- ‘Cysur Henaint’, *Barddas*, 215 (Mawrth 1995), tt. 14-15.
- ‘Yfory’, *Barddas*, 216 (Ebrill 1995), tt. 10-11.
- ‘Tirlun barddoniaeth’, *Barddas*, 217-18 (Mai/Mehefin 1995), tt. 37-8.
- ‘Wastad ar y Tu Fas?’, *Taliesin*, 90 (Haf 1995), tt. 43-51.
- ‘Croesi’r Paith’, *Taliesin*, 90 (Haf 1995), tt. 124-6.
- ‘Cymryd siawns ar yfory’, *Barddas*, 221-2 (Medi/Hydref 1995), tt. 41-2.
- ‘Cyrchu Gwlad Arall’, *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), tt. 129-31.
- ‘Roc a Rôl a Barddoniaeth’, *Barddas*, 224-5 (Rhagfyr/Ionawr 1995-96), tt. 40-1.
- ‘Ffeindio’r Lefel’, *Barddas*, 226 (Chwefror 1996), tt. 14-15.
- ‘Dalen Lân’, *Barddas*, 229-30 (Mai/Mehefin 1996), tt. 6-7.
- ‘Dan Draed’, *Barn*, 402-3 (Gorffennaf/Awst 1996), tt. 66-8.
- ‘Ar y ffordd’, *Barn*, 405 (Hydref 1996), tt. 22-3.
- ‘Pysg, adar, pob pasgedig’, *Barn*, 406 (Tachwedd 1996), tt. 22-3.
- ‘Hedyn o Hunanhyder’, *Taliesin*, 96 (Gaeaf 1996), tt. 142-5.
- ‘Cynhaliaeth a chrac yn Nulyn’, *Barn*, 409 (Chwefror 1997), tt. 24-5.
- ‘O Enau Plant Bychain’, *Barddas*, 240 (Ebrill/Mai 1997), tt. 6-7.
- ‘Allen Ginsberg 1926-1997’, *Barddas*, 241 (Mehefin/Gorffennaf 1997), tt. 32-3.
- ‘Barddoniaeth i Bawb’, *Barddas*, 244 (Rhagfyr/Ionawr/Chwefror 1997-98), tt. 61-2.
- ‘Jarman: Gobaith Mawr y Ganrif’, *Barn*, 421 (Chwefror 1998), t. 31.
- ‘Asiantaethau ac ati’, *Barddas*, 245 (Mawrth/Ebrill 1998), tt. 28-9.

- ‘Ffa Coffi Pawb’, *Barn*, 423 (Ebrill 1998), tt. 26-7.
- ‘Bwt y Car’, *Barddas*, 246 (Mai/Mehefin 1998), tt. 12-13.
- ‘Croesi Pontydd’, *Barddas*, 248 (Medi/Hydref 1998), tt. 42-3.
- ‘Beirdd y Ganrif’, *Taliesin*, 103 (Hydref 1998), tt. 106-9.
- ‘Y dynion gwellt’, *Barn*, 431-2 (Ionawr 1999), tt. 12-13.
- ‘Costa gastronomica’, *Barn*, 435 (Ebrill 1999), tt. 34-5.
- ‘Bryniau a Phantiau’, *Barddas*, 253 (Gorffennaf/Awst 1999), tt. 11-13.
- Beirniadaeth ar gystadleuaeth y Goron, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999*, gol. J. Elwyn Hughes, (Llandybïe, 1999).
- Iwan, ‘Diwylliannau’n cyfathrebu’, *Barddas*, 254 (Medi/Hydref 1999), tt. 42-3.
- ‘Fy Nyhead am y Ganrif Newydd’, *Barddas*, 255 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 1999-2000), t. 3.
- ‘Arddel troednodiadau’, *Barddas*, 260 (Rhagfyr/Ionawr 2000-01), tt. 44-5.
- ‘Far Rockaway yn y Galon’, *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America*, gol. M. Wynn Thomas (Caerdydd, 2001), tt. 228-37.
- ‘Yn Ôl i Dir na N’og’, *Barddas*, 263 (Mehefin/Gorffennaf 2001), tt. 28-9.
- ac ap Dafydd, Myrddin (gol.), ‘Iwan Llwyd’, *Mae’n gêm o ddau fileniwm* (Llanrwst, 2002), tt. 104-22.
- ‘Gwyliau ar Ynys Gwales’, *Barddas*, 268 (Gorffennaf/Awst 2002), tt. 52-3.
- ‘Iwan Sant’, *Barn*, 478 (Tachwedd 2002), tt. 40-1.
- ‘Breuddwyd Roc a Rôl’, *Barn*, 479-80 (Rhagfyr/Ionawr 2002-03), tt. 66-9.
- ‘Theatr Thatcher’, *Barn*, 488 (Medi 2003), tt. 40-2.
- ‘Pow Wow’, *Barddas*, 274 (Medi/Hydref/Tachwedd 2003), tt. 60-1.
- ‘Cofio Dylan’, *Barddas*, 275 (Rhagfyr/Ionawr 2003-04), tt. 45-6.
- ‘Cydnabod Cynulleidfa’, *Barddas*, 277 (Mai/Mehefin 2004), tt. 38-9.
- ‘Man Arbennig’, *Barddas*, 280 (Rhagfyr/Ionawr 2004-05), tt. 38-9.

- ‘Dinas Deiniol’, *Barn*, 510-11 (Gorffennaf/Awst 2005), tt. 42-4.
  - ‘Y Teithiwr Talog’, *A470: What’s On In Literary Wales/Beth sy’ mlaen yn llên Cymru?*, 35 (Medi/Hydref 2005), t. 5.
  - ‘O le i le’, *Barddas*, 287 (Ebrill/Mai 2006), tt. 26-7.
  - ‘Ar Daith’, *Barddas*, 288 (Mehefin/Gorffennaf 2006), tt. 34-5.
  - ‘Penwythnos yn Annwfn’, *Barddas*, 291 (Chwefror/Mawrth 2007), tt. 46-7.
  - ‘Mudandod ofnus’, *Taliesin*, 131 (Haf 2007), tt. 13-14.
  - ‘Y naill ochr i’r wal’, *Barddas*, 294 (Awst/Medi/Hydref 2007), t. 62.
  - ‘Draw dros y don...’, *Barddas*, 295 (Tachwedd/Rhagfyr 2007), t. 44.
  - ‘Dwy Ddinas’, *Taliesin*, 133 (Gwanwyn 2008), tt. 45-52.
  - ‘Y to ifanc traddodiadol’, *Barn*, 557 (Mehefin 2009), tt. 44-5.
  - ‘Congol yr Ysgolion’, *Barddas*, 306 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2010), tt. 28-9.
- Roberts, Wiliam Owen, a Williams, Iwan Llwyd, ‘Mae’n bwrw yn Toremolinos’, *Y Faner* (14 Rhagfyr 1984), tt. 6-7.
- Thomas, Gwyn (gol.), ‘Iwan Llwyd’, *Pair Ceridwen* (Llangefni, 1995), tt. 41-5.
- Williams, Iwan Lloyd, ‘Pwysigrwydd 1936 fel Trobwynt yn Hanes Barddoniaeth Gymraeg y Ganrif Hon’, *Y Ddraig*, Cylchgrawn Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, gol. Wil Roberts (1980), tt. 2-5.
- Williams, Iwan Llwyd, *Llwybro â Llafur at Lynllifon* (Cyhoeddiadau Glynllifon, 1990).
- Williams, Iwan Llwyd, a Roberts, Wiliam Owen, ‘Myth y Traddodiad Dethol’, *Llais Llyfrau* (Hydref 1982), tt. 10-11.
- Yr Utgorn*, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, 10 (7/12/79).



## DEUNYDDIAU BEIRNIADOL A CHEFNDIROL

### Llyfrau, cyfrolau, llyfrynnau a phenodau:

Anderson, Benedict, *Imagined Communities*, Unfed argraffiad ar ddeg (London, 2002).

Barry, Peter, *Beginning Theory: An Introduction to Literary and Cultural Theory*, Trydydd argraffiad (Manchester, 2009).

Bassett, T. M. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Maldwyn a'i Chyffiniau 1981* (Llandysul, 1981).

Clarke, Robert, 'Star traveller: celebrity, Aboriginality and Bruce Chatwin's *The Songlines* (1987)', *Postcolonial Studies*, Vol.12, No.2 (June 2009), tt. 229-46.

Chatwin, Bruce, *The Songlines* (London, 1987).

Davies, John, *Hanes Cymru*, Argraffiad newydd wedi ei ddiwygio (London, 2007).

Dressel, Jon, a Jones, T. James, *Wyneb yn Wyneb* (Llandysul, 1997).

Eaves, Steve, *Jazz yn y Nos* (Talybont, 1986).

Edwards, Elwyn, 'Colofn Farddol Y Cymro: Rhagfyr 1973 – Medi 1977', *Alan*, gol. Huw Meirion Edwards (Cyhoeddiadau Barddas, 2003), tt. 39-62.

Eirian, Siôn, *Plant Gadara* (Llandysul, 1975).

Elfyn, Menna, *Merch Perygl: Cerddi 1976-2011* (Llandysul, 2011).

Elis-Thomas, Dafydd, *Traddodiadau Fory* (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol, 1983).

Fisher, Mark, *Capitalist Realism* (Ropley, 2009).

ap Glyn, Ifor, *Holl Garthion Pen Cymro Ynghyd* (Talybont, 1991).

Griffiths, Hywel (gol.), *Byw Brwydr: Detholiad o ganu gwleidyddol 1979-2013* (Cyhoeddiadau Barddas, 2013).

Gruffudd, Robot, *Trên y Chwyldro* (Talybont, 1976).

Haycock, Marged, 'Hanes Heledd Hyd Yma', *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged Yr Athro Gwyn Thomas*, gol. Jason Walford Davies (Cyhoeddiadau Barddas, 2007), tt. 29-60.

Hooker, Jeremy, *Imagining Wales: A view of Modern Welsh Writing in English* (Cardiff, 2001).

- Humphreys, Emyr, *The Taliesin Tradition*, Trydydd argraffiad (Bridgend, 2000).
- Hunter, T. Gerald, 'The genealogy of the cell angel: contemporary Welsh political poetry', *Comparative Criticism: Literary devolution: writing in Scotland, Ireland, Wales and England*, Vol.19 (Cambridge, 1997), tt. 71-93.
- 'Contemporary Welsh Poetry: 1969 –1996', *A Guide to Welsh Literature: c.1900-1996*, gol. Dafydd Johnston (Cardiff, 1998), tt. 117-58.
- Jarman, Geraint, *Eira Cariad* (Llyfrau'r Dryw, 1970).
- *Cerddi Alfred Street* (Llandysul, 1976).
- Jenkins, Nigel, *Acts of Union: Selected Poems 1974-1989* (Llandysul, 1990).
- Jones, J. R., *Prydeindod* (Llandybie, 1966).
- Jones, Llion, 'Iwan Llwyd', *Y Patrwm Amryliw*, Cyfrol 2, gol. Robert Rhys (Cyhoeddiadau Barddas, 2006), tt. 248-66.
- Jones, R. Gerallt, *T. H. Parry-Williams* (Caerdydd, 1999).
- Jones, R. M., 'The Present Situation', *A Guide to Welsh Literature: c.1900-1996*, gol. Dafydd Johnston (Cardiff, 1998), tt. 271-94.
- Jones, T. Gwynn, *Caniadau* (Wrecsam, 1934).
- Jones, T. James, a Dressel, Jon, *Cerddi lanws* (Llandysul, 1979).
- Jones, W. J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch 2000* (Llandybie, 2000).
- Lewis, Saunders, *Cerddi* (Gregynog, 1986).
- Llwyd, Alan, *Cerddi'r Cyfannu a Cherddi Eraill* (Abertawe, 1980).
- *Marwnad o Dirdeunaw a rhai cerddi eraill* (Cyhoeddiadau Barddas, 1982).
- Llwyd, Alun, *Blwyddyn a 'Chydig* (Talybont, 1991).
- Lynch, Peredur I., 'Refferendwm 1979, Cerddi lanws a Thopos "Y Cymry Taeog"', *Ysgrifau Beirniadol*, XXX, gol. Gerwyn Williams (Bethesda, 2011), tt. 78-109.
- Marks, Rhiannon, '*Pe Gallwn, Mi Luniwn Lythyr*': *Golwg ar waith Menna Elfyn* (Caerdydd, 2013).

- May, Adrian, *Myth and Creative Writing: The Self-renewing Song* (Harlow, 2011).
- Morys, Twm, *Ofn Fy Het* (Cyhoeddiadau Barddas, 1995).
- (gol.), *Awen Iwan* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014).
- Nicholas, W. Rhys (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984* (Llandysul, 1984).
- ab Ogwen, Fryen, *Dysgwr Dan Glo* (Talybont, 1986).
- Owen, Gerallt Lloyd, *Cilmeri a cherddi eraill* (Caernarfon, 1991).
- *Cerddi'r Cywilydd*, Pumed argraffiad (Caernarfon, 2006).
- Owen, Karen, *Cerddi Ofn* (Cyhoeddwyd gan Karen Owen, 2014).
- Parry, R. Williams, *Cerddi'r Gaeaf*, Pedwerydd argraffiad (Dinbych, 1964).
- Parry-Williams, T. H., *Cerddi*, Ail argraffiad (Aberystwyth, 1948).
- *Ugain o Gerddi* (Aberystwyth, 1949).
- Price, Angharad, 'Rhagymadrodd' yn T. H. Parry-Williams, *Cerddi* (Llandysul, 2011), tt. vii-xv.
- Roberts, Alan Lloyd, *Anghenion y Gynghanedd* (Caerdydd, 1973).
- Thiong'o, Ngũgĩ wa, *Decolonising the Mind: The Politics of Language in African Literature* (London, 1986).
- Walters, Lona Mari, *Pum munud arall* (Talybont, 1983).
- Williams, Gerwyn, 'Darlunio'r Tirlun Cyflawn', *Sglefrio ar Eiriau*, gol. John Rowlands (Llandysul, 1992), tt. 115-50.
- Williams, Daniel G., *Wales Unchained: Literature, Politics and Identity in the American Century* (Cardiff, 2015).
- Williams, Gwyn A., *When Was Wales?* (London, 1985).
- Williams, Waldo, 'Llythyr at Anna Wyn Jones ynghylch "Yr Heniaith"', *Waldo Williams: Rhyddiaith*, gol. Damian Walford Davies (Caerdydd, 2001), tt. 102-4.
- *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956).
- Wyn, Hefin, *Ble Wyt Ti Rhwng?: Hanes canu poblogaidd Cymraeg 1980-2000* (Talybont, 2006).

### Deunyddiau o gylchgronau neu gyfnodolion:

- 'Creu Cyfle', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 36 (Tachwedd/Rhagfyr 2005), t. 9.
- 'Dilyn Dewi', *Golwg* (10 Hydref 2002), t. 21.
- 'Gair ar Gân', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 36 (Tachwedd/Rhagfyr 2005), t. 10.
- 'Golygyddol', *Barn*, 201 (Hydref 1979), tt. 153-4.
- 'Y beirdd yn gweld y blŵs', *Golwg* (28 Mawrth 2002), t. 17.
- Brooks, Simon, 'Ideogramau', *Barn*, 392 (Medi 1995), tt. 40-1.
- 'Wynebau ar Dywod', *Barn*, 397 (Chwefror 1996), tt. 28-9.
- Dafydd, Guto, 'Her Newydd yr Hen Siwrneiau', *Taliesin*, 143 (Haf 2011), tt. 128-35.
- Davies, Bryan Martin, Beirniadaeth ar gystadleuaeth y Gadair, *Yr Awen: Eisteddfod Ryng-Golegol Abertawe 1980* (Abertawe, 1980), tt. 2-3.
- Davies, Damian Walford, "'Ailysgrifennu y Llyfraith": Barddoniaeth y Canu Pop', *Taliesin*, 90 (Haf 1995), tt. 9-42.
- Davies, Grahame, *Poetry Wales*, Vol.43, No.4 (Spring 2008), tt. 66-8.
- Davies, Manon Wynn, "'Rhy hawdd y rhyddid": Dau rigwm gan Iwan Llwyd a Twm Morys', *Tu Chwith*, 40 (Awst 2014), tt. 41-8.
- Eaves, Steve, 'Cywiro Camagraff', *Barddas*, 310 (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2010), t. 13.
- England, Iwan, 'Chwilio am Eldorado', *Golwg* (26 Awst 1999), tt. 18-19.
- Evans, Non Indeg, 'Dim Wedi Newid Dim?', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), tt. 103-6.
- Finch, Peter, 'A national poet for Wales', *A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?*, 2 (Chwefror/Mawrth 1999), t. 2.
- Gwanas, Bethan, 'Mae'n Werth Gwrando', *Golwg* (26 Mawrth 1998), t. 13.
- ap Gwilym, Gwynn, 'Lot o Hwyl y To Iau', *Barn*, 378-9 (Gorffennaf/Awst 1994), tt. 91-2.
- 'Congol yr Ysgolion', *Barddas*, 288 (Mehefin/Gorffennaf 2006), tt. 32-3.
- Gwyn, Robin, ac Iorwerth, Dylan, 'Paradwys Ffŵl', *Golwg* (7 Hydref 1993), tt. 9-10.

- Hunter, Jerry, 'Tafarnau'r Canu Cyfoes', *Taliesin*, 95 (Hydref 1996), tt. 120-4.
- Iorwerth, Dylan, 'Mae Englynion Fatha Sgampi', *Golwg* (7 Chwefror 1991), tt. 22-3.
- James, Meleri Wyn, 'Y Bardd Anfodlon', *Golwg* (24 Awst 1995), tt. 16-17.
- Johnston, Dafydd, 'Traddodiad Cyfoes', *Taliesin*, 88 (Gaeaf 1994), tt. 116-17.
- Jones, J. Gwilym, 'Y Broses Greadigol', *Y Traethodydd*, Cyf. CXXXV, 575 (1980), tt. 62-72.
- Jones, Llion, 'Llion Jones yn Trafod Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni', *Barddas*, 161 (Medi 1990), tt. 23-4.
- 'Bardd Sans *Frontière*', *Taliesin*, 102 (Haf 1998), tt. 112-4.
- 'Cameleon, Nid Brân', *Taliesin*, 93 (Gwanwyn 1996), tt. 101-3.
- Lewis, Dafydd Morgan, Adolygiad o gyfrolau 15-18 Cyfres y Beirdd Answyddogol, *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1987), t. 14.
- 'Bardd ei genhedlaeth', *Barn*, 484 (Mai 2003), tt. 45-6.
- Lewis, Emyr, 'Can [*sic*] o Fawl i'r Prifardd', *Yr Utgorn*, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, 18 (29/2/80).
- 'Ar lafar gwlad', *Barn*, 426-7 (Gorffennaf/Awst 1998), tt. 60-3.
- 'Dydw i ddim yn hoff iawn o farddoniaeth!', *Barddas*, 314 (Gwanwyn 2012), tt. 36-7.
- Lovgreen, Geraint, 'Lövgreen', *Barn*, 409 (Chwefror 1997), t. 15.
- Lynch, Peredur, 'Gwreiddiau Ciwcymbars!', *Golwg*, (24 Tachwedd 1988), t. 23.
- 'Y Beirdd Gwâr a Blin', *Barn*, 360-1 (Ionawr/Chwefror 1993), tt. 89-91.
- Llwyd, Alan, 'Y Safonau Simsan', *Y Faner* (23 Ebrill 1982), tt. 12-13.
- 'Golygyddol' *Barddas*, 89 (Medi 1984), tt. 4-5.
- 'Golygyddol', *Barddas*, 162 (Hydref 1990), tt. 6-8.
- 'Cywyddau'r Ieuainc Heddiw', *Barddas*, 214 (Chwefror 1995), tt. 22-4.
- 'Bardd Aflonydd y Lonydd', *Barddas*, 246 (Mai/Mehefin 1998), tt. 37-40.

- Minhinnick, Robert, 'Er Cof: Iwan Llwyd', *Poetry Wales*, Vol.46, 1 (Summer 2010), t. 4.
- Morus, Dylan, 'Cerddi Roc a Rôl', *Golwg* (16 Tachwedd 1995), tt. 16-17.
- Morys, Twm, 'Môr Mari', *Taliesin*, 91 (Hydref 1995), tt. 75-84.
- 'Y Bardd Meddw [1]', *Barddas*, 277 (Mai/Mehefin 2004), tt. 36-7.
- Owen, Ken, 'Ciwymbars a cherddi eraill', *Golwg* (6 Hydref 1988), t. 22.
- Price, Angharad, 'O'r Llafar i'r Llyfr', *Barn*, 404 (Medi 1996), tt. 32-3.
- Roberts, Wiliam Owen, "'Gwreichion" Iwan Llwyd', *Taliesin*, 80 (Ionawr/Chwefror 1993), tt. 25-42.
- Rowlands, John, 'Ein Duwiol Brydyddion', *Weiren Bigog*, 1 (Awst 1985), tt. 13-15.
- Rhys, Robert, 'Bardd mawr ei genhedlaeth', *Barn*, 419-20 (Ionawr 1998), tt. 72-4.
- Sagam, Neil, 'Codi Sgwarnogod', *Taliesin*, 100 (Gaeaf 1997), tt. 6-10.
- Thomas, Gwyn, 'Awen o Waeau', *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1991), tt. 8-9.
- Williams, Gerwyn, 'Pwysigrwydd y Tir Canol', *Y Faner* (13 Gorffennaf 1984), t. 8.
- 'Yng Nghampfa'r Cynganeddion', *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1994), tt. 5-6.

### **Traethodau Ymchwil**

- Hughes, Nia Wyn, *O'r Steddfod i'r Sgrin: Deongliadau fideo y Sioe Gelf o gerddi arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol 1997-2003* (Traethawd MA, Prifysgol Bangor, 2009).
- Jones, Nia Heledd, *Canu Poblogaidd Diweddar 1979-1997* (Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 1998).
- Williams, Geraint Siôn, *Astudiaeth o farddoniaeth Iwan Llwyd* (Traethawd MPhil, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 2001).

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

### Gwefannau:

[http://blog.bestamericanpoetry.com/the\\_best\\_american\\_poetry/2010/04/diane-burnss-sure-you-can-ask-me-a-personal-question-terence-winch.html](http://blog.bestamericanpoetry.com/the_best_american_poetry/2010/04/diane-burnss-sure-you-can-ask-me-a-personal-question-terence-winch.html) (Cyrchwyd: 1/03/16).

[http://llionj.tripod.com/\\_trafod2/00000047.htm](http://llionj.tripod.com/_trafod2/00000047.htm) (Cyrchwyd: 12/02/16).

[http://llionj.tripod.com/\\_trafod2/0000009a.htm](http://llionj.tripod.com/_trafod2/0000009a.htm) (Cyrchwyd: 12/02/16).

[http://news.bbc.co.uk/local/northwestwales/hi/people\\_and\\_places/arts\\_and\\_culture/news\\_id\\_8333000/8333700.stm](http://news.bbc.co.uk/local/northwestwales/hi/people_and_places/arts_and_culture/news_id_8333000/8333700.stm) (Cyrchwyd: 5/2/16).

[http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_3100000/newsid\\_3100800/3100810.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3100000/newsid_3100800/3100810.stm) (Cyrchwyd: 5/2/16).

[http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_8710000/newsid\\_8712500/8712543.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_8710000/newsid_8712500/8712543.stm) (Cyrchwyd: 7/2/16).

[http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid\\_8710000/newsid\\_8712500/8712543.stm](http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_8710000/newsid_8712500/8712543.stm) (Cyrchwyd: 6/03/16).

<http://stiwidiogwellt.com/track/treginnis> (Cyrchwyd: 26/02/16).

[http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/talwrn/2010/21\\_02\\_10mynytho.shtml](http://www.bbc.co.uk/radiocymru/safle/talwrn/2010/21_02_10mynytho.shtml) (Cyrchwyd: 26/02/16).

<http://www.cynghanedd.com/oriel/boresadwrn.html> (Cyrchwyd: 12/02/16).

<http://www.cynghanedd.com/oriel/talacharn.html> (Cyrchwyd: 26/11/15).

<http://www.cynghanedd.com/oriel/ysgolion.html> (Cyrchwyd: 6/2/16).

<http://www.independent.co.uk/news/in-desperation-he-had-torn-at-his-soiled-nappy-the-baby-died-of-dehydration-1617460.html> (Cyrchwyd: 1/03/16).

<http://www.independent.co.uk/news/obituaries/iwan-llwyd-inspirational-writer-who-popularised-welsh-poetry-2036148.html> (Cyrchwyd: 6/03/16).

<https://www.youtube.com/watch?v=PUIPBmkCCPE> (Cyrchwyd: 26/02/16).

### Rhaglenni Teledu:

*Blŵz yn Syracuse* (Copi a fenthycwyd gan John Barnie).

*Achabachyn: Bol a Chyfri' Banc* (Tafwys, Darlledwyd: 22/12/95).

*Cicio Ciwymbars* (Criw Byw, Darlledwyd: 9/04/1989).

Cyfres *Dan Draed* (Telegraffiti, 1996).

Cyfres *Dan Ddylanwad* (Telegraffiti, 1994).

Cyfres *Eldorado* (Teleg, 1999).

*Gadael yr 20fed Ganrif* (Fiction Factory, Darlledwyd: 30/08/14).

*Iwan Llwyd, rhwng gwên nos Sadwrn a gwg y Sul* (Teleg, Darlledwyd: 9/3/14).

*Y Byd yn ei Le* (Darlledwyd: 29/03/85).

#### **Rhaglenni Radio:**

*Canu Dan y Felan* (Darlledwyd: 8/11/08).

Clip o raglen 'Sglein', a ddarlledwyd gyntaf yn 1993, ar y rhaglen *Cofio* (Darlledwyd: 29/09/2012).

#### **Recordiau/Albymau:**

Amrywiol, *Clyw Leisiau'r Plant* (Crai, 2003).

Bob Delyn a'r Ebillion, *Dore* (Sain, 2003).

Dafydd Dafis, *Ac adre' mor bell ag erioed* (Sain, 1995).

Doctor, *Bois Maesgeirchen* (Recordiau Coch, 1981).

Doctor, *Merch o Ddonegal* (Recordiau Coch, 1981).

Geraint Jarman, *Hen Wlad Fy Nhadau* (Recordiau Sain, 1978).

Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Geraint Lovgreen a'r Enw Da* (Sain, 1985).

Geraint Lovgreen a'r Enw Da, *Be Ddigwyddodd i Bulgaria* (Crai, 1993).

Geraint Lovgreen a'r enw da, *Busnes Anorffenedig* (Recordiau Sain, 2008).

Iona ac Andy, *Eldorado* (Sain, 2000).